



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol  
a'r Nodiadau Esboniadol

Mawrth 2015



# **BIL LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU)**

## **Memorandwm Esboniadol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Gorffennaf 2014, ac mae Memorandwm diwygiedig yn cael ei osod nawr yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gyflwynwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd ar 7 Gorffennaf 2014 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## **Carl Sargeant AC**

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol  
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

3 Mawrth 2015

## Cynnwys

<b>Pennod 1: Disgrifiad o Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)</b> .....	1
<b>Pennod 2: Cefndir deddfwriaethol</b> .....	2
<b>Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael</b> .....	6
Diben y Bennod.....	6
2. Trosolwg o Ddatblygu Cynaliadwy .....	7
3. Y sefyllfa bresennol .....	9
3.1 Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru .....	9
3.2 Cynllunio Cymunedol Integredig .....	10
3.3 Cefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru .....	12
<b>4. Trosolwg o fwriad polisi'r Bil</b> .....	14
<b>5. Awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil</b> .....	16
<b>6. Cryfhau'r systemau llywodraethu presennol i wella llesiant Cymru</b> .....	17
6.1 Dyletswydd llesiant a datblygu cynaliadwy .....	17
6.2 Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy .....	17
6.3 Nodau llesiant .....	17
6.4 Dangosyddion Cenedlaethol.....	22
<b>7. Sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cyrff cyhoeddus</b> .....	24
7.1 Dyletswydd Datblygu Cynaliadwy .....	24
7.2 Gosod a chyflawni amcanion llesiant.....	24
7.3 Gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy .....	25
7.4 Adroddiadau blynyddol .....	30
7.5 Cyngorau Cymuned.....	31
7.6 Canllawiau .....	31
<b>8. Cefnogi'r newid a hyrwyddo buddiannau cenedlaethau'r dyfodol</b> .....	33
8.1 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru .....	33
8.2 Pŵer i gynnal adolygiadau a gwneud argymhellion .....	34
8.3 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol .....	35
8.4 Adroddiad Blynyddol.....	35
8.5 Panel Cyngori .....	35
8.6 Staff a'r Dirprwy Gomisiynydd.....	36
<b>9. Cynllunio cymunedol integredig</b> .....	37
9.1 Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus .....	38
9.2 Aseiad o lesiant lleol .....	42
9.3 Y cynllun llesiant.....	43
9.4 Adroddiadau Blynyddol .....	45
9.5 Atebolrwydd .....	45
<b>Pennod 4: Ymgynghoriad</b> .....	47
<b>Pennod 5: Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth</b> .....	53
<b>Pennod 6: Opsiynau polisi</b> .....	62
<b>Bwriadau polisi 1 a 2: Gwella trefniadau llywodraethu er mwyn gwella llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru</b> .....	63

Opsiwn 1: Gwneud dim.....	63
Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth.....	65
<b>Bwriad polisi 3: Hybu'r newid, darparu llais annibynnol dros genedlaethau'r dyfodol a diogelu eu buddiannau .....</b>	<b>66</b>
Opsiwn 1. Gwneud dim.....	66
Opsiwn 2. Gwasgaru rôl y Comisiynydd.....	66
Opsiwn 3. Cyflwyno deddfwriaeth.....	68
<b>Bwriad polisi 4. Diwygio cynllunio cymunedol integredig.....</b>	<b>70</b>
Opsiwn 1. Gwneud dim.....	70
Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth.....	71
Opsiwn 3. Dileu dyletswyddau cynllunio'n llwyr .....	71
<b>Pennod 7: Costau a Manteision yr opsiynau polisi .....</b>	<b>74</b>
<b>Bwriadau polisi 1 a 2: gwella trefniadau llywodraethu i wella llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru .....</b>	<b>78</b>
Opsiwn 1. Gwneud dim.....	79
Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth.....	98
<b>Manteision .....</b>	<b>107</b>
<b>Opsiwn 1. Gwneud dim.....</b>	<b>107</b>
<b>Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth.....</b>	<b>109</b>
Crynodeb o'r Opsiwn a Ffefrir.....	111
<b>Bwriad polisi 3: Hybu'r newid a diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol .....</b>	<b>112</b>
Costau .....	112
Opsiwn 1: Gwneud dim.....	112
Opsiwn 2. Gwasgaru rôl y Comisiynydd .....	113
Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth.....	116
Manteision.....	124
Opsiwn 1: Gwneud dim.....	124
Opsiwn 2. Gwasgaru rôl y Comisiynydd .....	124
Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth.....	125
Crynodeb o'r Opsiwn a Ffefrir .....	126
<b>Bwriad polisi 4: Cynllunio Cymunedol Integredig.....</b>	<b>127</b>
Costau .....	127
Opsiwn 1 – Gwneud dim.....	127
Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth.....	139
<b>Manteision .....</b>	<b>147</b>
Opsiwn 1 – Gwneud dim.....	147
Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth.....	149
Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir .....	151
<b>Pennod 8: Effeithiau Penodol ac Asesiad o'r Gystadleuaeth.....</b>	<b>152</b>
Effeithiau Penodol.....	152
Rhwymedigaethau statudol .....	152
Y Dull o Gynnal Asesiadau Effaith.....	152
Canfyddiadau .....	153
Cymru fwy cyfartal .....	154

Economi ffyniannus .....	155
Cymru iachach.....	155
Cymru sydd â chymunedau cydlynus .....	157
Cymru lle y mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu .....	157
Cymru gydnerth .....	157
Effeithiau lleol a'r effaith ar y trydydd sector .....	158
<b>Pennod 9: Adolygu ar ôl gweithredu .....</b>	<b>161</b>

Atodiad A – Nodiadau Esboniadol

## **Pennod 1: Disgrifiad o Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

1. Mae'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ('y Bil') yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion heddiw yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (egwyddor datblygu cynaliadwy). Mae'n pennu nodau llesiant y dylai awdurdodau cyhoeddus penodol geisio eu gwireddu er mwyn gwella llesiant Cymru, heddiw ac yn y dyfodol.
2. Mae'r Bil yn egluro sut y dylai'r awdurdodau hyn ddangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant. Y mae hefyd, trwy gyflwyno dangosyddion cenedlaethol, yn sicrhau bod y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud i lesiant Cymru yn cael ei werthuso a'i fesur.
3. Mae'r Bil yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru fel eiriolwr dros genedlaethau'r dyfodol, a fydd yn cynghori ac yn helpu awdurdodau cyhoeddus penodol i gyflawni eu dyletswyddau dan y Bil. Mae hefyd yn gosod sylfaen statudol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol (i'w hadnabod fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) a chynlluniau llesiant lleol ac wrth wneud hynny, mae'n symleiddio'r gofynion cyfredol o safbwynt cynlluniau cymunedol integredig.

## **Pennod 2: Cefndir deddfwriaethol**

4. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn unol â Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006'). Mae darpariaethau perthnasol Deddf 2006 wedi'u nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.
5. Mae paragraffau 12 ac 14 Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y gallai'r Cynulliad ddeddfu arnynt o dan benawdau 'Llywodraeth leol' a 'Gweinyddiaeth gyhoeddus':

### **Local government**

- 12 *Constitution, structure and areas of local authorities. Electoral arrangements for local authorities. Powers and duties of local authorities and their members and officers. Local government finance.* .

### **Public administration**

- 14 *Public Services Ombudsman for Wales. Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities. Inquiries in respect of matters in relation to which the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General exercise functions. Equal opportunities in relation to equal opportunity public authorities. Access to information held by open access public authorities.*

*The following are "auditable public authorities" and "equal opportunity public authorities"-*

- (a) *the Assembly,*
- (b) *the Assembly Commission,*
- (c) *the Welsh Assembly Government,*
- (d) *persons who exercise functions of a public nature and in respect of whom the Welsh Ministers exercise functions,*
- (e) *persons who exercise functions of a public nature and at least half of the cost of whose functions in relation to Wales are funded (directly or indirectly) by the Welsh Ministers, and*
- (f) *persons established by enactment and having power to issue a precept or levy.*

*The following are "open access public authorities"-*

- (a) *the Assembly,*
- (b) *the Assembly Commission,*
- (c) *the Welsh Assembly Government, and*
- (d) *authorities which are Welsh public authorities, within the meaning of the Freedom of Information Act 2000 (c. 36).*

6. Yn ogystal â pharagraffau 12 ac 14, gan fod darpariaethau'r Bil yn cwmpasu ystod eang o bynciau o safbwynt llesiant, mae paragraffau canlynol Rhan 1 Atodlen 7 Deddf 2006 yn nodi'r pynciau eraill y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt:



## **Agriculture, forestry, animals, plants and rural development**

- 1 *Agriculture. Horticulture. Forestry. Fisheries and fishing. Animal health and welfare. Plant health. Plant varieties and seeds. Rural development. In this Part of this Schedule "animal" means - all mammals apart from humans, and all animals other than mammals; and related expressions are to be construed accordingly.*

## **Ancient monuments and historic buildings**

- 2 *Archaeological remains. Ancient monuments. Buildings and places of historical or architectural interest. Historic wrecks*

## **Culture**

- 3 *Arts and crafts. Museums and galleries. Libraries. Archives and historical records. Cultural activities and projects.*

## **Economic development**

- 4 *Economic regeneration and development, including social development of communities, reclamation of derelict land and improvement of the environment. Promotion of business and competitiveness*

## **Education and training**

- 5 *Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge*

## **Environment**

- 6 *Environmental protection, including pollution, nuisances and hazardous substances. Prevention, reduction, collection, management, treatment and disposal of waste. Land drainage and land improvement. Countryside and open spaces (including the designation and regulation of national parks and areas of outstanding natural beauty). Nature conservation and sites of special scientific interest. Protection of natural habitats, coast and marine environment (including seabed). Biodiversity. Genetically modified organisms. Smallholdings and allotments. Common land. Town and village greens. Burial and cremation, except coroners' functions*

## **Fire and rescue services and fire safety**

- 7 *Fire and rescue services. Provision of automatic fire suppression systems in newly constructed and newly converted residential premises. Promotion of fire safety otherwise than by prohibition or regulation.*

## **Food**

- 8 *Food and food products. Food safety (including packaging and other materials which come into contact with food). Protection of interests of consumers in relation to food. "Food" includes drink.*

## **Health and health services**

- 9 *Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.*

## **Highways and transport**

- 10 *Highways, including bridges and tunnels. Streetworks. Traffic management and regulation. Transport facilities and services.*

## **Housing**

- 11 *Housing. Housing finance except schemes supported from central or local funds which provide assistance for social security purposes to or in respect of individuals by way of benefits. Encouragement of home energy efficiency and conservation, otherwise than by prohibition or regulation. Regulation of rent. Homelessness. Residential caravans and mobile homes.*

## **Social welfare**

- 15 *Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults. Care of children, young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards. Badges for display on motor vehicles used by disabled persons*

## **Sport and recreation**

- 16 *Sport and recreational activities.*

## **Tourism**

- 17 *Tourism*

## **Town and country planning**

- 18 *Town and country planning, including listed buildings and conservation areas. Caravan sites. Spatial planning. Mineral workings. Urban development. New towns. Protection of visual amenity.*

## **Water and flood defence**

19 *Water supply, water resources management (including reservoirs), water quality and representation of consumers of water and sewerage services. Flood risk management and coastal protection.*

## **Welsh language**

20 *Welsh language*

## **Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

### Diben y Bennod

7. Mae Pennod 3 yn darparu trosolwg o ddatblygu cynaliadwy er mwyn gosod darpariaethau'r Bil a'r effaith y bwriedir ei chael mewn cyd-destun. Mae'n rhoi manylion ynghylch y sefyllfa bresennol yng Nghymru mewn perthynas â'r meysydd polisi sydd dan sylw yn y Bil, sef:
  - dyletswydd datblygu cynaliadwy Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn ôl darpariaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
  - cynllunio cymunedol integredig;
  - cefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru.
8. Mae'r bennod hon hefyd yn rhoi crynodeb o fwriad polisi cyffredinol y Bil yn ei gyfanrwydd ac yn rhoi manylion ynghylch diben pob Rhan o'r Bil a'r effaith y bwriedir ei gael.

### 1. Cyd-destun

9. Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau cymhleth, tymor hir. Mae sawl un ohonynt wedi'u hetifeddu o'r gorffennol, ond mae cydnabyddiaeth gynyddol bod angen gwneud mwy i sicrhau nad yw'r genhedlaeth hon yn eu gadael fel heriau i genedlaethau'r dyfodol.
10. Nid rhywbeth unigryw i Gymru yw'r heriau hyn; maent yn gyffredin ar draws y byd datblygedig. Yn yr un modd mae cytundeb cyffredinol am yr ateb - rhaid i unigolion, cymdeithasau a sefydliadau ymrwymo i wneud newidiadau heddiw er mwyn rheoli'r heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol.
11. Rhaid datblygu mewn ffordd gynaliadwy os ydym am weld ffyniant economaidd a llesiant yn y tymor hir. Er mwyn sicrhau bod economi Cymru'n gryf, mae angen gwella'r adnoddau naturiol y mae'n heconomi'n dibynnu arnynt. Mae rhai o'r gwasanaethau, fel bwyd, coed ac ynni, yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithgarwch economaidd.
12. Mae'r Bil yn adeiladu ar yr ymrwymiad at ddatblygu cynaliadwy sydd wedi bod yn nodwedd bendant wrth lywodraethu Cymru ers datganoli. Mae angen gweld hyn hefyd yng nghyd-destun gwaith rhyngwladol ar sut y dylai cenhedloedd ddatblygu. Mae'r cyd-destun yn cael ei egluro isod.

## 2. Trosolwg o Ddatblygu Cynaliadwy

13. Daeth y term 'datblygu cynaliadwy' at sylw'r cyhoedd yn dilyn adroddiad 1987 Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu: Our Common Future<sup>1</sup>, a elwir hefyd yn adroddiad Brundtland. Roedd yn cynnig diffiniad o ddatblygu cynaliadwy sydd bellach yn ddisgrifiad sy'n cael ei dderbyn yn rhyngwladol:

*“Datblygu cynaliadwy yw datblygu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y presennol heb danseilio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain”*

14. Rhoddwyd rhagor o sylw i'r cysyniad a'r dull hwn o ddatblygu cenhedloedd yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu yn Rio de Janeiro yn 1992, lle gwnaed yr ymgais ryngwladol gyntaf i ddatblygu strategaethau ar gyfer patrwm o ddatblygu mwy cynaliadwy ar draws y byd.
15. Arweiniodd Cynhadledd Rio+20 y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy (Rio+20), ym mis Mehefin 2012, at lunio dogfen The Future We Want<sup>2</sup>. Roedd y ddogfen hon yn gosod amrywiol ganlyniadau ac ymrwymadau tymor hir er mwyn symud ymlaen â datblygu cynaliadwy, ac roedd yn dangos yn glir bod angen cynnwys tri ' dimensiwn' datblygu cynaliadwy; yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd, wrth wneud penderfyniadau.
16. Arweiniodd Rio+20 hefyd at gytundeb i ddechrau gweithio ar gyfres o nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Nid oedd Rio+20 yn ymhelaethu ynghylch nodau penodol, ond yn hytrach roedd yn nodi y dylent fod yn gyfyngedig eu nifer; yn uchelgeisiol; yn hawdd cyfathrebu yn eu cylch ac y dylent roi sylw cytbwys i dri dimensiwn datblygu cynaliadwy.
17. Mae datblygu cynaliadwy yn parhau i fod yn amcan sylfaenol i'r Undeb Ewropeaidd. Mae Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE<sup>3</sup> yn egluro sut y mae'n bwriadu rhoi sylw i heriau datblygu cynaliadwy, ac yn cydnabod yr angen i symud tuag at ddull mwy integredig o wneud polisiau. Mae dull gweithredu'r UE wedi'i seilio ar gyfres o egwyddorion datblygu cynaliadwy pwysig, sy'n cynnwys tegwch a chydlyniant cymdeithasol; llewyrch economaidd; tegwch ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol; cynnwys dinasyddion ac integreiddio polisi.
18. Ar lefel y Deyrnas Unedig, yn 2005 cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon 'One Future: Different Paths: The UK's Shared Framework for Sustainable Development'<sup>4</sup> ('fframwaith y DU') gan osod fframwaith cyfunol y DU ar gyfer datblygu cynaliadwy.
19. Roedd fframwaith y DU yn cyflwyno pump o egwyddorion cyffredin er mwyn gosod dull gweithredu a sylfaen gyffredinol ar gyfer polisi datblygu cynaliadwy yn y DU. Yr egwyddorion hyn yw hyrwyddo llywodraethu da; defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn ffordd gyfrifol; byw o fewn terfynau amgylcheddol; sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn a sicrhau economi gynaliadwy. Roedd fframwaith y DU yn cynnwys

ugain o 'ddangosyddion fframwaith' ar gyfer datblygu cynaliadwy, wedi'u seilio ar ddangosyddion blaenorol oedd yn cael eu defnyddio ar lefel y DU.

20. Mae adroddiad 2011 gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy<sup>5</sup>, cynghorydd annibynnol Llywodraeth y DU ar ddatblygu cynaliadwy tan ei ddiddymu yn 2011, ynghyd â gwaith a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ddatblygu cyfres o ddangosyddion llesiant ar gyfer y DU (2011), yn dangos sut mae datblygu cynaliadwy yn allweddol ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

### 3. Y sefyllfa bresennol

#### 3.1 Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

21. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru, dan adran 79 Deddf 2006, i wneud cynllun datblygu cynaliadwy sy'n dangos sut y maent yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Nid yw Deddf 2006 yn diffinio datblygu cynaliadwy
22. Cyn sefydlu Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliadau ar wahân dan Ddeddf 2006, roedd dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cynllun datblygu cynaliadwy dan adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.
23. Ers 1998, mae tri chynllun datblygu cynaliadwy wedi'u cyhoeddi fel ymateb i'r ddyletswydd hon:
  - Dysgu Byw'n Wahanol – Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000<sup>6</sup>
  - Dechrau Byw'n Wahanol - Cynllun Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, 2004.<sup>7</sup>
  - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned - Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009<sup>8</sup> ('cynllun 2009').
24. Yn ogystal â gwneud cynllun datblygu cynaliadwy, mae Deddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru:
  - gyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch sut y gweithredwyd y cynigion yn y cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;
  - gyhoeddi, yn y flwyddyn ar ôl etholiad cyffredinol, adroddiad yn cynnwys asesiad o ba mor effeithiol oedd eu cynigion wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
25. Ar 23 Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hadroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy, i gwmpasu'r cyfnod 2013-2014. Dyma'r 14eg adroddiad blynyddol o dan y ddyletswydd hon. Cafodd yr adolygiad diwethaf, o'r tri sydd wedi'u cynnal yn unol â'r ddyletswydd hon, ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2011.<sup>9</sup>
26. Mae cynllun 2009 yn cynnwys dangosyddion sy'n cefnogi'r ddyletswydd trwy fesur cynnydd, ac mae diweddariad ystadegol y dangosyddion yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys nifer fach o brif ddangosyddion sydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn rhoi golwg lefel uchel ar y cynnydd tuag at Gymru gynaliadwy. Mae'r prif ddangosyddion yn cael eu hategu gan gyfres bellach o ddangosyddion sy'n mesur materion mwy penodol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy.

*Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (2009)*
27. Darperir diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (2009)*. Mae'r diffiniad hwn yn gweld datblygu cynaliadwy fel proses ddatblygu sy'n arwain, dros gyfnod o amser, at Gymru sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol

ac yn amgylcheddol. Canlyniad hyn yw sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau.

### **Datblygu cynaliadwy yng Nghymru**

*Mae datblygu cynaliadwy'n golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n:*

*- hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; ac yn*

*- gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei gyfyngiadau – gan ddefnyddio cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.*

*Datblygu cynaliadwy yw'r broses rydym yn ei defnyddio i gyflawni'r nod o gynaliadwyedd.*

28. O fewn y cynllun datblygu cynaliadwy presennol gwnaed yr ymrwymiad i sicrhau mai datblygu cynaliadwy fyddai'r egwyddor drefniadol ganolog.
29. Gosododd y cynllun 17 ymrwymiad ar gyfer gweithredu i hybu datblygu cynaliadwy yng Nghymru, ac fe welir y cynnydd ar y camau gweithredu hyn yn yr adroddiadau blynyddol. Mae ymrwymadau 2009 bellach wedi'u disodli gan y rhai sydd i'w gweld yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2011), ac mae'r adroddiadau ynghylch rheiny i'w gweld yn yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy ac Adroddiad Cynnydd y Rhaglen Lywodraethu.
30. Mae'r cynllun yn cynnwys dangosyddion sy'n cefnogi'r ddyletswydd drwy fesur cynnydd, gyda diweddariad ystadegol o'r dangosyddion yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Mae'r dangosyddion yn cynnwys nifer fach o brif ddangosyddion sydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn dangos y cynnydd tuag at Gymru gynaliadwy. O dan y prif ddangosyddion mae cyfres o ddangosyddion eraill sy'n mesur materion mwy penodol yn ymwneud â datblygu cynaliadwy.

### **3.2 Cynllunio Cymunedol Integredig**

31. Dros y blynyddoedd, mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi gosod amrywiol ddyletswyddau ar awdurdodau lleol a phartneriaid niferus i baratoi a chyhoeddi amrywiol gynlluniau a strategaethau sydd wedi'u hanelu at wella llesiant pobl yn eu hardal.
32. Bwriad y dyletswyddau cynllunio hyn oedd gwella llesiant drwy roi ffocws i'r blaenoriaethau polisi cenedlaethol a sicrhau bod y cynlluniau a'r strategaethau yn cael eu rhoi ar waith drwy gydweithio mewn partneriaeth effeithiol. Mae llawer o egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ganolog iddynt, yn enwedig cydweithio, atal ac ymgysylltu â phobl a chymunedau.
33. Er bod y ffordd hon o gynllunio wedi llwyddo'n gyffredinol i gyflawni'r effaith polisi a fwriadwyd, cafwyd effeithiau anfwriadol hefyd. Yn ymarferol, gwelwyd cryn dipyn o orgyffwrdd a dyblygu yn y cynlluniau a'r strategaethau a gynhyrchwyd, gan arwain at lefelau cynyddol o gostau a chymhlethdod yn y broses gynllunio.



34. Roedd y strwythurau partneriaeth ategol a ddatblygwyd yn rhai helaeth ac yn fynych yn gweithredu ar wahân i'w gilydd, er eu bod yn aml yn cynnwys nifer o'r un swyddogion a chynrychiolwyr. Mae ymdrechion wedi'u gwneud i leihau nifer y partneriaethau ond mae'r broblem yn parhau. Ym mis Mawrth 2014, nododd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych bod ganddo 84 o bartneriaethau yn y sir a chan nodi hefyd 'nad yw hon yn rhestr lawn'<sup>10</sup>
35. Roedd y cymhlethdod hwn yn ei gwneud yn anodd i'r sefydliadau weithredu'n effeithlon, ac yn anodd i bobl ac aelodau etholedig nodi'r blaenoriaethau pwysicaf yn eu hardaloedd o blith llu o amcanion mewn gwahanol gynlluniau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.
36. Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Beecham yn 2006<sup>11</sup>, datblygwyd ymagwedd strategol ar gyfer edrych ar faterion trawsbynciol a fyddai'n elwa o ymdriniaeth amlasiantaeth, neu enghreifftiau lle bo diffyg gwaith partneriaeth yn amharu ar y gallu i gyflawni gwell canlyniadau. Y canlyniad oedd sefydlu byrddau gwasanaethau lleol ym mhob rhan o Gymru yn ystod 2007-2008.
37. Erbyn diwedd 2010, dechreuodd rhai awdurdodau lleol a'u sefydliadau partner, drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, fabwysiadu dull mwy holistig o gynllunio ar y cyd, a gofynnwyd am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull gweithredu mwy integredig.
38. Yn ystod 2011, gweithiodd Llywodraeth Cymru'n agos gyda'r rhai sy'n ymwneud â Byrddau Gwasanaethau Lleol, gan gynnwys y trydydd sector, er mwyn datblygu dull newydd a systematig o weithio mewn partneriaeth. Roedd y model newydd wedi'i seilio ar nifer o elfennau pwysig:
- dull strwythuredig o ddadansoddi tystiolaeth i benderfynu ar flaenoriaethau;
  - defnyddio dulliau seiliedig ar ganlyniadau i benderfynu ar y camau y dylid eu cymryd i ymateb i flaenoriaethau;
  - integreiddio'r cynlluniau statudol er mwyn lleihau cymhlethdod a dyblygu;
  - rhesymoli'r rhwydwaith o bartneriaethau lleol;
  - mwy o atebolrwydd am waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol drwy eu gosod dan broses graffu pwyllgorau craffu awdurdodau lleol.
39. Yn 2012, ar ôl ymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd i awdurdodau lleol a'u partneriaid cynllunio, *Cydamcanu – Cydymdrechu*<sup>12</sup>, gan eu hannog i gyfuno nifer o'u cynlluniau statudol yn un cynllun integredig. Mae'r canllaw yn gosod allan y Weledigaeth ar gyfer cynllunio integredig (tud 14):

*Dylai'r cynllun integredig unigol ddisgrifio'r weledigaeth hirdymor gyffredinol ar gyfer datblygu cymunedau'n gynaliadwy yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf. Er mwyn deall y newid tebygol yn y galw am wasanaethau, dylai ystyried newidiadau demograffig, y cyd-destun economaidd-gymdeithasol, effaith y newid yn yr hinsawdd a newid mewn ffocws a buddsoddi o fesurau adfer i fesurau ataliol.*

40. Y dyletswyddau cynllunio statudol a nodir gan Lywodraeth Cymru yn y canllawiau fel y rhai y dylid eu cyflawni drwy'r cynlluniau integredig sengl yw:
- strategaethau cymunedol – Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 2: adrannau 37-46);
  - Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys cynlluniau gofynnol dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (adran 2) a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Rhan 1) – Deddf Plant 2004 (Rhan 3: adran 26);
  - Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Rhan 3: adran 40);
  - Strategaethau ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn, strategaethau ar gyfer herio'r camddefnydd o gyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, a strategaethau ar gyfer lleihau cyfraddau aildrosedd – Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Rhan 1: adran 6);
  - gwybodaeth ynghylch digonedd cyfleoedd i chwarae – Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (adran 11 ac adran 12).
41. Roedd y canllawiau'n nodi na ddylid ystyried y rhestr hon fel un gyflawn, a'i bod yn addas defnyddio cynlluniau integredig sengl i fodloni gofynion cynllunio statudol eraill, fel y ddyletswydd y darparwyd ar ei chyfer yn Neddf Gofal Plant 2006 (adran 22 ac adran 26) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi asesiadau ynghylch digonedd darpariaeth gofal plant yn eu hardaloedd.
42. Yn sgil datblygu cynllun sengl, integreiddiwyd nifer o asesiadau anghenion gwahanol ac ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion. Mae'r broses asesu anghenion sy'n mynd rhagddi wedi dechrau ymgorffori asesiadau statudol eraill, fel y rheini sy'n ymwneud â darparu gofal plant, meithrinfeydd a chyfleoedd chwarae.
43. Nod y canllawiau oedd lleihau nifer y cynlluniau a'r partneriaethau, sicrhau bod gwaith cynllunio yn cael ei seilio ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar anghenion pobl mewn ardal, a gwneud gwaith partneriaeth yn fwy atebol i brosesau democratiaeth leol.

### 3.3 Cefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru

44. Sefydlwyd swydd y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, swydd anstatudol, ym mis Ebrill 2011 i fwrw ymlaen, yng Nghymru, â'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar lefel y DU gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a gafodd ei ddiddymu yn gynharach y flwyddyn honno.
45. Pwrpas y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy presennol yw arwain a chefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy. Rôl greiddiol y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yw sicrhau bod mwy yn cael ei wneud mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy a datblygu consensws ynghylch y problemau oedd

yn rhwystro polisïau a rhaglenni ar gyfer gwneud Cymru'n fwy cynaliadwy, ynghyd ag atebion posibl i ddatrys y problemau hyn.

46. Ym mis Mawrth 2012, prynodd Llywodraeth Cymru wasanaethau allanol i'w helpu i gefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Rhoddwyd y contract hwn, fydd yn para tan fis Mawrth 2015, i Cynnal Cymru – Sustain Wales. Mae'r contract hwn yn cefnogi nifer o weithredoedd allweddol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ond y mae hefyd yn cefnogi'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy.

#### 4. Trosolwg o fwriad polisi'r Bil

47. Bydd y Bil yn rhoi effaith i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i osod datblygu cynaliadwy fel egwyddor graidd yng ngwaith y Llywodraeth; gan greu economi gadarn a chynaliadwy sy'n byw o fewn terfynau amgylcheddol ac yn defnyddio dim mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear i gynnal ein ffordd o fyw.
48. Mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio'r gwahaniaeth y mae am ei wneud i fywydau pobl Cymru: *'pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar; cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd glân gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a chymdeithas â gwir ymdeimlad â'i diwylliant a'i hanes.'*<sup>13</sup>
49. Mae'r amcan i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn amcan sy'n cael ei rannu gan wledydd ym mhob cwr o'r byd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu sgwrs ryngwladol o dan nawdd y Cenhedloedd Unedig â phobl o bedwar ban i glywed eu barn ar set o Amcanion Datblygu Cynaliadwy rhyngwladol, gan adeiladu ar lwyddiant Amcanion Datblygu'r Mileniwm.
50. Bydd y Bil yn arwain at newid sylweddol yn y ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir pobl a chymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan adael gwell etifeddiaeth i'n plant a'n hwyron. Bydd yn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog ar gyfer awdurdodau cyhoeddus penodol, a bod yr awdurdodau hynny yn cydweithio i wella llesiant Cymru drwy geisio gwireddu cyfres o nodau llesiant statudol.
51. Bydd y Bil yn arwain at sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy yn yr awdurdodau cyhoeddus penodol drwy bedair elfen ganolog:

#### *Cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru*

52. Mae'r Bil yn dangos yn glir, drwy gyfres o nodau llesiant statudol, y camau y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodol eu dilyn er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
53. Bydd y Bil yn sicrhau bod y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud i lesiant Cymru, heddiw ac yn y dyfodol, yn cael ei werthuso a'i fesur wrth i Lywodraeth Cymru osod dangosyddion cenedlaethol ac adrodd yn eu herbyn.

#### *Sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy mewn awdurdodau cyhoeddus penodol*

54. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd gynaliadwy (egwyddor datblygu cynaliadwy) yn ôl y disgrifiad yn adran 6.2 o'r bennod hon.

55. Rhaid i gorff osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u llunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.
56. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth gadarn mai proses yw datblygu cynaliadwy. Bwriedir i'r egwyddor ddylanwadu ar drefn lywodraethu sefydliad er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn llwyddo i gyflawni ei amcanion llesiant yn y ffordd orau bosibl, ac yna bod yr amcanion hynny'n cael yr effaith fwyaf bosibl ar lesiant Cymru nawr ac yn y dyfodol. Bydd gofyn defnyddio pum agwedd ar lywodraethu (fel rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy): meddwl yn y tymor hir; gweithio mewn ffordd integredig; cydweithio; ymgysylltu ac atal.
57. Bwriad y Bil yw sicrhau rhagor o dryloywder drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol gyhoeddi datganiad wrth osod eu hamcanion, ac adrodd yn flynyddol am eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion.

#### *Cefnogi'r newid a hyrwyddo buddiannau cenedlaethau'r dyfodol*

58. Bydd y Bil yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru a fydd yn hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn monitro ac yn asesu hynnt yr amcanion llesiant a osodir gan yr awdurdodau cyhoeddus penodol drwy adolygiadau ac argymhellion. Bydd y Comisiynydd yn cefnogi'r awdurdodau hyn i roi gofynion y Bil ar waith ac i wneud datblygu cynaliadwy yn ganolog i'w gwaith.

#### *Diwygio cynlluniau cymunedol integredig*

59. Bydd y Bil yn newid y ffordd yr eir ati i gynnal cynlluniau cymunedol integredig trwy roi sail statudol iddi. Bydd y darpariaethau ar gyfer sefydlu a gweithredu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymdrin â sut y bydd aelodau'r Byrddau'n asesu llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu dalgylchoedd ac yn gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant y dalgylchoedd hynny a'r bobl a'r cymunedau a geir ynddynt.
60. Bwriad y diwygiadau yw lleihau nifer y cynlluniau a strategaethau trwy alluogi aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ymgorffori nifer ohonynt yn eu cynlluniau llesiant lleol. Bydd hynny hefyd yn gwella'r ffordd y bydd aelodau'r Byrddau'n mabwysiadu a gweithredu cynlluniau a strategaethau o'r fath, gan eu rhoi yr un pryd o fewn fframwaith o amcanion a dangosyddion cenedlaethol. Bydd y Bil yn gwneud partneriaethau'n fwy atebol i ddemocratiaeth leol.

## 5. Awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil

61. Pennwyd yr awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil drwy ystyried cyfres o feini prawf:

*Cyllid:* mae dros 50% o gyllid yr awdurdod yn arian cyhoeddus;

*Effaith ar Lesiant:* mae'r awdurdod yn cynnal swyddogaethau neu weithgareddau sy'n effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru neu'i ardal;

*Swyddogaethau:* mae gan yr awdurdod swyddogaethau strategol;

*Archwiliadwy:* mae'r awdurdod yn 'awdurdod cyhoeddus archwiliadwy' yn unol â diffiniad Atodlen 7 Deddf 2006.

62. Mae'r Bil yn rhestru'r awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r darpariaethau yn Rhannau 1, 2 a 3 o'r Bil fel:

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau Lleol; sef Cyngorau Sir neu Fwrdeistref Sirol yng Nghymru;
- Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd dan adran 11 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre, a sefydlwyd dan adran 18 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sefydlwyd dan adran 18 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
- awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, sef awdurdodau yng Nghymru a gyfansoddwyd dan adran 2 Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 y ddeddf honno'n berthnasol iddo;
- Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

63. Maent yn cael eu diffinio fel 'cyrff cyhoeddus' yn y Bil, ac mae unrhyw gyfeiriad yn y bennod hon at 'gyrff cyhoeddus' yn cyfeirio at yr awdurdodau a restrir uchod.

## 6. Cryfhau'r systemau llywodraethu presennol i wella llesiant Cymru

64. Yn adroddiad 2011 '*Governing for the Future - The opportunities for mainstreaming sustainable development*'<sup>14</sup>, dywedodd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy bod modd lleihau nifer o'r rhwystrau rhag cynaliadwyedd drwy sicrhau trefniadau llywodraethu cryf a dulliau effeithiol o gyflawni, adrodd a dysgu.
65. Wrth ddatblygu'r Bil, ystyriwyd mabwysiadu dull o weithio sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd hynny'n golygu rhoi'r ffocws ar ganlyniadau ac ar gyflawni, ac yn gwahanu'r 'nod' sy'n cael ei geisio (gwella canlyniadau) oddi wrth y 'dull' (darparu'r gwasanaethau). Bydd yn canolbwyntio ar atebion yn hytrach nag ar restr o broblemau.
66. Wrth ystyried y dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth ddatblygu'r Bil, edrychwyd ar y cwestiynau canlynol:
  - Beth yw'r amodau llesiant yr ydym yn ceisio'u cyflawni - darpariaeth yn y Bil drwy'r nodau llesiant;
  - Sut fedrwn ni fesur os oes cynnydd yn cael ei wneud – darpariaeth yn y Bil drwy'r dangosyddion cenedlaethol.

### 6.1 Dyletswydd llesiant a datblygu cynaliadwy

67. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant, drwy'r amcanion a osodwyd ar gyfer hyn, ac i wneud hynny yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
68. Bydd hyn yn digwydd wrth i gyrff cyhoeddus geisio cyflawni'r nodau llesiant, trwy wireddu'r amcanion llesiant y gwnaethant hwy eu hunain eu gosod yn unol â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy (gweler adran 7 y bennod hon).

### 6.2 Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

69. Mae'r Bil yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy', sef 'ceisio sicrhau bod anghenion heddiw yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain', ac yn rhoi diffiniad pellach o'r hyn y mae hynny'n ei olygu yn ymarferol drwy restru pum dull llywodraethu cynaliadwy i'w dilyn wrth geisio cyflawni'r nodau.
70. Er mwyn cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy, bydd gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw i set o agweddau ar lywodraethu sydd wedi'u rhestru yn adran 7.3 y bennod hon.

### 6.3 Nodau llesiant

71. Mae'r Bil yn darparu cyfres o nodau llesiant statudol 'ar y cyd' i Gymru. Mae 'ar y cyd' yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn rhannu cyfrifoldeb dros gyflawni'r nodau i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn y tymor hir.

72. Mae'r nodau llesiant yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil ynghyd â disgrifyddion. Y nodau llesiant fel y'u cyflwynir yn y Bil yw:

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus.	Economi arloesol a chynhyrchiol, gydag allyriadau carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur; ac sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd am gyflogaeth ar gyfer poblogaeth grefftus ac addysgedig.
Cymru gydnherth.	Amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynorthwyo cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.
Cymru iachach.	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosib a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal.	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

73. Gyda'i gilydd, mae'r nodau llesiant yn rhoi cyfeiriad clir i gyrff cyhoeddus, gan eu galluogi i ddeall beth sydd yn rhaid iddynt ei wneud i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bwriedir i'r nodau llesiant osod fframwaith cenedlaethol tymor hir ar gyfer sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy yng nghyrrff cyhoeddus Cymru.

74. Diben y nodau llesiant yw darparu:

- mwy o *eglwurder* ynghylch beth yw ystyr llesiant yng nghyd-destun Cymru gynaliadwy;
- mwy o *aliniad* at un weledigaeth ar gyfer llesiant Cymru;



- mwy o *gydlyniant* ar gyfer gweithgarwch ar draws y gwasanaethau cyhoeddus;
- gwell *atebolrwydd* ar lwybr datblygu Cymru.

### *Datblygu'r nodau llesiant*

75. Roedd y dull a ddefnyddiwyd i strwythuro'r nodau'n ystyried proses debyg ar lefel ryngwladol i ddatblygu Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gyda'r nodau'n rhoi sylw i'r meini prawf canlynol:

76. Rhaid i'r nodau:

- osod y canlyniadau dymunol y mae pobl Cymru am eu cyflawni, a rhaid iddynt fod yn amodau llesiant yn hytrach nag elfennau o ddarpariaeth gwasanaethau;
- gyda'i gilydd ddisgrifio llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn y tymor hir;
- fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- fod yn gryno ac yn hawdd cyfathrebu yn eu cylch gydag amrywiol randdeiliaid;
- lle bynnag y bo'n bosibl, cynnwys ystyriaeth o dri dimensiwn datblygu cynaliadwy, mewn modd integredig;
- fod yn gyfyngedig o ran nifer fel nad ydynt yn ymddangos fel 'rhestr o ddymuniadau' ar faterion polisi;
- arwain rhyngddynt at Gymru gynaliadwy sy'n parchu'r terfynau amgylcheddol.

77. Nodwyd bod Cymru'n wynebu nifer o heriau cymhleth, tymor hir. Mae sawl un ohonynt wedi'u hetifeddu o'r gorffennol, ond mae'n bwysig nad yw'r genhedlaeth hon yn eu gadael fel heriau i'r genhedlaeth nesaf. Wrth osod yr hyn y dylai cyrff cyhoeddus Cymru geisio'i gyflawni mewn perthynas â llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ystyriwyd tystiolaeth ynghylch yr heriau tymor hir hyn y mae Cymru'n eu hwynebu:

### *Tlodi (anfantais economaidd-gymdeithasol)*

78. Mae tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith enfawr ar lesiant Cymru, yn sgil ei effaith, ehangder ei ddylanwad a dyfnder yr anghydraddoldeb sy'n cael ei achosi. Yn gyffredinol, nid yw pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn mwynhau'r un ansawdd bywyd â phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch, boed yn ddisgwyliad oes is, mwy o afiechyd, cyrhaeddiad addysgol is, a/neu incwm is a llai o gyfoeth.<sup>15</sup>

79. Mae cyflogaeth yn ffordd o amddiffyn rhag anfantais economaidd-gymdeithasol, yn arbennig rhag tlodi dwfn a pharhaol. Mae'n hanfodol i bobl gael yr wybodaeth a'r sgiliau i gyrraedd at swyddi diogel â chyflog boddhaol.

80. Roedd y cysylltiad rhwng tlodi a'r amgylchedd yn cael ei gydnabod yn adroddiad Brundtland. Roedd yn datgan bod tlodi'n lleihau gallu pobl i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy; mae'n cynyddu'r pwysau ar yr amgylchedd.

### Arloesi

81. Ystyr arloesi yw rhoi syniadau newydd ar waith yn llwyddiannus; gall ddigwydd mewn nifer o ffyrdd ac yn unrhyw sector. Weithiau daw o ganlyniad i ddefnyddio gwybodaeth newydd sbon, ond gan amlaf mae'n dod o ganlyniad i newidiadau graddol, neu gyfuniadau newydd o syniadau a phrofiadau sydd eisoes yn bodoli. Gall gynnwys datblygu cynnyrch newydd neu well, neu brosesau newydd neu well ar gyfer cynhyrchu nwyddau neu wasanaethau, neu gyflwyno gwasanaethau newydd sbon<sup>16</sup>.
82. Gall arloesi helpu Cymru i ymateb i fyd sy'n newid yn gyson, a chreu llwybr twf cynaliadwy sy'n ein helpu rhag syrthio y tu ôl i economïau datblygol y byd sy'n dod i'r amlwg yn gyflym<sup>17</sup>. Drwy arloesi gall ein cwmnïau ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd a bod yn fwy cystadleuol. Mae arloesi yn cynnig atebion i'r heriau cymdeithasol ac amgylcheddol yr ydym yn eu hwynebu, ac yn medru helpu i gynyddu cyfoeth a llesiant. Yn absenoldeb arloesi, mae Cymru mewn perygl o weld ansawdd bywyd yn dirywio a methu â chynnal y math o gymdeithas yr ydym oll yn dymuno ei gweld.

### Gwybodaeth a sgiliau

83. Mae gwybodaeth a sgiliau yn parhau i fod yn hanfodol. Mae cytundeb eang bod profiadau plentyndod ac addysg yn y blynyddoedd cynnar, sy'n cael ei ddiffinio fel y cyfnod cyn geni hyd at 7 oed yng Nghymru, yn hanfodol bwysig ar gyfer datblygiad plant yn y tymor hir a'u llwyddiant yn nes ymlaen yn eu bywydau. O ganlyniad mae mynediad at addysg o ansawdd uchel, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar, yn hanfodol ar gyfer sicrhau ffyniant a chynnydd yn y dyfodol.<sup>18</sup>
84. Mae sgiliau'n cael effaith sylweddol ar lesiant economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae sgiliau'n arfau cryf ar gyfer trechu tlodi a chryfhau'r broses o greu swyddi a thwf. Y sgiliau hyn fydd yn diffinio ein gallu i gystadlu yn y dyfodol, ac yn helpu Cymru i esblygu i fod yn genedl fedrus sy'n gallu cynyddu cynhyrchiant, goresgyn rhwystrau rhag gweithio a helpu pobl i gael swyddi<sup>19</sup>.

### Ecosystemau

85. Roedd Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU<sup>20</sup> a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011 yn cadarnhau bod ein cyfoeth fel gwlad a'n lles fel unigolion yn dibynnu'n drwm ar yr amgylchedd. Mae'r amgylchedd yn rhoi bwyd, dŵr ac aer i ni, tri pheth cwbl hanfodol er mwyn gallu byw. Mae hefyd yn darparu mwynau a deunydd crai ar gyfer diwydiant a'n bywyd pob dydd. Mae gwyddonwyr yn cyfeirio at y gwasanaethau hyn y mae'r amgylchedd yn eu darparu fel 'gwasanaethau ecosystem', gan gydnabod mai'r rhyngweithiad rhwng yr amgylchedd byw a ffisegol sy'n darparu'r angenrheidiâu hyn. Dangosodd yr asesiad hwn bod dirywiad

parhaus mewn bioamrywiaeth wedi bod, gyda tua threian o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein hamgylchedd naturiol yn dirywio neu'n prinhaus.

86. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn Adroddiad *Sefyllfa Byd Natur 2013*<sup>21</sup>. Roedd yr adroddiad yn asesu poblogaethau neu dueddiadau dosbarthiad 3,148 o rywogaethau yn y DU. Canfuwyd bod 60 y cant ohonynt wedi dirywio dros y degawdau diwethaf, a bod mwy nag un o bob deg o'r holl rywogaethau a aseswyd mewn perygl o ddiplannu'n llwyr o'n glannau.
87. Gellid dehongli terfynau amgylcheddol i olygu'r lle diogel sydd gennym i weithredu ynddo er ein lles cymdeithasol ac economaidd. Er bod diwylliant a thechnoleg yn ei amddiffyn weithiau rhag newid amgylcheddol, mae'r lle hwnnw'n dibynnu ar ecosystem sy'n gweithio ac ar lif o wasanaethau ecosystem. Mae nifer o astudiaethau economaidd yn dangos manteision cynnal gwasanaethau ecosystem, megis yr adroddiad ar Economeg Ecosystemau a Bioamrywiaeth.
88. Cyhoeddwyd y gyfres ddiweddaraf o ddangosyddion datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru<sup>22</sup>, ym mis Awst 2013. Yn ôl y dangosyddion hyn, er bod gwelliannau cyffredinol yn cael eu gwneud, ychydig o newid os o gwbl a welwyd ym mwyafrif y dangosyddion.

#### Newid yn yr hinsawdd

89. Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos bod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn debyg o gynyddu, gyda'r tymheredd dyddiol yng Nghymru wedi codi 0.7C o'i gymharu â gwaelodlin 1990, a rhagamcan y bydd yn codi tua 1.3C erbyn 2020<sup>23</sup>. Bydd y newidiadau hyn, a chyflymder y newidiadau, yn cael effaith gynyddol sylweddol ar fioamrywiaeth, glawiad, lefelau'r môr a digwyddiadau tywydd eithafol, pob un ohonynt yn y pen draw yn effeithio ar ein gallu i gynnal cymdeithas iach a ffyniannus.

#### Iechyd

90. Mae'r amodau y mae pobl yn cael eu geni, yn byw, gweithio a thyfu'n hen ynddyn nhw i gyd yn effeithio ar iechyd. Mae iechyd da yn dod â llawer o fuddiannau i gymdeithas. Mae'n gwella ansawdd a hyd bywyd ond mae hefyd yn codi cynhyrchiant y gweithlu, yn gwella'r gallu i ddysgu, yn cryfhau teuluoedd a chymunedau, yn cynnal cynefinoedd ac amgylcheddau cynaliadwy ac yn cyfrannu at ddiogelwch, cynhwysiant cymdeithasol ac at drechu tlodi.
91. Mae sicrhau system iechyd hygyrch, ynghyd â threchu tlodi ac anghydraddoldeb yn hanfodol ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth yng Nghymru. Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos bod bwch mawr yn parhau i fod rhwng iechyd y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig.<sup>24</sup>
92. Yn ei hadroddiad blynyddol 2012-13, adroddodd Prif Swyddog Meddygol Cymru<sup>25</sup> bod disgwyliad oes Cymru wedi codi, a phoblogaeth Cymru'n byw yn hirach ac yn cael mwy o flynyddoedd o fywyd iach na'r hyn a welwyd deng mlynedd yn ôl, ond bod heriau iechyd yn bod o hyd. Mae cynnydd o hyd mewn achosion o ordewdra, a chynnydd cysylltiedig mewn achosion o ddiabetes. Mae mwy o oedolion yn cael eu

trin am bwysedd gwaed uchel, ac mae nifer y bobl sy'n gwneud digon o ymarfer corff yn rhy isel. Hefyd, mae iechyd meddwl yn parhau i fod yn broblem. Er y gwelliannau, gallai iechyd fod yn well yng Nghymru, ac mae llawer i'w wneud i fynd i'r afael â'r problemau a etifeddwyd, a modd osgoi nifer o'r problemau iechyd.

### Anghydraddoldebau

93. Mae tystiolaeth ddiweddar<sup>26</sup> yn tynnu sylw at anghydraddoldebau parhaus yng Nghymru. Boed yn edrych ar iechyd, enillion, cymwysterau, perygl o ddiodef trosedd neu allu i godi llais; nid yw mantais, grym ac adnoddau wedi'u dosbarthu'n gyson.
94. Er mwyn sicrhau llesiant yr holl amrywiaeth o bobl sydd yng Nghymru, mae'n hanfodol i ni herio unrhyw wahaniaethu a rhagfarn, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy gael gwared â'r rhwystrau mae grwpiau penodol yn eu hwynebu.
95. Mae grwpiau penodol yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu, anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn Neddf Cydraddoldeb 2010<sup>27</sup> sy'n diffinio'r 'nodweddion gwarchoddedig' canlynol:
- oed;
  - anabledd;
  - ailbennu rhywedd;
  - priodas a phartneriaeth sifil;
  - beichiogrwydd a mamolaeth;
  - hil;
  - crefydd neu gred;
  - rhyw;
  - cyfeiriadedd rhywiol.

### Diwylliant ac Iaith

96. Mae natur cymdeithas Cymru'n debyg o newid ac mae angen i ni feddwl sut i wneud hynny'n newid cadarnhaol; gan feithrin hunaniaeth Gymreig sy'n unigryw ond yn cynnwys gwahanol ddiwylliannau, yn edrych tuag allan, ac yn helpu Cymru i osod ei hun yn llwyddiannus mewn byd sy'n esblygu o hyd gyda phersbectif cynyddol fyd-eang.
97. Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae 19 y cant o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg. Er bod hyn yn uwch na Chyfrifiad 1991 (18.7 y cant), mae'n ostyngiad ers Cyfrifiad 2001 (20.8 y cant). Gwelwyd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn 18 o'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru.
98. Roedd *laith fyw: iaith byw*<sup>28</sup>, Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012–17 yn dod i'r casgliad bod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu colli bob blwyddyn, yn bennaf yn sgil y gwahaniaeth rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n ymfudo o Gymru a'r rhai sy'n dychwelyd.

## **6.4 Dangosyddion Cenedlaethol**

99. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer dangosyddion cenedlaethol i'w gosod gan Weinidogion Cymru. Bydd hynny'n helpu cyrrff cyhoeddus Cymru, ynghyd â

rhanddeiliaid ehangach, i ddeall i ba raddau mae'r weledigaeth o sicrhau llesiant yn y tymor hir, yn unol â'r nodau llesiant, yn cael ei chyflawni.

100. Bydd y dangosyddion cenedlaethol yn ffordd o fesur yr holl gynnydd sy'n cael ei wneud gan gyrff cyhoeddus Cymru gyda'i gilydd tuag at gyflawni'r nodau, hynny drwy gyflawni'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy (gweler adran 7 y bennod hon).
101. Yn unol â ffordd o weithio sy'n seiliedig ar ganlyniadau, bydd y dangosyddion cenedlaethol yn 'ddangosyddion poblogaeth'; yn berthnasol i Gymru gyfan, ac yn caniatáu didoli'r data ar lefel leol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Ni fydd y Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rheoli perfformiad pob sefydliad neu sector unigol.
102. Wrth ddiwygio'r nodau llesiant, bydd gofyn i Weinidogion Cymru hefyd adolygu'r dangosyddion cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol.

#### Diweddariad blynyddol yn erbyn y dangosyddion

103. Bydd gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi diweddariad ystadegol blynyddol yn erbyn y dangosyddion.

#### Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

104. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi "adroddiad tueddiadau'r dyfodol" o fewn y 12 mis sy'n dilyn etholiad y Cynulliad.
105. Y bwriad yw i'r adroddiad hwn gasglu tystiolaeth sy'n edrych yn systematig ar dueddiadau yn y gorffennol, a helpu i asesu tueddiadau ac ansicrwydd tebygol y bydd Cymru'n eu hwynebu yn y dyfodol. Bydd o gymorth ar gyfer darparu stocestr o asedau Cymru, yng nghyd-destun y tueddiadau byd-eang hyn, a fydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth am allu Cymru i gyflawni'r nodau. Nid rhagweld y dyfodol yw'r bwriad, ond darparu asesiad o sefyllfa gymharol Cymru.

## 7. Sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cyrff cyhoeddus

### 7.1 Dyletswydd Datblygu Cynaliadwy

106. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd datblygu cynaliadwy sydd wedi'i strwythuro o amgylch cyflawni'r nodau llesiant, trwy osod a chyflawni amcanion llesiant a chynnal yr egwyddor datblygu cynaliadwy.
107. Yr effaith y bwriedir i'r ddyletswydd ei chael yw i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio'u gwaith a'u hadnoddau at gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant trwy gyflawni eu hamcanion llesiant, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn darparu ffordd o gyflawni'r effeithiau y bwriedir i'r nodau llesiant eu cael.

### 7.2 Gosod a chyflawni amcanion llesiant

108. Rhaid i gyrff cyhoeddus osod, cyhoeddi a chymryd camau i gyflawni amcanion llesiant sydd wedi'u llunio i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid i'r amcanion llesiant hynny, a'r ffordd y maent yn cael eu cyflawni, fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
109. Bwriad y gofyniad hwn yw dylanwadu ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i osod eu hamcanion, a sicrhau eu bod yn gosod amcanion sy'n cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant.
110. Nid oes bwriad i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant newydd sy'n ymwneud yn benodol â'r nodau llesiant yn ogystal â'u nodau presennol (hy y rhai sydd i'w gweld mewn cynllun corfforaethol neu gynllun busnes), ond yn hytrach bod gofynion y Bil yn cael eu hymgorffori i'r prosesau cynllunio busnes a llywodraethu corfforaethol presennol.
111. Bydd y ffaith bod gofyn i gyrff cyhoeddus gyhoeddi eu hamcanion llesiant yn ategu'r cysyniad o dryloywder ac atebolrwydd i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Nid oes bwriad pennu ffordd benodol i'r cyrff gyhoeddi'r manylion, ond yn ymarferol rhagwelir y byddai hyn yn digwydd ar wefan y corff.
112. Wrth osod eu hamcanion llesiant, bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gyhoeddi'r wybodaeth ganlynol:

- eu rhesymau dros gredu y bydd cyflawni'r amcanion llesiant yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant.

Y bwriad wrth wneud yr wybodaeth hon yn ofynnol yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn deall ac yn medru egluro y berthynas rhwng yr hyn sy'n cael ei wneud ganddynt (a fynegir yn eu hamcanion llesiant) a'r nodau llesiant.

- yr amserlen y mae'r corff yn disgwyl ei dilyn i gyflawni'r amcanion llesiant.

Bydd amcanion llesiant Gweinidogion Cymru'n cael eu gosod ar gyfer eu tymor fel llywodraeth. Bydd cyrff cyhoeddus eraill yn medru penderfynu ar eu

hamserlenni eu hunain ar gyfer eu hamcanion llesiant. Bydd hyn yn caniatáu i ddarpariaethau'r Bil gael eu cyflawni drwy gylchoedd cynllunio sydd eisoes yn bodoli. Gall rhai cyrff baratoi cynlluniau blynyddol, tra chaiff eraill weithio ar sail cylch 3 neu 5 mlynedd.

- y camau sy'n cael eu cynnig i gyflawni'r amcanion llesiant, a sut y bydd y camau hynny'n arwain at gyflawni'r amcanion.

Wrth gyfeirio at amcanion llesiant, bwriedir dal yr hyn y mae sefydliad yn ceisio'i gyflawni wrth gyfrannu at y nodau llesiant, e.e. *Sicrhau tai diogel a chlyd drwy helpu landlordiaid a rheoleiddio effeithiol*.

- Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, bydd angen i gyrff gymryd amrywiol gamau, h.y. mewn perthynas â'r enghraifft uchod, gellid '*Gwella amodau yn y sector rhentu preifat drwy ymestyn y cynllun i drwyddedu Tai Amlfeddiannaeth*'

113. Ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n aelodau statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau tân ac achub a Cyfoeth Naturiol Cymru, bydd ganddynt opsiwn i ymgorffori eu hamcanion llesiant yn eu cynllun llesiant lleol (gweler adran 9 y bennod hon).
114. Rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi eu rhesymau dros ystyried bod eu hamcanion llesiant yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adrannau 6.2 a 7.3 o'r bennod hon). Hefyd, eu cynlluniau ar gyfer rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith er mwyn cyflawni'r amcanion llesiant, gan gynnwys eu bwriadau ar gyfer dyrannu adnoddau yn flynyddol.

### 7.3 Gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

115. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r amcanion llesiant sy'n cael eu gosod, yn unol â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy, fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yna bod cyrff cyhoeddus yn cymryd bob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
116. Wrth weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, bydd gofyn i gyrff cyhoeddus ystyried pum agwedd bwysig ar lywodraethu:
117. *Meddwl yn y tymor hir* – sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i fynd i'r afael â phroblemau cyfredol (tymor byr) a'r angen i ddiwallu anghenion tymor hir Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle gallai gweithredu ar gyfer y tymor byr gael effaith andwyol yn y dyfodol.
118. *Gweithio mewn ffordd integredig* - ystyried sut y gallai'r amcanion llesiant effeithio ar y nodau llesiant a'r tair agwedd ar lesiant. Hefyd sut gall amcanion llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
119. *Camau Ataliol* - defnyddio adnoddau i gymryd camau nawr er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu.

120. Cydweithio - gweithio ar y cyd gyda chyrff eraill, neu wahanol rannau o'r corff yn gweithio gyda'i gilydd, er mwyn helpu i gyflawni amcanion y corff, neu amcanion corff arall.
121. Ymgysylltu - Cynnwys y bobl a'r cymunedau y mae eu llesiant yn cael ei ystyried yn ogystal â'r rheini sydd â diddordeb yn yr amcanion llesiant, drwy eu cynnwys yn y gwaith o chwilio am atebion cynaliadwy.

### Meddwl yn y tymor hir

122. Mae pwysigrwydd meddwl yn y tymor hir ac ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn rhan sylfaenol o'r dull datblygu cynaliadwy. Mae'n cydnabod bod penderfyniadau cenedlaethau blaenorol yn effeithio ar lesiant cenedlaethau'r presennol. Ar ben hynny gall y penderfyniadau hyn, o'u hystyried gyda'i gilydd, arwain at ganlyniadau anghynaliadwy ar gyfer pobl a chymunedau.
123. Gall meddwl yn y tymor hir hefyd arwain at sbarduno cyrff i symud oddi wrth wasanaethau sy'n gostus neu'n adferol ac sy'n datrys problemau y gellid bod wedi'u hosgoi trwy weithredu'n gynt, at wasanaethau mwy ataliol a llai costus. Gall hyn yn ei dro ddiogelu a gwella enw da sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.
124. Mae nifer o resymau pam nad yw goblygiadau tymor hir (cadarnhaol a negyddol) camau gweithredu gan gyrff cyhoeddus yn cael eu hystyried yn llawn ar hyn o bryd, gan gynnwys:
- ansicrwydd a diffyg gwybodaeth a/neu dystiolaeth ynghylch y dyfodol;
  - cylchoedd ariannol neu wleidyddol tymor byr;
  - angen cyflawni yn erbyn targedau neu ganlyniadau cyfredol;
  - y broses o ostwng costau a manteision yn y dyfodol mewn gwerthusiad economaidd ffurfiol, gan leihau'r pwyslais sy'n cael ei roi ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.
125. Yr effaith y bwriedir i hyn ei gael yw i gyrff cyhoeddus Cymru edrych ar y tymor hir a bod yn ymwybodol o lesiant cenedlaethau'r dyfodol, a rhoi sylw i hynny ynghyd ag anghenion y bobl sy'n cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd. Mae'n ymgais i roi sylw i wendid cyffredin o ran llywodraethu yng Nghymru, sy'n canolbwyntio'n reddfodol ar y tymor byr.
126. Wrth feddwl yn y tymor hir, nid oes bwriad cael gwared ar allu cyrff cyhoeddus Cymru i ddilyn safbwynt uniongyrchol, tymor byr, ond yn hytrach sicrhau bod yr effeithiau tymor hir yn cael eu hystyried hefyd. Mae meddwl yn y tymor hir yn gydnaws â'r nod llesiant cydnerthedd y mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer, lle mae rhagweld yr heriau sydd o flaen Cymru yn ffordd o helpu pobl, cymunedau, sefydliadau a busnesau Cymru i baratoi'n well.
127. Er nad yw'r Bil yn darparu diffiniad penodol o gyfnod 'tymor hir', bwriedir i gyrff cyhoeddus ystyried effaith debygol yr amcan dros gyfnod o 25 mlynedd. Fodd bynnag bydd gallu pob corff i wneud hynny yn dibynnu ar natur yr amcan a'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch effeithiau tebygol yn y dyfodol.



## Integreiddio

128. Elfen hanfodol o weithredu mewn ffordd gynaliadwy yw mabwysiadu dull gweithredu integredig, ac yn benodol gweld cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith gyfunol eu gweithgarwch ar yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd. Yr effaith y bwriedir i ddull gweithredu integredig ei chael yw i gyrff cyhoeddus gydnabod bod llesiant Cymru, neu eu hardal leol, yn ddibynnol ar ansawdd yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas.
129. Mewn perthynas â darpariaethau'r Bil, mae dilyn dull gweithredu integredig yn gofyn am gymryd camau gwahanol wrth osod amcanion llesiant ac yna wrth gyflawni'r amcanion llesiant hynny:

### *Wrth osod amcanion llesiant (integreiddio'r nodau)*

- cydystyried effaith eu hamcanion a'u gweithredoedd ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol;
- cydnabod bod y nodau llesiant yn set gyflawn sy'n disgrifio amodau dymunol lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru;
- deall ac ystyried y berthynas rhwng y nodau llesiant a'u hamcanion llesiant.

### *Wrth gyflawni amcanion llesiant (integreiddio'r amcanion)*

- dilyn camau gweithredu mewn ffordd sy'n cyflawni manteision lluosog ar draws pob amcan;
  - cyflawni nifer o amcanion gyda'i gilydd.
130. Yn ymarferol bydd hyn yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried ac yn deall y cysylltiadau rhwng eu hamcanion a'r ddibyniaeth rhyngddynt, er mwyn nodi camau gweithredu sy'n medru cyflawni sawl amcan yr un pryd.
131. Mae'r nodau llesiant yn gweithio gyda'i gilydd, ac ni ddylid gweld pob nod fel rhywbeth unigol. Wrth osod a chyflawni'r amcanion llesiant rhaid i gyrff cyhoeddus ddeall yr amrywiol fathau o gysylltiadau posibl ar draws a rhwng y nodau, er enghraifft y cysylltiad rhwng:

- (a) iechyd pobl a'u gallu i fwynhau diwylliant a threftadaeth;
- (b) cyrhaeddiad addysgol a chyflogaeth;
- (c) ecosystemau cadarn ac economi amaethyddol gynhyrchiol.

132. Wrth ystyried y nod llesiant – 'Cymru iachach' – yn fanylach, gallai perthynas bosibl arall gynnwys y rhyngweithiad rhwng iechyd corfforol a meddyliol pobl a:
- cymunedau diogel heb droseddu na thrais
  - cyfleoedd i fynd at fannau gwyrdd ac agored
  - cyfleoedd diogel a fforddiadwy i gynnal gweithgareddau corfforol
  - cyfleoedd i brofi'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth
  - trafnidiaeth ddiogel, cynaliadwy, hygyrch a fforddiadwy

- cyfleoedd i gael addysg hygyrch o ansawdd uchel
  - cyfleoedd gwaith i bawb mewn economi ffyniannus
133. Dywed Sefydliad Iechyd y Byd (o'i gyfieithu): *'Y polisiau mwyaf llwyddiannus o ran cynnal a gwella iechyd pobl yw'r rheini sy'n delio â thwf economaidd, datblygiad dynol ac iechyd mewn ffordd integredig.'* Mae'r amgylchedd, incwm, gwaith, trafnidiaeth, dyluniad a chyflwr tai, troseddu a chyflwr cymdeithasol a ffisegol cymdogaethau lleol oll yn cyfrannu at iechyd da a gwael. Penderfynyddion iechyd yw'r enw a roddir ar y ffactorau hyn<sup>29</sup>.
134. Mae'r cysyniad o lechyd ym mhob Polisi yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth na all y sector iechyd gynnal lefelau uchel o iechyd a lles ym mhob carfan o gymdeithas ar ei ben ei hun er mor hanfodol yw ei gyfraniad at wella iechyd a lles pobl. Trwy ddilyn trywydd 'lechyd ym mhob Polisi', y nod yw helpu cyrff cyhoeddus i asesu sut y gall ystod o bolisiau all gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylchedd Cymru gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd. At hynny, gallai 'lechyd ym mhob Polisi' geisio cynyddu unrhyw fanteision a lleihau unrhyw effeithiau negyddol y gallai polisiau eu cael ar iechyd corfforol neu feddyliol.

### Camau Gweithredu Ataliol

135. Yn gysylltiedig â meddwl am y tymor hir, sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'r ffordd o lywodraethu a elwir yn gamau gweithredu ataliol. Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn tynnu sylw at werth dilyn camau gweithredu ataliol ac ymyrraeth gynnar, a buddsoddi yn hynny. Ymhlith yr enghreifftiau, ceir:
- Yn 2008, comisiynwyd yr Athro Syr Michael Marmot i gynnal adolygiad o'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau anghydraddoldebau iechyd. Daeth yr Adolygiad<sup>30</sup>'r casgliad bod angen cymryd camau ar chwe amcan polisi er mwyn rhoi sylw i anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i bob plentyn a chryfhau swyddogaeth ac effaith camau i atal dirywiad iechyd.
  - Yn 2010, cynhaliwyd gwaith ymchwil gan yr Adran Polisi Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol a'r Adran Gwyddorau Iechyd ym Mhrifysgol Efrog, i edrych ar yr holl gostau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed 'nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' (NEET). Roedd yr ymchwil<sup>31</sup> yn amcangyfrif bod y gost ychwanegol dros oes gyfan dros £160,000 y person yn Lloegr. Wrth edrych ar Gymru, ar sail y nifer presennol o bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed NEET, amcangyfrifir y gallai'r gost i Gymru gyfan fod mor uchel â £2 biliwn.
136. Wrth ddatblygu'r nodau llesiant, ystyriwyd tystiolaeth ynghylch yr heriau tymor hir ar gyfer llesiant Cymru. Mae camau ataliol yn cyfeirio at y camau y gallai cyrff cyhoeddus eu cymryd i atal yr heriau hyn rhag codi yn y lle cyntaf, gan gydnabod bod nifer o'r heriau hyn yn rhai y mae modd eu hosgoi.

### Cydweithio

137. Nid yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru nac unrhyw gorff cyhoeddus unigol wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar eu pennau eu hunain. Mae

gan bob un o'r cyrff cyhoeddus ran i'w chwarae er mwyn gwella llesiant, ac maent yn rhannu cyfrifoldeb dros gyfrannu at y nodau llesiant.

138. Fodd bynnag, mae tueddiad i nifer o gyrff - mawr a bach - weithredu'n annibynnol, heb ystyried unrhyw gysylltiadau neu ddibyniaeth. Gan gofio bod datblygu cynaliadwy yn fater trawsbynciol, mae'r ffordd hon o weithio fel rheol yn gwrthdaro gyda mabwysiadu dull gweithredu cynaliadwy. Mae'n hanfodol i gyrff cyhoeddus gydweithio er mwyn sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llwyddiannus, a gwella llesiant yn y tymor hir.
139. Pwrpas dull cydweithredol yw cydnabod bod nifer o'r atebion i'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu yn rai nad oes modd i un corff yn unig eu datrys. Mae cydweithio yn ffordd o gydnabod gwahanol swyddogaethau angenrheidiol y cyrff hyn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau. Bydd hyn yn helpu i osgoi camau a allai wrthdaro, gan rwystro'r nodau rhag cael eu cyflawni.
140. Yr effaith y bwriedir i ddull cydweithredol ei gael yw:
- galluogi ac annog gwahanol gyrff neu, ar lefel is, adrannau o fewn corff i gydweithio er mwyn gosod a chyflawni eu hamcanion, ac felly gyfrannu at y nodau llesiant;
  - rhoi sylw i broblem lle bo person neu gorff yn gweithredu mewn ffordd sy'n rhwystro corff arall rhag medru cyflawni eu nodau llesiant.
141. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol (gweler adran 9 y bennod hon) wedi'u creu i sicrhau bod cydweithio lleol yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

### Ymgysylltu

142. Mae ymgysylltu yn rhan hanfodol o ddatblygu cynaliadwy. Mae ymgysylltu yn rhoi cyfle i bobl a chymunedau lunio'r ardaloedd lle maent yn byw, gan greu cymunedau gwell a chynaliadwy a helpu i wella llesiant yn y tymor hir.
143. Drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus Cymru ymgysylltu â'r bobl a'r cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu ganddynt, ceir cydnabyddiaeth i bwysigrwydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Elfen bwysig o ymgysylltu yw cyrraedd at grwpiau sydd wedi'u hymylu neu nad ydynt yn cymryd rhan fel arfer.
144. Rydym yn fwyfwy ymwybodol hefyd o rôl pobl o ran cynnal a gwella eu lles eu hunain a newid y ddealltwriaeth o'r cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau'r gwasanaethau cyhoeddus a chyfrifoldebau'r unigolyn a'i gymuned. Mae gwasanaethau cyhoeddus o dan bwysau ariannol mawr tra bo'r galw am wasanaethau a dibyniaeth arnynt yn parhau i dyfu. Nid yw hyn yn gynaliadwy, hyd yn oed yn y tymor canolig. Gall cyrff cyhoeddus leddfu'r pwysau sydd arnynt i ryw raddau trwy helpu unigolion i wella'u bywydau eu hunain, megis newid ymddygiad drwg i iechyd neu agweddau at ymddygiad gwrthgymdeithasol; cefnogi eraill, fel rôl gofawyr wrth helpu'r henoed neu'r bregus i fyw'n annibynnol gartref; a chefnogi cymunedau i gryfhau trwy ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am gyfleusterau ac

amwynderau lleol. Mae'r rôl hon yn wahanol iawn i rôl draddodiadol cyrff cyhoeddus fel darparwyr gwasanaethau ac mae'n gofyn am lawer mwy o ymgysylltu rhwng y cyrff a'r bobl a wasanaethant.

145. Bwriad y dull gweithredu hwn yw gweithio o fewn cyd-destun deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli, lle mae darpariaethau penodol eisoes yn bodoli gan fwyaf ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r gymuned ar weithgarwch penodol gan gyrrff cyhoeddus Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd<sup>32</sup> er mwyn helpu sefydliadau i gysylltu gyda'r cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Rhoi blaenoriaeth i'r dinesydd;
  - Gwybod pwy sy'n gwneud beth a pham;
  - Trafod gydag eraill;
  - Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Byw;
  - Meithrin Dull Cyflawni Arloesol;
  - Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu;
  - Sicrhau gwerth am arian.
146. Bwriedir i'r canllawiau presennol ar egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd gael eu cyfuno i'r canllawiau sy'n ategu'r Bil (gweler adran 7.6 o'r ddogfen hon).
147. Mae'n hanfodol i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn y Bil fod yn atebol am gydymffurfio gyda'r dyletswyddau hynny. Yn ogystal â dulliau atebolrwydd eraill, mae'r Bil yn gosod dyletswydd newydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i adolygu'n rheolaidd i ba raddau mae'r cyrff penodol yn dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a'u cyflawni. Mae hyn yn golygu asesu'r trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau eu bod yn ystyried y tymor hir, yr angen am ddull gweithredu integredig, cydweithio ag eraill, cynnwys pobl a chymryd camau ataliol wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant. Felly byddai modd i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried materion megis a yw'r corff yn gallu dangos bod ganddo systemau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle, ac a ydynt yn cael eu defnyddio – hynny yw a yw'r dulliau llywodraethu yn cael eu dilyn wrth i gorff wneud penderfyniadau am osod amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i'w cyflawni.
148. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad o bob un o'r cyrff penodol o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod adrodd o 5 mlynedd, ond gall hefyd gynnal archwiliadau dilynol os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd gyflwyno adroddiad ar ganlyniad ei archwiliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

#### **7.4 Adroddiadau blynyddol**

149. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gyflwyno adroddiad, mewn perthynas â phob blynyddyn ariannol, ynghylch eu cynnydd wrth gyflawni eu hamcanion llesiant ac felly eu cyfraniad i'r gwaith o gyflawni'r nodau llesiant.
150. Amcan adroddiadau blynyddol yw cael cyrff cyhoeddus i fod yn fwy tryloyw ac yn atebol o ran eu cyfraniad at y nodau llesiant a'r gwelliannau o ganlyniad i lesiant Cymru neu'r ardal leol.

151. Fel rhan o'r broses o greu adroddiad blynyddol, rhaid i gyrff cyhoeddus adolygu eu hamcanion er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus ddiwygio amcan os bydd yr adolygiad yn dangos ei fod:
- bellach yn aneffeithiol - nid yw'r amcan yn cyflawni'r gwelliant disgwylidig mewn perthynas â'r nodau; neu
  - bellach yn amherthnasol - bod diwygiad wedi bod i'r nod(au) perthnasol i'r amcan neu fod yr her/problem y mae'r amcan yn rhoi sylw iddi wedi newid.
152. Pan fo'r adolygiad yn arwain at ddiwygio unrhyw amcanion bydd gofyn i gyrff cyhoeddus roi manylion am y newid a'r rhesymau drosto yn yr adroddiad blynyddol.
153. Bwriedir i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r darpariaethau adrodd blynyddol drwy eu trefniadau adrodd presennol yn hytrach na fframwaith adroddiadau penodol ychwanegol.

## 7.5 Cynghorau Cymuned

154. Penderfynwyd ei bod yn briodol gwneud cynghorau tref a chymuned yn ddarostyngedig i'r Bil, ar sail y meini prawf a nodir yn adran 5 o'r bennod hon. Mae cynghorau cymuned unigol, fodd bynnag, yn amrywio'n fawr o ran maint. Felly ystyrir y byddai'n fwyaf priodol cymhwyso darpariaethau'r Bil i'r cynghorau cymuned sydd fwyaf tebygol o fod â'r gallu a'r adnoddau i roi'r darpariaethau hynny ar waith.
155. Mae'r Bil yn defnyddio dull gweithredu sydd wedi'i seilio ar drothwy ariannol. Dim ond cynghorau cymuned sydd ag incwm neu wariant o £200,000 neu fwy dros y tair blynedd cyn cyhoeddi'r cynllun llesiant lleol ar gyfer eu hardal sy'n gorfod cadw at ddarpariaethau'r Bil.
156. Yn unol â'r ymrwymiad i sicrhau cyn lleied â phosib o faich gweinyddol o ganlyniad i'r Bil, nid yw cynghorau cymuned yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy mewn perthynas â gosod amcanion a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn hytrach, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned penodol gyfrannu at yr amcanion sy'n rhan o gynllun llesiant lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer yr ardal (gweler adran 9 y bennod hon am ragor o fanylion am y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).
157. Mae gofyn i gynghorau cymuned baratoi adroddiad bob blwyddyn ariannol ar eu cyfraniad at gyflawni amcanion y cynllun llesiant lleol.
158. Bwriad yr adroddiad blynyddol yw gwneud cynghorau cymuned yn fwy tryloyw ac atebol o safbwynt eu cyfraniad at gynlluniau llesiant lleol a'r gwelliannau yn sgil hynny at lesiant eu hardal.

## 7.6 Canllawiau

159. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ynghylch darpariaethau'r Bil yn ymwneud â:

- darparu fframwaith datblygu cynaliadwy i Gymru
- sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy yng nghyrrff cyhoeddus Cymru

160. Bydd dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i ystyried y canllawiau hyn wrth gydymffurfio â darpariaethau'r Bil.
161. Bydd y canllawiau yn darparu arf hanfodol ar gyfer sicrhau bod gan gyrrff cyhoeddus y cymorth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i roi darpariaethau'r Bil ar waith mewn ffordd ystyriol, gadarn a chyson.

## 8. Cefnogi'r newid a hyrwyddo buddiannau cenedlaethau'r dyfodol

162. Mae'n debygol y bydd gofyn i gyrff cyhoeddus Cymru addasu neu wella eu diwylliant a'u harferion gweithio er mwyn rhoi darpariaethau'r Bil ar waith. Er y bydd Llywodraeth Cymru'n cynorthwyo gyda'r newid hwn, er enghraifft drwy ganllawiau statudol, cydnabyddir bod angen cymorth o ffynhonnell annibynnol er mwyn helpu i hyrwyddo arfer da a pherfformiad.
163. Mae'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan y Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy anstatudol a Cynnal Cymru mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy wedi dangos bod angen i'r swyddogaeth hon barhau er mwyn medru cefnogi darpariaethau'r Bil mewn ffordd effeithiol. Bydd Comisiynydd annibynnol statudol felly yn sicrhau bod cymorth ac arweiniad o safon uchel ar gael i symud ymlaen gyda'r newidiadau sy'n dod o ganlyniad i'r Bil.

### 8.1 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

164. Mae'r Bil yn sefydlu comisiynydd annibynnol; 'Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru' ('y Comisiynydd'). Bydd y Comisiynydd yn unigolyn sy'n cael ei benodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â phenodi'r Comisiynydd a phennu telerau ac amodau swydd y Comisiynydd.
165. Prif ddiben y Comisiynydd fydd hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac i fonitro ac asesu a yw'r amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus wedi'u cyflawni. Bydd dyletswydd ar y Comisiynydd i:
- (a) Hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn arbennig:
- gweithredu fel ceidwad ar ran gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion; ac
  - annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effeithiau eu gweithredoedd yn y tymor hir.
- (b) Ac i'r perwyl hwnnw, monitro ac asesu i ba raddau mae amcanion llesiant sy'n cael eu gosod gan gyrff cyhoeddus Cymru'n cael eu cyflawni.
166. Er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hyn, gall y Comisiynydd roi cyngor a chymorth i'r canlynol:
- cyrff cyhoeddus (sy'n cynnwys darparu cyngor ar y newid yn yr hinsawdd);
  - Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o ran paratoi eu cynlluniau llesiant lleol;
  - Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy; neu
  - unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd yn ystyried sy'n cymryd camau i geisio cyflawni'r nodau llesiant.
167. Bwriedir i'r Comisiynydd gynnig cyngor a'r cymorth sy'n cynnwys:

- annog arfer da ymysg cyrff cyhoeddus wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- annog cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus.

## 8.2 Pŵer i gynnal adolygiadau a gwneud argymhellion

168. Mae'r Bil yn darparu pŵer i'r Comisiynydd gynnal adolygiadau i weld sut mae cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith tymor hir eu gwaith dan y ddyletswydd llesiant. Fel rhan o'r adolygiad, bydd y Comisiynydd yn gallu edrych ar y canlynol:
- y camau mae'r corff cyhoeddus wedi'u cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant;
  - i ba raddau mae'r corff yn cyflawni ei amcanion llesiant;
  - a yw'r corff wedi gosod amcanion llesiant ac wedi cymryd camau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, neu a yw'n bwriadu gwneud hynny.
169. Wrth gynnal adolygiad, bydd gan y Comisiynydd hefyd y pŵer i wneud argymhellion i:
- Weinidogion Cymru, o ran y nodau llesiant a'r dangosyddion cenedlaethol;
  - cyrff cyhoeddus ynghylch y camau a gymerwyd neu'r camau y bwriedir eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant;
  - cyrff cyhoeddus ynghylch sut i osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
170. I gynorthwyo'r Comisiynydd wrth gynnal yr adolygiad, bydd ganddo'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddarparu unrhyw wybodaeth mae'r Comisiynydd yn teimlo sy'n berthnasol i'r adolygiad (yn amodol ar gyfyngiadau deddfwriaethol eraill neu reol y gyfraith).
171. Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw adolygiad ac anfon copi at Weinidogion Cymru. Rhaid i gorff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i argymhelliad yn dilyn adolygiad hefyd gyhoeddi ei ymateb i'r argymhelliad.
172. Rhaid i gorff cyhoeddus ddilyn y camau gweithredu sydd wedi'u gosod yn yr argymhellion sy'n cael eu cyhoeddi gan y Comisiynydd, oni bai bod y corff cyhoeddus:
- yn fodlon bod rheswm da dros beidio dilyn yr argymhelliad;
  - yn penderfynu ar ddull gwahanol o weithredu mewn perthynas â thestun trafod yr argymhelliad.



### 8.3 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

173. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi a chyhoeddi 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol' a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf 12 mis cyn etholiad Cynulliad.
174. Wedi'i anelu'n bennaf at y sector cyhoeddus yng Nghymru, prif ddiben Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol fydd helpu cyrff cyhoeddus i ddeall pa welliannau y dylid eu gwneud o ran gosod a chyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
175. Bydd yr adroddiad yn darparu asesiad ynghylch sut y dylai cyrff cyhoeddus ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion a rhoi mwy o ystyriaeth i effaith tymor hir eu gweithredoedd.
176. Cyn paratoi adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i'r Comisiynydd drafod gyda rhanddeiliaid, cymunedau, busnesau a dinasyddion ar draws Cymru. Ni chaniateir dechrau'r ymgysylltu hwnnw tan y bydd Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi'r adroddiad tueddiadau'r dyfodol, a rhaid i hynny ddigwydd o fewn 12 mis ar ôl dyddiad etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
177. Bwriad y gwaith ymgysylltu hwnnw yw darparu ffordd o ddylanwadu ar y drafodaeth gyhoeddus er mwyn gallu canolbwyntio ar yr heriau tymor hir y mae pobl Cymru'n uniaethu â nhw. Bydd yn ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth o'r materion tymor hir y gall cenedlaethau'r dyfodol eu hwynebu, a chynyddu'r sylfaen bresennol o dystiolaeth.
178. Bydd y Comisiynydd yn gyfrifol am ddadansoddi canfyddiadau'r ymgysylltu hwn er mwyn gwneud dadansoddiad ac asesiad rhesymegol o lesiant tymor hir tebygol cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

### 8.4 Adroddiad Blynyddol

179. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad, a gaiff ei roi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhoi crynodeb o'i raglen waith ar gyfer y flwyddyn honno, gan gynnwys dadansoddiad o effeithiolrwydd y gwaith, a'r camau a gymerwyd gan y Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau, ynghyd â manylion ynghylch ei raglen waith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.
180. Gall yr adroddiad blynyddol hwn hefyd gynnwys asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a chyflawni eu hamcanion llesiant mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

### 8.5 Panel Cyngori

181. Bydd y Comisiynydd yn cael cymorth panel cyngori ('y panel'). Diben y panel fydd darparu cyngor a chymorth i'r Comisiynydd wrth gyflawni ei swyddogaethau.

182. Mae'r panel yn cynnwys aelodau craidd, sef:

- Comisiynydd y Gymraeg;
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn;
- Y Comisiynydd Plant;
- Prif Swyddog Meddygol Cymru;
- Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru neu unrhyw aelodau anweithredol eraill o'r corff hwnnw sy'n cael eu dewis gan y cadeirydd;
- Cynrychiolydd ar ran TUC Cymru, wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru;
- Cynrychiolydd ar ran y sector busnes yng Nghymru, wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru.

183. Nid yw dod yn aelodau o'r panel yn effeithio ar eu swyddogaethau statudol eraill.

184. Yn ogystal â'r aelodau craidd, gallai'r panel gynnwys hefyd aelodau ychwanegol sy'n cael eu penodi gan Weinidogion Cymru ('aelodau penodedig'). Bydd aelodau penodedig yn cael eu penodi am gyfnod rhwng 3 a 5 mlynedd, ac mae modd eu hailbenodi unwaith.

185. Bydd yr aelodau penodedig yn cael eu penodi yn unol â'r broses benodiadau gyhoeddus. Os bydd Gweinidogion Cymru'n dymuno penodi person i'r panel, rhaid ymgynghori gyda'r Comisiynydd cyn gwneud hynny.

## **8.6 Staff a'r Dirprwy Gomisiynydd**

186. Gall y Comisiynydd benodi staff i weithredu swyddogaethau'r Comisiynydd, a rhaid i un ohonynt fod yn Ddirprwy Gomisiynydd. Gall y Dirprwy Gomisiynydd arddel swyddogaethau'r Comisiynydd os yw'r swydd honno'n wag neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad oes modd i'r Comisiynydd weithredu ei swyddogaethau.

## 9. Cynllunio cymunedol integredig

187. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod pob un o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi cynhyrchu eu cynlluniau integredig sengl cyntaf, yn unol â'r cyngor a osodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru yn 2012, *Cydamcanu – Cydymdrechu*. Fodd bynnag, tra bod Byrddau Gwasanaethau Lleol yn parhau i fod yn bartneriaethau gwirfoddol bydd yn amhosibl sicrhau dull cyson o weithio ar draws Cymru mewn perthynas â'r defnydd o dystiolaeth, gosod blaenoriaethau, cysylltiad â dinasyddion ac atebolrwydd o ran cynllunio gwasanaethau lleol.
188. O ran cynllunio cymunedol, pwrpas craidd y Bil yw gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol i ymgymryd â chynllunio cymunedol integredig er mwyn hyrwyddo a gwella llesiant y bobl, y cymunedau a'r ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu ganddynt. Bydd hyn yn digwydd o fewn fframwaith nodau a dangosyddion cenedlaethol ac yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
189. Bydd y Bil hefyd yn diffinio'r dull o gyflawni'r ddyletswydd gynllunio hon; sef drwy sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, cynnal asesiad o lesiant lleol a pharatoi cynlluniau llesiant lleol. Mae'r ddyletswydd gynllunio'n effeithio ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau tân ac achub a Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhinwedd eu haelodaeth o Fyrddau Gwasanaethau Lleol.
190. Yr effaith y bwriedir i'r ddyletswydd gynllunio hon ei chael yw mwy o eglurdeb o ran trefn, cwmpas a phwrpas gwaith partneriaeth ac, o fewn y fframwaith hwn, mwy o ryddid i aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus reoli gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd yn effeithiol. Bydd y Bil hefyd yn cael yr effaith o symleiddio gwaith partneriaeth drwy ddiddymu nifer o ddyletswyddau o ran cynhyrchu cynlluniau a strategaethau.
191. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn ei ardal (gweler adran 6.3 y bennod hon). Rhyngddynt, bydd y nodau llesiant yn galluogi'r Byrddau Gwasanaethau Lleol i ddeall beth sydd angen iddynt ei gyflawni i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir eu hardal
192. Drwy osod cynllunio cymunedol integredig o fewn cyd-destun cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant, bydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu rhoi sylw i holl elfennau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir pobl a chymunedau'r ardal. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â diffyg dimensiwn amgylcheddol mewn nifer o gynlluniau integredig sengl sydd eisoes yn bodoli.
193. Ar hyn o bryd, mae llawer o amrywiaeth yn y ffordd mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio fel sylfaen i benderfyniadau lleol. Bydd deddfu i'w gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant eu hardaloedd yn helpu i sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd fwy systematig, fel bod penderfyniadau ynghylch polisi a dyrannu adnoddau yn cael eu seilio ar ddealltwriaeth fwy aeddfed o anghenion lleol, gan gynnwys tueddiadau tymor hir. Bydd hyn yn ffordd o sicrhau bod y dull o ddarparu gwasanaethau yn ystyried y

dystiolaeth orau ynghylch yr hyn sy'n llwyddiannus. Rhaid i leisiau pobl a chymunedau fod yn rhan ganolog o'r sylfaen hon o dystiolaeth.

194. Ar hyn o bryd, gwan iawn yn aml yw datblygiad y cysylltiadau rhwng cynllunio ar y cyd a darparu gwasanaethau. Ystyrir bod modd i ddeddfwriaeth osod mwy o bwyslais ar gydweithio i ddarparu gwasanaethau. Bydd aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn arfer swyddogaethau'r Bwrdd ar y cyd a bydd gofyn iddynt osod yn eu cynllun llesiant y camau y maent yn eu cymryd, fel unigolion ac ar y cyd i gyflawni amcanion y Bwrdd i wella llesiant lleol.
195. Mae aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn gyrff cyhoeddus, at bwrpas y Bil, ac fe fydd modd iddynt ddefnyddio'r cynllun llesiant fel ffordd o gyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy (gweler adran 7 y bennod hon). Bwriad hyn yw lleihau unrhyw gymhlethdod ymddangosiadol, a chryfhau'r cysylltiad rhwng yr amcanion yn y cynllun llesiant lleol ac amcanion corfforaethol aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
196. Bydd hyn yn golygu bod gan bob rhan o Gymru gynllun sengl, yn lle amrywiol gynlluniau gwahanol, sy'n disgrifio amodau llesiant presennol yr ardal, amcanion lleol ar gyfer gwella cyflwr llesiant, a'r camau y bydd aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion lleol hynny.

## 9.1 Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

197. Er mwyn sicrhau bod cynlluniau llesiant lleol yn cael eu paratoi, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu bwrdd, a elwir yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ardal pob un o'r prif awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y byrddau hyn yn cael eu sefydlu'n ffurfiol ar ôl etholiadau llywodraeth leol, ac fe fydd amserlen y cynlluniau ynghlwm â'r cylch democrataidd lleol.
198. Ni fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn endid corfforaethol, ond bydd ganddo bwerau a dyletswyddau yn sgil y Bil; bydd y pwerau a'r dyletswyddau hynny yn swyddogaethau i bob aelod o'r bwrdd eu gweithredu ar y cyd â'r aelodau eraill yn unig. Bydd aelodau'r Bwrdd yn cynnwys aelodau statudol: gwahoddedigion statudol (a elwir yn 'gyfranogwyr gwahoddedig') a fydd yn cael eu gwahodd i gyfrannu yn nhreffodaethau'r bwrdd, ond ni fyddant yn aelodau ohono. Bydd gan gyfranogwyr gwahoddedig sy'n derbyn gwahoddiad gan y Bwrdd yr hawl i gysylltu â'r Bwrdd, cymryd rhan yn ei gyfarfodydd a rhoi cyngor a chymorth. Y rheswm pam nad ydynt yn aelodau yw y byddai bod yn aelod o'r Bwrdd yn golygu bod y dyletswyddau a roddir gan y Bil yn cael eu rhoi ar gyrff nad yw'n bosibl nac yn ddymunol rhoi'r dyletswyddau hynny arnynt.
199. Bydd gan y Bwrdd bwerau hefyd i wahodd unigolion neu gyrff eraill i gymryd rhan yn ei weithgareddau fel y gwêl yn dda, cyn belled â'u bod yn arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur.
200. Bydd aelodau statudol pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys y prif wasanaethau cyhoeddus datganoledig mewn ardal, sef:

- Yr Awdurdod Lleol, a fydd hefyd yn gyfrifol am gynnull y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a hwyluso'i waith drwy gyflawni swyddogaeth ysgrifenyddiaeth, cyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau ar y wefan ac ati;
  - Bwrdd Iechyd Lleol yr ardal;
  - Awdurdod Tân ac Achub yr ardal;
  - Cyfoeth Naturiol Cymru.
201. O ystyried eu swyddogaethau a'u gweithgareddau yn yr ardaloedd a wasanaethant, mae'r rheswm dros gynnwys yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol fel aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eithaf hunanesboniadol.
202. Yn yr un modd, mae awdurdodau tân ac achub yn chwarae rhan bwysig o ran gwella llesiant cyffredinol cymunedau trwy gynnal gweithgareddau fel gwneud cymunedau'n fwy diogel, lleihau tanau bwriadol a thanau gweunydd a delio â damweiniau ar y ffordd a digwyddiadau mawr. Am y rheswm hwnnw, os ydy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am allu gwella llesiant yr ardal, rhaid i awdurdodau tân ac achub fod yn aelodau statudol ohono.
203. Yr aelod statudol arall yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o sylw sydd i'r amgylchedd mewn cynlluniau integredig sengl, os o gwbl. I raddau mae hyn i'w ddisgwyl gan fod cynlluniau defnydd tir lleol (cynlluniau datblygu lleol) yn cwmpasu nifer o'r materion seilwaith 'caled' a defnydd tir yn ymwneud â'r amgylchedd. Yn gynyddol, fodd bynnag, mae'r amgylchedd yn cael ei ddehongli yn nhermau'r 'gwasanaethau ecosystem' y mae'n eu darparu i gymdeithas.
204. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull gweithredu 'Rheoli Adnoddau Naturiol' sy'n ffordd o reoli adnoddau naturiol yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd â'r polisi hwn yn ei flaen ac fe fydd y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd yn darparu cymorth deddfwriaethol pellach. Bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn aelod statudol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cryfhau agweddau amgylcheddol y cynllun llesiant ac yn eu hintegreiddio ag amcanion cymdeithasol ac economaidd. Bydd hefyd yn helpu i greu cysylltiad agosach rhwng cynlluniau llesiant lleol a chynlluniau datblygu lleol.
205. 'Cyfranogwyr gwahoddedig' yw'r cyrff y byddai'n ddymunol cael eu presenoldeb ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond na fyddai'n briodol neu'n bosibl efallai gosod dyletswyddau arnynt. Enwir pump corff yn y Bil: Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstablaid, darparwyr gwasanaethau prawf, cyrff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol (Trydydd Sector) a Gweinidogion Cymru.
206. Mae swyddogaethau sylweddol gan yr heddlu (Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl yr heddlu perthnasol) a'r gwasanaethau prawf wrth wella llesiant cyffredinol cymunedau. Mae swyddogaeth hanfodol gan y cyrff hyn wrth edrych ar feysydd fel atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfiawnder ieuencid, camddefnyddio cyffuriau a sylweddau, ofn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus gyda'r nos, ardaloedd 'galw diwahoddiad' a rheoli digwyddiadau cyhoeddus mawr.
207. O ganlyniad, er mwyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus allu gwella llesiant ei ardal, credir bod angen i'r awdurdodau hyn gymryd rhan ynddo. Fodd bynnag, gan

nad ydynt ar y cyfan yn wasanaethau datganoledig, mae'n anodd gosod dyletswydd statudol arnynt i fod yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Statws cyfranogwyr gwahoddedig fydd ganddynt felly.

#### *Y Trydydd Sector.*

208. Caiff gwahoddiad ei roi i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol. Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn sefydliadau sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynrychioli'r trydydd sector mewn ardal. Maent yn elusennau cofrestredig ac yn gweithio gydag amrywiol gyrff a grwpiau sy'n rhan o'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'r gyrff trydydd sector hyn yn aml yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus craidd, a hefyd yn ffynonellau pwysig o wybodaeth leol, gan eu bod yn aml yn agos at grwpiau o bobl agored i niwed, cymunedau difreintiedig a grwpiau y mae gwasanaethau cyhoeddus prif ffrwd yn ei chael yn anodd cyrraedd atynt.
209. O ganlyniad, mae'n bwysig gwranddo ar eu sylwadau wrth wneud penderfyniadau am y camau i'w cymryd i geisio gwella llesiant cymunedau. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gosod dyletswydd statudol ar Gyngor Gwirfoddol Sirol i fod yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, felly statws cyfranogwr gwahoddedig fydd ganddo.

#### *Gweinidogion Cymru*

210. Y polisi ers y cychwyn yw y dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol gynnwys uwch was sifil o Lywodraeth Cymru i gynrychioli Gweinidogion Cymru. Roedd prosectws 2007, *Creu'r Cysylltiadau – Byrddau gwasanaethau lleol yng Nghymru* yn disgrifio swyddogaeth arfaethedig swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar y pryd) fel a ganlyn:
- bod yn ddarparwr gwybodaeth dwy ffordd bwriadus rhwng y Bwrdd a Llywodraeth y Cynulliad – yn cyfathrebu polisiâu a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ac yn deall effaith y polisiâu a'r blaenoriaethau yn Lleol;
  - rhoi adborth i Lywodraeth y Cynulliad ar faterion a blaenoriaethau lleol a'r camau gweithredu sydd eu hangen i hwyluso'r gwaith o ddatrys problemau yn lleol a helpu i wella gwasanaethau lleol;
  - rhoi cyfeiriad pendant ar faterion penodol ar ran Llywodraeth y Cynulliad a hysbysu'r Bwrdd am broffil perfformiad lleol a fydd wedi'i goladu gan Berfformiad Cymru;
  - nodi ffyrdd o leihau biwrocratiaeth ganolog a rhwystrau eraill i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lleol mewn ffordd ymatebol ac arloesol;
  - cyfrannu at ddatrys problemau yn lleol, gwneud gwaith cymodi yn ôl y gofyn, yn enwedig rhwng sectorau;
  - datrys blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a godir yn sgil fframweithiau perfformiad gwahanol neu densiynau eraill;

- cyfathrebu arferion da o lefydd eraill – gan gynnwys Byrddau eraill;

211. Mae hyn yn parhau i fod yn ddisgrifiad da o'r berthynas y mae Llywodraeth Cymru am ei gweld rhyngddi ei hun ac aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, drwy fecanwaith y Byrddau hynny.
212. Drwy roi sail statudol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi canllawiau a chyfarwyddyd mewn perthynas â chyfansoddiad a gwaith y Bwrdd, mae perygl i bobl deimlo bod gwrthdaro buddiannau posibl pe bai Gweinidogion Cymru hefyd yn aelodau. Am y rheswm hwn, rhoddir statws cyfranogwr gwahoddedig iddynt.

### *Partneriaid eraill*

213. Mater i bob Bwrdd unigol fydd penderfynu pa gyrff eraill y carai eu gwahodd i gymryd rhan. Yr unig amod yw eu bod yn arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur. Er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i baratoi cynllun llesiant, gall y Bwrdd ofyn i'r cyfranogwyr gwahoddedig a phartneriaid eraill ddarparu gwybodaeth am eu gweithgarwch sy'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.
214. Bydd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu eu swyddogaethau ar y cyd. Mae Atodlen 3 y Bil yn esbonio'r fecanwaith ar gyfer gweithredu fel Bwrdd. Mae Atodlen 3 yn rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus benderfynu sut i weithredu, gyda dau eithriad pendant sy'n codi o'r ffaith bod yr aelodau yn gweithredu ar y cyd. Rhaid i bob un o'r pedwar aelod fod yn bresennol er mwyn cael cworwm i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel arall byddai rhai aelodau'n gwneud penderfyniadau pwysig gan glymu aelod absennol i weithredu mewn ffordd na fyddai wedi cytuno iddo. Gall aelodau ddirprwyo, felly ni ddylai hyn amharu ar eu gallu i weithredu'n effeithiol. Am yr un rheswm, mae rhai cyfyngiadau lle nad oes modd dirprwyo materion i is-grwpiau sy'n cael eu ffurfio gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, megis cymeradwyo cynlluniau llesiant. Dyma faterion sy'n gofyn am weithredu ar y cyd gan bob un o'r aelodau, felly rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei hun wneud y penderfyniad.
215. Bydd dyletswydd ar bob aelod statudol i gymryd rhan yn y broses cynllunio integredig ar gyfer yr ardal er mwyn cynhyrchu cynllun llesiant lleol. Yr aelodau fydd yn gyfrifol am roi'r cynllun ar waith ac am ei gyflawni. Hefyd, bydd gofyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymwneud a thrafod gyda'i bartneriaid cynllunio penodol (y 'partneriaid eraill' fel y'u gelwir yn y Bil) wrth baratoi, gweithredu a chyflawni'r cynllun llesiant lleol.
216. Mae partneriaid eraill yn cynnwys sefydliadau fel cyngorau cymuned, cyngorau iechyd cymunedol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, colegau, prifysgolion, a chyrrff diwylliant a threftadaeth sydd â diddordeb perthnasol yn llesiant yr ardal neu sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig. Gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wahodd unrhyw rai o'r partneriaid hyn i gymryd rhan lawnach yn ei weithgareddau fel cyfranogwr gwahoddedig. Yn olaf, mae'r ffaith bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio ar y dinesydd yn golygu y bydd ganddynt berthynas bwrpasol gyda'r bobl a'r cymunedau yn yr ardal, gan gynnwys

plant a phobl ifanc a'r rhai â nodweddion gwarchoddedig, ym mhob agwedd o'u gwaith.

## 9.2 Asesiad o lesiant lleol

217. Cyn paratoi cynllun llesiant lleol, bydd gofyn i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant lleol. Bwriedir i'r asesiad hwn ddarparu darlun clir o'r amodau llesiant presennol a thebygol yn y dyfodol ar gyfer pobl yr ardal. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth fanwl o'r anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth a rhwng gwahanol gymunedau o fewn yr ardal leol, wedi'i fesur yn erbyn meincnodau priodol yng Nghymru, y DU a thu hwnt. Yna bydd hyn yn rhoi prif sylfaen o dystiolaeth y bydd aelodau'r Bwrdd yn ei defnyddio.
218. Wrth ddadansoddi'r dystiolaeth leol, bydd gofyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddarparu dadansoddiad ar gyfer cymunedau lleol yr ardal. Yn y cyddestun hwn, ystyr 'cymunedau' yw ardaloedd o fewn awdurdod lleol sy'n ddigon mawr i fedru gweld gwahaniaethau rhyngddynt ac sydd â synnwyr o hunaniaeth, ond heb fod mor fach â wardiau etholiadol. Gwelir amrywiaeth sylweddol rhwng cymunedau ym mhob ardal awdurdod lleol, ac mae'n bwysig cydnabod hyn a rhoi sylw iddo. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu'r cymunedau mewn ardal. Os nad yw Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o'r fath, gall y Bwrdd bennu cymunedau yn ei ardal.
219. Wrth ddiffinio cymunedau'r ardal, dylai'r Bwrdd geisio bod mor gyson ag sy'n bosibl i alinio ei ddiffiniad o ardaloedd cymunedol â'r rhwydweithiau cymunedol sydd eisoes yn bod, fel rhai'r awdurdod lleol, yr heddlu a'r bwrdd iechyd, yn ogystal â chlystyrau o gynghorau cymuned.
220. Mae gofyn i awdurdodau lleol a'u partneriaid gynnal nifer o asesiadau statudol at amrywiaeth o ddibenion. Ceir ynddynt wybodaeth bwysig iawn am anghenion grwpiau penodol, megis plant a theuluoedd, gofawyr a'r rheini y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt. Rhaid eu hystyried wrth asesu llesiant lleol rhag colli gwybodaeth bwysig a gesglir at ddibenion eraill. Mae'n fwiad hefyd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried a oes ffyrdd fwy effeithiol o gasglu, defnyddio a rhannu'r asesiadau hyn, er mwyn osgoi dyblygu ac i ddarparu gwasanaethau gwell.
221. Gall asesiad o lesiant lleol gynnwys dadansoddiad o gategoriâu penodol o bobl, megis pobl sy'n agored i niwed neu'n ddifreintiedig, pobl â nodweddion gwarchoddedig cyffredin dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, plant, y rhai sydd angen neu'n darparu gofal a chymorth a phobl sy'n rhannu unrhyw nodwedd gyffredin arall y mae'r bwrdd yn ei ystyried yn briodol.
222. Rhaid i'r asesiad o lesiant lleol adlewyrchu'r dangosyddion cenedlaethol sy'n cael eu gosod gan Weinidogion Cymru dan Ran 2 o'r Bil, gan sicrhau cysylltiad cryf rhwng Rhan 2 a Rhan 4 y Bil. Gall yr asesiad o'r anghenion hefyd ddefnyddio dangosyddion eraill y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol, yn ogystal ag ymchwil cymdeithasol perthnasol ac enghreifftiau o arfer da o fannau eraill er mwyn gweld pa gamau y dylai aelodau'r Bwrdd eu cymryd i wella llesiant.



### 9.3 Y cynllun llesiant

223. Bydd y Bil yn ffurfioli ac yn cadarnhau'r sefyllfa bresennol ynghylch cynllunio cymunedol integredig.
224. Bydd cynllunio cymunedol integredig yn cwmpasu'r ystod lawn o lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. O ganlyniad, cynlluniau llesiant yw un o'r prif ffyrdd i'r cyrff dan sylw ddangos eu bod wedi cyflawni gwelliannau tymor hir i lesiant yn eu hardal, a rhoi tystiolaeth o'r ffordd y maent wedi gwneud eu dyletswydd datblygu cynaliadwy (gweler adran 6 y bennod hon).
225. Felly bydd cynlluniau llesiant yn cynnwys amrywiol ddyletswyddau cynllunio mwy penodol o ddeddfwriaeth arall. Mae'r rhain wedi'u gosod yn Atodlen 4 y Bil, ac yn cynnwys:
- strategaethau cymunedol – Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 2: adran 37-46);
  - Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys cynlluniau gofynnol dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (adran 2) a'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Rhan 1) – Deddf Plant 2004 (Rhan 3: adran 26);
  - Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Rhan 3: adran 40);
226. Bydd y gofyniad am gynllun plant a phobl ifanc ar wahân yn cael ei ddiddymu, ond bydd y prif ddyletswyddau yn adran 25 Deddf Plant 2004, yn ogystal â rhannau perthnasol Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mewn perthynas â thlodi plant) a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn parhau i fod mewn grym, ac yn cael eu cyflawni drwy'r cynllun llesiant lleol.
227. Bydd diddymu adran 40 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn golygu na fydd gofyniad ar wahân bellach ar gyfer strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Bwriedir i'r Bil cyfan, gan gynnwys y darpariaethau yn Rhan 4, weithredu dull 'iechyd ym mhob polisi', fel y gwelir yn yr adran ar integreiddio yn adran 7.3 o'r bennod hon.
228. Hefyd, bydd y Bil yn galluogi nifer o brosesau asesu statudol i gael eu cynnwys. Yn eu plith:
- adolygiadau o ddigonedd darpariaeth addysg feithrin ar gyfer ardal awdurdod lleol dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (adran 119(5)(a));
  - asesiadau o ddigonedd darpariaeth gofal plant yn yr ardal awdurdod lleol a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Gofal Plant 2006 (adran 26(1));
  - asesiadau o ddigonedd cyfleoedd i chwarae yn yr ardal awdurdod lleol a gynhaliwyd dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (adran 11(1));

- asesiadau a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (adran 14);
  - asesiadau a baratowyd yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (adran 6) mewn perthynas â lleihau trosedd ac anhrefn, herio camddefnyddio sylweddau a lleihau cyfraddau aildroseddu mewn ardal awdurdod lleol.
229. Bwriedir i gynlluniau llesiant ddarparu dull gweithredu holistig, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
230. Bydd y cynllun llesiant yn gosod amcanion a champau gweithredu lleol a fydd yn:
- cyfrannu at wella llesiant Cymru, drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal yn y tymor hir;
  - cyfrannu at leihau anghyfiawnder drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol unigolion, grwpiau neu gymunedau difreintiedig neu fregus;
  - cyfrannu at atal niwed tymor hir i les cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal.
231. Wrth lunio cynlluniau llesiant lleol, rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ofyn am gyngor Comisiynydd statudol Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a sefydlwyd o dan Ran 3 y Bil (gweler adran 8 y bennod hon), ynghylch sut i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion lleol mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 7.3 y bennod hon). Rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol diweddaraf y Comisiynydd dan adran 21 wrth osod amcanion llesiant. Hefyd rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyn cyhoeddi cynllun llesiant lleol.
232. Cydnabyddir nad tasg hawdd fydd ceisio cyflawni'r amcanion lleol sydd yn y cynllun llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Swyddogaeth y Comisiynydd yw darparu cyngor ynghylch ffyrdd o wneud hyn, gan ddefnyddio'i ddealltwriaeth o arfer da. Swyddogaeth gefnogol ac adeiladol fydd gan y Comisiynydd felly, yn gweithredu fel cyfaill beirniadol.
233. Bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i osod mesurau perfformiad (dangosyddion a safonau) mewn perthynas â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ar ôl ymgynghori gyda'r rhai sy'n cael eu heffeithio. Bydd hyn yn helpu i fesur effeithiolrwydd y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan aelodau'r Bwrdd i gyfrannu at wella llesiant lleol. Yn gyffredinol, disgwylir i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus greu eu systemau rheoli perfformiad eu hunain, ond mewn achos pan fo'r cynnydd yn wael neu'n anghyson, byddai'n briodol i Weinidogion Cymru osod mesurau er mwyn i bwyllgor trosolwg a chraffu yr awdurdod lleol weithredu'n fwy effeithiol fel ffordd o wella (gweler adran 9.5 o'r ddogfen hon).
234. Bydd gofyn i'r cynghorau cymuned sy'n ddarostyngedig i'r Bil (gweler adran 7.5 uchod) baratoi adroddiad blynyddol yn dangos eu cyfraniad i gyflawni amcanion

cynlluniau llesiant lleol eu hardaloedd. Felly fe fydd yn bwysig i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drafod yn effeithiol gyda'r cynghorau cymuned perthnasol yn yr ardal wrth baratoi cynllun llesiant.

235. Bydd y cynlluniau llesiant yn cyfateb i gylch etholiadau llywodraeth leol, felly rhaid i'r cynllun llesiant fod yn ei le erbyn mis Ebrill ar ôl etholiad lleol, ac fe fydd ei rym yn dod i ben pan fydd y cynllun llesiant nesaf yn cael ei gynhyrchu. Ni fydd holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu ar sail cylch pum mlynedd. Cylch cynllunio tair blynedd sydd gan fyrddau iechyd lleol er enghraifft. Serch hynny, mae etholiadau llywodraeth leol yn nodi newid arwyddocaol a rhagweladwy yn nhrefniadau gweinyddol lleol a byddai'n gwneud synnwyr i gynlluniau cymunedol integredig ddilyn yr un cylch. Gan fod etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn digwydd y flwyddyn cyn etholiadau llywodraeth leol, bydd modd pennu blaenoriaethau cenedlaethol a chyhoeddi adroddiad llywodraeth Cymru ar dueddiadau'r dyfodol mewn da bryd iddynt allu dylanwadu ar gynlluniau llesiant lleol.
236. Ni fydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynlluniau llesiant. Eiddo i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r cynlluniau llesiant a byddant yn destun craffu lleol. Bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i gyfeirio'r cynllun at bwyllgor craffu perthnasol llywodraeth leol os yw'n cael ei ystyried yn annigonol; er enghraifft, yn sgil adroddiad anffafriol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

#### **9.4 Adroddiadau Blynyddol**

237. Bydd y cynnydd wrth gyflawni'r amcanion lleol sy'n cael eu gosod yn y cynllun llesiant yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a nodir hynt hynny mewn adroddiad blynyddol. Bydd y cyngor a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn datgan y disgwyl y caiff cynnydd ei fesur, gan gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol (gweler adran 6.4 y bennod hon) ac os ydynt wedi'u pennu, y mesurau perfformiad (gweler adran 8.5 y bennod hon). Bydd y dangosyddion cenedlaethol yn dangos newidiadau poblogaethol, er enghraifft, bod mwy o bobl ifanc o oed penodol wedi cyrraedd safon o lythrennedd. Bydd y mesur perfformiad yn dangos pa mor dda y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhoi ei gynllun ar waith, er enghraifft, i roi rhagor o help i bobl ifanc sydd heb gyrraedd y safonau llythrennedd.

#### **9.5 Atebolrwydd**

238. Yr unig ffordd y bydd cynllunio integredig lleol yn effeithiol yw os bydd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymryd cyfrifoldeb eu hunain i sicrhau gwelliant, gyda phrosesau democrataidd lleol yn rhoi her a chymorth priodol. Am y rheswm hwn, mae'r Bil yn rhoi cymharol ychydig o bwerau i Weinidogion Cymru ac yn dibynnu'n bennaf ar swyddogaeth craffu llywodraeth leol i sicrhau gwelliant parhaus.
239. Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd, bydd gofyn i bwyllgor craffu awdurdod lleol penodol graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys drafft y cynllun llesiant a'r adroddiad blynyddol. Fel arfer, mae gan awdurdodau lleol

nifer o bwyllgorau trosolwg a chraffu. Er y byddai'n gwbl ddilys i bwyllgor craffu pwnc (fel pwyllgor craffu plant a phobl ifanc) graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc, mae'n bwysig bod un pwyllgor yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fesur effeithlonrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dyma'r rheswm dros ddewis un pwyllgor i wneud y gwaith hwn.

240. Darperir tystiolaeth i'r pwyllgor dan sylw ar ffurf:

- asesiad o lesiant;
- drafft o'r cynllun llesiant; ac
- unrhyw adroddiadau blynyddol.

241. Hefyd, bydd y pwyllgor yn gallu defnyddio'r cyngor a roddir i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Bydd gan y pwyllgor y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Bwrdd roi tystiolaeth, ond ddim ond mewn perthynas â'r swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i'r Bwrdd dan y Bil hwn. Pan fo Gweinidogion Cymru'n ystyried nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud, mae ganddynt y pŵer i gyfeirio'r mater i'r pwyllgor craffu penodol, yn hytrach na'r pŵer i ymyrryd yn uniongyrchol.

## **Pennod 4: Ymgynghoriad**

242. Yn dilyn yr ymrwymiad i ddeddfu ar ddatblygu cynaliadwy, ymgynghorwyd gydag amrywiol randdeiliaid ynghylch yr opsiynau a'r cyfleoedd sy'n codi mewn perthynas â deddfu ar gyfer datblygu cynaliadwy ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Roedd hyn yn adeiladu ar y trafodaethau gyda rhanddeiliaid a gyfrannodd at lunio'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy diweddaraf yn 2009.

### Digwyddiad trafod ynghylch deddfu i sicrhau Cymru gynaliadwy

243. Cynhaliwyd digwyddiad trafod ym mis Rhagfyr 2011 er mwyn gweld pa fesurau deddfwriaethol yr oedd rhanddeiliaid yn eu hystyried yn briodol o ran natur:
- dyletswydd i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru a'n cyrff cyhoeddus datganoledig;
  - corff datblygu cynaliadwy annibynnol statudol i Gymru.
244. Rhannwyd dogfen gydag amrywiol randdeiliaid ar gyfer y digwyddiad, gan nodi'r gwahanol ddulliau gweithredu oedd dan ystyriaeth. Roedd y digwyddiad ar ffurf tair trafodaeth o amgylch y bwrdd, a'r testunau a drafodwyd oedd:
- Datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol;
  - Dyletswydd datblygu cynaliadwy;
  - Corff datblygu cynaliadwy newydd
245. Roedd y digwyddiad yn dangos bod cefnogaeth i'r cynnig i ddeddfu, er nad oedd consensws clir ynghylch pa ddull gweithredu penodol y dylid ei ddilyn.

### Ymgynghoriad ar Cydamcanu – Cydymdrechu – Ionawr 2012

246. Ym mis Ionawr 2012 cynhaliwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar y canllawiau drafft i awdurdodau lleol a'u partneriaid cynllunio, *Cydamcanu – Cydymdrechu*. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch egwyddor cynllunio integredig a swyddogaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Nid oedd cynllunio integredig a Byrddau Gwasanaethau Lleol yn drefniadau statudol pan ddatblygwyd y canllawiau hyn, felly nid oedd yr ymgynghoriad hwn yn edrych ar ddarpariaethau penodol y Bil. Fodd bynnag, defnyddiwyd y dull gweithredu sy'n cael ei gynnig yn y canllawiau fel sylfaen i ddatblygu cynigion polisi'r Bil.
247. Roedd yr ymgynghoriad yn dilyn cyfnod estynedig o drafod gyda phartneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ystod 2011, a oedd yn cynnwys nifer o weithdai rhanbarthol gydag aelodau Byrddau Gwasanaethau Lleol a phedwar gweithdy penodol i'r trydydd sector.
248. Daeth 72 ymateb i law gan amrywiol ymatebwyr:
- 25 (36%) gan Awdurdodau Lleol / Byrddau Gwasanaethau Lleol
  - 18 (26%) gan y trydydd sector

- 8 (12%) gan sefydliadau cynrychiadol, fel CLILC, CGGC, y Comisiynydd Plant
- 5 (7%) gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
- 5 (7%) gan gyrff Addysg Bellach
- 4 (6%) gan wasanaethau golau glas (heddlu a'r gwasanaeth tân)
- 3 (4%) gan gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio
- 1 (1%) gan aelod etholedig

249. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol tu hwnt o ran y defnydd o gynllunio integredig a Byrddau Gwasanaethau Lleol, ond codwyd nifer o faterion a gafodd sylw yn y canllawiau a gyhoeddwyd ac a ystyriwyd wrth ddatblygu'r polisi sy'n cyfrannu at ddarpariaethau'r Bil.

250. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ymatebion i'w gweld yma:

<http://wales.gov.uk/consultations/improving/shareddelivery/?skip=1&lang=cy>

*Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy - Mai 2012*

251. Lanswyd yr ymgynghoriad hwn ar 9 Mai 2012 am gyfnod o 10 wythnos, ac fe ddaeth i ben ar 18 Gorffennaf 2012. Yn ogystal â'r lansiad yn Abertawe, cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgynghori agored arall ym Mangor, Caerdydd, Doc Penfro a Wrecsam.

252. Roedd yr ymgynghoriad yn gosod cyfres o gynigion ar gyfer cryfhau a gwella'r dull gweithredu mewn perthynas â datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Roedd yn gofyn am sylwadau ynghylch amrywiol faterion gan gynnwys:

- y rhwystrau a'r cyfleoedd ar gyfer gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig sy'n edrych ar y tymor hir;
- penderfyniadau a ddylai ystyried ffactorau datblygu cynaliadwy, neu ymddygiadau datblygu cynaliadwy, neu gynnig datblygu cynaliadwy sengl (diffiniad);
- tryloywder drwy gyflwyno adroddiadau;
- pwrpas a swyddogaethau'r corff.

253. Cafwyd cyfanswm o 3,927 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, ac roedd dros 95% ohonynt (3,749) yn un o'r ddau ymateb safonol a anfonwyd gan y cyhoedd ar ran WWF (3,163 o ymatebion) ac Oxfam (586 o ymatebion).

254. Daeth yr 178 ymateb arall gan amrywiol ymatebwyr:
- 52 (29%) gan y Trydydd Sector/cyrff anllywodraethol
  - 37 (20%) gan Lywodraeth Leol, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned a gwasanaethau cyhoeddus dan reolaeth llywodraeth leol
  - 22 (12%) gan unigolion preifat
  - 20 (11%) gan y sector preifat a grwpiau'r diwydiant
255. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â manylion yr holl ymatebion yn:
- <http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopment/sdbill/?skip=1&lang=cy>
- Papur Gwyn: Cymru Gynaliadwy - Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell - Rhagfyr 2012*
256. Roedd y Papur Gwyn hwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid ynghylch amrywiol gynigion mewn perthynas â:
- dyletswydd newydd i sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i sefydliadau penodol yng Nghymru;
  - corff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy;
  - y cynnig i roi sail statudol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol a chynllunio integredig;
  - y bwriad i gyflwyno'r ddyletswydd yn raddol a'i gweithredu, gan gynnwys yr amserlen sydd ynghlwm â sefydlu'r corff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy;
  - gwella'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru.
257. Daeth cyfanswm o 473 o ymatebion i'r Papur Gwyn. Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r syniad i integreiddio datblygu cynaliadwy ymhellach.
258. Cafwyd cyfanswm o 473 o ymatebion ysgrifenedig i'r Papur Gwyn, ac roedd 67% ohonynt (319) yn un o'r ddau ymateb safonol a anfonwyd gan y cyhoedd ar ran Cymdeithas yr Iaith (177 o ymatebion) a Chyfeillion y Ddaear (142 o ymatebion).
259. Daeth yr 154 ymateb arall gan amrywiol ymatebwyr:
- 47 (10%) gan y trydydd sector
  - 54 (11%) gan Lywodraeth Leol, cynghorau tref a chymuned, asiantaethau'r Llywodraeth neu gyrff sector cyhoeddus eraill

- 28 (6%) gan gyrrff proffesiynol neu gymdeithasau neu gyrrff academiaidd
- 25 (5%) gan aelodau o'r cyhoedd neu fusnesau

260. Rhai o'r prif faterion a gododd o'r ymgynghoriad oedd:

- Gwelwyd angen i gyfathrebu'n well ynghylch yr hyn y byddai'r Bil yn ei gyflawni er mwyn helpu i feithrin cysylltiad ac amcan clir;
- Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn teimlo bod 'ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol' yn gymharol wan, ac y dylid gweld y ddyletswydd fel prif ddyletswydd gyffredinol, nid yn gyfartal â dyletswyddau eraill.
- Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi'r dull gweithredu a gynigiwyd ynghylch atebolrwydd, gan holi rhai cwestiynau ynghylch manylion gweithredu a swyddogaeth y corff datblygu cynaliadwy;
- Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn codi pryderon ynghylch y cynllun gweithredu ar gyfer y corff datblygu cynaliadwy newydd, gan y byddai angen rhagor o amser i ddatblygu'r systemau angenrheidiol.

261. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn, ynghyd â manylion yr holl ymatebion a ddaeth i law yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopment/sdwhitepaper/?skip=1&lang=cy>

Ymgynghoriad wedi'i dargedu ar gynigion i roi sail statudol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol a chynllunio cymunedol integredig – Ionawr 2013

262. Roedd Papur Gwyn y Bil Datblygu Cynaliadwy yn cynnwys amlinelliad o gynig i roi sail statudol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol a chynllunio cymunedol integredig.
263. Ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn, ysgrifennodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau at bob aelod o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ym mis Ionawr 2013 i ofyn am eu sylwadau ynghylch cynigion manylach.
264. Derbyniwyd tua 22 o ymatebion. Roedd dau yn gwrthwynebu'r cynigion, nifer fach yn gryf iawn o blaid, a'r gweddill yn gefnogol ond yn tynnu sylw at rai materion penodol.
265. Roedd crynodeb o'r ymatebion yn rhan o adroddiad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn (gweler uchod).

Grŵp Cyfeirio a Chynghori'r Bil

266. Ym mis Medi 2012 roedd y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, ar ran Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd, yn gyfrifol am alw grŵp cyfeirio o



randdeiliaid i roi cyngor ynghylch datblygiad yr hyn a enwyd ar y pryd yn Fil Datblygu Cynaliadwy.

267. Sefydlwyd y grŵp gyda'r nod cyffredinol o ddod â rhanddeiliaid pwysig ynghyd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Bil.
268. Cytunwyd ar brif amcanion y grŵp yn y cyfarfod cyntaf, sef:
- dod o hyd i gyngor arbenigol ar y cynigion newydd ar gyfer y Bil gan randdeiliaid pwysig;
  - casglu safbwyntiau cytbwys y rhanddeiliaid ynghylch materion polisi pwysig sy'n codi o'r broses datblygu polisi;
  - casglu cyngor ar feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach;
  - adnabod meysydd lle mae cytundeb neu anghytundeb o gyfeiriad prif randdeiliaid;
  - sicrhau cyfathrebu effeithiol ynghylch cynnydd y Bil gyda rhanddeiliaid pwysig.
269. Daw aelodau'r grŵp o amrywiol sefydliadau rhanddeiliaid gan gynnwys:
- |  |   |
|--|---|
| 1. Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig | 9. Un Llais Cymru                         |
| 2. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog          | 10. Cyngor Abertawe                       |
| 3. Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru  | 11. Swyddfa Archwilio Cymru               |
| 4. Cymdeithas y Tirfeddianwyr                    | 12. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru    |
| 5. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru              | 13. Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol |
| 6. Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru   | 14. WWF Cymru                             |
| 7. Cyfoeth Naturiol Cymru                        | 15. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru     |
| 8. Ysgol Addysg Casnewydd                        |   |

#### Y digwyddiad ymgysylltu cenedlaethol – Y Gymru a Garem

270. Lanswyd y digwyddiad ymgysylltu cenedlaethol – y Gymru a Garem – o dan arweiniad y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar 18 Chwefror 2014 yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd. Roedd 230 o bobl yn y digwyddiad gan gynnwys yr actor o Gymru a chefnogwr UNICEF UK, Michael Sheen.
271. Roedd yn trafod yn uniongyrchol gyda phobl Cymru am y materion pwysicaf iddynt o ran gwella'u bywydau eu hunain a bywydau eu teuluoedd, cymunedau a busnesau. Cafodd ei drefnu gan Cynnal Cymru ar ran y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a manteisiwyd ar gyfleoedd i drafod ar-lein a wyneb yn wyneb. Sefydlwyd sianeli cymdeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter i gasglu barn pobl Cymru a chynhaliwyd arolwg ar-lein i holi cwestiynau manylach am y Gymru a Garem yn y dyfodol.

272. Er nad oedd digwyddiad 'Y Gymru a Garem' yn ymgynghoriad ffurfiol ynghylch darpariaethau'r Bil, roedd yn gyfle i bobl a chymunedau Cymru gymryd rhan mewn sgwrs genedlaethol am lwybr datblygu ar gyfer Cymru, a dylanwadu ar y drafodaeth gyhoeddus ynghylch yr heriau tymor hir y mae pobl Cymru yn uniaethu â nhw. Dyma'r heriau tymor hir y mae'r nodau llesiant, y darperir ar eu cyfer ar wyneb y Bil, yn ceisio rhoi sylw iddynt er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Roedd cyfryngau a gwybodaeth ar wefan y Gymru a Garem i helpu pobl i gynnal eu sgysiau eu hunain gyda'u ffrindiau, teuluoedd a chymunedau. Roedd yn gyfle i edrych tu hwnt i bwysau tymor byr bywyd bob dydd a chanolbwyntio ar etifeddiaeth tymor hir.
273. Bydd y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy'n cyhoeddi Adroddiad peilot Cenedlaethau'r Dyfodol ar ganlyniadau'r trafod hwn. Caiff adroddiad peilot interim ei baratoi yn ystod haf 2014 a chaiff yr adroddiad peilot terfynol ei gyhoeddi yn 2015.
274. Mae digwyddiad 'Y Gymru a Garem' wedi'i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Bil, ac yn ddigwyddiad peilot ar gyfer cylch parhaol o drafodaethau a fydd yn cael eu cynnal gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyn paratoi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler adran 8.3 y ddogfen hon). Bydd y dull hwn o drafod yn ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth o faterion tymor hir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac yn cynyddu'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer gosod canlyniadau tymor hir a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Bydd y canfyddiadau hyn yn darparu sylfaen gadarn o dystiolaeth er mwyn galluogi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i wneud asesiad a dadansoddiad rhesymegol o lesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn y tymor hir.

## Pennod 5: Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth

275. Mae'r Bil yn gwneud cyfres o ddarpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl isod yn dangos, mewn perthynas â phob darpariaeth:

- yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn sy'n cael ei defnyddio (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn) os o gwbl.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y Ffur	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
3 (3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Bydd y rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r nodau llesiant drwy ychwanegu, diddymu neu ddiwygio teitl neu ddisgrifiad nod y darperir ar ei gyfer yn y Bil.</p> <p>Ystyrir ei bod yn addas dirprwyo'r pwerau oherwydd bod hyn yn rhoi hyblygrwydd ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r nodau llesiant i ystyried unrhyw newid i'r amgylchiadau ac ymateb i heriau neu gyfleoedd newydd o ran cynaliadwyedd neu lesiant wrth iddynt godi.</p>	Cadarnhaol	Gan y gallai unrhyw newidiadau i'r nodau llesiant effeithio'n sylweddol ar gyrff cyhoeddus sy'n cael eu cwmpasu gan y Bil, mae'n briodol iddynt gael eu cymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
20 (8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o'r 'cyfnod adrodd' ar gyfer paratoi a chyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn ofynnol er mwyn caniatáu hyblygrwydd a'r gallu i ystyried newidiadau i'r amgylchiadau.	Negyddol	Byddai'r rheoliadau yn ymwneud â manylion technegol a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.
30 (1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o aelodau statudol, cyfranogwyr gwahoddedig a phartneriaid eraill Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.	Cadarnhaol wrth ddiwygio aelodau statudol neu gyfranogwyr gwahoddedig. Negyddol wrth ddiwygio partneriaid eraill.	Gan y gallai newidiadau i'r rhestr o aelodau statudol neu gyfranogwyr gwahoddedig gael effaith ar y cyrff dan sylw, mae'n briodol i unrhyw newidiadau gael eu cymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn. Gan fod y rhwymedigaethau sy'n cael eu gosod ar bartneriaid eraill yn llai beichus na'r rhai sy'n cael eu gosod ar aelodau statudol a bod eu swyddogaeth yn gofyn am lai o gyfranogiad na'r cyfranogwyr gwahoddedig, ystyrir bod gweithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer diwygio adran 30.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
34(5)(a)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r ardaloedd cymunedol sy'n rhan o ardal bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, ac ymateb i newidiadau mewn dulliau gweithredu i ddiffinio ardaloedd cymunedol neu newidiadau o fewn ardaloedd cymunedol eu hunain.	Negyddol	Byddai'r rheoliadau yn ymwneud â manylion technegol a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.
35(3)(h)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu adolygiadau neu asesiadau eraill (y tu hwnt i'r rhai sy'n cael eu rhagnodi ar wyneb y Bil) y mae'n rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried wrth baratoi asesiad llesiant lleol. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i ystyried strategaethau ac asesiadau newydd o fewn deddfwriaeth yn y dyfodol.	Negyddol	Byddai'r rheoliadau yn ymwneud â manylion technegol a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Y Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
38(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r meini prawf ar gyfer penderfynu a yw cyngor cymuned yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 38(1)	Cadarnhaol	Gan y gallai hyn gael effaith sylweddol ar y cynghorau cymuned dan sylw, mae'n briodol i'r Rheoliadau gael eu cymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn.
42(2)(a)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adolygu ei gynllun llesiant lleol, er enghraifft pe bai achos sylweddol o ddiffyg cydymffurfiaeth.	Dim gweithdrefn. Gofyniad i gyhoeddi datganiad o resymau dros y cyfarwyddyd	Bydd y pŵer cyfarwyddo hwn yn berthnasol dan amodau penodol ac i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus penodol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
45(2)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu fwy uno os yw Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai hynny'n cynorthwyo'r Byrddau i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.	Dim gweithdrefn. Gofyniad i ymgynghori gyda phob aelod o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus dan sylw a chyhoeddi datganiad o resymau dros y cyfarwyddyd.	Y personau fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan gyfarwyddyd yw'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus dan sylw. Os bydd gofyn i ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu fwy uno, ni fydd unrhyw goblygiadau polisi yn codi. Mae'n briodol ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
46(2)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu fwy gydweithio.	Dim gweithdrefn. Gofyniad i ymgynghori gyda phob aelod o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus dan sylw a chyhoeddi datganiad o resymau dros y cyfarwyddyd.	Y personau fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan gyfarwyddyd yw'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus dan sylw. Os bydd gofyn i ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu fwy gydweithio, ni fydd unrhyw goblygiadau polisi yn codi. Mae'n briodol ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori.
48(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod dangosyddion a safonau mewn perthynas â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r pŵer hwn yn briodol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r dangosyddion a'r safonau ar gyfer amgylchiadau a phrofiad cyfredol.	Negyddol	Byddai'r rheoliadau yn ymwneud â manylion technegol a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.



<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Y Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
50 (1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael eu henwi yn y Bil, i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau.	Cadarnhaol	Gan y gallai hyn gael effaith sylweddol ar y cyrff dan sylw, mae'n briodol i'r Rheoliadau gael eu cymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn.
51 (1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu arbed er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaeth o'r Bil, os oes angen gwneud hynny.	Negyddol oni bai bod y newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, ac os felly, cadarnhaol.	Mae gweithdrefn gadarnhaol yn briodol pan fo'r rheoliadau yn gwella neu ddiddymu deddfwriaeth sylfaenol. Mae gweithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau eraill sy'n gwneud darpariaeth dechnegol yn unig.
54(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Addas ar gyfer gorchymyn oherwydd bod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil.	Dim gweithdrefn	Bydd y gorchmynion hyn yn cael eu cyfyngu i orchmynion cychwyn, ac yn dechnegol eu natur.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Atodlen 2, paragraff (13)(2)(a)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'r pŵer yn caniatáu Gweinidogion Cymru i nodi pa fuddiannau sy'n cael eu hystyried fel 'buddiannau cofrestradwy' ac o ganlyniad sydd angen eu datgan gan y Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd mewn cofrestr buddiannau.</p> <p>Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn ofynnol er mwyn caniatáu hyblygrwydd a'r gallu i ystyried newidiadau i'r amgylchiadau.</p>	Negyddol	Byddai'r rheoliadau hyn yn ymwneud â manylion technegol.
Atodlen 2, paragraff 20 (1)(b)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r adran hon hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd ynghylch ffurf a chynnwys ei gyfrifon.	Dim gweithdrefn	Byddai unrhyw gyfarwyddyd dan yr adran hon yn sicrhau bod y Comisiynydd yn dilyn yr arfer gorau o ran cyfrifo.

## Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol

276. Mae aseiad o effaith y Rheoliadau wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi), a gellir darllen amdano isod. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil a allai olygu bod arian yn cael ei wario o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Pennod 6: Opsiynau polisi

277. Fel y nodwyd uchod, amcan Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Bil") yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o waith awdurdodau cyhoeddus penodol sydd wedi'u henwi, a bod y cyrff hynny'n cydweithio er mwyn ymgynraedd at nodau llesiant tymor hir sy'n gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru. Y bwriadau polisi yw:
1. Gwella trefniadau llywodraethu er mwyn gwella llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru;
  2. Gwneud datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o waith awdurdodau cyhoeddus penodol;
  3. Hybu'r newid a diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol;
  4. Diwygio cynllunio cymunedol integredig.
278. Yr opsiwn a ffefrir ar gyfer pob bwriad (mae bwriad polisi 1 a 2 yn cael eu hystyried gyda'i gilydd) yw cyflwyno deddfwriaeth:
1. yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sector cyhoeddus penodol osod, cyflawni ac adrodd ar amcanion yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n cyflawni cyfres o nodau llesiant tymor hir ar y cyd i Gymru, gan sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried mewn trefniadau llywodraethu ar gyfer gwella llesiant Cymru;
  2. sefydlu Comisiynydd annibynnol ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol;
  3. diwygio cynlluniau cymunedol integredig.
279. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn ymdrin â phob un o'r amcanion craidd hyn yn ei dro. Ni ellir gwahanu'r amcan o ddarparu fframwaith cadarnach ar gyfer datblygu cynaliadwy i Gymru (bwriad polisi 1) oddi wrth yr amcan o wneud datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o waith awdurdodau cyhoeddus (bwriad polisi 2) ac felly maent wedi'u trafod gyda'i gilydd. Mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn yn cael eu cyflwyno ym Mhennod 7 o'r Memorandwm Esboniadol hwn. Mae costau ariannol wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf.

## **Bwriadau polisi 1 a 2: Gwella trefniadau llywodraethu er mwyn gwella llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru**

280. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried i gyflawni'r bwriad polisi, sef:

- Opsiwn 1. Gwneud dim: Parhau â'r fframwaith presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru, sef y ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn ôl darpariaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ochr yn ochr â modelau presennol ar gyfer llywodraethu corfforaethol;
- Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol bod cyrff sector cyhoeddus a enwir yn gosod, yn cyflawni ac yn adrodd ar amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n cyflawni set o nodau llesiant hirdymor cyffredin ar gyfer Cymru, gan sicrhau drwy hynny fod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried mewn trefniadau llywodraethu i wella llesiant Cymru.

281. Mae crynodeb o'r ddau opsiwn isod.

### **Opsiwn 1: Gwneud dim**

***Gwneud dim a pharhau â'r fframwaith presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru, sef y ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a ragnodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.***

282. Mae Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<sup>1</sup> yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Datblygu cynllun datblygu cynaliadwy a fydd yn egluro sut y maent yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau;
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y ffordd yr oedd y cynigion yn y cynllun wedi cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;
- Ar ôl pob etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cyhoeddi adroddiad sy'n asesu pa mor effeithiol y maent wedi bod (drwy weithredu'r cynllun) wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

283. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r ddyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy gynllun yn parhau i fod yn gyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru, gan weithredu ochr yn ochr â'r systemau llywodraethu presennol yng nghyrrff cyhoeddus Cymru, nid oddi mewn iddynt.

284. Fodd bynnag, gan mai'r systemau llywodraethu 'canolog' hyn yw'r prif gyfrwng i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo wrth arfer swyddogaethau Gweinidogion, mae costau'r systemau hyn wedi'u cynnwys o dan yr opsiwn hwn i ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

---

<sup>1</sup> Roedd hyn yn disodli adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a oedd yn gosod dyletswydd debyg ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

285. Ers llunio'r cynllun statudol cyntaf ar gyfer datblygu cynaliadwy ym 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy ledled Cymru drwy amrywiaeth o ddulliau. Mae nifer o'r camau a gymerwyd wedi'u disgrifio yn y cynllun neu yn yr adroddiadau blynyddol ar y cynlluniau. Ymhlith y camau gweithredu a gymerwyd y mae:
- Parhau â'r ymrwymiad i sefydlu Comisiynydd annibynnol drwy benodi Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy;
  - Lansio'r Siarter Datblygu Cynaliadwy yn 2010, menter wirfoddol lle y mae sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru'n ymrwymo'n gyhoeddus i wneud datblygu cynaliadwy'n brif egwyddor drefniadol ac i rannu'r arferion gorau;
  - Sefydlu Cynnal Cymru – Sustain Wales – y fforwm datblygu cynaliadwy sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn hybu ymwybyddiaeth o arferion da yng Nghymru;
  - Darparu grantiau i sefydliadau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ledled Cymru, sef y grant i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu Fframwaith Datblygu Cynaliadwy er mwyn helpu awdurdodau lleol ledled Cymru i weithredu'n cadarnhaol;
  - Sefydlu set o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy (Ystadegau Gwladol) i Gymru i fesur datblygu cynaliadwy;
  - Cryfhau'r broses gaffael drwy Ddatganiad Polisi Caffael Cymru sy'n mabwysiadu diffiniad y Tasglu Caffael Cynaliadwy o gaffael;
  - Sefydlu Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd i sbarduno gweithredu yng Nghymru drwy ddarparu arweiniad a helpu Llywodraeth Cymru i lunio polisi;
  - Rhaglen Cymru o Blaid Affrica sy'n ceisio hyrwyddo gwaith yng Nghymru i gyflawni Amcanion Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm;
  - Mesur Ôl Troed Ecolegol Cymru, sef un o'r ffyrdd o ystyried pa mor agos y mae pobl yng Nghymru at fyw o fewn terfynau amgylcheddol.
286. Er bod y cynnydd ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn cael ei ystyried yn gadarnhaol, cydnabyddir bod effaith gadarnhaol y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn cael ei chyfyngu gan (a) cwmpas y ddyletswydd bresennol a (b) eglurder o ran beth sydd i'w gyflawni a sut i'w gyflawni.
287. Mae adolygiadau annibynnol o effeithiolrwydd gweithredu'r ddyletswydd wedi denu beirniadaeth am ei gweld fel un o nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, yn hytrach na'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n rheoli'r gwahanol flaenoriaethau.

288. Mae hyn wedi'i gydnabod hefyd gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy presennol yn ei sylwebaeth annibynnol ar Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy 2012/13, lle y nododd fod "(g)wendid systematig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy a'r dulliau cysylltiedig o adrodd ar gynnydd".

## **Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth**

***Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus a enwir yn gosod, yn cyflawni ac yn adrodd ar amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n cyflawni set o nodau llesiant hirdymor cyffredin ar gyfer Cymru, gan sicrhau drwy hynny fod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried mewn trefniadau llywodraethu i wella llesiant Cymru***

289. Mae'r opsiwn hwn yn delio â'r gwendidau sydd wedi'u nodi uchod drwy sefydlu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n gadarnach, yn gliriach ac yn gyson, i arwain Cymru ar hyd llwybr mwy cynaliadwy yn y tymor hir.

290. Er mwyn ymdrin â'r gwendidau hyn, bydd y Bil yn gyntaf yn gosod set o nodau llesiant hirdymor i Gymru i egluro'r hyn sydd i'w gyflawni.

291. Yn ail, er mwyn cadarnhau bod camau'n cael eu cymryd i gyflawni'r nodau llesiant hyn, bydd dyletswydd yn cael ei gosod ar Weinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Datblygu set o fesurau cynnydd cenedlaethol (dangosyddion cenedlaethol) i asesu'r cynnydd ar gyflawni'r nodau llesiant hirdymor cyffredin i Gymru (Gweinidogion Cymru);
- Diweddarau'r mesurau cynnydd hyn yn flynyddol ac adrodd ar eu sail (Gweinidogion Cymru).

292. Yn drydydd, er mwyn helpu i gyflawni'r nodau llesiant, bydd datblygu cynaliadwy yn cael ei sefydlu mewn cyrff sector cyhoeddus penodol yng Nghymru drwy ddyletswydd ar y 43 o awdurdodau cyhoeddus penodol (sydd wedi'u henwi yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn) ac ar Weinidogion Cymru, i wneud y canlynol:

- Gosod a chyflawni amcanion llesiant sy'n ceisio sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt i ymgyrraedd at y nodau llesiant mewn modd sy'n gyson ag *egwyddor datblygu cynaliadwy*;
- Cyhoeddi datganiad yn egluro sut a pham y byddant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant drwy eu gwaith, gan nodi pa bryd y disgwylir i gamau gweithredu o'r fath gael eu cymryd;
- Datgan sut y mae'n bwriadu ei lywodraethu ei hun a dyrannu adnoddau bob blwyddyn;
- Adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y mae'r corff wedi'i wneud ar gyflawni amcanion llesiant.

## **Bwriad polisi 3: Hybu'r newid, darparu llais annibynnol dros genedlaethau'r dyfodol a diogelu eu buddiannau**

293. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried i gyflawni'r bwriad polisi, sef:

- Opsiwn 1. Gwneud dim: parhau â'r trefniadau presennol;
- Opsiwn 2. Gwasgaru rôl y Comisiynydd, tynnu'n ôl y cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy a phrif ffrydio'r gweithgareddau hyn o fewn Llywodraeth Cymru;
- Opsiwn 3. Cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol annibynnol.

294. Mae crynodeb o bob un o'r opsiynau isod.

### **Opsiwn 1. Gwneud dim**

#### ***Gwneud dim: Parhau â'r trefniadau presennol***

295. Mae Cymru wedi manteisio ar gyngor annibynnol ar gyfer hyrwyddo gwaith ar ddatblygu cynaliadwy am gyfnod hir. Roedd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU, a sefydlwyd yn 2000, yn darparu cyngor a chyfarwyddyd i Weinidogion a swyddogion ar feysydd polisi allweddol hyd Ebrill 2011. Ar ôl cau'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnal y cyngor annibynnol hwn drwy benodi Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy.

296. Ym mis Mawrth 2012, aeth Llywodraeth Cymru ati i gaffael gwasanaethau i ddarparu cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Dyfarnwyd y contract hwn i Cynnal Cymru – Sustain Wales am y cyfnod rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2015. Mae'r contract hwn yn darparu cymorth ar gyfer nifer o gamau gweithredu allweddol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac mae hefyd yn cynnwys cymorth uniongyrchol i'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy.

297. O dan yr opsiwn hwn, byddai rôl y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a'r cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn parhau.

### **Opsiwn 2. Gwasgaru rôl y Comisiynydd.**

#### ***Gwasgaru rôl y Comisiynydd, tynnu'n ôl y cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy a phrif ffrydio gweithgareddau'r Comisiynydd o fewn Llywodraeth Cymru***

298. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy newydd yn cael ei benodi wedi i dymor y Comisiynydd presennol ddod i ben ac ni fyddai ymrwymiad wedyn i gaffael gwasanaethau i ddarparu cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru (sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan Cynnal Cymru – Sustain Wales).



299. Hyd at fis Mawrth 2011, Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU oedd cynghorydd annibynnol Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy. Ar 22 Gorffennaf 2010 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd y byddai'n tynnu cyllid yn ôl oddi wrth y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. Daeth gweithgareddau'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i ben wedyn ym mis Mawrth 2011. Y bwriad oedd y byddai Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin yn darparu "*democratic scrutiny of Government's work in this area*".
300. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid, wedi gweld gwerth mawr yng ngwaith y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, a'i gyfraniad at hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru.
301. Roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i weld gwerth mewn ceisio cyngor annibynnol ar ddatblygu cynaliadwy, gan wneud defnydd o'r arferion gorau yn y DU, Ewrop a thrwy'r byd, er mwyn cyfrannu at ei gwaith ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy ledled Cymru. Roedd hefyd yn cydnabod bod angen parhau i ymgysylltu a chwrdd â phob sector a chymuned er mwyn gwireddu'r weledigaeth o Gymru gynaliadwy sydd yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy.
302. Er mwyn sicrhau hyn, penodwyd Peter Davies yn Gomisiynydd Dyfodol Cynaliadwy o 1 Ebrill 2011 ymlaen. Yn y datganiad ysgrifenedig am y penodiad, nodwyd mai pwrpas a swyddogaethau'r Comisiynydd yn fras oedd:
- Darparu cyngor ar ddatblygu cynaliadwy, gan wneud defnydd o'r arferion gorau yn y DU, Ewrop a thrwy'r byd, ar gyfer llunio polisiâu a rhaglenni;
  - Darparu arweiniad allanol ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru;
  - Dod â phartneriaid at ei gilydd i ymdrin â materion anodd a heriol sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy;
  - Cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n rhwystro cynnydd rhag gwneud Cymru'n wlad fwy cynaliadwy a chynnig atebion i ddatrys hynny.
303. Mae'r Comisiynydd yn cael cymorth i gyflawni ei rôl o dan gontract sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan Cynnal Cymru-Sustain Wales.
304. Ers penodi'r Comisiynydd, mae wedi chwarae rhan allweddol mewn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy weithio gyda grwpiau buddiant a rhanddeiliaid o bob math. Mae'r Comisiynydd wedi dibynnu'n helaeth ar ddatblygu rhwydweithiau i ategu ei rôl, yn enwedig drwy hyrwyddo'r Siarter Datblygu Cynaliadwy. Mae wedi derbyn cydnabyddiaeth yn benodol am ei waith yn galw rhanddeiliaid ynghyd, sydd o gymorth i ymdrin â materion sy'n destun pryder cyffredin.
305. Mae'r Comisiynydd wedi gwneud cyfraniad ychwanegol i waith Llywodraeth Cymru drwy ei sylwadau yn yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy. Mae hyn wedi bod yn werthfawr i Lywodraeth Cymru o ran tynnu sylw ar gryfderau a meysydd i'w datblygu yng nghyswllt datblygu cynaliadwy. Mae sylwadau'r Comisiynydd ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy wedi bod yn gaffaeliad ar gyfer craffu ar waith Llywodraeth Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

306. Er mwyn gallu parhau â chamau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru, a'u cyflymu'n wir, nid yw'r opsiwn hwn wedi'i fabwysiadu gan nad yw'n cyflawni'r bwriad polisi o ddarparu eiriolwr annibynnol dros Genedlaethau'r Dyfodol a'r cymorth y byddai ei angen i sbarduno'r broses o sefydlu datblygu cynaliadwy yng ngwaith cyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi'u henwi.

### **Opsiwn 3. Cyflwyno deddfwriaeth**

*Cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol annibynnol i Gymru*

307. O dan yr opsiwn hwn, byddai Gweinidogion Cymru yn penodi Comisiynydd annibynnol. Rôl y Comisiynydd fyddai:

- Hyrwyddo egwyddor datblygu cynaliadwy ac, yn benodol, ceisio diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau y maent yn eu gwneud drwy gymorth a chynghor. I'r diben hwnnw, monitro ac asesu'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant sydd wedi'u gosod gan gyrrff cyhoeddus;
- Ymgysylltu â chymdeithas yng Nghymru wrth baratoi adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, rhoddir dyletswydd ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i wneud y canlynol:
- Hyrwyddo egwyddor datblygu cynaliadwy, i weithredu fel gwarcheidwad ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau y maent yn eu gwneud.
- Monitro ac asesu i ba raddau mae'r amcanion llesiant sydd wedi'u gosod gan gyrrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni;
- Paratoi a chyhoeddi "Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol" a fydd yn asesu'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a chyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- Cyn cyhoeddi'r adroddiad, cynnal trafodaeth ledled Cymru i gyfrannu i'r adroddiad.

308. Bydd pŵer gan y Comisiynydd i wneud y canlynol:

- Darparu cynghor neu gymorth i gyrrff cyhoeddus o bob math yn ogystal â chynnal gwaith ymchwil;
- Wrth ddarparu cynghor a chymorth i Weinidogion Cymru, gwneud argymhellion ynghylch y nodau llesiant neu'r dangosyddion cenedlaethol y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer;
- Cynnal adolygiadau i weld sut mae corff cyhoeddus yn ystyried effaith tymor hir ei waith dan y ddyletswydd llesiant. Wrth gynnal adolygiad gall y Comisiynydd edrych ar y canlynol:

- y camau mae'r corff cyhoeddus wedi'u cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant;
  - i ba raddau mae'r corff yn cyflawni ei amcanion llesiant;
  - a yw'r corff wedi gosod amcanion llesiant ac wedi cymryd camau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, neu a yw'n bwriadu gwneud hynny.
- O ganlyniad i'r adolygiad bydd y Comisiynydd yn gallu gwneud argymhellion i'r canlynol:
    - Gweinidogion Cymru, o ran y nodau llesiant a'r dangosyddion cenedlaethol;
    - gyrff cyhoeddus ynghylch y camau a gymerwyd neu'r camau y bwriedir eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant;
    - gyrff cyhoeddus ynghylch sut i osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
  - Wrth gynnal adolygiad, gofyn am wybodaeth gan gyrff cyhoeddus.
309. Bydd y Comisiynydd yn cael cymorth gan Banel Cyngori. Rôl y Panel Cyngori fydd cynghori'r Comisiynydd wrth iddo gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. Disgwylir i'r panel gwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf.
310. Bydd y Comisiynydd hefyd yn gallu penodi tîm o staff i'w helpu i gyflawni ei weithgareddau.

## **Bwriad polisi 4. Diwygio cynllunio cymunedol integredig**

311. Mae gweithio mewn partneriaeth yn lleol wedi bod yn faes polisi dynamig yng Nghymru dros y 10 i 15 mlynedd diwethaf. Pennwyd y gofynion statudol cyntaf mewn meysydd polisi neilltuol – diogelwch cymunedol (1998), plant a phobl ifanc (2004), iechyd a lles (2006) a chynllunio cymunedol (2000 a 2009). Yn 2007, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Byrddau Gwasanaethau Lleol, sef partneriaethau gwirfoddol rhwng arweinwyr ar y lefel uchaf mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol. Eu prwpas oedd cyflwyno dull mwy strategol o weithio mewn partneriaeth a defnyddio adnoddau gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol drwy gydweithio.
312. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i hyrwyddo dull mwy systematig o integreiddio cynlluniau a phartneriaethau gwahanol, rhai statudol ac anstatudol. Mae'n amlwg, er hynny, fod angen o hyd am fwy o eglurder ac atebolrwydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.
313. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried i gyflawni'r bwriad polisi, sef:
- Opsiwn 1. Gwneud dim: Parhau â'r trefniadau presennol;
  - Opsiwn 2. Deddfu i ddiwygio cynllunio cymunedol integredig;
  - Opsiwn 3. Dileu dyletswyddau cynllunio'n llwyr.
314. Mae crynodeb o bob un o'r opsiynau isod.

### **Opsiwn 1. Gwneud dim**

#### ***Gwneud dim: Parhau â'r trefniadau presennol***

315. O dan Opsiwn 1, byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau lle y mae partneriaid lleol yn integreiddio eu dyletswyddau cynllunio presennol mewn cynllun integredig sengl drwy Fwrdd Gwasanaethau Lleol gwirfoddol.
316. Er Mehefin 2012 mae partneriaid lleol wedi cael eu cymell i resymoli eu strwythurau partneriaeth. Cyhoeddwyd canllawiau ar integreiddio cynlluniau, Cydamcanu – Cydymdrechu, gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2013. Mae dau<sup>33</sup> drefniant cynllunio integredig wedi bod ar waith, ar sail wirfoddol, er Ebrill 2013.
317. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn cyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau statudol, a phob un ohonynt yn galw am gynnwys set o bartneriaid sydd ychydig yn wahanol, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r cynllun integredig sengl. Mae hyn yn symleiddio nifer o brosesau ar gyfer casglu tystiolaeth, cynllunio ac adrodd ac mae wedi rhoi'r gallu i gysoni cylchoedd cynllunio.

## Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth

### **Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio cynllunio cymunedol integredig**

318. Pwrpas yr opsiwn hwn yw rhoi partneriaethau lleol a chynllunio integredig ar sail statudol bendant, gan eu cysylltu â nodau a dangosyddion cenedlaethol, a chyflawni blaenoriaethau lleol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
319. Byddai deddfu i roi partneriaethau lleol a chynllunio integredig ar sail statudol yn rhoi'r gallu i ddarparu ar gyfer y materion hyn ac i gynnwys cynllunio lleol o fewn fframwaith y nodau cenedlaethol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n cael ei gyflwyno ym mhrif ran y Bil.

## Opsiwn 3. Dileu dyletswyddau cynllunio'n llwyr

320. O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn dileu'r holl ddyletswyddau cynllunio sydd ar lywodraeth leol, byrddau iechyd a'u partneriaid a hefyd yn dileu, o bosibl, rai o'r dyletswyddau penderfynu sylfaenol sy'n ymwneud â gwahanol feysydd pwnc fel plant a phobl ifanc, tloidi plant, iechyd a lles a chynllunio cymunedol. Mater i bartneriaid lleol fyddai penderfynu beth sydd angen ei wneud a sut, heb ddim neu nemor ddim cyfarwyddyd gan lywodraeth genedlaethol.
321. Mae nifer o ddadansoddiadau wedi nodi bod y berthynas rhwng llywodraeth ganolog a lleol yng Nghymru yn rhy gymhleth (fel y maent mewn mannau eraill hefyd), a bod partneriaethau'n rhy gymhleth, yn enwedig ar y lefel leol. Gweler, er enghraifft, y dadansoddiad yn Adroddiad Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a'r adroddiad terfynol ar yr astudiaeth bum mlynedd o hyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd, *Dysgu i Wella*<sup>34</sup>.
322. Yn Lloegr, mae'r ymagwedd hon wedi'i hadlewyrchu yn null 'lleoliaeth' llywodraeth y DU, sydd â'r amcanion o ysgafnhau'r baich biwrocraidd, grymuso cymunedau, cynyddu rheolaeth leol ar gyllid cyhoeddus, darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffyrdd mwy amrywiol, sicrhau craffu gan y cyhoedd ar waith llywodraeth a chryfhau atebolrwydd i bobl leol.<sup>35</sup>
323. Mae'n rhy gynnar eto i gynnal gwerthusiad sylweddol o effeithiolrwydd y dull hwn ond mae'r adolygiadau cyntaf yn awgrymu ei bod yn bosibl na fydd Deddf Lleoliaeth 2011 yn cyflawni ei hamcanion. Er enghraifft:

*"While the Act contains a limited number of proposals for localism, they are set in a centralist framework based on the attitudes and practices dominant in the workings of central government. Centralism dominates localism in the Act, and the need for change in central government is not even recognised. Rather, centralism is entrenched by the many new powers, regulations and orders [given to the Secretary of State]. In addition there is a lack of clarity as to the relationship between decentralisation to local authorities and decentralisation to communities that can be resolved only at local level rather than by nationally-imposed decisions embedded in regulations."*<sup>36</sup>

324. Byddai mabwysiadu dull gweithredu o'r fath yng Nghymru'n golygu ail-lunio'r berthynas rhwng llywodraeth ganolog a lleol, gan ddibynnu'n fwy o lawer ar archwilio, arolygu a rheoleiddio er mwyn sicrhau gwelliant, yn ogystal â rôl y Comisiynwyr dros blant, pobl hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn diogelu buddiannau grwpiau penodol yn y boblogaeth. Byddai'n rhaid bod yn sicr bod llywodraethu mewn llywodraeth leol yn ddigon cadarn i ymateb i argymhellion gan swyddogion archwilio ac arolygu, a bod trefniadau craffu lleol yn effeithiol o ran sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith.
325. Ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r trefniadau hyn ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd a chraffu yn ddigon cadarn ym mhob ardal. Cafwyd nifer o enghreifftiau'n ddiweddar o fethiant mewn llywodraethu corfforaethol mewn llywodraeth leol ac amharodrwydd i dderbyn adroddiadau beirniadol, heb sôn am ymateb iddynt. Gweler, er enghraifft, adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol er budd y cyhoedd sydd wedi'u gwneud o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mewn perthynas â methiannau yng Nghaerffili<sup>37</sup>, Sir Gaerfyrddin<sup>38</sup> a Sir Benfro<sup>39</sup>. Yn fwy cyffredinol, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi bod anawsterau o hyd o ran sicrhau gwelliant mewn llywodraeth leol ac adrodd arno:

*“Mae pob awdurdod yn gwella eu trefniadau o ran cysylltu'r hyn y maent am ei gyflawni â'u cynlluniau a'u hadnoddau a bod rhai'n cyflwyno darlun clir a didwyll i bobl leol, ond bod gwybodaeth wael yn golygu ei bod hi'n anodd bod yn siŵr eu bod yn deall eu perfformiad eu hunain yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu.”<sup>40</sup>*

326. Mae'r ymateb i adroddiadau beirniadol gan yr arolygiaethau wedi bod yn gymysg hefyd. Roedd adroddiad a gyhoeddwyd ar y cyd gan AGGCC ac Estyn yn Awst 2011<sup>41</sup> yn feirniadol iawn o'r ffordd o ymdrin â honiadau am gam-drin gan weithwyr proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer amddiffyn a diogelu plant mewn addysg yn Sir Benfro. Roedd arolygiad arbennig gan Swyddfa Archwilio Cymru o'r trefniadau diogelu yn y sir yn Rhagfyr 2012 wedi dod i'r casgliad canlynol:

*“O ganlyniad i adroddiadau allanol, mae'r Cyngor wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau sydd wedi gwella ymwybyddiaeth o faterion diogelu ond nid yw wedi ymdrin ag achosion sylfaenol methiannau.*

*Mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhy araf o ran ymdrin â materion difrifol megis defnyddio ystafelloedd ystyried (“timeout”), ac nid yw'n rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol.*

*Prin yw'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor ers mis Ionawr 2012 o ran atgyfnerthu rôl herio a sicrhau aelodau.”<sup>42</sup>*

327. Mae gwasanaethau addysg Blaenau Gwent, Sir Benfro, Tor-faen, Sir Fynwy a Merthyr Tudful i gyd yn ddarostyngedig i 'fesurau arbennig' yn dilyn adroddiadau beirniadol gan Estyn.<sup>43</sup> Yn ei dystiolaeth i Gomisiwn Williams, cafwyd y sylw canlynol gan Estyn am yr ymateb i'w adroddiadau:

*“Yn gyntaf, gall fod tuedd i uwch aelodau o staff gael eu tynnu i mewn i'r busnes beunyddiol o reoli trefniadau darparu gweithredol, gan esgeuluso cyfleoedd ac anghenion mewn perthynas â newidiadau a gwelliannau strategol. Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent, er bod y tîm bach iawn sy'n gyffredinol gyfrifol am reoli'r gwasanaeth addysg yn gweithio hyd eithaf ei allu, roedd yn ymddangos fel pe bai'n methu ag ymdrin â phroblemau systemig a chronig o ran tanberfformio a'i fod yn amharod i wneud hynny, fel y canfu Estyn pan osododd yr awdurdod o dan fesurau arbennig.”<sup>44</sup>*

328. Mae'r Comisiwn wedi dod â nifer o'r themâu hyn at ei gilydd yn ei adroddiad:

*“Er y gall gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio nodi'r angen am newid a gwelliant yn effeithiol, clywsom hefyd nad yw sefydliadau bob amser yn ymateb yn dda nac yn effeithiol i hyn. Clywsom y gall sefydliadau ddewis anwybyddu neu wadu dilysrwydd canfyddiadau a methu â gweithredu arnynt; mae methiannau diweddar mewn gwasanaethau neu sefydliadau yn cadarnhau hyn. Mae rhai sefydliadau nad ydynt yn mynd i'r afael â phroblemau a nodwyd drwy ddulliau eraill nes y cânt eu nodi mewn arolygiad. Er enghraifft, nododd y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yn ei thystiolaeth ei bod yn gymharol gyffredin i awdurdodau lleol beidio â chymryd camau i wella ysgol y gwyddant ei bod yn methu nes bod Estyn yn ailadrodd y casgliad hwnnw yn ffurfiol, ond roedd pob arolygiaeth yn feirniadol o'r methiant hwn. Roedd dystiolaeth hefyd na hysbyswyd pwyllgorau craffu am ganfyddiadau difrifol. Mae hyn yn rhannol yn broblem ddiwylliannol ond mae hefyd yn nodi strwythur llywodraethu a fframwaith atebolrwydd gwan, sy'n caniatáu neu'n cydoddef hyn.”<sup>45</sup>*

329. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn awgrymu y byddai dull 'hyd braich' mwy systemig ac eang yng Nghymru yn creu risg sylweddol iawn ar hyn o bryd o dan yr amgylchiadau presennol ac felly mae wedi'i ddiystyru fel opsiwn ac nid oes bwriad i'w brisio.

## **Pennod 7: Costau a Manteision yr opsiynau polisi**

330. Yn y bennod hon mae asesiad o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau a bennwyd ym mhennod 6. Cafodd ei diweddarau yn dilyn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl iddynt adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mis Rhagfyr 2014.
331. Roedd yr adroddiad yn argymhell "ar sail gwaith ymgynghori pellach â'r cyrff cyhoeddus dan sylw, dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei thybiaethau ynglŷn â'r graddau y gallai'r gweithgareddau sydd eu hangen i weithredu'r Bil arwain at gostau ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru wahodd cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau lleol i asesu trefniadau presennol yn erbyn gofynion y Bil a nodi'r gost ychwanegol debygol o fodloni gofynion y Bil. Dylai unrhyw asesiad o'r fath ystyried y graddau y gallai fod angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu ac, os oes angen, ychwanegu at brosesau cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau."
332. I'r diben hwnnw, mae fy swyddogion wedi adolygu a diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac wedi gwahodd sylwadau gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ran 2 y Bil ynghylch y ffordd y cyflwynwyd yr effaith ar eu sefydliadau.
333. Anfonodd cyrff cyhoeddus eu sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau erbyn 18 Chwefror, i'w defnyddio wrth ddiwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil. O'r unarddeg ymateb a ddaeth i law, roedd un yn cytuno a thri yn nodi'r costau a osodwyd yn yr Asesiad diwygiedig. Roedd saith corff cyhoeddus yn mynegi pryderon cyffredinol bod y costau, yn arbennig y rhai yn ymwneud â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel, ond nid oedd y mwyafrif yn cynnig ffigurau gwahanol.



Tabl 1: Crynodeb “gwneud dim” o gymharu â’r opsiwn a ffefrir i ddeddfu ar gyfer pob bwriad polisi.

“Gwneud dim”

Relevant Authorities	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	Total
Llywodraeth Cymru	£1,537,000	£1,299,700	£1,277,700	£1,277,700	£1,277,700	£1,299,700	£1,277,700	£1,277,700	£1,277,700	£1,277,700	£13,080,300
Awdurdodau Lleol	£4,060,000	£2,367,200	£2,367,200	£2,367,200	£2,367,200	£4,060,000	£2,367,200	£2,367,200	£2,367,200	£2,367,200	£27,057,600
Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol	£1,631,700	£780,200	£780,200	£780,200	£780,200	£1,631,700	£1,631,700	£1,631,700	£1,631,700	£1,631,700	£12,911,000
Awdurdodau Tân ac Achub	£122,000	£95,900	£95,900	£95,900	£95,900	£122,000	£95,900	£95,900	£95,900	£95,900	£1,011,200
Cyfoeth Naturiol Cymru	£107,600	£48,600	£48,600	£48,600	£48,600	£107,600	£48,600	£48,600	£48,600	£48,600	£604,000
Cyrff a noddir a CCAUC	£257,000	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£257,000	£99,000	£257,000	£99,000	£257,000	£1,622,000
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	£88,800	£54,600	£54,600	£54,600	£54,600	£88,800	£54,600	£54,600	£54,600	£54,600	£614,400
Comisiynydd Heddlu a Throsedd	£9,000	£9,000	£9,000	£9,000	£9,000	£9,000	£9,000	£9,000	£9,000	£9,000	£90,000
Cwnstablaid yr Heddlu	£123,100	£86,200	£86,200	£86,200	£86,200	£86,200	£86,200	£86,200	£86,200	£86,200	£898,900
Gwasanaethau Prawf	£15,300	£15,300	£15,300	£15,300	£15,300	£15,300	£15,300	£15,300	£15,300	£15,300	£153,000
Cynghorau Gwirfoddol Sirol	£185,800	£119,200	£119,200	£119,200	£119,200	£185,800	£119,200	£119,200	£119,200	£119,200	£1,325,200
Archwilydd Cyffredinol	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cynghorau Tref a Chymuned	£26,400	£26,400	£26,400	£26,400	£26,400	£26,400	£26,400	£26,400	£26,400	£26,400	£26,400
<b>Cyfanswm</b>	<b>£8,163,720</b>	<b>£5,001,300</b>	<b>£4,979,300</b>	<b>£4,979,300</b>	<b>£4,979,300</b>	<b>£7,889,520</b>	<b>£5,830,800</b>	<b>£5,988,800</b>	<b>£5,830,800</b>	<b>£5,988,800</b>	<b>£59,393,840</b>

“Opsiwn a ffefrir i ddeddfu – cost ychwanegol o ddeddfu

<b>Awdurdodau Perthnasol</b>	<b>2016-17</b>	<b>2017-18</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2021-22</b>	<b>2022-23</b>	<b>2023-24</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>Total</b>
Llywodraeth Cymru	£2,324,600	£1,942,200	£1,927,300	£1,953,200	£1,945,200	£1,942,200	£1,927,300	£1,927,300	£1,927,300	£1,927,300	£19,743,900
<i>Cost ychwanegol</i>	£787,600	£642,500	£649,600	£675,500	£667,500	£642,500	£649,600	£649,600	£649,600	£649,600	£6,663,600
Awdurdodau Lleol	£4,159,000	£2,466,200	£2,466,200	£2,466,200	£2,466,200	£4,159,000	£2,466,200	£2,466,200	£2,466,200	£2,466,200	£28,047,600
<i>Cost ychwanegol</i>	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£990,000
Archwilydd Cyffredinol	£122,000	£252,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£1,414,000
<i>Cost ychwanegol</i>	£122,000	£252,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£130,000	£1,414,000
Awdurdodau Tân ac Achub	£131,800	£105,700	£105,700	£105,700	£105,700	£131,800	£105,700	£105,700	£105,700	£105,700	£1,109,200
<i>Cost ychwanegol</i>	£9,800	£9,800	£9,800	£9,800	£9,800	£9,800	£9,800	£9,800	£9,800	£9,800	£98,000
Cyfoeth Naturiol Cymru	£103,600	£69,900	£69,900	£69,900	£69,900	£103,600	£69,900	£69,900	£69,900	£69,900	£766,400
<i>Cost ychwanegol</i>	£31,800	£21,300	£21,300	£21,300	£21,300	£31,800	£21,300	£21,300	£21,300	£21,300	£234,000
Comisiynydd Heddlu a Throsedd	£19,000	£19,000	£19,000	£19,000	£19,000	£19,000	£19,000	£19,000	£19,000	£19,000	£190,000
<i>Cost ychwanegol</i>	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£100,000
Gwasanaethau Prawf	£21,900	£21,900	£21,900	£21,900	£21,900	£21,900	£21,900	£21,900	£21,900	£21,900	£219,000
<i>Cost ychwanegol</i>	£6,600	£6,600	£6,600	£6,600	£6,600	£6,600	£6,600	£6,600	£6,600	£6,600	£66,000
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	£442,600	£233,100	£233,100	£233,100	£233,100	£182,300	£182,300	£182,300	£182,300	£182,300	£2,286,700
<i>Cost ychwanegol</i>	£442,600	£233,100	£233,100	£233,100	£233,100	£182,300	£182,300	£182,300	£182,300	£182,300	£2,286,700
<b>Costau ychwanegol o gymharu â "gwneud dim"</b>	<b>£1,509,500</b>	<b>£993,500</b>	<b>£878,600</b>	<b>£904,500</b>	<b>£896,500</b>	<b>£871,500</b>	<b>£878,600</b>	<b>£878,600</b>	<b>£878,600</b>	<b>£878,600</b>	<b>£9,565,800</b>

334. Noder bod y cynnydd yn y costau ychwanegol ar gyfer sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus o gymharu ag Aseiad Effaith Rheoleiddiol mis Gorffennaf 2014 yn ymwneud yn bennaf ag argostau sydd wedi'u hychwanegu er cysondeb ar draws yr Aseiad. Mae costau eraill yn ymwneud o hyd â phresenoldeb a chyfraniad sefydliadau fel yr Heddlu, y gwasanaethau prawf, yr Awdurdodau Tân ac Achub a Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Noder hefyd y gall costau Archwilydd Cyffredinol Cymru newid os bydd pwyllgor Cyfnod 2 yn cytuno ar y gwelliant sy'n cael ei gynnig i osod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Bwriadau polisi 1 a 2: gwella trefniadau llywodraethu i wella llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru

### Costau

335. Bwriad y ddeddfwriaeth yw cryfhau'r systemau llywodraethu presennol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau.
336. Mae hyn yn adeiladu ar y cynnydd a'r newid diwylliannol welwyd eisoes o'r tri chynllun datblygu cynaliadwy a wnaed gan Lywodraeth Cymru ers 1998.
337. Mae'r asesiad effaith sy'n dilyn yn ceisio darparu'r amcangyfrif gorau/amcangyfrif enghreifftiol o'r costau trosiannol i gyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â sefydlu'r fframwaith a'r costau gweinyddol parhaus a ysgwyddir o orfod i) datblygu a chyhoeddi amcanion lles; egluro sut y mae adnoddau wedi'u dyrannu er mwyn cyflawni amcanion; a ii) ysgrifennu adroddiad blynyddol sy'n disgrifio'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny.
338. Yn ogystal â'r costau hyn, mae'n bosibl y bydd costau a manteision canlyniadol pellach yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth. Mae'r rhain yn ymwneud ag effaith y fframwaith cadarnach ar y ffordd y mae'r cyrff cyhoeddus yn gweithredu, y gweithgareddau y maent yn eu cyflawni, ac effaith hyn ar lesiant yn y tymor hir.
339. Bydd y goblygiadau i sefydliadau'n dibynnu ar y strategaethau y byddant yn eu datblygu i gyflawni'r amcanion llesiant y maent wedi'u gosod mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth. Bydd sefydliadau yn defnyddio'u disgrisiwn wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant. Mae hyn yn caniatáu i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau o fewn y sefydliad i ddewis pa ddull gweithredu fydd orau i gyflawni eu hamcanion. Mae'r Bil yn darparu patrwm penodol i gyfeirio ato wrth benderfynu ar y camau hyn, ond yn parhau i ddweud mai cyfrifoldeb – ac yn wir, dewis – y sefydliadau yw pa gamau i'w cymryd. Mae disgwyl iddynt fodd bynnag gyfiawnhau'r camau drwy eu hadroddiadau. Gan nad yw'r amcanion hyn wedi'u gosod eto a chan nad yw'r ymatebion cysylltiedig wedi'u datblygu a'u cytuno gan y sefydliadau, nid yw'n bosibl mewn egwyddor i'r costau a'r manteision hynny gael eu mesur mewn ffordd ystyrlon ar hyn o bryd gan fod y camau a chanlyniadau posibl yn rhy eang. Y sefydliadau eu hunain ddylai ddod o hyd i'r atebion cynaliadwy gorau ar gyfer cyd-destun eu gwaith, ac nid yw'n briodol i'r ddeddfwriaeth ddiffinio beth yn union yw'r ateb a'r camau y dylai pob sefydliad eu cymryd.
340. Comisiynwyd PwC i asesu effaith weinyddol y ddeddfwriaeth ar y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil, ond – er ei fod wedi nodi bod angen newid diwylliannol mewn sefydliadau, gwell arweinyddiaeth a gwell gweithio mewn partneriaeth – nid oedd yn gallu darparu asesiad o faint y costau sy'n gysylltiedig. Gellir gweld yr adroddiad yma:

<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/future-generations-bill/?lang=cy>

341. Mae'n anodd iawn pennu beth a fydd yn sbarduno'r newid diwylliannol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r ddyletswydd mewn sefydliadau penodol, a mesur hynny yn nhermau costau. Nid oedd modd i'r sefydliadau a fu'n rhan o'r ymchwil osod gwaelodlin mewn perthynas â'u diwylliant ac ymddygiad presennol, ac o ganlyniad nid oedd modd i PwC ddarparu amcan bras hyd yn oed o'r costau tebygol mewn perthynas â newid diwylliannol.
342. Mae'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd i asesu costau a buddiannau'r dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar wasanaethau cyhoeddus isod yn adlewyrchu costau a buddiannau posibl gofynion penodol yn y Bil sydd, gyda chamau gweithredu eraill, yn ceisio gwella llesiant Cymru drwy ddatblygu cynaliadwy.
343. Casgliad adroddiad PwC, a gyhoeddwyd gyda'r asesiad effaith hwn oedd:

*“Overall, our findings suggested that potential opportunities and benefits that could be derived from implementing the principles of the Bill significantly outweigh the negative administrative impacts associated with implementation. However, organisations that respond to the requirements of the Bill as purely an exercise in compliance may miss the opportunity to use the introduction of the Bill as a catalyst for a fundamental change in the way that public sector organisations deliver their services.*

344. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad fod y sefydliadau a holwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil yn cael trafferth mesur eu 'haeddfedrwydd' o ran cydymffurfio â'r Bil, ac nad oeddent yn mesur cost y newidiadau yn nhermau costau.
345. Bydd pob corff cyhoeddus, wrth ddatblygu ei strategaeth a'i amcanion penodol, yn parhau i fod yn gyfrifol am asesu costau a manteision y cynigion ac am gadarnhau eu bod yn rhoi gwerth am arian.
346. Ym mhob achos, mae'r tablau'n darparu cost ddangosol am sut y dylai sefydliadau benderfynu ar eu hamcanion (gosod amcanion corfforaethol), sef y broses ar gyfer pennu canlyniadau strategol lefel uchel, ac nid am gynllunio busnes gweithredol. Ni fydd newidiadau yn y cynllun strategol (gosod amcanion) yn effeithio'n uniongyrchol ar brosesau cynllunio busnes er y gallent effeithio ar y canlyniadau.

## **Opsiwn 1. Gwneud dim**

347. O dan yr opsiwn hwn, bydd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn parhau â'u trefniadau presennol ar gyfer gosod amcanion corfforaethol. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy o dan ei dyletswyddau presennol, sydd wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.
348. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn gan ei fod yn parhau â'r trefniadau presennol ar gyfer gosod amcanion corfforaethol a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'n bwysig nodi ei bod yn debygol, o dan yr opsiwn hwn, y bydd y gweithgareddau canlynol, sy'n cael eu rheoli gan dimau ar wahân yn Llywodraeth Cymru, yn parhau mewn cysylltiad â'r meysydd canlynol:

- Gosod amcanion corfforaethol ochr yn ochr â datblygu'r cynllun Datblygu Cynaliadwy;
- Adolygu ac adrodd yn flynyddol ar yr amcanion corfforaethol a'r cynllun Datblygu Cynaliadwy.

349. Yn yr adran sy'n dilyn mae crynodeb o'r costau a ysgwyddir o dan y trefniadau presennol ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus. Gellir rhannu'r costau i'r categorïau canlynol:

(1) Gosod amcanion corfforaethol – cyflawnir hyn gan y 44 corff cyhoeddus sydd o fewn cwmpas y Bil;

(2) Adrodd yn flynyddol ar sail amcanion – cyflawnir hyn gan y 44 corff cyhoeddus sydd o fewn cwmpas y Bil;

(3) Asesu effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy – mae hyn yn gymwys i Lywodraeth Cymru yn unig;

(4) Gosod dangosyddion anstatudol ar gyfer datblygu cynaliadwy – mae hyn yn gymwys i Lywodraeth Cymru yn unig.

#### (1) Gosod amcanion corfforaethol

350. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod ei hamcanion corfforaethol presennol ar gyfer Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu. Gwnaed hyn yn 2011, ar gyfer y cyfnod 2011-2016, ar ôl yr etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

351. Mae'r broses hon yn cael ei defnyddio fel ffordd o asesu'r adnoddau sydd eu hangen o bosib i helpu Gweinidogion wrth osod amcanion corfforaethol ar gyfer tymor y Cynulliad.

352. Yr amcangyfrif o gostau'r adnoddau cysylltiedig â hyn yw £186,600. Mae Tabl 2 yn dangos dadansoddiad o'r costau hyn. O ddilyn dull tebyg o weithredu, byddai'r set nesaf o amcanion corfforaethol yn cael eu cyhoeddi yn 2016-17 ar ôl yr etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, i ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, rhagwelir y bydd yr un gost yn cael ei hysgwyddo os dilyni'r opsiwn 1.

*Tabl 2: Cost i Lywodraeth Cymru o gefnogi Gweinidogion wrth iddynt osod amcanion corfforaethol ar gyfer tymor y Cynulliad*

<b>Elfen</b>	<b>Cost</b>
Gosod amcanion corfforaethol a llunio datganiad (costau staff)	£126,200
Dylunio a Chysodi	£5,500
Cyfieithu	£31,200
Cyhoeddi ar y we	£12,900
Datblygu TGCh	£10,800
<b>CYFANSWM</b>	<b>£186,600</b>

353. O dan opsiwn 1, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau hefyd wrth lunio'r cynllun Datblygu Cynaliadwy (DC). Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn y broses o baratoi cynllun DC statudol newydd, gan ymgynghori arno a'i gyhoeddi, dair gwaith er 1998. O dan yr opsiwn hwn, cymerir y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu ac ail-lunio'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy ym mhob tymor Cynulliad.
354. Cangen Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n paratoi'r cynllun DC, ac yn cydlynu'r gwaith o reoli adroddiadau ar y cynllun. Mae'r costau staff, felly, wedi'u cynnwys isod. Yn ogystal â chostau staff, gwariwyd £22,000 ar hyrwyddo ac ymgynghori â phobl ar y cynllun presennol. Cymerir y bydd cost debyg yn cael ei hysgwyddo ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Os dilynir yr opsiwn hwn, mae'n debygol y bydd cynllun newydd yn cael ei ddiwygio a'i ail-lunio yn 2017/18, os bydd y Llywodraeth nesaf yn penderfynu gwneud hynny.

*Tabl 3: Costau rhedeg gros y Gangen Datblygu Cynaliadwy*

<b>Gradd</b>	<b>Cost flynyddol y graddau</b>
Band Gweithredol 2 (EB2)	£69,400
Band Rheoli 1 (MB1)	£51,900
MB1	£51,900
MB2	£40,700
MB3	£32,400
<b>CYFANSWM</b>	<b>£246,300</b>

355. Mae cyrff cyhoeddus eraill yn gosod amcanion corfforaethol hefyd. Defnyddiwyd ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wrth osod paramedrau'r costau llinell sylfaen i sefydliadau am osod amcanion strategol. Felly mae amcangyfrif

gorau wedi'i ddarparu isod sydd wedi'i seilio ar faint a swyddogaethau'r gwahanol gyrff.

356. Amcangyfrifir bod costau cyhoeddi tua £13,000 ar gyfer pob Awdurdod Lleol a £10,000 ar gyfer cyrff eraill (sydd fel rheol â llai o eiriau yn eu hadroddiadau blynyddol).

#### *Awdurdodau Lleol*

357. Mae'r poblogaethau a wasanaethir gan awdurdodau lleol yng Nghymru'n amrywio'n fawr, rhwng 345,400 (Caerdydd) a 58,900 (Merthyr Tudful). Yr un yw'r dyletswyddau statudol a gyflawnir gan awdurdodau lleol, beth bynnag fo'u maint, ond mae'n anochel bod poblogaethau mwy yn fwy cymhleth gan eu bod fel arfer mewn ardaloedd trefol poblog lle y mae gwahaniaethau mawr o ran demograffeg ac anfantais e.e. o ran tlodi neu ganlyniadau iechyd.
358. Oherwydd hyn, bwriedir llunio tri model, ar sail y tri grŵp a ddefnyddir yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2014)<sup>46</sup>, fel a ganlyn:

Grŵp A.	Caerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf
Grŵp B	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam
Grŵp C	Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen

359. Mae tair set o gostau wedi'u darparu ar gyfer pob sefydliad neu fath o sefydliad. Mae hanner uchaf y tabl yn dangos amcangyfrif o'r costau am osod amcanion ar y dechrau h.y. Blwyddyn 1 yn y cylch cynllunio. Mae'r hanner isaf yn dangos amcangyfrif o'r costau ar gyfer blynyddoedd dilynol yn y cylch cynllunio. Ar gyfer pob "math" o sefydliad, rhoddir amrediad o gostau sy'n enghreifftiol yn unig, a defnyddir y pwynt canol i ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
360. Defnyddiwyd y tybiaethau canlynol mewn perthynas â'r amcangyfrifon ar gyfer costau cyflog:
- Ar gyfer pob corff cyhoeddus ac eithrio Cyfoeth Naturiol Cymru, cymerwyd cyflogau cyfartalog 2012/13 y "Prif Weithredwr" ac "Uwch Swyddogion" o adroddiad "Tâl uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru" Swyddfa Archwilio Cymru, 2014. Amcangyfrif yw'r data cyflogau o dan y lefel Cyfarwyddwr.
  - Ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, darparwyd data ynghylch cyflogau pob band, gan gynnwys argostau.
  - Mae'r holl gostau cyflogau eraill yn cynnwys 30% o argostau.



d. Mae'r holl ddata yn rhagdybio 220 o ddiwrnodau gwaith.

Tabl 4: Awdurdodau Lleol Grŵp A

361. Mae gweithluoedd mawr gan y tri awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Mae'r rhain yn cydgysylltu â rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, a hefyd â'r sector preifat, y trydydd sector a'r cyhoedd. Mae nifer o systemau gan yr awdurdodau lleol hyn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, caffael a llywodraethu. O ganlyniad i hyn, maent yn gyfrifol am nifer mawr o asedau ac am gylchoedd cynllunio cymhleth a di-dor ar gyfer newid sefydliadol. Mae gan bob un ohonynt gylch cynllunio strategol pum mlynedd, a phroses dreigl dair blynedd ar gyfer cynllunio busnes gweithredol.

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog blynyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£201,814.60	£2,100 - £3,400
Cyfarwyddwr	3	7.5-12.5	22.5-37.5	£143,000.00	£14,600 - £24,400
Pennaeth Gwasanaeth	10	7.5-12.5	75-125	£78,000.00	£26,600 - £44,300
Rheolwr Gweithredol	20	3.75-6.25	75-125	£71,500.00	£24,400 - £40,600
Cymorth Gweinyddol	1	15-25	15-25	£28,600.00	£2,000 - £3,200
<b>Pwynt canol: £90,100.00</b>					
<b>Blynyddoedd 2-5 – Diweddarau ac adrodd</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£201,814.60	£2,100 - £3,400
Cyfarwyddwr	3	1.5-2.5	4.5-7.5	£143,000.00	2,900 -£4,900

Pennaeth Gwasanaeth	10	2.25-3.75	22.5-37.5	£78,000.00	£8,000 - £13,300
Rheolwr Gweithredol	20	2.25-3.75	45-75	£71,500.00	£14,600 - £24,400
Cymorth Gweinyddol	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,600.00	£1,000 - £1,600
<b>Pwynt canol: £35,300.00</b>					

Tabl 4a: Awdurdodau Lleol Grŵp B

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog blynnyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£175,496.10	£1,800 - £3,000
Cyfarwyddwr	3	6-10	18-30	£153,933.00	£12,600 - £21,000
Pennaeth Gwasanaeth	8	7.5-12.5	60-100	£78,000.00	£21,300 - £35,500
Rheolwr Gweithredol	15	3.75-6.25	56-94	£71,500.00	£18,300 - £30,500
Cymorth Gweinyddol	1	15-25	15-25	£28,600.00	£2,000 - £3,300
<b>Pwynt canol: £72,100.00</b>					
<b>Blynnyddoedd 2-5 – Diweddarau ac adrodd</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£175,496.10	£2,600 - £4,300
Cyfarwyddwr	3	1.5-2.5	4.5-7.5	£153,933.00	£3,100 - £5,200
Pennaeth Gwasanaeth	8	2.25-3.75	18-30	£78,000.00	£6,400 - £10,600
Rheolwr Gweithredol	15	2.25-3.75	33.75-56.25	£71,500.00	£11,000 - £18,300

Cymorth Gweinyddol	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,600.00	£1,000 - £1,600
<b>Pwynt canol: £28,600.00</b>					

Tabl 4b: Awdurdodau Lleol Grŵp C

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog blynyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25 – 3.75	2.25 - 3.75	£152,907.30	£1,600-£2600
Cyfarwyddwr	3	6-10	18-30	£128,050.00	£10,300-£17,200
Pennaeth Gwasanaeth	8	7.5-12.5	60-100	£78,000.00	£21,000-£35,000
Rheolwr Gweithredol	15	3.75-6.25	56-94	£65,000.00	£16,400-£27,300
Cymorth Gweinyddol	1	15-25	15-25	£28,730.00	£1,900-£3,200
<b>Pwynt canol: £66,200.00</b>					
<b>Blynyddoedd 2-5 – Diweddarau ac adrodd</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25 – 3.75	2.25 - 3.75	£152,907.30	£1,600-£2,600
Cyfarwyddwr	3	1.5-2.5	4.5-7.5	£128,050.00	£2,600-£4,300
Pennaeth Gwasanaeth	8	2.25-3.75	18-30	£78,000.00	£6,300-£10,500
Rheolwr Gweithredol	15	2.25-3.75	34-56	£65,000.00	£9,800-£16,400
Cymorth Gweinyddol	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,730.00	£1,000-£1,600
<b>Pwynt canol: £26,200.00</b>					

Tabl 5: Byrddau Iechyd Lleol sy'n ddarostyngedig i'r Bil

362. Mae Byrddau Iechyd yng Nghymru'n cyflawni nifer o wasanaethau arbenigol a swyddogaethau gweinyddol. Mae ganddynt weithlu â sgiliau lluosog ac eiddo ac asedau helaeth. Bydd Byrddau Iechyd yn cydgysylltu mewn nifer o ffyrdd â llywodraeth leol, y trydydd sector, addysg uwch, cwmnïau mawr yn y sector preifat a'r cyhoedd. Mae ganddynt gyloch cynllunio tair blynedd. Gan fod Byrddau Iechyd Lleol, fel Awdurdodau Lleol, yn amrywio o ran maint a chymhlethdod, lluniwyd tri model, fel a ganlyn:

Grŵp A	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
Grŵp B	Byrddau Iechyd Cwm Taf a Hywel Dda
Grŵp C	Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Ymddiriedolaeth Iechyd Felindre

Tabl 5a: Byrddau Iechyd Grŵp A

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog blynyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£251,875.00	£2,600-4,300
Cyfarwyddwr	5	7.5-12.5	37.5-62.5	£221,000.00	£37,700 - £62,800
Pennaeth Gwasanaeth	10	11.25-18.75	112.5-187.5	£91,000.00	£46,500 - £77,600
Rheolwr Gweithredol	20	5.25-8.75	105-175	£78,000.00	£37,200 - £62,000
Cymorth Gweinyddol	2	15-25	30-50	£28,600.00	£3,900 - £6,500
<b>Pwynt canol: £167,100.00</b>					
<b>Blynyddoedd 2-5 – Diweddarau ac adrodd</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£251,875.00	£2,600-4,300

Cyfarwyddwr	5	3-5	15-25	£221,000.00	£15,100 - £25,100
Uwch Reolwr	10	3.75-6.25	37.5-62.5	£91,000.00	£15,500 - £25,900
Rheolwr Gweithredol	20	3-5	60-100	£78,000.00	£21,300 - £35,500
Cymorth Gweinyddol	2	7.5-12.5	15-25	£28,600.00	£2,000 - £3,300
<b>Pwynt canol: £71,700.00</b>					

Tabl 5b: Byrddau Iechyd Grŵp B

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog Blynyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£221,000.00	£2,300-3,800
Cyfarwyddwr	5	7.5-12.5	37.5-62.5	£143,000.00	£24,400 - £40,600
Pennaeth Gwasanaeth	10	11.25-18.75	112.5-187.5	£91,000.00	£46,500 - £77,600
Rheolwr Gweithredol	20	5.25-8.75	105-175	£78,000.00	£37,200 - £62,000
Cymorth Gweinyddol	2	15-25	30-50	£28,600.00	£3,900 - £6,500
<b>Pwynt canol: £149,400.00</b>					
<b>Blynyddoedd 2-5 – Diweddarau ac adrodd</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£221,000.00	£2,300-3,800
Cyfarwyddwr	5	3-5	15-25	£143,000.00	£9,800 - £16,300
Uwch Reolwr	10	3.75-6.25	37.5-62.5	£91,000.00	£15,500 - £25,900
Rheolwr Gweithredol	20	3-5	60-100	£78,000.00	£21,300 - £35,500

Cymorth Gweinyddol	2	7.5-12.5	15-25	£28,600.00	£2,000 - £3,300
<b>Pwynt canol: £64,600.00</b>					

Tabl 5c: Byrddau Iechyd Grŵp C

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog Blynnyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£170,625.00	£1,700 - £2,900
Cyfarwyddwr	5	7.5-12.5	37.5-62.5	£130,000.00	£22,200 - £36,900
Uwch Reolwr	10	11.25-18.75	112.5-187.5	£91,000.00	£46,500 - £77,600
Rheolwr Gweithredol	20	5.25-8.75	105-175	£78,000.00	£37,200 - £62,000
Cymorth Gweinyddol	2	15-25	30-50	£28,600.00	£3,900 - £6,500
<b>Pwynt canol: £146,400.00</b>					
<b>Blynnyddoedd 2-5 – Diweddarau ac adrodd</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£170,625.00	£1,700 - £2,900
Cyfarwyddwr	5	3-5	15-25	£130,000.00	£8,900 - £14,800
Uwch Reolwr	10	3.75-6.25	37.5-62.5	£91,000.00	£15,500 - £25,900
Rheolwr Gweithredol	20	3-5	60-100	£78,000.00	£21,300 - £35,500
Cymorth Gweinyddol	2	7.5-12.5	15-25	£28,600.00	£2,000 - £3,300
<b>Pwynt canol: £63,500.00</b>					

Tabl 6: Awdurdod Tân ac Achub

363. Mae awdurdodau tân ac achub yn cyflawni ystod o swyddogaethau arbenigol a phenodol iawn, ac mae llai o newid dros amser. Mae ganddynt gylch cynllunio tair blynedd.

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog Blynnyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£161,883	£1,700-2,800
Cyfarwyddwr	1	3.75-6.25	3.75-6.25	£105,220	£1,800 - £3,000
Uwch Reolwr	3	6-10	18-30	£78,000	£6,400 - £10,600
Rheolwr Gweithredol	8	2.25-3.75	18-30	£52,000	£4,300 - £7,100
Cymorth (ysgrifenyddol)	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,600	£1,000 - £1,600
<b>Pwynt canol: £17,900.00</b>					
<b>Blynnyddoedd 2-5 - Diweddaru ac adrodd</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£161,883	£1,700-2,800
Cyfarwyddwr	1	1.5-2.5	1.5-2.5	£105,220	£700 -£1,200
Uwch Reolwr	3	2.25-3.75	6.75-11.25	£78,000	£2,400 - £4,000
Rheolwr Gweithredol	8	1.5 – 2.5	12-20	£52,000	£2,800 - £4,700
Cymorth (ysgrifenyddol)	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,600	£1,000 - £1,600
<b>Pwynt canol: £9,200.00</b>					

Tabl 7: Cyfoeth Naturiol Cymru

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflwg Blynyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25 - 3.75	2.25 - 3.75	£203,621	£2,100 - £3,500
Cyfarwyddwr	10	2.25 - 3.75	22.5 - 37.5	£130,639	£13,400 - 22,300
Uwch Reolwr	20	2.25 - 3.75	45 - 75	£93,096	£19,000 - £31,700
Rheolwr Gweithredol	10	10 - 30	100 - 300	£79,105	£16,200 - £27,000
Cymorth Gweinyddol	1	11.25 - 31.25	11.25 - 31.25	£33,199	£2,800 - £4,700
					<b>Pwynt canol £71,400.00</b>
<b>Blynyddoedd 2-5 - Diweddarau ac adrodd</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£117,535.00	£1,200 - £2,000
Cyfarwyddwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£83,757.00	£900 -£1,400
Uwch Reolwr	5	2.25-3.75	11.25-18.75	£68,321.00	£3,500 -£5,800
Rheolwr Gweithredol	10	2.25-3.75	22.5-37.5	£34,084.00	£3,500 -£5,800
Cymorth Gweinyddol	1	20	15-25	£20,279.00	£1,400-£2,300
					<b>Pwynt canol: £12,300.00</b>

364. Fel y sefydliad cyntaf o'i fath yn y DU, a'r corff mwyaf a noddir yng Nghymru, mae gan CNC gymysgedd o gyfrifoldebau yn cwmpasu tir, coedwigaeth, natur a bywyd



gwyllt, ansawdd aer, adnoddau ac ansawdd dŵr, rheoli perygl llifogydd a physgota dŵr ffres.

365. Drwy gynllun strategol ar gyfer 2014-17, mae CNC wedi datblygu fframwaith perfformiad i ddangos yn glir sut mae'r cynlluniau cyflawni'n cyfrannu at ganlyniadau hirdymor.

*Tabl 8: Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a CCAUC*

366. Mae cyrff a noddir a CCAUC yn cyflawni ystod o swyddogaethau arbenigol a phenodol iawn, ac mae llai o newid dros amser.

Swyddog	Nifer y swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog Blynnyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£114,400	£1,200-2,000
Cyfarwyddwr	1	3.75-6.25	3.75-6.25	£92,300	£600 -£1,000
Uwch Reolwr	3	7.5-12.5	22.5-37.5	£78,000	£8,000 - £13,300
Rheolwr Gweithredol	5	3.75-6.25	18.75-31.25	£52,000	£4,400 – £7,400
Cymorth (ysgrifenyddol)	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,600	£1000 - £1,600
				<b>Pwynt canol: £20,700.00</b>	
<b>Blynnyddoedd 2-5</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£114,400	£1,200-2,000
Cyfarwyddwr	1	1.5-2.5	1.5-2.5	£123,500	£800 -£1,400
Uwch Reolwr	3	3.75-6.25	11.25-18.75	£78,000	£4,000 - £6,600
Rheolwr Gweithredol	5	1.5 – 2.5	7.5-12.5	£52,000	£1,800 - £3,000
Cymorth (ysgrifenyddol)	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,600	£1,000 - £1,600

**Pwynt canol: £9,800.00**

Tabl 9: Awdurdodau Parc Cenedlaethol

Swyddog	Nifer y Swyddi	Amser / yr un (diwrnodau)	Cyfanswm amser (diwrnodau)	Cyflog Blynnyddol	Cyfanswm
<b>Blwyddyn 1</b>					
Prif Weithredwr	1	2.25-3.75	2.25-3.75	£97,500	£1,000 - £1,700
Cyfarwyddwr	1	3.75-6.25	7.5-12.5	£78,000	£2,700 -£4,400
Uwch Reolwr	3	7.5-12.5	22.5-37.5	£65,000	£6,600 -£11,100
Rheolwr Gweithredol	5	3.75-6.25	18.75-31.25	£52,000	£4,400 -£7,400
Cymorth Gweinyddol	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,600	£1,000 -£1,600
<b>Pwynt canol: £19,600.00</b>					
<b>Blynnyddoedd 2-5</b>					
Prif Weithredwr	1	1.5-2.5	1.5-2.5	£97,500	£700 - £1,100
Cyfarwyddwr	1	1.5-2.5	1.5-2.5	£78,000	£500 -£900
Uwch Reolwr	3	2.25-3.75	6.75-11.25	£65,000	£2,000 -£3,300
Rheolwr Gweithredol	5	2.25-3.75	11.25-18.75	£52,000	£2,700 -£4,400
Cymorth Gweinyddol	1	7.5-12.5	7.5-12.5	£28,600	£1,000 -£1,600
<b>Pwynt canol: £8,200.00</b>					

367. Mae Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn cyflawni a chynllunio ystod o swyddogaethau penodol, ac mae llai o newid dros amser.

(2) Adrodd yn flynyddol ar amcanion corfforaethol

368. Mae'r costau i'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u henwi yn y Bil am adrodd yn flynyddol ar amcanion strategol wedi'u cynnwys yn y costau ar gyfer blynyddoedd 2-5 sydd wedi'u nodi uchod.
369. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn paratoi adroddiad blynyddol ar ei hamcanion corfforaethol a chyflawnir y gwaith hwn gan y gangen Effeithiolrwydd Cyllidebu dros gyfnod o tua naw mis. Y costau staff sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu'r adroddiad blynyddol yw tua £103,300 y flwyddyn. O dan opsiwn 1, rhagwelir y byddai'r gwaith hwn yn dechrau un flwyddyn ar ôl gosod amcanion corfforaethol (2017/18) ac yn parhau am 4 blynedd wedyn tan yr etholiad nesaf.

*Tabl 10: Crynodeb o gostau staff sy'n gysylltiedig ag adrodd yn flynyddol ar yr amcanion corfforaethol*

Gradd	Cost flynyddol y radd*	Cost fisol*	Cyfnod**
Adolygiad ac Adroddiad Blynyddol			
EB1	£85,910	£7,159	3 mis
EB2	£69,435	£5,786	9 mis
MB2	£40,669	£3,389	4 mis
MB3	£32,400	£2,700	6 mis
<b>IS-GYFANSWM</b>			<b>£103,300</b>
* cost grynswth wedi'i seilio ar bwynt ar y raddfa gyflog sy'n is na'r uchafswm			
** ar sail blynyddoedd o 52 wythnos ac wythnosau o 5 niwrnod neu 37 awr			

370. Comisiynir tystiolaeth gan Adrannau yn y meysydd canlynol:
- 1) Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd ac a weithredwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn erbyn y penodau perthnasol;
  - 2) Cynnydd hyd yma yn erbyn bob un o 547 ymrwymiad y llywodraeth;
  - 3) Adroddiadau ar ddangosyddion (247) sy'n edrych ar (a) "Perfformiad Cymru" [dangosyddion canlyniadau] a (b) "Perfformiad Llywodraeth Cymru" [dangosyddion tracio].
371. Amcangyfrifir bod y gwaith hwn yn gofyn am amser sy'n cyfateb i bedwar swyddog yn y band rheoli am 9 mis, un swyddog yn y band gweithredol am naw mis a Chyfarwyddwr am dri mis.

Tabl 11: Costau comisiynu tystiolaeth ar gyfer adrodd yn erbyn amcanion corfforaethol

Gradd	Cost flynyddol y radd*	Cost fisol*	Cyfnod**
Adolygiad ac Adroddiad Blynyddol			
SCS3	£128,989	£10,749	3 mis
EB2	£69,435	£5,786	9 mis
MB2	£40,669	£3,389	9 mis
MB2	£40,669	£3,389	9 mis
MB2	£40,669	£3,389	9 mis
MB2	£40,669	£3,389	9 mis
<b>IS-GYFANSWM</b>			<b>£206,000</b>
* cost grynswth wedi'i seilio ar bwynt ar y raddfa gyflog sy'n is na'r uchafswm			
** ar sail blynyddoedd o 52 wythnos ac wythnosau o 5 niwrnod neu 37 awr			

372. Cyhoeddir yr adroddiadau blynyddol yn ddwyieithog a'r amcangyfrif o'r costau cyfieithu yw tua £31,200. Mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar y gost am gyfieithu a darllen profleuni'r adroddiad ar y Rhaglen Lywodraethu yn 2011. Rhagwelir y bydd y costau cysodi ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad blynyddol yr un fath â'r costau ar gyfer dogfen wreiddiol y Rhaglen Lywodraethu yn 2011. Mae'r costau am gyhoeddi ar y we yn llai o lawer ar gyfer yr adroddiadau blynyddol am fod y swyddogion yn dod yn fwyfwy cyfarwydd ag Offeryn Adrodd Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu.

Tabl 12: Llunio adroddiad blynyddol ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu

Elfen	Cost
Casglu tystiolaeth	Gweler uchod
<b>IS-GYFANSWM</b>	<b>£206,000</b>
Llunio adroddiad	
Y Gangen Effeithiolrwydd Cyllidebu	£103,300
Cyhoeddi ar y we	£2,700
Costau cyfieithu	£31,200
Cysodi	£5,500

Elfen	Cost
<b>CYFANSWM</b>	<b>£348,700</b>

*Adrodd ar y cynllun Datblygu Cynaliadwy*

373. O dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae hefyd yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru, ar ôl pob blwyddyn ariannol, yn cyhoeddi adroddiad ar y ffordd yr oedd y cynigion yn y cynllun datblygu cynaliadwy wedi cael eu gweithredu yn y flwyddyn honno a'u bod yn gosod copi o'r adroddiad gerbron y Cynulliad.
374. Mae'r adroddiad blynyddol ar y cynllun datblygu cynaliadwy yn cael ei baratoi gan y Gangen Datblygu Cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru dros gyfnod o tua chwe mis. Y costau staff sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu'r adroddiad blynyddol yw tua £6,900 y flwyddyn. Mae'r costau staff ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad wedi'u cynnwys yng nghostau'r Gangen Datblygu Cynaliadwy a nodwyd uchod.
375. Mae'r dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cael ei chasglu, drwy gomisiwn, oddi wrth holl Adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'r gost am gasglu tystiolaeth yn amrywio yn ôl yr Adran ond, ar gyfartaledd, mae pob un o adrannau polisi Llywodraeth Cymru (Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Sgiliau, yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth) yn neilltuo un diwrnod o waith swyddog yn y band rheoli, hanner diwrnod o waith swyddog yn y band gweithredol ac un awr o amser Cyfarwyddwr i lunio pob diweddariad sydd yn yr adroddiad. Mae hyn yn cyfateb i gost o £367 am bob diweddariad. Yn 2013-2014, darparwyd 50 o ddiweddariadau. Felly yr amcangyfrif o'r costau am gasglu tystiolaeth yw tua £18,350 (50 x £367).
376. Ar ôl ei ysgrifennu, byddai'r adroddiad blynyddol yn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan Ddirprwy Gyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru am gost o tua £400. Cyhoeddir yr adroddiadau blynyddol yn ddwyieithog a'r amcangyfrif o'r costau cyfieithu yw tua £1,800. Mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar y gost am gyfieithu a darllen profleuni adroddiad blynyddol 2013-14.
377. Bydd costau'n cael eu hysgwyddo hefyd gan Cynnal Cymru wrth helpu'r Comisiynydd i gyflwyno sylwadau am Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar DC, ac i fonitro camau dilynol. Mae Cynnal Cymru wedi datgan bod y costau hyn oddeutu £1,550 yn 2013.
378. Yr amcangyfrif o'r holl gostau am lunio'r adroddiad blynyddol yw £29,000 y flwyddyn. [Mae costau adrodd cyrff cyhoeddus eraill wedi'u gosod ym mharagraff 79 uchod.] Fel y nodwyd uchod, mae costau'r Gangen Datblygu Cynaliadwy wedi'u cynnwys yn Nhabl 3 ac felly, er mwyn peidio â'u cyfrif ddwywaith, nid yw costau'r Gangen DC wedi'u cynnwys yn y tabl crynodeb ar gyfer yr opsiwn hwn (Tabl 14).

*Tabl 13: Llunio'r adroddiad blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy*

Elfen	Cost
-------	------

Casglu tystiolaeth (50 diweddariad)	£367 fesul diweddariad
<b>IS-GYFANSWM</b>	<b>£18,350</b>
Llunio adroddiad	
Y Gangen Datblygu Cynaliadwy	£6,900
Uwch Was Sifil	£400
Costau cyfieithu	£1,800
Costau cefnogi'r Comisiynydd	£1,550
<b>CYFANSWM</b>	<b>£29,000</b>
<b>Cyfanswm heb gynnwys costau'r Gangen DC</b>	<b>£22,100</b>

(3) Adroddiad sy'n cynnwys asesiad o effeithiolrwydd wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy

379. Mae'n ofynnol bod Gweinidogion Cymru, ar ôl etholiad, yn cyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y cynigion y maent wedi'u nodi yn y cynllun o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy, a'u bod yn gosod copi o'r adroddiad gerbron y Cynulliad.
380. Cafwyd tri adroddiad am effeithiolrwydd er 1998 ac, ym mhob achos, mae'r asesiadau o effeithiolrwydd wedi'u cyflawni'n annibynnol gan ymgynghorwyr. Roedd yr ymgynghorwyr hyn wedi'u penodi drwy'r gweithdrefnau caffael arferol.
381. Mae'r costau am lunio'r adroddiad ar effeithiolrwydd y cynllun datblygu cynaliadwy yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Cost yr adolygiad blaenorol o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cynllun datblygu cynaliadwy oedd £25,000 a chymerir y bydd cost debyg yn cael ei hysgwyddo yn y dyfodol. Mae'n ofynnol bod yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn 2016-17.

(4) Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy (anstatudol)

382. Yn unol â'r gofynion ar gyfer ystadegau gwladol, mae'r set o ddangosyddion datblygu cynaliadwy yn cael ei diweddarau bob blwyddyn. Cost y gweithgarwch hwn yw tua £5,400.

*Tabl 14: Crynodeb o'r costau trosiannol a rheolaidd a ysgwyddir yn 2015-16 ac wedyn o dan opsiwn 1 (Gwneud dim)*

Sefydliad	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
<b>Llywodraeth Cymru</b>					
Y Gangen Datblygu Cynaliadwy	£246,300	£246,300	£246,300	£246,300	£246,300
Datblygu Cynllun DC		£22,000			
Adroddiad Blynyddol DC	£22,100	£22,100	£22,100	£22,100	£22,100
Dangosyddion DC (diweddaru)	£5,400	£5,400	£5,400	£5,400	£5,400
Adolygiad o effeithiolrwydd	£25,000				
Gosod Amcanion Corfforaethol	£18,6600				
Adroddiad Blynyddol ar yr amcanion corfforaethol	£348,700	£348,700	£348,700	£348,700	£348,700
<b>Cyfanswm</b>	<b>£834,100</b>	<b>£644,500</b>	<b>£622,500</b>	<b>£622,500</b>	<b>£622,500</b>
<b>Awdurdodau Lleol Grŵp A (3)</b>					
Amcanion corfforaethol	£270,300				
Diweddaru ac adrodd		£105,900	£105,900	£105,900	£105,900
<b>Awdurdodau Lleol Grŵp B (12)</b>					
Amcanion corfforaethol	£865,200				
Diweddaru ac adrodd		£343,200	£343,200	£343,200	£343,200
<b>Awdurdodau Lleol Grŵp C (7)</b>					
Amcanion corfforaethol	£463,400				
Diweddaru ac adrodd		£183,400	£183,400	£183,400	£183,400
<b>Byrddau Iechyd Lleol Grŵp A (4)</b>					
Amcanion corfforaethol	£668,400				
Diweddaru ac adrodd		£286,800	£286,800	£286,800	£286,800
<b>Byrddau Iechyd Lleol Grŵp B (2)</b>					
Amcanion corfforaethol	£298,800				
Diweddaru ac adrodd		£129,200	£129,200	£129,200	£129,200
<b>Byrddau Iechyd Lleol Grŵp C ac Ymddiriedolaethau Iechyd Gwladol (3)</b>					
Amcanion corfforaethol	£439,200				
Diweddaru ac adrodd		£190,500	£190,500	£190,500	£190,500
<b>Awdurdodau Tân ac Achub (3)</b>					
Amcanion corfforaethol	£53,700				
Diweddaru ac adrodd		£27,600	£27,600	£27,600	£27,600
<b>Natural Resources Wales</b>					
Amcanion corfforaethol	£71,300				
Diweddaru ac adrodd		£12,300	£12,300	£12,300	£12,300
<b>HEFCW and WGSBs (5)</b>					
Amcanion corfforaethol	£103,500				
Diweddaru ac adrodd		£49,000	£49,000	£49,000	£49,000

<b>Cyfoeth Naturiol Cymru</b>					
Amcanion corfforaethol	£58,800				
Diweddaru ac adrodd		£24,600	£24,600	£24,600	£24,600
<b>Cynghorau Tref a Chymuned (73)</b>					
Adrodd	£26,440	£26,440	£26,440	£26,440	£26,440
<b>Adroddiadau blynyddol yr holl gyrrff cyhoeddus (44)</b>	£50,6000	£50,6000	£50,6000	£50,6000	£50,6000
<b>Cyfanswm</b>	£3,825,040	£1,884,940	£1,884,940	£1,884,940	£1,884,940
<b>Cyfanswm Cyffredinol</b>	£4,659,140	£2,529,440	£2,507,440	£2,507,440	£2,507,440

## Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth

383. O dan yr opsiwn hwn, rhagwelir y bydd costau staff y Gangen Datblygu Cynaliadwy a'r Gangen Effeithiolrwydd Cyllidebu – sydd wedi'u nodi uchod – yn parhau. Bydd costau penodol a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru yn unig mewn cysylltiad â'r gofynion hyn:
- (1) Llunio canllawiau ar gyfer y Bil;
  - (2) Datblygu set o fesurau cynnydd cenedlaethol (dangosyddion cenedlaethol) ar gyflawni'r nodau llesiant hirdymor cyffredin i Gymru (Gweinidogion Cymru);
  - (3) Diweddaru'r mesurau cynnydd hyn yn flynyddol ac adrodd arnynt (Gweinidogion Cymru);
  - (4) Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol hefyd y bydd yr adroddiad hwn yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddyddiad etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol.
384. Yn ogystal â hyn, bydd costau i Lywodraeth Cymru ac i'r 43 o gyrrff cyhoeddus sydd o fewn cwmpas y Bil mewn cysylltiad â'r dyletswyddau datblygu cynaliadwy ar gyfer:
- (5) Gosod a chyflawni amcanion i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt at gyrraedd y nodau llesiant yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy;
  - (6) Cyhoeddi datganiad sy'n egluro sut a pham y byddant yn cyfrannu at gyrraedd nodau llesiant drwy eu gwaith, gan gynnwys pa bryd y disgwylir i gamau gweithredu o'r fath gael eu cymryd;
  - (7) Adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y mae'r corff wedi'i wneud ar gyflawni amcanion llesiant.
385. Mae'r holl sefydliadau sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil wedi rhoi trefniadau ar waith eisoes i gyhoeddi eu hamcanion corfforaethol ac adrodd ar eu camau gweithredu, felly ni chofnodwyd costau ychwanegol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Y bwriad yw y bydd Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r



ddeddfwriaeth, yn cyfuno'r gwahanol brosesau ac allbynnau sydd wedi'u disgrifio uchod ar gyfer:

- Gosod amcanion corfforaethol ochr yn ochr â datblygu'r cynlluniau Datblygu Cynaliadwy ('Rhaglen Lywodraethu' a'r 'Cynllun Datblygu Cynaliadwy')
- Adolygu ac adrodd yn flynyddol ar amcanion corfforaethol a chynlluniau Datblygu Cynaliadwy ('Adroddiad Cynnydd y Rhaglen Lywodraethu' ac 'Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy')

(1) Llundio canllawiau ar gyfer y Bil

386. Bydd y brif gost i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â datblygu, ymgysylltu, ymgynghori a drafftio'r canllawiau statudol i helpu cyrff cyhoeddus a enwyd i weithredu darpariaethau'r Bil a gwireddu'r manteision. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil. Yr amcangyfrif o'r gost hon yw £10,000 a fyddai'n cynnwys costau gweithgor allanol, cyhoeddi'r deunydd, trefnu a chynnal digwyddiadau ymgysylltu ar y canllawiau, a chaiff ei ariannu o'r cyllid presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru.

(2) Datblygu set o fesurau cynnydd cenedlaethol (dangosyddion cenedlaethol) ar gyflawni'r nodau llesiant hirdymor cyffredin i Gymru (Gweinidogion Cymru)

387. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau staff am ddatblygu set o ddangosyddion cenedlaethol mewn cysylltiad â chwmpasu'r fframwaith dangosyddion, datblygu dangosyddion, ymgynghori a chyhoeddi set derfynol o ddangosyddion (gan gynnwys data). Gan fod y gwaith hwn wedi'i gynnwys yn yr amcangyfrif gorau ar gyfer gosod amcanion llesiant uchod – y Rhaglen Lywodraethu – ni chofnodwyd costau ychwanegol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

(3) Diweddarau'r mesurau cynnydd cenedlaethol

388. Rhagwelir na fydd cost y gweithgarwch hwn yn wahanol i'r gost o £5,400 sy'n cael ei hysgwyddo ar hyn o bryd am ddiweddarau'r set o ddangosyddion datblygu cynaliadwy. Gan fod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, nid yw'n gost ychwanegol o ganlyniad i'r Bil.

(4) Rhagfynegi tueddiadau tebygol yn y dyfodol

389. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddyddiad etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol yn ei hadroddiad blynyddol ar amcanion llesiant.
390. Bydd hyn yn helpu i ddarparu tystiolaeth hirdymor i'w defnyddio gan y Comisiynydd wrth ymgysylltu â dinasyddion. Ym mis Ionawr 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ystadegol *Deall Dyfodol Cymru*, a ddefnyddir i bennu costau'r gofyniad hwn. O dan yr opsiwn hwn, byddai adroddiad ar dueddiadau yn y dyfodol yn cael ei gyhoeddi gyda datganiad Llywodraeth Cymru ar amcanion llesiant yn 2016/17.

Tabl 15: Braslun o gostau staff perthnasol Llywodraeth Cymru wrth gynhyrchu Deall Dyfodol Cymru:

Gradd	Cost flynyddol y radd*	Cost fisol*	Amser
<i>Casglu tystiolaeth</i>			
SCS†	£108,309	£9,026	20 diwrnod
G7	£69,435	£5,786	30 diwrnod
MB2	£40,669	£3,389	40 diwrnod
<b>SUBTOTAL</b>			<b>£22,600</b>
<i>Llunio adroddiad</i>			
G3	£128,989	£10,749	25% 6-8 wythnos
G6	£85,910	£7,159	75% 6-8 wythnos
MB2	£40,669	£3,389	10% 6-8 wythnos
<b>IS-GYFANSWM (6 wythnos)</b>			<b>£11,600</b>
<b>IS-GYFANSWM (7 wythnos)</b>			<b>£13,500</b>
<b>IS-GYFANSWM (8 wythnos)</b>			<b>£15,500</b>
<b>CYFANSWM (7 wythnos i'w lunio)</b>			<b>£36,200</b>
* cost grynsyth wedi'i seilio ar bwynt ar y raddfa gyflog sy'n is na'r uchafswm			
† gradd anhysbys – gan gymryd bod G4 yn Bennaeth Grŵp			

(5) a (6) Gosod amcanion a chyhoeddi datganiad am yr amcanion hynny

391. Yr amcangyfrif o gost yr adnoddau i Lywodraeth Cymru am osod yr amcanion llesiant yw £186,600 yn 2016/17. Mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar y gost am osod amcanion corfforaethol i Lywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu gyntaf sydd wedi'i nodi uchod. O dan opsiwn 2, rhagwelir y bydd y costau am lunio'r cynllun datblygu cynaliadwy (heb gynnwys costau staff y Gangen Datblygu Cynaliadwy) yn cael eu harbed, gan y bydd y ddyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn cael ei chyflawni drwy osod amcanion llesiant.
392. Y bwriad yw y bydd y gofynion am gynllunio corfforaethol ac adrodd yn flynyddol o dan y Bil yn cael eu cyflawni drwy'r prosesau presennol sydd wedi'u disgrifio o dan opsiwn 1.

393. Bydd ymgyfarwyddo a newid diwylliannol yn rhan o waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a byddant yn cael eu hyrwyddo'n fwy cyffredinol drwy waith ehangach Llywodraeth Cymru ar ddatblygu arweinyddiaeth a newid yn y gwasanaeth cyhoeddus.

(7) Adrodd yn flynyddol ar gynnydd y corff ar gyflawni'r amcanion llesiant.

394. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn llunio adroddiad blynyddol sy'n asesu'r graddau y mae eu hamcanion llesiant yn cael eu cyflawni. Rhagwelir y bydd y ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni drwy'r trefniadau adrodd presennol er mwyn darparu ar gyfer dull adrodd integredig.
395. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn llunio adroddiadau blynyddol mewn perthynas â'r Rhaglen Lywodraethu a'r Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy (a.79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006). O dan opsiwn 2, y bwriad yw y bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy yn cael ei gynnwys yn y broses hon.
396. Mae'r amcangyfrif gorau ar gyfer hyn wedi'i seilio ar y gost bresennol o lunio'r Adroddiad Blynyddol ar Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, sef £348,700.

*Cynghorau Tref a Chymuned*

397. Bydd costau hefyd i Gynghorau Tref a Chymuned (CTChau) yn gysylltiedig â'r gofyniad eu bod yn adrodd ar eu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol sy'n berthnasol i'w hardal.
398. Mae'r dyletswyddau hyn ond yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned sydd ag incwm o £200,000 o leiaf ym mhob un o'r tair blynedd blaenorol. Ar sail ffigurau cyllidebau diweddar, disgwylir i 49<sup>47</sup> o Gynghorau Cymuned gael eu dal gan y darpariaethau yn y Bil, ac amcangyfrifir cost o £540 fesul Cyngor Cymuned. Mae hyn wedi'i seilio ar amcangyfrif o 4 diwrnod o amser clerck ar gyflog o £30,000 y flwyddyn, ac mae'n gyfanswm o £26,460. Gan fod Cynghorau Tref a Chymuned o'r maint hwn eisoes yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol, nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cofnodi at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol.

*Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC)*

399. Fel y nodwyd uchod, i ategu systemau atebolrwydd eraill mae'r Bil yn gosod dyletswydd newydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal adolygiad rheolaidd er mwyn gweld i ba raddau mae'r cyrff cyhoeddus penodol yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.
400. Bydd costau trosiannol a chostau rheolaidd yn gysylltiedig â hyn. Dylid nodi bod y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar ar Ddiwygio Llywodraeth Leol yn cynnig diddymu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi y gallai hyn arwain at arbedion rheolaidd sylweddol.

*Costau trosiannol*

401. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n amcangyfrif y bydd angen buddsoddiad cychwynnol i ddatblygu ac ail lunio eu dulliau archwilio ac adolygu (ceir manylion y costau hyn yn Nhabl 15A). Mae hyn yn cynnwys datblygu arfau newydd, adolygu sgiliau craidd a chymwyseddau ac edrych ar hyfforddi a datblygu ar bob lefel yn y sefydliad (gan gynnwys y Bwrdd). Bydd y datblygiadau hyn yn digwydd yn ystod 2015-16 yn bennaf, ond rhagwelir hefyd y bydd elfen sylweddol o hyfforddi a datblygu'n parhau drwy gydol y cylch pum mlynedd cyntaf.

Tabl 16: Costau trosiannol Swyddfa Archwilio Cymru

Eitem	Adnodd	Cost ariannol
Datblygu dulliau, arfau ac ymgysylltu (untro)	200 diwrnod	£129,500
Arbenigedd a hyfforddiant allanol ac ati	100 diwrnod	£20,000
Hyfforddiant i archwilwyr	5 diwrnod o hyfforddiant arweinyddiaeth ac i'r bwrdd 5 diwrnod yr un ar gyfer 12 arweinydd tîm 1 diwrnod yr un ar gyfer y cohort cyntaf o aelodau tîm	£60,000
<b>Cyfanswm costau sefydlu untro a chostau trosiannol</b>		<b>£209,500</b>

Costau rheolaidd (cylch pum mlynedd cyntaf)

402. Mae'r costau a amcangyfrifwyd yn Nhabl 15B wedi'u seilio ar waith cyffredinol sy'n cael ei gyflawni'n flynyddol ym mhob corff, a fydd yn bodloni'r angen am gynnal archwiliad ym mhob corff o leiaf unwaith ym mhob cylch pum mlynedd. Os daw unrhyw broblemau i'r golwg, gellir cynnal archwiliad manylach.
403. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn £90,140 ar gyfer archwilio'r holl gyrrff cyhoeddus dan sylw, gydag amcangyfrif bod angen £143,000 arall ar gyfer datblygiad blynyddol a chostau canolog a welir yn Nhabl 15B. (Mae hyn yn gostwng i £69,700 yn yr ail gylch 5 mlynedd).
404. Wrth greu adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru'n defnyddio astudiaeth "Gwerth am Arian", a hynny o'r dyraniad sydd eisoes yn bodoli. Defnyddir yr astudiaeth hon i edrych ar ganlyniadau'r archwiliadau o gyrrff cyhoeddus er mwyn dod o hyd i unrhyw faterion sy'n codi ar draws y system, nodi arferion da a gwneud argymhellion i wella. Bydd yn rhaid ymgymryd â'r gwaith o lunio'r adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwedd

2019 / dechrau 2020 er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei osod o leiaf blwyddyn a diwrnod cyn yr etholiad cyffredinol.

Costau rheolaidd (ail gylch pum mlynedd)

405. Yn yr ail gylch bydd y pwyslais ar ymglyfarwyddo gyda'r broses sefydlu a ddigwyddodd yn ystod y cylch cyntaf. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at ostyngiad canlyniadol mewn costau canolog a datblygu, o £143,000 i £69,700. Fodd bynnag, bydd costau archwilio cyrff cyhoeddus yn codi i £112,600. Mae'r cynnydd hwn yng nghostau archwilio cyrff cyhoeddus yn ystod yr ail gylch, yn adlewyrchu amcangyfrif o gost archwiliad o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i osod amcanion a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w cyflawni. Yn ystod y cylch cyntaf, mae'n debyg mai ychydig o gyfle fydd i archwilio'r camau a gymerwyd, felly bydd y gost yn llai.
406. Wrth adrodd am ganlyniadau'r archwiliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru eto'n defnyddio astudiaeth Gwerth am Arian, o'r dyraniad presennol.

Tabl 16 A: costau rheolaidd yn codi o'r ddyletswydd archwilio newydd

Costau Datblygu a Chanolog Blynyddol	Cylch 1af		2il gylch	
Goruchwyllo archwilwyr yn flynyddol	30 diwrnod	£36,400	15 diwrnod	£18,400
Ymchwil blynyddol i ddarparu canllawiau cyfoes ynghylch, er enghraifft, amcanion effeithiol tebygol	48 diwrnod	£31,800	24 diwrnod	£10,600
Datblygu proffesiynol parhaus a hyfforddi archwilwyr	85 diwrnod	£51,400	40 diwrnod	£17,300
Trafod a darparu adroddiadau i'r Comisiynydd	36 diwrnod	£23,400	36 diwrnod	£23,400
<b>Costau datblygu a chanolog blynyddol</b>	<b>199 diwrnod</b>	<b>£143,000</b>	<b>115 diwrnod</b>	<b>£69,700</b>

Crynodeb

Tabl 16 B: Crynodeb o gostau archwilio fesul corff cyhoeddus (cylch pum mlynedd cyntaf)

Sefydliad	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	5 year total
-----------	---------	---------	---------	---------	---------	--------------

Llywodraeth Cymru	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cost ychwanegol	£31,040	£31,040	£31,040	£31,040	£31,040	£155,200
Awdurdodau Unedol	£3,242,900	£3,242,900	£3,242,900	£3,242,900	£3,242,900	£16,214,500
Cost ychwanegol	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol	£306,700	£306,700	£306,700	£306,700	£306,700	£1,533,500
Cost ychwanegol	£26,500	£26,500	£26,500	£26,500	£26,500	£132,500
Awdurdodau Tân ac Achub	£19,900	£109,900	£109,900	£109,900	£109,900	£549,500
Cost ychwanegol	£5,100	£5,100	£5,100	£5,100	£5,100	£25,500
Awdurdodau Parc Cenedlaethol	£68,500	£68,500	£68,500	£68,500	£68,500	£342,500
Cost ychwanegol	£4,000	£4,000	£4,000	£4,000	£4,000	£20,000
Cyfoeth Naturiol Cymru	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cost ychwanegol	£16,800	£16,800	£16,800	£16,800	£16,800	£84,000
Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ac ACAUC	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cost ychwanegol	£6,700	£6,700	£6,700	£6,700	£6,700	£33,500
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Is-gyfanswm: Costau trosiannol	£209,500	£0	£0	£0	£0	£209,500
Is-gyfanswm: Costau datblygu a chanolog blynyddol	£143,000	£143,000	£143,000	£143,000	£143,000	£715,000
Cyfanswm cost ychwanegol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	£352,500	£143,000	£143,000	£143,000	£143,000	£924,500
<b>Total Additional Cost</b>	<b>£442,640</b>	<b>£233,140</b>	<b>£233,140</b>	<b>£233,140</b>	<b>£233,140</b>	<b>£1,375,200</b>

Table 16 C: Summary of costs of audits broken down by public body (second five year cycle)

Sefydliad	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	5 year total
Llywodraeth Cymru	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cost ychwanegol	£38,800	£38,800	£38,800	£38,800	£38,800	£194,000
Awdurdodau Unedol	£3,242,900	£3,242,900	£3,242,900	£3,242,900	£3,242,900	£16,214,500
Cost ychwanegol	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Byrddau ac Ymddiriedolaethau lechyd Lleol	£306,700	£306,700	£306,700	£306,700	£306,700	£1,533,500
Cost ychwanegol	£33,100	£33,100	£33,100	£33,100	£33,100	£165,500
Awdurdodau Tân ac Achub	£109,900	£109,900	£109,900	£109,900	£109,900	£549,500
Cost ychwanegol	£6,400	£6,400	£6,400	£6,400	£6,400	£32,000
Awdurdodau Parc Cenedlaethol	£68,500	£68,500	£68,500	£68,500	£68,500	£342,500
Cost ychwanegol	£5,000	£5,000	£5,000	£5,000	£5,000	£25,000
Cyfoeth Naturiol Cymru	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cost ychwanegol	£21,000	£21,000	£21,000	£21,000	£21,000	£105,000
Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ac ACAUC	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cost ychwanegol	£8,400	£8,400	£8,400	£8,400	£8,400	£42,000
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Is-gyfanswm: Costau datblygu a chanolog blynyddol	£69,700	£69,700	£69,700	£69,700	£69,700	£348,000
<b>Cyfanswm Costau Ychwanegol</b>	<b>£182,300</b>	<b>£182,300</b>	<b>£182,300</b>	<b>£182,300</b>	<b>£182,300</b>	<b>£911,500</b>

### *Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru*

407. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd gynnal adolygiadau i weld sut mae corff cyhoeddus yn ystyried effaith tymor hir ei waith dan y ddyletswydd llesiant. Mae'r costau am hyn wedi'u cynnwys yn y costau am ddeddfu i sefydlu Comisiynydd annibynnol statudol (Tabl 9).

### *Pwyllgorau craffu llywodraeth leol*

408. Fel y nodir ar dudalen 43, mae'r Bil yn darparu ar gyfer model craffu mwy cyson i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol drwy bennu bod rhaid i'r craffu gael ei gyflawni gan bwyllgor craffu llywodraeth leol sydd wedi'i ddynodi. Bydd y pwyllgor craffu yn ymgynghorai statudol ar y drafft o'r asesiad o lesiant, bydd yn ofynnol iddo ystyried y drafft o'r cynllun llesiant, a bydd yn cael copïau o'r adroddiad blynyddol. Mae'r costau ychwanegol ar gyfer hyn wedi'u nodi yn nhabl 43.

Tabl 17: Crynodeb o'r costau trosiannol a rheolaidd a ysgwyddir yn 2015-16 o ganlyniad i ddilyn opsiwn 2

Sefydliad	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
<b>Llywodraeth Cymru</b>					
Y Gangen Datblygu Cynaliadwy	£246,300	£246,300	£246,300	£246,300	£246,300
Dangosyddion DC (diweddarau)	£5,400	£5,400	£5,400	£5,400	£5,400
Gosod amcanion corfforaethol	£186,600				
Adroddiad blynyddol ar amcanion corfforaethol	£348,700	£348,700	£348,700	£348,700	£348,700
Rhagfynegi Tueddiadau'r Dyfodol	£36,200				
<b>Cyfanswm</b>	<b>£823,200</b>	<b>£600,400</b>	<b>£600,400</b>	<b>£600,400</b>	<b>£600,400</b>
<b>Awdurdodau Lleol Grŵp A (3)</b>					
Amcanion corfforaethol	£270,300				
Diweddarau ac adrodd		£105,900	£105,900	£105,900	£105,900
<b>Awdurdodau Lleol Grŵp B (12)</b>					
Amcanion corfforaethol	£865,200				
Diweddarau ac adrodd		£343,200	£343,200	£343,200	£343,200
<b>Awdurdodau Lleol Grŵp C (7)</b>					
Amcanion corfforaethol	£463,400				
Diweddarau ac adrodd		£183,400	£183,400	£183,400	£183,400
<b>Byrddau Iechyd Lleol Grŵp A (4)</b>					
Amcanion corfforaethol	£668,400				
Diweddarau ac adrodd		£286,800	£286,800	£286,800	£286,800
<b>Byrddau Iechyd Lleol Grŵp B (2)</b>					
Amcanion corfforaethol	£298,800				
Diweddarau ac adrodd		£129,200	£129,200	£129,200	£129,200
<b>Byrddau Iechyd Lleol Grŵp C ac Ymddiriedolaethau Iechyd Gwladol (3)</b>					
Amcanion corfforaethol	£439,200				



Diweddaru ac adrodd		£190,500	£190,500	£190,500	£190,500
<b>Awdurdod Tân ac Achub (3)</b>					
Amcanion corfforaethol	£53,700				
Diweddaru ac adrodd		£27,600	£27,600	£27,600	£27,600
<b>Cyfoeth Naturiol Cymru</b>					
Amcanion corfforaethol	£71,300				
Diweddaru ac adrodd		£12,300	£12,300	£12,300	£12,300
<b>CCAUC a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (5)</b>					
Amcanion corfforaethol	£103,500				
Diweddaru ac adrodd		£49,000	£49,000	£49,000	£49,000
<b>Awdurdodau Parc Cenedlaethol (3)</b>					
Amcanion corfforaethol	£58,800				
Diweddaru ac adrodd		£24,600	£24,600	£24,600	£24,600
<b>Cynghorau Tref a Chymuned (73)</b>					
Adrodd	£39,900	£39,900	£39,900	£39,900	£39,900
Adroddiadau Blynyddol ar gyfer pob corff cyhoeddus (44)	£506,000	£506,000	£506,000	£506,000	£506,000
<b>Archwilydd Cyffredinol Cymru</b>					
Paratoi	£209,500	£122,000			
Gwaith adolygu parhaus	£233,100	£233,100	£233,100	£233,100	£233,100
<b>Cyfanswm</b>	<b>£4,281,100</b>	<b>£2,253,500</b>	<b>£2,131,500</b>	<b>£2,131,500</b>	<b>£2,131,500</b>
<b>Cyfanswm Cyffredinol</b>	<b>£5,104,300</b>	<b>£2,853,900</b>	<b>£2,731,900</b>	<b>£2,731,900</b>	<b>£2,731,900</b>
<b>Costau ychwanegol</b>	<b>£445,160</b>	<b>£324,460</b>	<b>£224,460</b>	<b>£224,460</b>	<b>£224,460</b>

## Manteision

### Opsiw 1. Gwneud dim

409. Ers cynnwys y ddyletswydd wreiddiol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a'i hail-wneud yn Neddf Llywodraeth Cymru 2008 (a.121), mae wedi cyflawni llawer o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy o fewn Llywodraeth Cymru, a hefyd yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae rhai o'r camau gweithredu hyn wedi'u disgrifio uchod, ac mae rhagor o fanylion yn yr adroddiadau blynyddol y mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i'w cyhoeddi.
410. Felly mae dwy fath o fantais wedi'u gwireddu: manteision i'r boblogaeth gyfan (cynaliadwyedd Cymru), a manteision sefydliadol (hyrwyddo datblygu cynaliadwy).

411. Ar lefel Cymru, mae gwelliannau yng nghynaliadwyedd Cymru yn cael eu mesur drwy'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Mae'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn ffordd o fesur pryderon dyddiol fel iechyd, tai, swyddi, trosedd, addysg a'r amgylchedd. Yn 2013, ar gyfer y 44 dangosydd datblygu cynaliadwy sy'n cwmpasu 29 o faterion allweddol, mae 22 wedi dangos gwelliant clir. Yn eu plith:
- **Allbwn economaidd** – mae GYC a GYC y pen yng Nghymru wedi cynyddu'n barhaus rhwng 1997 a 2011 (ac eithrio cwmpw fechan yn 2009) i gyrraedd eu lefel uchaf yn y gyfres.
  - **Cadwraeth bioamrywiaeth** – o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd â blaenoriaeth sydd â digon o wybodaeth amdanynt, roedd cynnydd yn y nifer 'sefydlog neu'n cynyddu' rhwng 2002 a 2008.
  - **Ôl troed ecolegol** – syrthiodd ôl troed ecolegol Cymru i 4.4% yn 2006 o'i gymharu â 4.7% yn y flwyddyn gyfeirio sef 2003. Er bod hyn ychydig yn is na'r DU yn 2006, roedd yn parhau i fod yn fwy na dwbl y swm cyfartalog o adnoddau'r byd sydd ar gael fesul person.
412. Gwelwyd effaith y camau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn y cynnydd parhaus yn nifer y sefydliadau ym mhob rhan o Gymru sy'n ymrwymo'n wirfoddol i fabwysiadu datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol, a hynny'n gyhoeddus. Erbyn Gorffennaf 2014 roedd mwy na 200 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi llofnodi'r Siarter Datblygu Cynaliadwy.
413. Ar lefel sefydliadol, nid yw'n bosibl mesur y manteision a gafwyd o'r cynllun datblygu cynaliadwy sy'n cael ei arwain gan Weinidogion Cymru, ond mae'n rhesymol rhagdybio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau'r math o lwyddiant a welwyd yn yr 8 mlynedd diwethaf wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
414. Mae effeithiolrwydd y cynllun datblygu cynaliadwy statudol wedi'i asesu dair gwaith gan sefydliad annibynnol, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r adolygiadau hyn wedi cydnabod y manteision a'r cyfleoedd i gymryd camau pellach i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru.
415. Mae'r manteision mesuradwy o wneud dim yn debygol o barhau yn unol â'r rhai a nodwyd uchod dan y ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy bresennol, ond cydnabyddir y gall gwaith y Llywodraeth i hyrwyddo datblygu cynaliadwy dros amser helpu i roi sylw i ymddygiad nad yw'n gynaliadwy.
416. Mae'r risgiau a bennwyd o ddilyn yr opsiwn hwn yn deillio o'r rhwystrau presennol rhag cryfhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac maent yn cynnwys:
- Dyletswydd bresennol sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn meysydd cyfyng, ac sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru yn unig, yn hytrach na'i wreiddio mewn fframwaith deddfwriaethol cryfach er lles Cymru;
  - Peidio â sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried drwy drefniadau llywodraethu ar gyfer gwella llesiant hirdymor yng Nghymru;

- Parhau i golli cyfleoedd i ddelio â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru am fod y ddeddfwriaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy'n anghyson;
- Ni fydd Cymru'n gallu cyfrannu hyd eithaf ei gallu i ymdrechion byd-eang ar ddatblygu cynaliadwy am fod cwmpas y ddyletswydd bresennol yn gyfyngedig;
- Bydd y risgiau o edrych i'r tymor hir yn parhau ac mae'n bosibl y bydd enghreifftiau mewn rhai meysydd cyfyng yn unig fel y Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff sy'n cynnwys dyhead i ddod yn wlad ddiwastraff erbyn 2050.

## **Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth**

417. Er mwyn gwneud datblygu cynaliadwy'n egwyddor graidd mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru, rhaid cymryd camau drwy ddeddfu a thrwy dulliau eraill. Bydd y darpariaethau deddfwriaethol yn y Bil yn darparu ar gyfer tair elfen hanfodol i sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu ac yn penderfynu sut i arfer eu swyddogaethau.
418. Yr elfennau hyn yw (i) beth y mae'r sefydliad yn canolbwyntio arno, (ii) sut y mae'r sefydliad yn gweithredu wrth gyflawni hyn, a (iii) egluro'r gwahaniaeth sydd wedi'i wneud (adrodd). Er mwyn sefydlu hyn mae angen fframwaith cryfach ar gyfer datblygu cynaliadwy i sicrhau'r manteision o wreiddio datblygu cynaliadwy ymhellach yng Nghymru, a sicrhau'r manteision o gael Cymru fwy cynaliadwy. Drwy ddeddfu ar gyfer hyn, derbynnir bod manteision ehangach i'w cael o ddatblygu cynaliadwy na ellir eu mesur.
419. Ar gyfer Opsiwn 1, mae dwy fath o fantais: manteision i'r boblogaeth gyfan (cynaliadwyedd Cymru), a manteision sefydliadol (datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol yn Llywodraeth Cymru).
420. Ar lefel Cymru, bydd opsiwn 2 yn cryfhau'r fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy ymhellach yng Nghymru.
421. Rhagwelir mai'r manteision anfesuradwy o gryfhau'r fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru fydd:
- Cysoni – cydamcanu drwy set gyffredin a phendant o ganlyniadau cynaliadwy hirdymor;
  - Cydlynu – bydd y Bil yn rhoi naratif ystyrlon ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac yn helpu'r cyhoedd i ddeall yr heriau cymhleth y mae angen delio â nhw gyda'i gilydd;
  - Fframwaith cyson – cysoni dyletswyddau deddfwriaethol rhwng amrywiaeth ehangach o sefydliadau fel y gellir rhannu'r arferion gorau;
  - Cwmpas – dyletswydd datblygu cynaliadwy ehangach sy'n uno cyrff cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol;

- Atebolrwydd – mwy o dryloywder er mwyn hybu gweithredu agored ac ymwybyddiaeth o'r heriau cymhleth y mae Cymru'n eu hwynebu a'r atebion cynaliadwy y mae cyrff cyhoeddus wedi'u dewis;
  - Penderfynu integredig – fframwaith cliriach i hyrwyddo meddwl a phenderfynu integredig gan fedru rhoi sylw i unrhyw ganfyddiad o gyfaddawd;
  - Mesur cynnydd – set o ddangosyddion sydd wedi'i chysylltu'n well â chanlyniadau hirdymor a gweithgareddau'r sefydliad;
  - Gwell canlyniadau – mae'r nodau yn mynegi'r manteision y mae'r Bil yn ceisio eu gwireddu;
  - Hirdymor – bydd y nodau a dangosyddion yn rhoi'r gallu i gyrff cyhoeddus (ac eraill) gynllunio llwybrau hirdymor at Gymru gynaliadwy;
  - Cyfrifoldebau – bydd y Bil yn helpu i ddiffinio'r cyfrifoldebau a chyfraniadau posibl a fydd gan gyrff cyhoeddus o bob math o ran cynaliadwyedd.
422. Mewn adolygiadau blaenorol o effeithiolrwydd, nodwyd mai un o'r prif rwystrau rhag gweithredu ym maes datblygu cynaliadwy oedd yr angen i gyfleu'r manteision yn glir yn ogystal â'r nod cyffredinol. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer set o nodau llesiant cyffredin yn helpu i egluro'r canlyniadau arfaethedig ac i gysoni gweithgareddau gan gyrff cyhoeddus i gyflawni'r nodau drwy ddatblygu cynaliadwy.
423. Ar lefel sefydliadol, mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (2011) wedi egluro'r achos busnes dros ddatblygu cynaliadwy i sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys: llai o risgiau i'r sefydliadau, mwy o allu i wrthsefyll ac ymateb i ergydion economaidd ac amgylcheddol, arbed costau ac arbedion effeithlonrwydd, llesiant gwell ymysg y gweithlu ac effaith fwy cadarnhaol ar yr amgylchedd gan y sefydliad ei hun.
424. Roedd yn cydnabod y bydd graddau'r manteision hyn yn dibynnu ar sefyllfa'r sefydliad, a gellir addasu'r dulliau o'u gwireddu yn ôl amgylchiadau a gofynion. Y manteision anfesuradwy i sefydliadau o fabwysiadu egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o'u llywodraethu eu hunain yw:
- Cadernid – bydd sefydliadau wedi paratoi'n well ac yn medru adnabod bygythiadau ac ymateb iddynt;
  - Cyfrannu ar y cyd – gwella dealltwriaeth o'r manau lle gall eu heffaith orgyffwrdd â sefydliadau eraill, gan gydnabod bod cyflawni gan y sector cyhoeddus yn fwy na chyfanswm ei rannau, a meithrin trefniadau ar y cyd;
  - Rheoli risg yn well – adnabod yn well y peryglon tymor hir a all godi wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus;
  - Effeithlonrwydd – hyrwyddo gwariant ataliol;

- Enw da – diogelu a hyrwyddo enw da sefydliadau ac, yn benodol, y cyfleoedd a all godi o ymrwymiad clir at ddatblygu cynaliadwy;
- Adrodd integredig – meithrin amodau i alluogi sefydliadau i integreiddio'u trefniadau adrodd er mwyn rhoi gwybod sut y maent yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn y tymor byr a'r tymor hir;
- Gwell tryloywder – sy'n arwain at well perfformiad a gwell perthynas â rhanddeiliaid a sefydliadau;
- Atebolrwydd – cydnabod bod y diwydiant archwilio yn mabwysiadu egwyddor datblygu cynaliadwy fwyfwy yn eu harferion.

### **Crynodeb o'r Opsiwn a Ffefrir**

425. Fel yr eglurwyd uchod, byddai opsiwn 2 yn dod â nifer o fuddion i Gymru ac i gyrff cyhoeddus sydd wedi'u henwi yng Nghymru yn y dyfodol. Ymhlith y rhain y mae ffocws cliriach, diogelu gwasanaethau cyhoeddus rhag dyfodol na ellir ei rag-weld a fframwaith datblygu cynaliadwy cyson a chryf ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus ledled Cymru ei ddefnyddio. Byddai'n galluogi Cymru i ddod yn arweinydd rhyngwladol ar roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, yn arbennig yng nghydestun y Nodau Datblygu Cynaliadwy ar ôl 2015.
426. Opsiwn 2 sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llwyddiannus yng ngwaith cyrff cyhoeddus i wella llesiant hirdymor. Bydd yn helpu i sicrhau bod gwahanol gyrff cyhoeddus yn cydweithio'n well i gyrraedd nod cyffredin, gan egluro beth yw Cymru gynaliadwy a hwyluso camau gweithredu cadarnhaol er mwyn i Gymru symud yn gynt ar hyd y llwybr datblygu cynaliadwy. Bydd hefyd o fantais i ddinasyddion Cymru drwy ddarparu lle i fyw sy'n dod â manteision i bawb ac nid i'r ychydig dethol.
427. Er nad ydynt wedi'u mesur, credir bod y manteision hyn yn ddigon i gyfiawnhau'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2.

## Bwriad polisi 3: Hybu'r newid a diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol

### Costau

#### Opsiwn 1: Gwneud dim

428. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn gan ei fod yn parhau â'r trefniadau presennol. Mae costau'r trefniadau presennol yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru yn unig.

#### *Costau Trosiannol (untro)*

429. O dan opsiwn 1, byddai'r sefyllfa bresennol o ran Comisiynydd a'r cymorth ar ei gyfer yn parhau. Felly nid oes costau trosiannol.

#### *Costau Blynyddol Cyfartalog (heb gynnwys costau untro): Talu'r Comisiynydd*

430. Mae'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy wedi'i gontractio i weithio am hyd at 130 o ddiwrnodau y flwyddyn ar gyfradd tâl o £256 y diwrnod. Ar ôl cynnwys costau teithio a chynhaliaeth, y gost flynyddol i Lywodraeth Cymru am swydd y Comisiynydd yw tua £43,280.

#### *Costau Blynyddol Cyfartalog (heb gynnwys costau untro): Cymorth i'r Comisiynydd*

431. Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael cymorth gan Cynnal Cymru-Sustain Wales i ddarparu cymorth allanol ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Un o'r swyddogaethau o fewn y cytundeb hwn oedd darparu cymorth a chefnogaeth i'r Comisiynydd presennol.
432. Gwerth y contract hwn yw hyd at £1.8 miliwn dros gyfnod o dair blynedd (2012/13 i 2014/15), (cost cyfartalog blynyddol o £591,000), ond y gyfran o'r contract a gafodd ei dyrannu i roi cymorth gweinyddol i'r Comisiynydd yn 2014-15 oedd £22,050. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau staff, costau eiddo a threuliau cyffredinol. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys prosesu ceisiadau am fewnbwn gan y Comisiynydd i waith ehangach, trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau, rhoi sylw i ohebiaeth a galwadau ffôn a chynnal sesiynau cynllunio rheolaidd gyda'r Comisiynydd.

#### *Costau Blynyddol Cyfartalog (heb gynnwys costau untro): Monitro*

433. O dan y telerau ar gyfer penodi'r Comisiynydd, mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni rôl o fonitro gweithgarwch y Comisiynydd i sicrhau gwerth am arian.
434. Yr amcangyfrif o gyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru am y gweithgareddau monitro hyn yw £28,500.

#### *Tabl 18: Crynodeb o'r costau o barhau â'r trefniadau presennol*

Gweithgarwch	Cost
--------------	------

Y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy	£43,280
Cymorth i'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy o dan y contract Ymgysylltu ar gyfer Datblygu Cynaliadwy	£591,000 y flwyddyn
Monitro gan Lywodraeth Cymru	
MB2 (40%) rheoli'r contract craidd	£ 16,300
EB2 (10%) goruchwyllo'r contract craidd	£ 7,000
MB1 (10%) rheoli canlyniadau newid hinsawdd	£ 5,200
<b>Cyfanswm</b>	<b>£662,780</b>

## Opsiwn 2. Gwasgaru rôl y Comisiynydd

435. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru yn unig.

### *Costau trosiannol*

436. Bydd goblygiadau trosiannol gwasgaru'r rôl a phrif ffrydio gweithgareddau'r Comisiynydd o fewn Llywodraeth Cymru yn gymharol gyfyngedig o safbwynt ariannol. Disgwylir i dymor penodiad y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy presennol ddod i ben ym mis Mehefin 2015 ac nid oes rheidrydd cytundebol i barhau â hyn.

437. Mae contract presennol cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn dod i ben ym mis Mawrth 2015, ac nid oes unrhyw ymrwymiad i gaffael y gwasanaethau hyn y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

### *Costau staff a phrosiect o fewn Llywodraeth Cymru*

438. O ddod â gwaith y Comisiynydd a'r cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru i gael ei gyflawni'n fewnol, byddai angen ehangu'r gangen datblygu cynaliadwy bresennol yn sylweddol i ddarparu cymorth allanol ar yr un lefel.

439. Seiliwyd y costau posibl ar y Cytundeb Cyflenwi 2014-15 a gytunwyd gyda Cynnal Cymru – Sustain Wales ar gyfer cyflawni'r contract i roi cymorth allanol ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

*Tabl 19: Costau blynyddol i Lywodraeth Cymru wrth gyflawni lefel debyg o gymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy*

<b>Gweithgarwch</b>	<b>Costau Staff</b>	<b>Costau Prosiect</b>	<b>Cyfanswm Costau</b>
Cynyddu ymwybyddiaeth ac amlygrwydd y Siarter Datblygu Cynaliadwy	£32,100	£7,500	£39,600
Gweithredu rhaglen o drafodaeth a chefnogaeth i bob un sydd wedi llofnodi'r Siarter Datblygu Cynaliadwy	£92,800	£30,000	£122,800
Darparu cymorth ysgrifenyddiaeth i Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd	£59,800	£30,000	£89,800
Sgwrs genedlaethol beilot ar y Gymru a Garem a chynhyrchu Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol	£111,000	£41,800	£152,800
Helpu'r Comisiynydd i ddod â gwahanol grwpiau buddiant at ei gilydd i edrych ar faterion anodd a nodwyd gan Weinidogion a'r Comisiynydd	£12,600	£1,000	£13,600
Darparu adolygiadau annibynnol ar gynnydd a chynghori ar bolisiâu a dulliau gweithredu angenrheidiol i sefydlu Datblygu Cynaliadwy	£13,600	£5,000	£18,600
Datblygu gwefan i ddarparu lefel debyg o wasanaeth	-	-	£40,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>£321,900</b>	<b>£115,300</b>	<b>£477,200</b>

440. Efallai bydd angen caffael gwasanaethau arbenigol o hyd gan sefydliadau allanol er mwyn symud ymlaen â nodau datblygu cynaliadwy y llywodraeth. Byddai hyn yn debyg o fod ar sail ad hoc gan dargedu cymorth mewn ardaloedd lle mae angen gwelliannau pellach yng nghyd-destun y Bil. Gallai hyn fod yn sefydliadau neu sectorau unigol, ac fe fyddai'n ddibynnol ar angen. Mae profiad y grant i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dangos bod dealltwriaeth o anghenion sefydliadau yn hanfodol cyn darparu cymorth wedi'i dargedu. Mae Cynnal Cymru – Sustain Wales yn cynnal astudiaeth gwmpasu sector fel rhan o'r contract i weld yr angen presennol yng Nghymru. Er mwyn darparu amcangyfrif byddai angen barnu a oes bylchau posibl yng ngallu sefydliad yn erbyn gofynion y Bil. Er bod cydnabyddiaeth bod angen rhoi sylw i feysydd cyffredin fel meddwl/cynllunio ar gyfer y tymor hir, nid yw'n bosibl mapio hyn ar draws pob sefydliad sy'n ddarostyngedig i'r Bil.

*Cymorth uniongyrchol i gyrrff cyhoeddus*



441. Yn 2014-15 darparwyd grant gan Lywodraeth Cymru i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn gweithredu i sefydlu datblygu cynaliadwy fel egwyddor ganolog mewn llywodraeth leol. Roedd yn gyfanswm o hyd at £100,000. Mae hyn yn cynnwys cymorth i'r rhai sy'n mabwysiadu'r cynigion yn y Bil yn gynnar, gyda 13 awdurdod lleol yn derbyn cymorth penodol. Mae'r amcangyfrifon gorau yn dweud y byddai hyn tua £7,600 o gymorth fesul awdurdod lleol. Pe bai lefel debyg o gymorth yn cael ei rhoi i bob corff cyhoeddus, byddai hyn yn golygu cyfanswm o £326,800. Mae hyn yn debyg o gael ei gyflawni dros gyfnod o 3 – 5 mlynedd.

*Arbedion costau wrth wasgaru rôl y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy*

442. Gyda'r opsiwn hwn, ni fyddai swydd Comisiynydd annibynnol yn bodoli, ac felly gellid arbed costau ei daliadau cydnabyddiaeth am ysgwyddo'r cyfrifoldeb, costau teithio a chynhaliaeth a chostau'r cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddiaeth i'r Comisiynydd drwy'r contract cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy.

*Tabl 20: Arbedion costau rôl y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy*

<b>Gweithgarwch</b>	<b>Cyfanswm Costau</b>
Taliadau cydnabyddiaeth y Comisiynydd (£256 y dydd am 130 diwrnod)	£33,280
Costau Teithio a Chynhaliaeth	£10,000
Cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddiaeth i'r Comisiynydd	£22,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>£65,280</b>

*Tabl 21: Crynodeb o gostau opsiwn dau i wasgaru rôl y Comisiynydd*

<b>Gweithgarwch</b>	<b>Cost</b>				
	<b>2015-16</b>	<b>2016-17</b>	<b>2017-18</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>
Cymorth ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru	£477,200	£477,200	£477,200	£477,200	£477,200
Opsiwn o gaffael cymorth uniongyrchol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus a enwir	£326,800	£326,800	£326,800	£326,800	£326,800
Comisiynydd	-£65,300 (arbediad)	-£65,300 (arbediad)	-£65,300 (arbediad)	-£65,300 (arbediad)	-£65,300 (arbediad)
<b>Cyfanswm</b>	<b>£738,700</b>	<b>£738,700</b>	<b>£738,700</b>	<b>£738,700</b>	<b>£738,700</b>

### Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth

443. Mae'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Yr eithriadau i hyn yw'r costau cyfle sy'n gysylltiedig ag aelodaeth Panel Cynghorol y Comisiynydd. Bydd y costau cyfle hyn yn cael eu hysgwyddo gan y sefydliadau perthnasol.

#### *Costau Trosiannol (untro): recriwtio'r Comisiynydd*

444. Rhagwelir mai oddeutu £11,700 fydd y gost am recriwtio'r Comisiynydd. Mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar ddata a gafwyd oddi wrth yr Uned Penodiadau Cyhoeddus ac mae'n cynnwys y gost o hysbysebu'r swydd yn y wasg leol a chenedlaethol, penodi Asesydd Annibynnol i oruchwylio'r broses, sefydlu panel dewis, darparu cymorth gweinyddol drwy gydol y broses a threuliau ymgeiswyr.

445. Mae tabl 24 yn cynnwys costau aelod o staff ar lefel MB2. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith un swyddog yn gweithio ar y trefniadau trosiannol ar ran y Comisiynydd. Mae'r gwaith hyd yma wedi cynnwys monitro contract Llywodraeth Cymru gyda Cynnal Cymru o ran darparu cymorth allanol ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Fodd bynnag, mae blaenoriaethau eraill ar gyfer y swydd wedi cynnwys ystyried y trefniadau interim blaenorol a threfniadau sefydlu'r Comisiynydd. Bydd y swydd yn un llawn amser hyd at fis Rhagfyr 2015, ond mae'n bosibl y bydd yn cael ei ymestyn gan ddibynnu ar flaenoriaethau a fydd yn datblygu gyda'r Bil yn y dyfodol.

#### *Costau Trosiannol (untro): sefydlu swyddfa*

446. Mae amrywiol gostau mewn perthynas â sefydlu swyddfa'r Comisiynydd sy'n ymwneud â'r eiddo ei hun, costau gweinyddol, cymorth a TG. Amcangyfrifir y bydd costau dodrefnu swyddfa yn £90,000, ond bydd hynny'n dibynnu ar ansawdd y gofod a faint o waith sydd ei angen. Darperir amcangyfrifon safonol ar gyfer eitemau fel dodrefn ac ati, a bydd angen buddsoddi ymhellach ar gyfer cyfrifiaduron neu liniaduron, gweinyddion, ffonau symudol, taflunyddion a chyfarpar ategol, argraffwyr/llungopiwy ac unrhyw wifrau. Mae'n annhebygol y bydd modd lleihau'r costau hyn, ond mae'n anodd amcangyfrif hynny nes bod y broses yn cychwyn. Ceir manylion yr amcangyfrifon isod yn nhablau (22, 23 a 24), ond maent hefyd yn cynnwys y costau blynyddol a ragwelir ar gyfer y swyddfa.

Tabl 22: Crynodeb o gostau eiddo

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Dodrefnu <sup>2</sup>	£90,000				
Costau rhedeg yr adeilad <sup>3</sup>	£54,000	£54,000	£54,000	£54,000	£54,000

<sup>2</sup> Cyfrifwyd £450 am bob metr sgwâr gan ragdybio bod angen 200 metr sgwâr

<sup>3</sup> Costau Rhedeg Adeilad (rhent, ardrethi, tâl gwasanaeth, cyfleustodau, cynnal a chadw) Ar sail costau rhedeg fesul FTE (ar 31 Mawrth 2014) o £3,285 (x20 o bobl) = £65,700; neu ar sail £ am bob metr sgwâr (ar 31 Mawrth 2014) = £212.14 (x200 metr sgwâr) = £42,428 (cymedr o'r ddau ffigur £54k)

Cyfanswm	£14,4000	£54,000	£54,000	£54,000	£54,000
----------	----------	---------	---------	---------	---------

Tabl 23: Crynodeb o gostau gweinyddol a chymorth

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Costau gweinyddol a swyddfa <sup>4</sup>		£44,000	£44,000	£44,000	£44,000
Yswiriant <sup>5</sup>		£20,960	£20,960	£20,960	£20,960
Costau cyfreithiol a phroffesiynol <sup>6</sup>		£35,400	£35,400	£35,400	£35,400
Archwilio allanol <sup>7</sup>		£15,000	£15,000	£15,000	£15,000
Archwilio mewnol <sup>8</sup>		£10,000	£10,000	£10,000	£10,000
Hyfforddiant <sup>9</sup>		£24,280	£24,280	£24,280	£24,280
Teithio a chynhaliaeth <sup>10</sup>		£25,000	£25,000	£25,000	£25,000
Recriwtio staff <sup>11</sup>		£38,000	£5,000	£5,000	£5,000
Recriwtio Panel Cynghori <sup>12</sup>		£12,400	£4,133	£8,267	£4,133
Gosodiadau a ffitiadau <sup>13</sup>	£30,000	£2,500	£2,500	£2,500	£2,500
Ymchwil		£20,000	£20,000	£20,000	£20,000
Cyfanswm	£30,000	£247,540	£206,273	£210,407	£206,273

Tabl 24: Crynodeb o gostau TGCh

<sup>4</sup> Ffigurau ar sail sefydlu Cymwysterau Cymru sy'n amcangyfrif £2,200 y person x 20 o bobl. Cynnwys glanhau, diogelwch, post, arlwy, papur a deunydd cyhoeddusrwydd

<sup>5</sup> Ffigurau ar sail sefydlu Cymwysterau Cymru sy'n amcangyfrif £1,048 fesul gweithiwr cyflogedig (20 o staff), hyd at £60,000.

<sup>6</sup> Ffigurau ar sail sefydlu Cymwysterau Cymru sy'n amcangyfrif £1,770 fesul (20 staff) –sy'n cynnwys costau cyfreithiol, cyfieithu ac ariannol).

<sup>7</sup> O ran Comisiynydd Pobl Hŷn, ysgwyddwyd £14.6k

<sup>8</sup> O ran Comisiynydd Pobl Hŷn, yn 2013/14 ysgwyddwyd £11k

<sup>9</sup> Ffigurau ar sail sefydlu Cymwysterau Cymru sy'n amcangyfrif cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn x 20 person

<sup>10</sup> Ffigurau ar sail gwariant y Comisiynydd Pobl Hŷn o £21,000 (12/13) a £27,000 (13/14).

<sup>11</sup> Ffigurau ar sail sefydlu Cymwysterau Cymru sy'n amcangyfrif cyfartaledd recriwtio CIPD yn £2,000 y pen (x19 staff)

<sup>12</sup> Cost hysbysebu yn amrywio rhwng (£5.8k a £48k – cyfartaledd o £7,500), Ffioedd £198 y diwrnod x 8 diwrnod x 3 o bobl, Teithio a chynhaliaeth £50 y person

<sup>13</sup> Ffigurau ar sail £1,500 y person x 20 staff

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Meddalwedd swyddfa <sup>14</sup>		£4,000	£4,000	£4,000	£4,000
Meddalwedd arall <sup>15</sup>		£10,000	£10,000	£10,000	£10,000
Desgiau / Gliniaduron <sup>16</sup>		£22,000	£5,000	£5,000	£5,000
Gweinyddion a chyfarpar ategol <sup>17</sup>		£4,000	£500	£500	£500
Ffonau symudol <sup>18</sup>		£1,900	£1,900	£1,900	£1,900
Taflunyddion a chyfarpar ategol <sup>19</sup>		£3,500	£0	£0	£0
Argraffwyr / Llungopiwyr a chyfarpar ategol <sup>20</sup>		£8,000	£0	£0	£8,000
Teleffoni <sup>21</sup>	£7,000	£7,000	£7,000	£7,000	£7,000
Band eang <sup>22</sup>	£25,000	£20,000	£20,000	£20,000	£20,000
Gwifrau <sup>23</sup>	£15,000	£0	£0	£0	£0
<b>Cyfanswm</b>	<b>£47,000</b>	<b>£80,400</b>	<b>£48,400</b>	<b>£48,400</b>	<b>£56,400</b>

Tabl 24A: Crynodeb o gostau swyddfa

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Costau eiddo	£144,000	£54,000	£54,000	£54,000	£54,000
Costau gweinyddol a chymorth	£30,000	£247,540	£206,273	£210,407	£206,273
Costau TGCh	£47,000	£80,400	£48,400	£48,400	£56,400
Costau wrth gefn	£50,000	£50,000	£50,000	£50,000	£50,000

<sup>14</sup> Ar sail yr Enterprise Cloud Suite (swyddfa ac ati). Tua £200 y flwyddyn fesul defnyddiwr x 20 staff

<sup>15</sup> Ar sail cost meddalwedd Cymwysterau Cymru, Cynnal Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer Adobe, diogelu rhag firysau, meddalwedd ar gyfer y we ac ati.

<sup>16</sup> Ar sail amcangyfrif o £1000 yr un x 20 = £20,000 + £2,000 i osod

<sup>17</sup> Ar sail amcangyfrifon sefydlu Llywodraeth Cymru, Cynnal Cymru a Cymwysterau Cymru

<sup>18</sup> Ffigurau ar sail sefydlu Cymwysterau Cymru

<sup>19</sup> Ffigurau ar sail sefydlu Cymwysterau Cymru

<sup>20</sup> Ffigurau ar sail amcangyfrif Llywodraeth Cymru ar gyfer tri argraffydd gan gynnwys un lliw

<sup>21</sup> Cymerwyd o gyfartaledd sefydlu Cymwysterau Cymru a chostau presennol Cynnal Cymru cost, pro rata ar gyfer 20 o staff

<sup>22</sup> Ar sail amcangyfrif safonol Llywodraeth Cymru o £20,000 y flwyddyn a £5,000 i osod

<sup>23</sup> Ar sail amcangyfrif safonol Llywodraeth Cymru o £15,000

Cyfanswm	£271,000	£431,940	£358,673	£362,807	£366,673
----------	----------	----------	----------	----------	----------

*Costau blynyddol cyfartalog: staff*

447. Er mwyn denu ymgeisydd o safon dda, rhagwelir y bydd y swydd yn cyfateb i swydd Uwch Was Sifil Gradd 5 yn Llywodraeth Cymru. Yr amcangyfrif o gost grynsyth y swydd yw rhwng £101,400 a £108,300.
448. Yn yr un modd â'r Comisiynwyr eraill a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, rhagwelir y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael cymorth i gyflawni ei rôl gan staff a swyddfa benodedig. Bydd y Comisiynydd yn penderfynu ar strwythur y swyddfa ar ôl ei benodi. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen iddi ddarparu ar gyfer y gwahanol weithgareddau polisi sydd o fewn cylch gwaith y Comisiynydd – y meysydd allweddol yw eirioli, ymgysylltu a chraffu – yn ogystal â'r gwahanol swyddogaethau corfforaethol (adnoddau dynol, cyllid a chymorth TGCh etc.). Gan gymryd swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn enghraifft, mae tabl X yn darparu'r amcangyfrif gorau o amrediad y costau cyflog blynyddol ar gyfer y Comisiynydd a'i dîm cymorth.

*Tabl 24B: Crynodeb o gostau staff*

Swydd	Gradd gyfatebol yn y Gwasanaeth Sifil	Cost Grynsyth Flynyddol (£)	
		Amcangyfrif is	Amcangyfrif uwch
Comisiynydd	SCS5/SCS4	£101,400	£108,300
Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu	MB1/EB2	£51,900	£69,400
Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad	MB1/EB2	£51,900	£69,400
Cyfarwyddwr Cymorth Polisi	MB1/EB2	£51,900	£69,400
Cyfarwyddwr Atebolrwydd a Gwella	MB1/EB2	£51,900	£69,400
Swyddog Ymgysylltu	MB3/MB2	£32,400	£40,700
Swyddog Cyfathrebu	MB3/MB2	£32,400	£40,700
Cynorthwydd Personol y Comisiynydd	TS/MB3	£25,800	£32,400
Derbynnydd	TS/MB3	£25,800	£32,400
Swyddog Cyllid	MB3/MB2	£32,400	£40,700
Swyddog Adnoddau Dynol	MB3/MB2	£32,400	£40,700
Swyddog TGCh	MB3/MB2	£32,400	£40,700

Swydd	Gradd gyfatebol yn y Gwasanaeth Sifil	Cost Grynswth Flynyddol (£)	
		Amcangyfrif is	Amcangyfrif uwch
Swyddog Polisi Economaidd	MB3/MB2	£32,400	£40,700
Swyddog Polisi Cymdeithasol	MB3/MB2	£32,400	£40,700
Swyddog Polisi Amgylcheddol	MB3/MB2	£32,400	£40,700
Swyddog Polisi Llywodraethu	MB3/MB2	£32,400	£40,700
Cynorthwydd Cymorth Polisi a Chyngor Cynghorol	TS/MB3	£25,800	£32,400
Uwch Swyddog Atebolrwydd a Gwella	MB2	£40,700	£40,700
Swyddog Atebolrwydd a Gwella	MB3	£32,400	£32,400
Cynorthwydd Atebolrwydd a Gwella	TS	£25,800	£25,800
<b>Cyfanswm</b>		<b>776,900</b>	<b>£776,900</b>

449. Mae'r gost sydd wedi'i phennu yn y tabl uchod yn darparu ar gyfer y gwahanol ddyletswyddau y mae'r Bil yn eu gosod ar y Comisiynydd. Y dyletswyddau yw:

- Craffu ar strategaethau llesiant cenedlaethol a lleol;
- Darparu cyngor a chymorth;
- Cynnal adolygiadau;
- Ymgysylltu ac ymgynghori;
- Llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol;
- Llunio a chyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

450. Amcangyfrifir bod costau recriwtio staff yn £2,000 y pen ar sail cyfartaledd recriwtio'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) ar gyfer 19 aelod o staff. Gall amseriad unrhyw ymarfer amrywio gan ddibynnu ar flaenoriaethau'r Comisiynydd, ond uchafswm y gost debygol yw £38,000. Ar ôl hynny, dylai'r costau recriwtio leihau'n sylweddol.

#### *Dirprwy Gomisiynydd*

451. Y cynllun ar hyn o bryd yw i bedwar aelod o staff gael swyddogaeth Cyfarwyddwr dros agweddau pwysig o waith y swyddfa, a phob un ohonynt ar gyflog sy'n cyfateb i gyfraddau MB1/EB2 y gwasanaeth sifil. Mae'n debyg y bydd y Dirprwy a ddewisir

gan y Comisiynydd yn un o'r Cyfarwyddwyr hynny. Bydd y Dirprwy yn cyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd yn absenoldeb y Comisiynydd o'i waith.

452. Bydd cydnabyddiaeth briodol am ysgwyddo cyfrifoldebau dros dro, ac awgrymir y dylai hyn fod un raddfa gyflog yn uwch na'u gradd bresennol; byddai hyn yn debyg o gyfateb i gyfraddau EB2/EB1 y gwasanaeth sifil, gan ddibynnu ar y cytundeb cyflog terfynol ar gyfer staff y Comisiynydd. Y costau gros ar gyfer y lefel honno ar hyn o bryd yw £69,430 neu £85,910. Dros flwyddyn lawn, byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol o naill ai £17,530 os yw'r gwahaniaeth cyflog rhwng cyfraddau MB1 a EB2 neu £16,480 os yw'r gwahaniaeth cyflog rhwng cyfraddau EB2 a EB1. Fodd bynnag, rhaid nodi ei bod yn annhebygol y bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn dal y swydd am gyfnod mor hir, os o gwbl, gan leihau'r costau hyn yn sylweddol neu beidio â'u cynhyrchu o gwbl. Nid yw'r costau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y tablau blaenorol.

*Cyngor ynghylch y newid yn yr hinsawdd*

453. Ar hyn o bryd mae cymorth allanol i Lywodraeth Cymru'n cael ei ddarparu drwy Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, ei Gadeirydd a chymorth ysgrifenyddol Cynnal Cymru. Mae rhagamcanion 2014-15 ar gyfer y flwyddyn, ar sail cynllun prosiect Cynnal Cymru, yn amcangyfrif y bydd costau'r prosiect yn £26,000, gyda £56,050 pellach wedi'i ymrwymo ar gyfer staff sy'n darparu cymorth ysgrifenyddol. Amcangyfrifir mai costau'r Comisiynydd ar y Newid yr Hinsawdd eleni yw £7,500.
454. Fodd bynnag, gan fod modd amsugno'r holl gostau hyn i swyddogaethau'r Canghennau Cyfathrebu ac Ymgysylltu neu Gymorth Polisi arfaethedig, mae perygl eu cyfrif ddwywaith yn erbyn costau staff swyddfa'r Comisiynydd.
455. Caiff y Comisiynydd ei gynorthwyo gan Banel Cynghorol. Rôl graidd y Panel Cynghorol fydd cynghori'r Comisiynydd ynghylch cyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. Aelodau craidd y Panel Cynghorol fydd:
- Comisiynydd y Gymraeg
  - Y Comisiynydd Pobl Hŷn
  - Y Comisiynydd Plant
  - Prif Swyddog Meddygol Cymru
  - Aelod anweithredol o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
  - Cynrychiolydd ar ran TUC Cymru
  - Cynrychiolydd ar ran y sector busnes yng Nghymru.
456. Mae union fanylion cyflog y cynrychiolwyr ar ran TUC Cymru a'r sector busnes yn anhysbys, ond deallir bod Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru yn ennill rhwng £70,000 ac £80,000 ac mae'n debyg y byddai cynrychiolydd busnes yn ennill swm

tebyg. Byddai'r cyfraddau dyddiol yn amrywio rhwng £414 a £473 yr un. Mae ffigurau'r cynrychiolwyr eraill wedi'u seilio ar wybodaeth a ddarparwyd gan y sefydliadau/swyddfeydd. Cyfrifir 'argostau' perthnasol ar raddfa o 30%.

Tabl 24C: Cyfraddau dyddiol y Panel Cyngori

Aelod	Cyflog blynyddol	Argostau (30%)	Cyfanswm	Cyfradd ddyddiol
Comisiynydd y Gymraeg	£95,000	£28,500	£123,500	£561
Comisiynydd Pobl Hŷn	£91,000	£27,300	£118,300	£538
Comisiynydd Plant	£95,000	£28,500	£123,500	£561
Prif Swyddog Meddygol	£128,989	£38,697	£167,686	£762
Cynrychiolydd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru		£0	£0	£350
Cynrychiolydd TUC	£70,000	£21,000	£91,000	£414
	£80,000	£24,000	£104,000	£473
Cynrychiolydd Sector Busnes	£70,000	£21,000	£91,000	£414
	£80,000	£24,000	£104,000	£473
3 Arall				£525
<b>Isafswm cost cyfarfod</b>				<b>£4,125</b>
<b>Uchafswm cost cyfarfod</b>				<b>£4,243</b>
<b>Isafswm Cost 4 cyfarfod</b>				<b>£16,500</b>
<b>Uchafswm Cost 4 cyfarfod</b>				<b>£16,972</b>

457. Caiff Gweinidogion Cymru benodi aelodau ychwanegol i'r Panel. Bydd yr aelodau ychwanegol hynny a'u costau teithio a chynhaliath yn cael eu had-dalu o dan



system ffioedd Cynllun Tâl y Cynulliad, a hynny ar lefel band 2 yn ôl pob tebyg, sef £175 y person ar hyn o bryd. Nid yw'n bosibl pennu nifer yr aelodau ychwanegol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu penodi i'r Panel. Fodd bynnag, gan gymryd y bydd tri yn cael eu hychwanegu ar y dechrau, cyfanswm costau dyddiol y Panel fyddai tua £4,125. Rhagwelir y bydd y panel yn cwrdd ar 4 diwrnod y flwyddyn, gan roi cyfanswm cost rhwng £16,500 a £16,972 y flwyddyn.

458. Mae'n anodd amcangyfrif yr union nifer o weithiau y bydd y Comisiynydd yn galw'r Panel Cynghorol. Ar y dechrau, yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae'n bosibl y bydd y Comisiynydd am alw'n amlach ar aelodau'r Panel, ond gallai hyn newid wrth i'r rhaglen waith gael ei datblygu. Mae'n bosibl na fydd angen galw'r Panel cyfan bob tro, felly gallai'r costau fod yn llai hefyd.
459. Yn ogystal â chostau presenoldeb yn y cyfarfodydd, mae'n bosibl y bydd y sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y panel yn ysgwyddo costau paratoi/cefnogaeth ehangach. Mae'r costau hyn yn debyg o amrywio yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan y Panel.

#### *Costau archwilio gan y Cynulliad Cenedlaethol*

460. Bydd gofyn i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o adroddiad blynyddol y Comisiynydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n anodd amcangyfrif unrhyw newidiadau i'r costau craffu sy'n deillio o weithgaredd y Comisiynydd dan yr opsiwn hwn, gan y bydd yn dibynnu ar lefel y craffu sy'n briodol ym marn y Cynulliad. Byddai'r costau'n cael eu talu o'r gyllideb a bennwyd i Gomisiwn y Cynulliad.

*Tabl 24D: Tabl crynodeb – costau opsiwn 3*

<b>Gweithgarwch</b>	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>	<b>2018/19</b>	<b>2019/20</b>	<b>2020/21</b>
Swyddog MB2 Llywodraeth Cymru yn rheoli'r cyfnod pontio hyd fis Rhagfyr 2015	£-	£-	£-	£-	£-
Panel Cynghori – costau aelodau	£17,000	£17,000	£17,000	£17,000	£17,000
Costau recriwtio Comisiynydd Amser staff Llywodraeth Cymru	£-	£-	£-	£-	£-
Costau staff swyddfa'r Comisiynydd	£948,300	£948,300	£948,300	£948,300	£948,300
Costau eiddo	£54,000	£54,000	£54,000	£54,000	£54,000
Costau gweinyddol a chymorth	£247,540	£206,273	£210,407	£206,273	£206,273
Costau TGCh	£80,400	£48,400	£48,400	£56,400	£48,400
Costau wrth gefn	£50,000	£50,000	£50,000	£50,000	£50,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,397,200</b>	<b>£1,323,900</b>	<b>£1,328,000</b>	<b>£1,331,900</b>	<b>£1,323,900</b>

## Manteision

### Opsiw 1: Gwneud dim

461. Oherwydd natur gymhleth datblygu cynaliadwy, dibynnwyd yn y gorffennol ar ddull wedi'i seilio ar berswâd ac anogaeth yn hytrach na gorfodi a chosbi. Bydd y Bil yn golygu newid yn niwylliant ac ymddygiad sefydliadau a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Mae trefniadau cymorth a ddarparwyd drwy'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy wedi canolbwyntio ar ddylanwadu ac ymgysylltu gan gydnabod bod pen draw i'r hyn y gellir ei gyflawni drwy ddulliau llymach o weithredu.
462. Mae rôl y Comisiynydd o ran cynghori a galw cyfarfodydd wedi datblygu'n ddi-dor dros gyfnod hir gan gynnal y consensws a geir mewn rhannau helaeth o Gymru o blaid datblygu cynaliadwy<sup>48</sup>. Roedd y siom gyffredinol a deimlwyd mewn cymdeithas ddinesig ynghylch dirwyn Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU i ben yn 2010 wedi amlygu gwerth y rôl hon ac wedi gwanhau'r gefnogaeth gynyddol i ddatblygu cynaliadwy ac i fuddiannau cenedlaethau'r dyfodol. Yr argraff gyffredinol a gafwyd oedd bod datblygu cynaliadwy wedi'i roi o'r neilltuo wrth ystyried polisi.
463. Mae'r Comisiynydd presennol wedi mwynhau tymor llwyddiannus yn ei swydd gan ddatblygu naratif a dadl gryf a pherswadiol o blaid datblygu cynaliadwy. Cyflawnwyd hyn drwy gydweithio'n effeithiol â Gweinidogion Cymru, uwch arweinwyr eraill, gweithwyr yn y sector cyhoeddus, busnesau a grwpiau cynrychiadol, sefydliadau cymunedol ac aelodau o'r cyhoedd. Wrth gyflawni ei rôl o ran galw cyfarfodydd, mae'r Comisiynydd wedi canolbwyntio i lai o raddau ar ddefnyddio ei bŵer cyfyngedig ei hun, gan ddibynnu'n hytrach ar gyd-ddylanwad yr unigolion a sefydliadau hyn ar wahanol adegau. Drwy gyflwyno ei sylwadau yn yr Adroddiad Blyneddol ar Ddatblygu Cynaliadwy, mae'r Comisiynydd wedi cael cyfle, drwy gyfrwng y ddadl osod mewn cyfarfod llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i ddylanwadu ar weithredoedd a gweithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod barn annibynnol ar gael am y cynnydd ar fentrau allweddol a bod statws i ddatblygu cynaliadwy ymysg pleidiau gwleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.
464. Y risgiau o barhau â'r opsiwn hwn yw bod y rhwystrau presennol rhag gwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy ymhellach yn debygol o barhau; bydd hyn yn arwain at oedi cyn gweld canlyniadau cadarnhaol llesiant wrth sefydlu datblygu cynaliadwy yn y sector cyhoeddus.

### Opsiw 2. Gwasgaru rôl y Comisiynydd

465. Byddai manteision yr opsiwn hwn yn deillio'n bennaf o arbed costau drwy beidio â phenodi comisiynydd newydd a pheidio â darparu'r cymorth y mae'n ei gael i gyflawni'r rôl. Nid yw'n ofyniad hanfodol bod llais ar gyfer datblygu cynaliadwy y tu allan i lywodraeth. Fodd bynnag, mae wedi bod yn rhan o'r cyd-destun datganoledig yng Nghymru.

466. Ar ôl tynnu'n ôl y cymorth i Gomisiynydd annibynnol a chymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy, mater i ddisgresiwn Llywodraeth Cymru fyddai caffael y gwasanaethau hyn yn ôl yr angen, neu ychwanegu'r rôl hon, o bosibl, at y rôl sydd gan sefydliad yn y trydydd sector neu'r sector cyhoeddus neu breifat. Gall Gweinidogion Cymru gyflawni rôl fwy ffurfiol o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy eu gweithredoedd ac mae'n bosibl y byddai hyn yn rhoi arweiniad mwy effeithiol ar ddatblygu cynaliadwy ar draws y sector cyhoeddus. Er hynny, mae'n bosibl na fydd hyn yn sicrhau lefel debyg o wasanaeth.
467. Byddai disgwyliadau mawr ar ran rhanddeiliaid yn sicrhau bod y gweithgareddau sy'n hybu datblygu cynaliadwy yn parhau, neu hyd yn oed yn cynyddu yng nghydestun y ddeddfwriaeth newydd. Mae arbenigedd a gallu cynyddol yn y sector preifat a'r trydydd sector ar gyfer hyrwyddo a hybu datblygu cynaliadwy mewn sefydliadau y gellid dibynnu arnynt i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ledled Cymru. Fodd bynnag, mater i ddisgresiwn sefydliadau ledled Cymru fyddai defnyddio'r adnodd hwn yn ôl yr angen.

### **Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth**

468. Mae'r opsiwn cyntaf yn disgrifio'r manteision y mae Cymru wedi'u cael drwy Gomisiynydd sydd wedi arwain ar ddatblygu cynaliadwy a chynorthwyo sefydliadau sydd am hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Bydd yr opsiwn a ffefrir yn diogelu swyddogaethau Comisiynydd ar gyfer y tymor hir drwy ddeddfwriaeth, ac yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd swydd y Comisiynydd yn cael ei dirwyn i ben yn yr un modd â'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. O gofio'r duedd sydd gan genedlaethau'r presennol o roi ystyriaeth gyfyngedig i anghenion cenedlaethau'r dyfodol, bydd rôl a chwmpas swydd y Comisiynydd yn ehangach ac yn gryfach na threfniadau blaenorol a sefydlir dyletswyddau a phwerau penodol sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau a roddir ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru.
469. Mae lefel gyfyngedig o adnoddau ar gael i'r Comisiynydd presennol o dan y contract sy'n darparu cymorth allanol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd angen tîm mwy o lawer o dan yr opsiwn hwn, tra bydd y Panel Cynghorol, a fydd yn cynnwys arweinwyr allweddol o'r sector cyhoeddus (a sectorau eraill o bosibl) o bob rhan o gymdeithas sifil yng Nghymru, yn gallu cynnig cyngor, cyfarwyddyd a chymorth i'r Comisiynydd ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau.
470. Bydd dyletswyddau arfaethedig y Comisiynydd yn gallu arwain at fwy o lawer o gydnabyddiaeth i'r angen i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru a hynny, yn fwy penodol, gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Bydd y cynnig ar gyfer cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn rheolaidd a chynnal cylch o weithgareddau ymgysylltu ar ei gyfer yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu cyngor wedi'i seilio ar dystiolaeth i'w ystyried gan Weinidogion Cymru a'r gwasanaeth cyhoeddus wrth osod eu hamcanion i gyflawni'r nodau, a hefyd ar y dulliau o fesur cynnydd ar y materion sy'n bwysig i bobl a chymunedau ledled Cymru. Wrth iddynt osod ac adolygu amcanion llesiant, bydd yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus yn ystyried Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol y Comisiynydd ac, wrth ddiwygio'r

nodau llesiant, bydd yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r Comisiynydd.

471. Drwy sefydlu pŵer i wneud argymhellion, bydd y Comisiynydd hefyd yn gallu taflu goleuni ar faterion allweddol penodol sy'n berthnasol i'r angen i gyflawni amcanion llesiant mewn modd sy'n gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy a bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi ymateb i'r argymhellion hynny. Gall hyn fod yn berthnasol i un neu ragor o gyrff cyhoeddus. Bydd hyn yn creu cofnod cyhoeddus o'r ymdrechion i gyrraedd nodau llesiant mewn modd sy'n gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hyn, bydd pwerau gan y Comisiynydd i fynnu cael gwybodaeth gan gyrff cyhoeddus.

### **Crynodeb o'r Opsiwn a Ffefrir**

472. Fel yr eglurwyd uchod, byddai opsiwn 3 yn dod â nifer o fuddion. Mae'r rhain yn cynnwys:
- gwneud y swydd hon yn fwy sefydlog drwy sefydlu swydd y Comisiynydd mewn cyfraith;
  - ehangu a chryfhau rôl y Comisiynydd a rhoi mwy o ystyriaeth i anghenion cenedlaethau'r dyfodol;
  - darparu y bydd y Comisiynydd yn cael cymorth ac arweiniad gan arweinwyr allweddol yng Nghymru, drwy'r Cyngor Cynghorol, wrth gyflawni ei swyddogaethau craidd;
  - rhoi mwy o bwys ac effaith i waith y Comisiynydd drwy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a fydd yn gallu dylanwadu ar y broses o osod ac adolygu amcanion llesiant gan Lywodraeth a chyrff cyhoeddus yng Nghymru gyda'r bwriad o gyfrannu i'r graddau mwyaf posibl at gyrraedd y nodau llesiant;
  - sicrhau y gofynnir am farn y Comisiynydd (a chyrff cyhoeddus eraill a rhanddeiliaid perthnasol eraill) cyn diwygio'r nodau llesiant;
  - galluogi'r Comisiynydd i ystyried materion allweddol sy'n berthnasol i'w swyddogaethau, cyflwyno argymhellion i awdurdodau cyhoeddus a enwir a fydd yn galw am gyhoeddi ymateb.
473. Bydd yr opsiwn hwn yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer gwreiddio egwyddor datblygu cynaliadwy yng ngwaith cyrff cyhoeddus ac yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion. Er nad yw'r manteision hyn wedi'u mesur, credir eu bod yn ddigon i gyfiawnhau'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag opsiwn 3.

## Bwriad polisi 4: Cynllunio Cymunedol Integredig

### Costau

#### Opsiwn 1 – Gwneud dim

474. Fel y gwelwyd ym mharagraff 57, noder bod y cynnydd yn y costau ychwanegol ar gyfer sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus o gymharu ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol mis Gorffennaf 2014 yn ymwneud yn bennaf ag argostau sydd wedi'u hychwanegu er cysondeb ar draws yr Asesiad. Mae costau eraill yn ymwneud o hyd â phresenoldeb a chyfraniad sefydliadau fel yr Heddlu, y gwasanaethau prawf, yr Awdurdodau Tân ac Achub a Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
475. Rhoddwyd grant o £250,000 i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol ar gyfer paratoi a chyflawni cynlluniau plant a phobl ifanc o dan Ddeddf Plant 2004. Roedd y cyllid hwn wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2010/11. Mae'r dyletswyddau cynllunio o dan y Ddeddf hon yn cael eu cyflawni bellach drwy gynlluniau integredig sengl.
476. Rhwng 2008/09 a 2010/11, roedd pob awdurdod lleol wedi cael grant o £50,000 i gwrdd â'r costau o sefydlu a rhedeg Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI). Yn 2011, roedd y cyllid at ddatblygu BGLlau ar gyfer y 15 o awdurdodau lleol yn Ardal Gydgyfeirio'r UE (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) wedi'i ddyrannu yn lle hynny'n arian cyfatebol ar gyfer prosiect o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop o'r enw Prosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau. Drwy weithio mewn partneriaeth â sector llywodraeth leol a'r trydydd sector (CLILC a WCVA), mae'r prosiect yn canolbwyntio ar y canlynol:

*“Diben y Prosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau yw cyflawni nifer o fentrau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd er mwyn dwysáu effaith y 15 Bwrdd Gwasanaethau Lleol.*

*Ffocws y prosiect yw 'dysgu drwy wneud'. Trwy gyflawni prosiectau lleol a rhanbarthol bydd modd hybu newid yn y system a chefnogi newidiadau diwylliannol sydd eu hangen i weddnewid gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio'n fwy cydweithredol.”<sup>49</sup>*

477. Mae'r prosiect hwn wedi galluogi BGLlau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i gynnig am gymorth parhaol ar gyfer datblygu BGLlau ar gyfradd sy'n gymesur â'r un ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn yr Ardal Gydgyfeirio (£50,000 y flwyddyn), yn ogystal â chyllid ar gyfer prosiectau arddangos i ddatblygu a rhannu'r arferion gorau.
478. Bydd y cyllid ar gyfer y prosiect o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn galendr 2014. Mae'r grant o £50,000 ar gyfer BGLlau wedi bod ar gael o hyd i'r 7 BGLI nad ydynt yn yr Ardal Gydgyfeirio h.y. Sir y Fflint, Wrecsam, Powys, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd a Bro Morgannwg.

479. Yn gyfan gwbl, felly, nid yw'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer hybu cynllunio integredig drwy'r BGLI yn llai na £300,000 i bob awdurdod lleol, neu £6.6 miliwn ledled Cymru. Gan fod y rhan fwyaf o'r cyllid hwn wedi'i chynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw bellach, mater i'r awdurdodau lleol, wrth gwrs, yw penderfynu sut y byddant yn dewis ei ddyrannu. Cyfran fach o'r cyllid hwn sy'n mynd at gynnal y BGLI a pharatoi'r asesiad strategol o anghenion (ASA) a'r cynllun integredig sengl (CIS). Mae gweddill y cyllid yn darparu ar gyfer rhedeg prosiectau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r blaenoriaethau yn y CIS.

*Costau blynyddol cyfartalog*

480. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn gan ei fod yn cadw'r trefniadau presennol ar gyfer BGLlau a chyflawni asesiadau o anghenion a chynlluniau integredig sengl. Yn yr adran sy'n dilyn mae amcangyfrif o'r costau sy'n cael eu hysgwyddo o dan y trefniadau presennol. Gellir rhannu'r costau am gynnal BGLlau a'u gwaith ar baratoi CISau a monitro eu cyflawniad o dan y categorïau canlynol:

- (1) Cyfarfodydd y BGLI
- (2) Cymorth i weithio mewn partneriaeth
- (3) Paratoi a diweddarau asesiadau strategol o anghenion
- (4) Paratoi cynlluniau integredig sengl ac adroddiadau blynyddol
- (5) Ymgysylltu â dinasyddion
- (6) Craffu
- (7) Costau Llywodraeth Cymru

(1) Cyfarfodydd y BGLI

481. Ar gyfartaledd, mae BGLlau yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn am 3 awr. Gall BGLlau gwrdd yn fwy aml yn ystod y broses o baratoi'r cynllun bob pum mlynedd ac yn llai aml ar adegau eraill. Mae'r tabl isod yn dangos y gost cyfle flynyddol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y BGLI gan un cynrychiolydd o'r gwahanol sefydliadau mewn un ardal. Y gost yw £12,000 y flwyddyn yn fras.

*Tabl 25: Amcangyfrif o'r gost flynyddol i sefydliadau sy'n aelodau o'r BGLI am gymryd rhan yng nghyfarfodydd arferol y BGLI*

Sefydliad	Swyddog	Oriau y flwyddyn ar gyfer y BGLI	Cyflog blynyddol 50 (£)	Cost am gymryd rhan yng nghyfarfodydd y BGLI (£)

Sefydliad	Swyddog	Oriau y flwyddyn ar gyfer y BGLI	Cyflog blyneddol 50 (£)	Cost am gymryd rhan yng nghyfarfodydd y BGLI (£)
Awdurdod lleol	Arweinydd	18	£61,230	£700
Awdurdod lleol	Prif weithredwr	18	£171,600	£1,900
Bwrdd iechyd lleol	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	18	£213,200	£2,300
Heddlu	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	18	£94,250	£1,000
Heddlu	Prif Uwch-aryolygydd	18	£146,250	£1,600
Gwasanaethau prawf	Rheolwr rhanbarthol	18	£51,900	£600
Awdurdod Tân ac Achub	Dirprwy brif swyddog tân	18	£125,840,	£1,400
Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	Rheolwr rhanbarthol	18	£51,900	£600
Llywodraeth Cymru	Uwch Was Sifil Gradd 5	18	£101,400,	£1,100
Cyngor Gwirfoddol Sirol	Prif weithredwr	18	£69,400	£800
<b>CYFANSWM</b>				<b>12,000</b>

Ar hyn o bryd mae 19 BGLI yng Nghymru, un ar gyfer pob ardal awdurdod lleol heblaw yn Ynys Môn/Gwynedd, Conwy/Sir Ddinbych a Chaerdydd a Bro Morgannwg lle y mae BGLI ar y cyd ar gyfer dwy ardal awdurdod lleol. At ddibenion y dadansoddiad hwn, felly, 19 yw nifer y BGLIau. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r sefydliadau uchod wedi'i gynrychioli ar bob un o'r BGLIau hyn felly, er mwyn cael cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan, rhaid ystyriaeth yr amrywiaeth hon. Yr amcangyfrif o gyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yng nghyfarfodydd BGLIau ledled Cymru o dan y trefniadau presennol yw tua £195,800 y flwyddyn.

*Tabl 26: Amcangyfrif o gyfanswm y gost flynyddol i sefydliadau sy'n aelodau o BGLIau am gymryd rhan yn holl gyfarfodydd y BGLIau*

Sefydliad	Swyddog	Cost am gymryd rhan yng nghyfarfodydd y BGLI (£)	Nifer y BGLlau y mae'n cymryd rhan yn eu cyfarfodydd yn awr	Cyfanswm y gost (£)
Awdurdod Lleol	Arweinydd	£700	19	£13,300
Awdurdod Lleol	Prif weithredwr	£1,900	19	£36,100
Bwrdd Iechyd lleol	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	£2,300	19	£44,600
Heddlu	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	£1,000	9	£9,000
Heddlu	Prif Uwch-aryogydd	£1,600	19	£30,400
Gwasanaethau prawf	Rheolwr rhanbarthol	£600	8	£4,800
Awdurdod Tân ac Achub	Dirprwy brif swyddog tân	£1,400	12	£16,800
CNC	Rheolwr rhanbarthol	£600	8	£4,800
Llywodraeth Cymru	Uwch Was Sifil Gradd 5	£1,100	19	£20,900
Cyngor Gwirfoddol Sirol	Prif weithredwr	£800	19	£15,200
<b>CYFANSWM</b>		<b>£12,000</b>		<b>£195,800</b>

(2) Cymorth i weithio mewn partneriaeth

482. Ar hyn o bryd mae pob awdurdod lleol yn cyflogi 1 swyddog amser llawn sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth gweithredol i'r BGLI, paratoi papurau, arwain ar baratoi'r asesiad strategol o anghenion a'r cynllun integredig sengl, paratoi adroddiadau blynyddol a thystiolaeth ar gyfer craffu.

483. Mae gradd y swydd hon yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ond yr amcangyfrif o gost gyfartalog grynsyth y rôl yw £30,400 y flwyddyn, cyfanswm o £668,800 y flwyddyn ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid ar gyfer y rôl



hon drwy'r Grant Datblygu BGLlau (yn y 7 ardal awdurdod lleol nad ydynt yn yr Ardal Gydgyfeirio) a rhaglen y Prosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (yn y 15 ardal awdurdod lleol sydd o fewn yr Ardal Gydgyfeirio).

(3) Paratoi a diweddarau asesiadau strategol o anghenion

484. Yn 2012/13, cwblhawyd asesiadau strategol cynhwysfawr o anghenion (a elwir hefyd yn gyd-asesiadau o anghenion ac yn asesiadau unedig o anghenion) am y tro cyntaf. Yn y rhan fwyaf o achosion roeddent wedi'u seilio ar yr asesiadau o anghenion a gwblhawyd o'r blaen ar gyfer y cynlluniau plant a phobl ifanc a'r strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles, drwy ddiweddarau'r wybodaeth a oedd ynddynt a llenwi'r bylchau yn ôl yr angen. Bydd data diogelwch cymunedol yn cael eu diweddarau bob blwyddyn, yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, ac maent ar gael ar gyfer nifer o feysydd polisi pwysig. Mae'r data craidd hyn ar gael ar wefannau Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru 'LSB Insight'<sup>51</sup>, Stats Cymru<sup>52</sup> a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol<sup>53</sup>. Yn ogystal â'r data hyn, ceir data mwy arbenigol fel y rhai yn adroddiadau blynyddol y Prif Swyddog Meddygol<sup>54</sup> a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y GIG<sup>55</sup>. Mae'r asesiadau o anghenion hefyd yn cynnwys tystiolaeth o amrywiaeth o asesiadau statudol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â darparu gofal plant, addysg feithrin a chyfleoedd chwarae. Mewn achosion eraill, roedd y broses wedi'i dechrau o'r newydd, gan ganolbwyntio ar y dystiolaeth a'r dadansoddi yr oedd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd yn y cynllun. Mae trosolwg o'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd yn y Gwerthusiad Interim o Gynlluniau Integredig Sengl.<sup>56</sup>
485. Oherwydd y cylch cynllunio, mae'r broses o baratoi'r asesiadau'n un gylchol. Ar hyn o bryd bydd asesiad newydd yn cael ei baratoi bob 4 blynedd, a bydd y data yn cael eu diweddarau'n flynyddol. Fodd bynnag, gan mai 5 mlynedd fydd hyd y cylch etholiadol hwn ar gyfer awdurdodau lleol, cymerir bod y cylch cynllunio yn 5 mlynedd o hyd (Mai 2012 – Mai 2017). Ym mhob achos, yr awdurdod lleol a oedd wedi arwain ar y gwaith hwn ac wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith o gasglu tystiolaeth, coladu, dadansoddi a chyhoeddi. Roedd partneriaid eraill, yn enwedig sefydliadau iechyd a'r heddlu, wedi cyfrannu, yn bennaf drwy ddarparu data yr oeddent wedi'u casglu a'u dadansoddi eisoes at eu dibenion corfforaethol eu hunain ac ar gyfer cynllunio gwasanaethau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd y gost i'r sefydliadau hyn yn isel, ac yn deillio'n llwyr o'u presenoldeb mewn nifer bach o weithdai a chyfarfodydd. Roedd y cyfraniad gan sefydliadau eraill yn fach iawn. Roedd yr asesiadau o anghenion wedi'u paratoi'n fewnol heblaw am ddau achos lle'r oedd dadansoddiad cychwynnol wedi'i gomisiynu gan ymgynghorwyr allanol. Yn yr achosion hyn, gwariwyd cyfanswm o tua £20,000 ar waith gan ymgynghorwyr allanol. Nid yw'r costau hyn yn gylchol, fodd bynnag, ac maent yn annhebygol iawn o godi eto mewn blynyddoedd i ddod.
486. Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif gorau o'r gost o gwblhau asesiad strategol o anghenion am y tro cyntaf, drwy ddefnyddio asesiadau o anghenion a ffynonellau data sydd ar gael yn barod, gan gynnwys Stats Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Uned Ddata Llywodraeth Leol a ffynonellau data rhanbarthol, gan ddiwygio a llenwi bylchau yn ôl yr angen.

Tabl 27: Amcangyfrif o'r gost am baratoi asesiad strategol o anghenion ym Mlwyddyn 1 y cylch cynllunio.

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blynyddol (£)	Cost am baratoi'r ASA (£)
Awdurdod lleol	Dadansoddwr	100 diwrnod	£51,900	£23,600
Bwrdd iechyd lleol	Dadansoddwr	5 diwrnod	£50,310	£1,100
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Dadansoddwr	2 diwrnod	£50,310	£500
Heddlu	Dadansoddwr	3 diwrnod	£51,900	£700
<b>CYFANSWM</b>				<b>25,900</b>

487. Fel y nodwyd uchod, mae nifer o ardaloedd awdurdod lleol wedi ffurfio Byrddau Gwasanaethau Lleol ar y cyd. Hyd yn hyn, fodd bynnag, Gwynedd ac Ynys Môn yw'r unig ardaloedd sydd wedi ymrwmo i lunio asesiad strategol o anghenion a chynllun integredig sengl ar y cyd. Cymerir felly y bydd 21 o ASAAu yn cael eu llunio ledled Cymru. Yr amcangyfrif o gyfanswm y gost i'r holl BGLlau yw £543,900 (y cyfanswm yn Nhabl 27 x 21). Mae cyfle posibl i leihau'r gost hon os bydd awdurdodau lleol eraill yn penderfynu llunio asesiad o anghenion ar y cyd. Cymerwyd y bydd ASAAu newydd yn cael eu llunio yn 2016-17.

488. Yn ystod y blynyddoedd rhwng paratoi asesiadau newydd, disgwylir i BGLlau barhau i adolygu eu hasesiad, gan ei ddiweddarau yn ôl yr angen pan geir gwybodaeth newydd. Mae'r tabl yn dangos amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddiweddarau'r ASA ac i ddehongli tystiolaeth (er enghraifft, drwy ddarparu adroddiadau byr) mewn meysydd polisi penodol. Y gost sy'n gysylltiedig â hyn yw tua £8,700 y flwyddyn ar gyfer pob ardal.

Tabl 28: Amcangyfrif o'r gost am ddiweddarau asesiad strategol o anghenion ym Mlynnyddoedd 2-5 y cylch cynllunio.

Sefydliad <sup>24</sup>	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blynyddol (£)	Cost am ddiweddarau'r ASA (£)
Awdurdod lleol	Dadansoddwr	30 niwrnod	£51,900	£7,100
Bwrdd iechyd lleol	Dadansoddwr	3 niwrnod	£50,310	£700

<sup>24</sup> Cymerir bod cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a CNC ar yr un radd ag MB1 Llywodraeth Cymru. Cymerir bod cynrychiolwyr y BILlau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ym Mand 6 'Uwch Ddadansoddwyr Gwybodaeth'.

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Dadansoddwr	1 niwrnod	£50,310	£200
Heddlu	Dadansoddwr	3 niwrnod	£51,900	£700
<b>CYFANSWM</b>				<b>8,700</b>

489. Gan gymryd y bydd 21 asesiad o anghenion yn cael eu dal dan sylw, yr amcangyfrif o gyfanswm y gost flynyddol ledled Cymru yw £182,700. Unwaith eto, bydd cyfle posibl i leihau'r gost hon os bydd ardaloedd lleol eraill yn dewis llunio asesiad ar y cyd.

*(4) Paratoi cynlluniau integredig sengl*

490. O'r ASA y ceir y dystiolaeth a'r dadansoddiadau sy'n sail i'r CIS, yn ogystal â'r cynnwys craidd ar ei gyfer. Y camau a gymerir wrth baratoi'r cynllun yw cytuno ar y blaenoriaethau, cytuno ar strwythur a chynnwys y cynllun, cael tystiolaeth o'r cynnydd a gafwyd eisoes o raglenni gwaith presennol, cytuno ar fesurau a dangosyddion a pharatoi cynlluniau gweithredu a chardiau cofnodi. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r blaenoriaethau yng nghynlluniau heddlu a throsteddu'r Comisiynwyr Heddlu a Throsteddu ar gyfer pob ardal. Cyflawnir y rhan fwyaf o'r gwaith paratoi a drafftio gan swyddog cymorth y BGLI ond bydd amrywiaeth o swyddogion eraill mewn awdurdodau lleol a swyddogion mewn sefydliadau eraill sy'n aelod o'r BGLI yn cymryd rhan mewn gweithdai a chyfarfodydd er mwyn cytuno ar faterion allweddol. Mae cost swyddog cymorth y BGLI wedi'i chynnwys uchod o dan (2) Cymorth i weithio mewn partneriaeth. Bydd y CIS yn cael ei gymeradwyo yng nghyfarfodydd y BGLI.

491. Cymerir y bydd mewnbyn parhaus gan y dadansoddwr, cyfraniadau arbenigol gan reolwyr partneriaethau ail haen (20 niwrnod yr un ar gyfer 3 rheolwr o'r fath), a llai o fewnbyn gan bartneriaid eraill. Bydd statws y staff sy'n ymwneud â'r broses cynllunio yn debygol o amrywio rhwng ardaloedd a sefydliadau. I ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, cymerir y bydd gradd pob un o gyfranwyr y sefydliadau'n cyfateb i Fand Rheoli 1 yn Llywodraeth Cymru. Yr unig eithriad i hyn yw Cynghorau Gwirfoddol Sirol lle y cymerir y bydd y radd yn cyfateb i Fand Gweithredol 2.

492. Yr amcangyfrif o'r gost am lunio'r cynllun yw £28,400 ym mhob ardal. Gan gymryd y bydd 21 o gynlluniau'n cael eu llunio (gan y bydd Gwynedd ac Ynys Môn yn llunio cynllun ar y cyd), yr amcangyfrif o gyfanswm y gost ledled Cymru yw £596,400. Cymerir y bydd y cynlluniau nesaf yn cael eu llunio yn 2017-18 a'u hadolygu wedyn bob 5 mlynedd.

*Tabl 29: Amcangyfrif o'r costau am baratoi'r cynllun integredig sengl ym Mlwyddyn 1 y cylch cynllunio*

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blynyddol (£)	Cost am baratoi'r CIS (£)
-----------	---------	-----------------	----------------------	---------------------------

Awdurdod lleol	Dadansoddwr	30 diwrnod	£51,900	£7,100
Awdurdod lleol	Rheolwr partneriaethau eraill <sup>25</sup>	60 diwrnod	£51,900	£14,200
Bwrdd iechyd lleol	Rheolwr partneriaethau	5 diwrnod	£51,900	£1,200
Heddlu	Rheolwr partneriaethau	5 diwrnod	£51,900	£1,200
Gwasanaeth Prawf	Rheolwr ardal	2 diwrnod	£51,900	£500
Awdurdod Tân ac Achub	Rheolwr ardal	2 diwrnod	£51,900	£500
CNC	Rheolwr rhanbarthol	2 diwrnod	£51,900	£500
Cyngor Gwirfoddol Sirol	Prif weithredwr	10 diwrnod	£69,400	£3,200
<b>CYFANSWM</b>				<b>28,400</b>

493. Ym Mlynnyddoedd 2-5 y cylch cynllunio, caiff y CIS ei ddiweddarau drwy adroddiad blynyddol ac unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i'r CIS. Swyddog cymorth y BGLI fydd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn ond ceir cyfraniad gan randdeiliaid eraill ar ffurf diweddariadau gwybodaeth, astudiaethau achos ac adolygiadau o'r cynllun presennol. Fel y mae'r tabl isod yn dangos, yr amcangyfrif o'r gost am lunio'r adroddiad blynyddol yw £16,300 ym mhob ardal neu £342,300 ledled Cymru.

*Tabl 30: Amcangyfrif o'r costau am baratoi adroddiadau blynyddol ym Mlynnyddoedd 2-5 y cylch cynllunio*

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cost am baratoi adroddiadau blynyddol (£)
Awdurdod lleol	Dadansoddwr	20 diwrnod	£4,700
Awdurdod lleol	Rheolwr partneriaethau	30 diwrnod	£7,100
Bwrdd iechyd lleol	Rheolwr partneriaethau	3 diwrnod	£700
Heddlu	Rheolwr partneriaethau	3 diwrnod	£700
Gwasanaeth Prawf	Rheolwr ardal	2 ddiwrnod	£500
Awdurdod Tân ac Achub	Rheolwr ardal	2 ddiwrnod	£500
CNC	Rheolwr rhanbarthol	2 ddiwrnod	£500

<sup>25</sup> Er enghraifft, swyddogion sy'n cynnal partneriaethau plant a phobl ifanc neu bartneriaethau diogelwch cymunedol

Cyngor Gwirfoddol Sirol	Prif weithredwr	5 diwrnod	£1,600
<b>CYFANSWM</b>			<b>£16,300</b>

(5) Ymgysylltu â dinasyddion

494. Bydd y rhan fwyaf o'r ymgysylltu â phobl a chymunedau, gan gynnwys cymunedau buddiant a phlant a phobl ifanc, yn digwydd yng nghyfnod datblygu'r CIS, ac wrth ymgynghori ar y drafft o'r CIS h.y. Blwyddyn 1 y cylch cynllunio.
495. Bydd nifer o ffyrdd o ymgysylltu, gan gynnwys ffyrdd electronig sy'n defnyddio trefniadau sydd ar gael eisoes (arolygon, holiaduron, ymgynghori dros y rhyngwyd), ond bydd rhai elfennau mwy llafurddwys gan gynnwys gweithdai a chyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd, cynrychiolwyr mewn partneriaethau ail haen a rhanddeiliaid eraill e.e. y trydydd sector. Mae swyddog cymorth y BGLI yn chwarae rhan bwysig drwy arwain ar ymgysylltu a dadansoddi'r canlyniadau ond bydd hefyd yn manteisio ar yr arbenigedd sydd gan swyddogion ymgysylltu, mewn llywodraeth leol yn bennaf, a rheolwyr partneriaethau ail haen, fel y rheini ar gyfer plant a phobl ifanc.
496. I ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, cymerir y bydd 10 digwyddiad ymgysylltu hanner diwrnod o hyd ym Mlwyddyn 1 y cylch cynllunio, a phob un ohonynt yn galw am wythnos o waith y rheolwr ymgysylltu i'w drefnu, ei redeg ac i brosesu'r allbynnau. Ceir mewnbyn ychwanegol gan bartneriaid eraill y BGLI e.e. drwy gyflwyniadau mewn gweithdai, ond bydd hyn ar lefel is o lawer na mewnbyn yr awdurdod lleol. Cynhelir y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn ar safleoedd yr awdurdod lleol neu ei bartneriaid, ond cymerir y bydd mân gostau (er enghraifft, deunyddiau a lluniaeth) o £250 am bob digwyddiad neu £2,500 ym mhob ardal.
497. Mae Tabl 31 yn dangos y gost dybiedig am adnoddau staff mewn gweithgareddau ymgysylltu.
498. Felly yr amcangyfrif o gyfanswm y gost am ymgysylltu â dinasyddion ym mlwyddyn llunio'r cynlluniau yw £31,900. Bydd disgwyl i bob awdurdod lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion, felly yr amcangyfrif o gyfanswm y gost ledled Cymru yw £701,800.

*Tabl 31: Amcangyfrif o'r costau staff am weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion ym Mlwyddyn 1 y cylch cynllunio.*

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blyneddol (£)	Cost am ymgysylltu â dinasyddion (£)
Awdurdod lleol	Rheolwr ymgysylltu	50 diwrnod	51,900	£11,800
Awdurdod lleol	Rheolwyr partneriaethau	30 diwrnod	51,900	£7,100

Bwrdd iechyd lleol	Rheolwr partneriaethau	10 diwrnod	51,900	£2,400
Heddlu	Rheolwr partneriaethau	10 diwrnod	51,900	£2,400
Awdurdod Tân ac Achub	Rheolwr ardal	2 ddiwrnod	51,900	£500
CNC	Rheolwr rhanbarthol	2 ddiwrnod	51,900	£500
Cyngor Gwirfoddol Sirol	Prif weithredwr	15 diwrnod	69,400	£4,700
<b>Costau digwyddiadau</b>				<b>2,500</b>
<b>CYFANSWM</b>				<b>£31,900</b>

499. Ym Mlynnyddoedd 2 - 4 y cylch cynllunio, bydd lefel yr ymgysylltu'n is. Mae'r rhan fwyaf o BGLlau yn rhedeg fforwm cyhoeddus blyneddol i adrodd ar gynnydd, dod â rhanddeiliaid at ei gilydd a thynnu sylw at faterion newydd a materion sy'n dod i'r golwg, fel effaith y dirywiad economaidd ac effaith diwygio lles. Yn ogystal â hyn, bydd ymgysylltu parhaus ar faterion penodol. Cymerir bod y fforwm blyneddol yn cymryd 15 niwrnod o amser y rheolwr ymgysylltu, a bod 4 gweithdy ymgysylltu yn cael eu cynnal. Cymerir mai oddeutu £1,500 y flwyddyn fydd swm y mân gostau ym mhob ardal am gynnal y digwyddiadau hyn.

500. Mae'r costau am adnoddau staff ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ym Mlynnyddoedd 2-5 y cylch cynllunio wedi'u dangos yn y tabl isod. Yr amcangyfrif o gyfanswm y gost am ymgysylltu â dinasyddion yw £18,800 y flwyddyn ym mhob ardal neu gyfanswm o £413,600 y flwyddyn.

*Tabl 32: Amcangyfrif o'r costau staff am ymgysylltu â dinasyddion ym Mlynnyddoedd 2-5 y cylch cynllunio.*

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blyneddol (£)	Cost am ymgysylltu â dinasyddion (£)
Awdurdod lleol	Rheolwr ymgysylltu	35 diwrnod	51,900	£8,300
Awdurdod lleol	Rheolwyr partneriaethau	10 diwrnod	51,900	£2,400
Bwrdd iechyd lleol	Rheolwr partneriaethau	5 diwrnod	51,900	£1,200
Heddlu	Rheolwr partneriaethau	5 diwrnod	51,900	£1,200
Awdurdod Tân ac Achub	Rheolwr ardal	2 ddiwrnod	51,900	£500
CNC	Rheolwr rhanbarthol	2 ddiwrnod	51,900	£500
Cyngor Gwirfoddol Sirol	Prif weithredwr	10 diwrnod	69,400	£3,200
<b>Costau digwyddiadau</b>				<b>1,500</b>

<b>CYFANSWM</b>	<b>£18,800</b>
-----------------	----------------

(6) Craffu

501. Mae rhyw fath o broses ar gael ar gyfer craffu ar waith BGLlau ym mhob ardal. Mae'r fformat yn amrywio. Mewn rhai ardaloedd mae un o'r pwyllgorau trosolwg a chraffu presennol yn craffu ar waith y BGLI e.e. yn Wrecsam. Mewn ardaloedd eraill bydd gwahanol bwyllgorau trosolwg a chraffu yn craffu ar waith y BGLI yn ôl eu diddordeb mewn meysydd fel iechyd a lles neu blant a phobl ifanc e.e. Sir Benfro. Y trydydd fformat sydd ar waith yw pwyllgor craffu penodol ar gyfer y BGLI sy'n cynnwys aelodau etholedig ac aelodau wedi'u cyfethol o'r sefydliadau sy'n rhan o'r BGLI e.e. Caerdydd. Mae'r fformat olaf yn anghyffredin o hyd felly ni cheisiwyd mesur y costau ychwanegol ffiniol i'r sefydliadau sy'n aelodau o'r BGLI.
502. Yn y ddau achos cyntaf mae nifer yr eitemau ar yr agenda yn cyfyngu ar hyd y craffu, a bydd yn para tua awr fel arfer ond yn digwydd ddwywaith neu fwy yn ystod y flwyddyn. Yn y trydydd achos, ceir craffu dros gyfnod hirach gan mai dim ond un testun craffu sydd gan y pwyllgor, ond bydd yn digwydd yn llai aml, unwaith y flwyddyn fel arfer.
503. Er mwyn costio'r trefniadau presennol ar gyfer craffu, rhagdybiwyd bod y craffu ar waith y BGLI yn para am gyfanswm o 8 awr y flwyddyn a'i fod yn cael ei gyflawni gan bwyllgor craffu sy'n cynnwys 8 aelod etholedig, un ohonynt yn gadeirydd y pwyllgor craffu sydd â hawl i dderbyn lwfans uwch. Er bod BGLlau ar y cyd mewn rhai ardaloedd, cymerir bod y craffu ar waith y BGLlau yn digwydd yn ardal pob awdurdod lleol (h.y. bod 22 o bwyllgorau craffu). Bydd swyddog cymorth y BGLI yn helpu i baratoi'r papurau ar gyfer craffu ond bydd rôl hefyd i'r dadansoddwr a'r swyddog craffu. Amcangyfrifwyd bod un diwrnod o waith paratoi am bob awr o waith craffu.

Tabl 33: Amcangyfrif o'r costau am graffu ar waith BGLlau

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blynyddol <sup>26</sup> (£)	Cost am graffu ar waith BGLlau (£)
Awdurdod lleol	Swyddog craffu	8 diwrnod	£51,900	£1,900
Awdurdod lleol	Dadansoddwr	8 diwrnod	£51,900	£1,900
Awdurdod lleol	Cadeirydd pwyllgor craffu	1 diwrnod	£28,600	£100
Awdurdod lleol	7 Aelod Etholedig	7 diwrnod	£17,300	£600
<b>CYFANSWM</b>				<b>4,500</b>

<sup>26</sup> Cymerwyd y ffigurau am gyflogau blynyddol Cadeirydd Pwyllgor Craffu ac Aelodau Etholedig o Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2014.

504. Ar y sail hon, yr amcangyfrif o gyfanswm y gost am graffu ar waith BGLlau ledled Cymru yw £99,000 y flwyddyn.

(7) Costau Llywodraeth Cymru

505. Mae'r costau i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chynnal BGLlau a chynllunio integredig yn cynnwys nifer o elfennau: prosesu grant datblygu'r BGLI (2 ddiwrnod y flwyddyn ar gyfer pob un o'r 19 o BGLlau); prosesu a dadansoddi datganiadau chwarterol y BGLI (0.5 diwrnod yr un ar 4 datganiad ar gyfer 19 o BGLlau); paratoi a darparu 4 gweithdy diwrnod llawn chwarterol ar gyfer swyddogion cymorth BGLlau (4 diwrnod o waith paratoi ar gyfer pob un a chostau uniongyrchol cysylltiedig am deithio, llogi man cynnal y gweithdy a lluniaeth); paratoi a darparu 2 weithdy ychwanegol ar y cyd ar gyfer swyddogion cymorth BGLlau a rhanddeiliaid eraill e.e. dadansoddwyr, y trydydd sector (4 diwrnod o waith paratoi ar gyfer pob un a chostau uniongyrchol cysylltiedig am deithio, llogi man cynnal y gweithdy a lluniaeth); darparu adborth am gynlluniau, diwygio canllawiau polisi etc. yn ôl yr angen (amcangyfrif o 30 niwrnod y flwyddyn). Mae'r gweithgareddau hyn yn cymryd 130 o ddiwrnodau o waith y flwyddyn a chyflawnir y cwbl ohonynt gan swyddog ar radd Band Rheoli 2. Y gost sy'n gysylltiedig â hyn yw tua £24,400 y flwyddyn. Y gost sy'n gysylltiedig â chynnal y gweithdai ar gyfer BGLlau yw tua £2,500 y flwyddyn.

506. Yn ogystal â hyn, mae angen 30% o rôl swyddog Band Gweithredol 2 (G7) i arwain a chyfarwyddo'r gwaith hwn. Tua £20,800 y flwyddyn yw'r gost am hyn.

507. Bydd uwch weision sifil Llywodraeth Cymru hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd BGLlau. Mae costau'r elfen hon wedi'u cynnwys yn adran (1) 'Cyfarfodydd BGLlau' uchod.

*Tabl 34: Amcangyfrif o'r costau i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal BGLlau a chynllunio integredig fesul blwyddyn*

Sefydliad	Swyddog / Cost uniongyrchol	Maint / Cyfnod	Cyflog blynyddol (£)	Cost cymorth Llywodraeth Cymru (£)
Llywodraeth Cymru	G7	30%	£69,400	£20,800
Llywodraeth Cymru	MB2	130 days	£40,700	£24,400
<b>Gweithdai a chostau teithio</b>				<b>£2,500</b>
<b>CYFANSWM</b>				<b>47,700</b>

*Tabl 35: Crynodeb o gostau opsiwn 1 (£)*

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Llywodraeth Cymru	£69,000	£69,000	£69,000	£69,000	£69,000
<b>Sefydliadau sy'n Bartneriaid</b>					



Byrddau Gwasanaethau Lleol	£196,200	£196,200	£196,200	£196,200	£196,200
Cymorth i weithio mewn partneriaeth	£668,800,	£668,800	£668,800	£668,800	£668,800
Asesiadau Strategol o Anghenion	£182,700	£543,900	£182,700	£182,700	£182,700
Cynlluniau Integredig Sengl	£342,300	£342,300	£596,400	£342,300	£342,300
Ymgysylltu â Dinasyddion	£413,600	£413,600	£701,900	£413,600	£413,600
<b>Craffu</b>	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000	£99,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,902,600</b>	<b>2,263,800</b>	<b>2,445,000</b>	<b>1,902,600</b>	<b>1,902,600</b>

## Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth

508. Bydd yr adnoddau a enwyd o dan Opsiwn 1 ar gael o hyd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) o dan yr opsiwn hwn. Yn yr adran hon, nodir y costau ychwanegol a fyddai'n cael eu hysgwyddo drwy ddeddfu. Mae'n werth nodi y byddai nifer y BGCau yn gostwng o 19 i 10-12 os gweithredir argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cyfuno awdurdodau lleol ac y byddai unrhyw gostau'n lleihau o ganlyniad i hynny.

### (1) Cyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

509. O dan yr opsiwn hwn, bydd dyletswydd ar y sefydliadau canlynol i gymryd rhan yng nghyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Awdurdod Lleol
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Awdurdod Tân ac Achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

510. Hefyd bydd y canlynol yn cael statws 'cyfranogwr gwahoddedig'. Mae hyn yn golygu y byddant yn gallu cymryd rhan yng ngwaith y BGC mewn amrywiol ffyrdd penodol, ond nad oes unrhyw reidrwydd arnynt i wneud hynny. At ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn, ac i ddiffinio uchafswm y costau ychwanegol a fyddai'n cael eu hysgwyddo dan yr opsiwn hwn, rhagdybir y bydd pob un o'r cyfranogwyr gwahoddedig yn cymryd rhan yn llawn.

- Gweinidogion Cymru
- Yr Heddlu
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Y Gwasanaeth Prawf
- Cyngor Gwirfoddol Sirol

511. Cymerir mai'r un fydd hyd ac amllder y cyfarfodydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus â'r rhai o dan y trefniadau presennol. Gan fod awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, yr heddlu, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Llywodraeth Cymru wedi'u cynrychioli eisoes ar bob BGLI, cymerir na fydd cost ychwanegol i'r sefydliadau hyn.
512. Fel yr eglurwyd o dan opsiwn 1, nid yw CNC, y gwasanaeth prawf, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau na'r Awdurdod Tân ac Achub yn cymryd rhan ym mhob BGLI ar hyn o bryd. Felly bydd cost ychwanegol i'r sefydliadau hyn o gael mwy o gynrychiolaeth ar y byrddau. Fel y mae Tabl 36 yn dangos, yr amcangyfrif o'r gost ychwanegol yw tua £33,000 y flwyddyn.

Tabl 36: Cost flynyddol ychwanegol i sefydliadau am gymryd rhan yn yr holl BGCau

Sefydliad	Swyddog	Cost flynyddol am gymryd rhan ym mhob BGC (£)	Byrddau ychwanegol y cymerir rhan ynddynt	Cost flynyddol ychwanegol (£)
Heddlu	Comisiynydd Heddlu a Throseddau	£1,000	10	£10,000
Gwasanaeth Prawf	Rheolwr rhanbarthol	£600	11	£6,600
Awdurdod Tân ac Achub	Dirprwy brif swyddog tân	£1,400	7	£9,800
CNC	Rheolwr rhanbarthol	£600	11	£6,600
<b>CYFANSWM</b>				<b>33,000</b>

513. Mae Tabl 37 yn dangos cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y 19 BGC o dan yr opsiwn hwn. Yr amcangyfrif o gyfanswm y gost flynyddol yw £228,000. Disgwylir y bydd y BGCau yn cwrdd am y tro cyntaf yn 2016-17 ac y bydd y BGLlau yn parhau tan hynny.

Tabl 37: Cyfanswm y gost flynyddol am gymryd rhan yn y BGCau

Sefydliad	Swyddog	Cost flynyddol am gymryd rhan ym mhob BGC (£)	Cyfanswm y gost (19 BGC) (£)
Awdurdod lleol	Arweinydd	£700	£13,300
Awdurdod lleol	Prif weithredwr	£1,900	£36,100
Bwrdd iechyd lleol	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	£2,300	£43,700
Heddlu	Comisiynydd Heddlu a	£1,000	£19,000

	Throseddu		
Heddlu	Prif uwch- arolygydd	£1,600	£30,400
Gwasanaeth Prawf	Rheolwr rhanbarthol	£600	£11,400
Awdurdod Tân ac Achub	Dirprwy brif swyddog tân	£1,400	£26,600
CNC	Rheolwr rhanbarthol	£600	£11,400
Llywodraeth Cymru	Uwch Was Sifil Gradd 5	£1,100	£20,900
Cyngor Gwirfoddol Sirol	Prif weithredwr	£800	£15,200
<b>CYFANSWM</b>		<b>£12,000</b>	<b>£228,000</b>

### (2) Cymorth i'r Bwrdd

514. Fel y mae ar hyn o bryd, disgwylir i bob awdurdod lleol gyflogi swyddog amser llawn a fydd yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweithredol i'r BGC, paratoi papurau, arwain ar baratoi'r asesiad llesiant a'r cynllun llesiant lleol, a pharatoi adroddiadau blynyddol a thystiolaeth ar gyfer craffu. Yr amcangyfrif o gost y swydd hon ym mhob ardal yw £30,400 y flwyddyn neu £668,800 ledled Cymru gyfan.

### (3) Aseidiadau o lesiant lleol

515. Cymerir mai'r un fydd y gost i bartneriaid presennol y BGLlau am lunio asesiad o lesiant lleol â honno ar gyfer llunio'r Aseiad Strategol o Anghenion presennol.
516. Yn ogystal â hyn, bydd disgwyl i CNC gyfrannu data amgylcheddol a dadansoddiadau o'i ddull rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal, fel sy'n cael ei ddiffinio ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd. Bydd y gwaith dadansoddi craidd, sef paratoi cynlluniau ardal a blaenoriaethau, yn rhan o swyddogaethau CNC:

#### *"Rheoli Adnoddau Naturiol ar sail Ardal*

*Bydd Bil yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i CNC ddatblygu a gweithredu dull ar sail ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Proses ar gyfer cynllunio a phennu blaenoriaethau fydd hon sy'n cydgysylltu'r defnydd o adnoddau er mwyn sicrhau'r manteision cynaliadwy hirdymor mwyaf posibl i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol.<sup>57</sup>*

517. Y baich ychwanegol ar CNC fydd sicrhau bod y dystiolaeth a baratowyd ar gyfer ei ardal yn cael ei hystyried yn ystod y broses asesu anghenion sy'n sail i gynlluniau llesiant lleol, a bod y blaenoriaethau amgylcheddol a bennwyd yn y cynlluniau ardal yn cael eu trosglwyddo, os yw'n briodol, i'r cynlluniau llesiant lleol. Amcangyfrifwyd y bydd hyn ar gyfartaledd yn costio 5 niwrnod o waith swyddog i CNC ar gyfer 19 Bwdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mlwyddyn 1 y cylch cynllunio wrth baratoi'r aseidiadau newydd o anghenion, a 3 diwrnod ar gyfer pob BGC yn ystod Blynyddoedd 2-5 y cylch cynllunio estynedig.

518. Felly yr amcangyfrif o'r gost o lunio'r asesiad o lesiant cychwynnol ym mhob ardal yw £27,100. Mae hyn yn cyfateb i gost o £569,100 ledled Cymru.

Tabl 38: Y gost am lunio asesiad o lesiant ym Mlwyddyn 1 y cylch cynllunio

Sefydliad <sup>27</sup>	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blynyddol (£)	Cost paratoi'r asesiad o lesiant (£)
Awdurdod Lleol	Dadansoddwr	100 diwrnod	£51,900	£23,600
Bwrdd Iechyd Lleol	Dadansoddwr	5 diwrnod	£50,300	£1,100
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Dadansoddwr	2 diwrnod	£50,300	£500
Heddlu	Dadansoddwr	3 diwrnod	£51,900	£700
CNC	Rheolwr rhanbarthol	5 diwrnod	£51,900	£1,200
<b>CYFANSWM</b>				<b>27,100</b>

519. O dan yr opsiwn hwn, y gost am ddiweddarau'r asesiadau o lesiant ym mlynnyddoedd 2-5 y cylch cynllunio yw tua £9,400 ym mhob ardal. Mae hyn yn cyfateb i gost o £197,400 ym mhob blwyddyn (Blynyddoedd 2-5 y cylch cynllunio) ledled Cymru.

Tabl 39: Amcangyfrif o'r costau blynyddol am ddiweddarau'r asesiadau o lesiant ym Mlynnyddoedd 2-5 y cylch cynllunio

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blynyddol (£)	Cost flynyddol am ddiweddarau'r asesiad o lesiant (£)
Awdurdod Lleol	Dadansoddwr	30 diwrnod	£51,900	£7,100
Bwrdd Iechyd Lleol	Dadansoddwr	3 diwrnod	£50,300	£700
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Dadansoddwr	1 diwrnod	£50,300	£200
Heddlu	Dadansoddwr	3 diwrnod	£51,900	£700
CNC	Rheolwr rhanbarthol	3 diwrnod	£51,900	£700
<b>CYFANSWM</b>				<b>9,400</b>

<sup>27</sup> Cymerir y bydd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a CNC ar radd sy'n cyfateb i MB1 Llywodraeth Cymru. Cymerir y bydd cynrychiolwyr y BILlau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 'Uwch Ddadansoddwyr Gwybodaeth' Band 6.

#### (4) Paratoi cynlluniau llesiant lleol

520. Cymerir mai'r un fydd y gost sy'n gysylltiedig â pharatoi cynllun llesiant lleol â honno am lunio Cynllun Integredig Sengl. Fel y cyfrifwyd o dan opsiwn 1, yr amcangyfrif o'r gost am lunio cynllun yw £28,400 ym mhob ardal neu gyfanswm o £596,400.

Tabl 40: Amcangyfrif o'r costau blynyddol am baratoi cynlluniau llesiant lleol

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad amser	Cyflog blynyddol (£)	Cost paratoi'r CIS (£)
Awdurdod lleol	Dadansoddwr	30 diwrnod	£51,900	£7,100
Awdurdod lleol	Rheolwr partneriaethau	60 diwrnod	£51,900	££14,200
Bwrdd iechyd lleol	Rheolwr partneriaethau	5 diwrnod	£51,900	£1,200
Heddlu	Rheolwr partneriaethau	5 diwrnod	£51,900	£1,200
Gwasanaeth Prawf	Rheolwr ardal	2 diwrnod	£51,900	£500
Awdurdod tân ac achub	Rheolwr ardal	2 diwrnod	£51,900	£500
CNC	Rheolwr rhanbarthol	2 diwrnod	£51,900	£500
Cyngor Gwirfoddol Sirol	Prif weithredwr	10 diwrnod	£69,400	£3,200
<b>CYFANSWM</b>				<b>28,400</b>

521. Cymerir hefyd mai'r un fydd y gost i bob ardal am lunio adroddiad blynyddol ym Mlynnyddoedd 2-4 y cylch cynllunio â honno o dan Opsiwn 1, sef £16,300 ym mhob ardal neu gyfanswm o £342,300.

#### (5) Ymgysylltu â dinasyddion

522. Cymerir mai'r un fydd y costau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a'r rheini o dan Opsiwn 1, sef £701,800 ym mlwyddyn llunio a chyhoeddi'r cynlluniau llesiant a £413,600 yn y blynyddoedd wedyn.

#### (6) Craffu

523. Mae'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer model mwy cyson o graffu drwy bennu bod rhaid i'r craffu gael ei gyflawni gan bwyllgor craffu dynodedig mewn llywodraeth leol. Bydd y pwyllgor craffu yn ymgynghorai statudol ar y drafft o'r asesiad o lesiant, bydd yn ofynnol iddo ystyried y drafft o'r cynllun llesiant, a bydd yn cael copïau o'r adroddiad blynyddol. Y bwriad yw y bydd cyfraniad y broses graffu at ddal y BGC yn atebol yn fwy o lawer. Cymerir y bydd yr ymrwymiad presennol sydd wedi'i nodi o dan Opsiwn 1 yn cael ei ddyblu. Cymerir mai'r gost flynyddol i bob ardal yw £9,000: mae hyn yn cyfateb i £198,000 ar gyfer Cymru gyfan bob blwyddyn. Disgwylir y bydd y trefniadau craffu newydd yn dod i rym yn 2016-17.

Tabl 41: Amcangyfrif o'r costau blynyddol am graffu ar waith BGCau

Sefydliad	Swyddog	Ymrwymiad	Cyflog blynyddol (£)	Cyfanswm y gost am graffu ar waith BGCau (£)
Awdurdod Lleol	Swyddog craffu	16 diwrnod	£51,900	£3,800
Awdurdod Lleol	Dadansoddwr	16 diwrnod	£51,900	£3,800
Awdurdod Lleol	Cadeirydd pwyllgor craffu	2 diwrnod	£28,600	£200
Awdurdod Lleol	7 Aelod Etholedig	14 diwrnod	£17,300	£1,200
<b>CYFANSWM</b>				<b>9,000</b>

(7) Cyngor gan y Comisiynydd

524. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ddarparu cyngor i bob BGC ar y drafft o'i gynllun llesiant, yng nghyswllt cydymffurfio ag egwyddor datblygu cynaliadwy yn benodol. Mae hyn yn rhan o swyddogaethau'r Comisiynydd. Mae'r costau am arfer swyddogaethau'r Comisiynydd wedi'u cynnwys yn yr adran berthnasol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

(8) Adolygu trefniadau partneriaeth

525. Ar hyn o bryd mae BGLlau yn adolygu eu trefniadau partneriaeth wrth gyflawni eu gweithgareddau presennol. Y bwriad yw y bydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni'r gwaith hwn yn gynt ond bydd unrhyw adolygiad o drefniadau partneriaeth yn cael ei gynnal gan y BGC wrth gyflawni ei ddyletswyddau arferol. Nid oes costau ychwanegol.

(9) Llywodraeth Cymru

526. O dan Opsiwn 1, pennwyd cost flynyddol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnal BGLlau a chynllunio integredig. Rhagwelir y bydd y gweithgareddau hyn yn parhau o dan yr opsiwn hwn, ar gost o £47,700 y flwyddyn (gweler Tabl 34).

527. Yn ogystal â hyn, bydd cost drosiannol i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â datblygu cod ymarfer ar gyfer paratoi'r asesiad o lesiant, a pharatoi canllawiau statudol ar weithrediad y BGC a pharatoi cynlluniau llesiant lleol.

- Cod ymarfer: rhagwelir y bydd yn cymryd 60 niwrnod o amser swyddog MB2, ac 20 niwrnod o waith swyddog G7 i'w paratoi. Defnyddir dulliau electronig ar gyfer ymgynghori ar y cod ymarfer a'i gyhoeddi ac ni fydd costau uniongyrchol ar gyfer hyn.
- Canllawiau statudol: rhagwelir y bydd hefyd yn cymryd 60 niwrnod o amser swyddog MB2, ac 20 niwrnod o waith swyddog G7 i'w paratoi.

528. Bydd angen ymgysylltu â BGCau wrth gymryd y camau gweithredu cyntaf, gan gynnwys ymgysylltu ynghylch cynnwys y cod ymarfer a'r canllawiau statudol. Yn ogystal â'r 6 gweithdy blynyddol sydd wedi'u costio ar gyfer opsiwn 1, bydd angen cynnal 2 weithdy ychwanegol. Bydd y costau trosiannol hyn o £35,600 yn cael eu hysgwyddo yn 2015-16.

Tabl 42: Amcangyfrif o'r costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil ym Mlwyddyn 1 (2015/16)

Sefydliad	Swyddog / Cost uniongyrchol	Cyfnod o waith	Cyflog blynyddol (£)	Costau gweithredu ychwanegol i Lywodraeth Cymru (£)
Llywodraeth Cymru	G7	40 diwrnod	69,400	£12,600
Llywodraeth Cymru	MB2	120 diwrnod	40,700	£22,200
<b>Costau gweithdai a chostau teithio</b>				<b>£800</b>
<b>CYFANSWM</b>				<b>£35,600</b>

(10) Costau trosiannol eraill

529. Gan y bydd y cylch cynllunio newydd yn dechrau wrth i'r cylch cynllunio presennol ddod i ben, ni fyddai costau trosiannol eraill heblaw'r rheini a nodwyd yn (9) i Lywodraeth Cymru.

Tabl 43: Crynodeb o gostau opsiwn 2 (£)

£	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
<b>Llywodraeth Cymru</b>	£83,300	£47,700	£47,700	£47,700	£47,700
<b>Sefydliadau sy'n Bartneriaid</b>					
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	£196,200 <sup>28</sup>	£228,000	£228,000	£228,000	£228,000
Cymorth i weithio mewn partneriaeth	£668,800	£668,800	£668,800	£668,800	£668,800
Asesiadau o lesiant	£182,700 <sup>29</sup>	£569,100	£197,400	£197,400	£197,400
Cynlluniau llesiant lleol	£342,300	£342,300 <sup>30</sup>	£596,400	£342,300	£342,300

<sup>28</sup> Byddai'r trefniadau presennol a ddisgrifiwyd o dan opsiwn 1 yn parhau nes ffurfio'r BGC yn 2016.

<sup>29</sup> Ar gyfer 2015/16, ysgwyddir y gost bresennol sydd wedi'i nodi o dan opsiwn 1.

<sup>30</sup> Ar gyfer 2015/16 a 2016/17, ysgwyddir y gost bresennol sydd wedi'i nodi o dan opsiwn 1.

Ymgysylltu â Dinasyddion	£413,600	£413,600	£701,800	£413,600	£413,600
<b>Craffu</b>	£99,000	£198,000 <sup>31</sup>	£198,000	£198,000	£198,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,985,900</b>	<b>£2,450,700</b>	<b>£2,638,100</b>	<b>£2,095,800</b>	<b>£2,095,800</b>

Tabl 43: Cost ychwanegol opsiwn 2 o'i gymharu ag opsiwn 1

£	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
<b>Llywodraeth Cymru</b>	£35,600	£-	£-	£-	£-
<b>Aelodau o'r Bwrdd</b>					
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	£-	£33,000	£33,000	£33,000	£33,000
Cymorth i weithio mewn partneriaeth	£-	£-	£-	£-	£-
Asesiadau o lesiant	£-	£25,200	£14,700	£14,700	£14,700
Cynlluniau llesiant lleol	£-	£-	£-	£-	£-
Ymgysylltu â Dinasyddion	£-	£-	£-	£-	£-
<b>Craffu</b>	-	99,000	99,000	99,000	99,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>35,600</b>	<b>139,200</b>	<b>145,500</b>	<b>145,500</b>	<b>145,500</b>

530. Mae'r costau ychwanegol wedi'u rhannu fel a ganlyn:

#### Llywodraeth Cymru

- £35,600, costau trosiannol ym Mlwyddyn 1 yn unig.

#### Aelodau o'r Bwrdd

- £33,000 bob blwyddyn o Flwyddyn 2 ymlaen. Costau ychwanegol yw'r rhain wedi'u rhannu rhwng Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, gwasanaethau prawf, Awdurdodau Tân ac Achub a CNC, er mwyn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal;
- £25,200 ym Mlwyddyn 2, ac wedyn £14,700 yn y blynyddoedd dilynol. Costau ychwanegol i CNC yw'r rhain am ddarparu gwybodaeth am yr amgylchedd ac adnoddau naturiol ar gyfer 21 asesiad o lesiant.

#### Craffu

- £99,000 rhwng 22 o ardaloedd awdurdod lleol ar gyfer craffu manylach ar waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

<sup>31</sup> Byddai'r trefniadau craffu newydd yn dechrau ar ôl ffurfio'r BGC a chyflwyno drafft o'r asesiad o lesiant i'r pwyllgor.



## Manteision

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

531. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cyflawni gwahanol fathau o ddyletswyddau statudol, a phob o'r rhain yn cwmpasu set o bartneriaid sydd ychydig yn wahanol, drwy'r BGLI a'r cynllun integredig sengl. Mae Opsiwn 1 yn symleiddio nifer o brosesau ar gyfer casglu tystiolaeth, cynllunio ac adrodd ac mae'n rhoi'r gallu i gysoni cylchoedd cynllunio o hyd gwahanol.
532. Mae hyn wedi arwain at arbedion pendant drwy effeithlonrwydd gan fod strwythurau partneriaeth a thimau cymorth partneriaethau mewn awdurdodau lleol, yn benodol, wedi cael eu rhesymoli a'u symleiddio. Mae wedi arwain hefyd at fwy o gysoni rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.
533. O safbwynt dinasyddion ac aelodau etholedig lleol, mae modd yn awr iddynt gael gafael ar wybodaeth helaeth a dibynadwy am lesiant yn eu hardal, a'r wybodaeth honno mewn llawer achos wedi'i datgyfuno ar sail grwpiau poblogaeth ac ardaloedd lleol. Hefyd gallant ddod o hyd i ddatganiad mewn un lle am y blaenoriaethau a rennir gan wasanaethau cyhoeddus yn eu hardal a'r camau y maent yn eu cymryd i ymdrin ag anfantais ac anghyfartalwch.
534. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ansawdd yr asesiadau o anghenion a'r cynlluniau integredig sengl, yn ogystal ag ansawdd y gweithredu arnynt, yn amrywio'n sylweddol o le i le. Er bod pob ardal wedi gallu sicrhau rhai arbedion effeithlonrwydd drwy symleiddio a rhesymoli, nid yw'n glir a sicrhawyd yr arbedion mwyaf posibl ym mhob ardal, nac a yw ansawdd y cynllunio strategol gan yr holl BGLlau wedi gwella'n ddigonol. Mae'r Gwerthusiad Interim o gynlluniau integredig sengl wedi tynnu sylw hefyd at wendidau o ran gallu a galluogrwydd mewn nifer o ardaloedd yng nghyswllt casglu a dadansoddi tystiolaeth.
535. Mae'r sefyllfa'n debyg o ran rhesymoli partneriaethau. Mae rhai ardaloedd wedi mynd drwy broses effeithiol o adolygu a rhesymoli partneriaethau, ac ardaloedd eraill wedi gostwng nifer y partneriaethau ail a thrydedd haen, neu ddim ond delio â materion penodol yn ôl yr angen. Un enghraifft ddiweddar o hyn yw 'Partnership Landscape Review'<sup>58</sup> a gynhaliwyd gan BGLI Sir Ddinbych a nododd fod partneriaid y BGLI yn cymryd rhan mewn 84 o bartneriaethau, gan ychwanegu'r cafeat 'this is not a comprehensive list'. Mae nifer o'r partneriaethau hyn yn grwpiau gweithredu pwysig sy'n ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau i rai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y boblogaeth. Mae rhai ohonynt yn werthfawr am eu bod yn ffordd o ymgysylltu â staff y rheng flaen a defnyddwyr gwasanaethau. Er hynny, mae'n glir bod cryn le i resymoli partneriaethau ymhellach, heb effeithio ar y gallu i ymgysylltu â dinasyddion a gwella gwasanaethau.
536. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf cafwyd symleiddio sylweddol ar yr unedau cymorth partneriaethau mewn awdurdodau lleol a rhesymoli ar gyfarfodydd partneriaethau. Er bod arbedion pendant wedi'u sicrhau drwy effeithlonrwydd (er na ellir eu troi'n arian parod o reidrwydd), anodd yw amcangyfrif yr union gost a

arbedir, yn bennaf am fod y dull o weithredu wedi amrywio'n sylweddol o ardal i ardal.

537. Roedd BGLI Tor-faen wedi cyfuno ei gymorth i bartneriaethau mewn un uned yn 2012 a'i amcangyfrif o'r arbedion yw £117,000:

*"The LSB and framework approach ensures that the various core strategies, and the partnerships required to implement them, are integrated and do not operate individually. Specifically, this includes the Health, Social Care and Well-being Strategy, the Children and Young Persons Plan and the Community Safety Strategy and creates a singular Public Service Support Unit (PSSU) replacing three partnership infrastructures that had previously existed. This remodelling has reduced duplication and produced an efficiency saving of 117k."<sup>59</sup>*

538. Yn yr astudiaeth achos *What Matters: developing integrated partnership working in Cardiff*<sup>60</sup> mae'r BGLI wedi disgrifio rhai o'r manteision:

*"Though individual partnerships had a statutory responsibility to produce a needs assessment ahead of their strategy development, this was the first time a single exercise has been undertaken. The benefits of undertaking a single needs assessment include;*

- A substantial financial saving to each partnership, each of whom would normally commission the research.*
- A saving in officer time by avoiding duplication of effort."*

539. Roedd BGLI Caerdydd wedi amcangyfrif y byddai symleiddio ei strwythurau cynllunio a phartneriaeth yn arbed £1.4 miliwn o gostau ond nid yw'r ffigur hwn wedi'i wirio.

540. Yng Ngogledd Cymru, mae'r heddlu wedi arwain tîm prosiect sydd wedi adolygu cyfleoedd i symleiddio gwaith mewn partneriaeth ar draws y 6 sir.<sup>61</sup> Mae hefyd wedi nodi arbedion a gafwyd:

*"There is considerable efficiency available from reducing complexity and improving focus in fewer meetings. The joint Conwy and Denbighshire Community Safety partnership achieved significant non-cashable savings in officer time worth £197k per annum (an estimated £359k costs per annum from 40 meetings reduced to £162k per annum) through the reduction in meetings (from 40 to 10) with maintained or improved outcomes."*

541. Er na allwn ddod i gasgliadau ar sail yr enghreifftiau hyn, gan nad ydynt yn ddigon dibynadwy i'w defnyddio i amcangyfrif yr arbedion posibl ar gostau ledled Cymru drwy resymoli, na'r arbedion costau gwirioneddol a gafwyd hyd yn hyn, maent yn dystiolaeth bendant bod modd cael arbedion gwirioneddol drwy effeithlonrwydd a bod hynny wedi digwydd.

542. Mae'r trefniadau gwirfoddol presennol wedi arwain at welliannau gwirioneddol. Gellir disgwyl rhai gwelliannau pellach, yn enwedig wrth i'r cyllid sydd ar gael fynd

yn brinnach a thrwy hepgor mwy o weithgareddau sydd heb werth ychwanegol. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod yr anghysonderau presennol yn debygol o barhau, na ellid sicrhau gwelliant ym mhob ardal, y byddai cwmpas y cynlluniau'n parhau'n gyfyng ac na fyddent yn ymateb yn llawn i egwyddor datblygu cynaliadwy, ac na fyddai'r craffu gan Weinidogion Cymru a llywodraeth leol ond yn cynnwys ychydig o opsiynau i gael mwy o atebolrwydd dros sicrhau gwelliant. Mewn rhai ardaloedd, mae perygl o golli'r cynnydd a gafwyd hyd yn hyn.

## **Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth**

543. Byddai Opsiwn 2 yn rhoi mecanweithiau clir ar waith ar gyfer sicrhau gwelliannau wrth weithio mewn partneriaeth a sicrhau bod byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn atebol i brosesau democrataidd lleol.
544. Er bod llawer wedi'i gyflawni drwy'r trefniadau gwirfoddol presennol, mae nifer o wendidau ynddynt. Ychydig o ddylanwad sydd gan lywodraeth genedlaethol na llywodraeth leol i sicrhau gwelliant yn yr ardaloedd hynny lle y cafwyd llai o gynnydd a phrin yw'r dulliau sydd ar gael iddynt i fynnu neu ysgogi gwelliant.
545. Baich y dyletswyddau: Am fod y dyletswyddau presennol yn rhai i awdurdodau lleol yn bennaf, wrth iddynt weithio mewn partneriaeth neu gydweithredu ag amrywiaeth o gyrff eraill, mae maint yr ymgysylltu â phartneriaid eraill a'r graddau y mae eu cynlluniau corfforaethol eu hunain yn agored i ddylanwad yr amcanion cyffredin yn y CIS yn gyfyngedig mewn llawer achos. Drwy wneud y BGLI yn statudol, gall baich y dyletswyddau ddisgyn yn fwy cyfartal ar ysgwyddau aelodau'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn sicrhau mwy o effaith ar strategaethau corfforaethol.
546. Cwmpas y cynlluniau: Nid yw cwmpas y CIS wedi'i ddiffinio'n glir. Mae diffiniad sylfaenol goblygedig ohono, sef yr holl ddyletswyddau cynllunio mewn deddfwriaeth bresennol, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â pholisi cymdeithasol, ond nid oes sail resymegol gyffredinol i'r cymysgedd hwn o ddyletswyddau. Yn aml ceir llai o sylw i'r economi mewn CISau, ac mae'r elfen amgylcheddol yn neilltuoel o wan gan mwyaf. Drwy gynnwys cynllunio integredig lleol o fewn fframwaith y nodau a dangosyddion cenedlaethol, byddem yn cael fframwaith cenedlaethol a lleol ystyrion sy'n diffinio cwmpas y cynlluniau integredig lleol yn glir. Drwy bennu aelodaeth statudol ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, byddai'r sefydliadau priodol yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau ehangach hyn, gan gynnwys canlyniadau amgylcheddol. Byddai hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru osod dangosyddion a safonau ar gyfer canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o bob math y bydd yn rhaid i aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymdrin â nhw, felly bydd hyn yn sylfaen ar gyfer dull mwy effeithiol o reoli perfformiad a chraffu.
547. Defnyddio tystiolaeth: Mae'r angen i wneud polisi a dyrannu adnoddau ar sail tystiolaeth a dadansoddi ar y lefel leol wedi'i gydnabod mewn nifer o achosion mewn deddfwriaeth bresennol, er enghraifft, yn y gofynion am asesiadau o anghenion. Fodd bynnag, nid yw'r lle canolog sydd iddo wrth bennu blaenoriaethau, dylunio gwasanaethau a modelau darparu gwasnaeth, ac wrth dyrannu adnoddau, wedi'i ddatgan yn glir. O gofio bod cyfanswm y gwariant cyhoeddus mewn ardal fel

Caerdydd yn gymaint â £2 biliwn, mae'n amlwg nad yw sefyllfa o'r fath yn gynaliadwy. Mae'r trefniadau presennol hefyd yn arwain at ddyblygu gwaith. Drwy ddeddfu ar gyfer asesiadau strategol o anghenion a sicrhau safonau sylfaenol drwy god ymarfer, byddai sylfaen dystiolaeth fwy cadarn ar gael ar gyfer pennu blaenoriaethau a phennu atebion. Bydd hyn yn neilltuol o bwysig wrth gyflwyno'r achos busnes dros symud adnoddau oddi wrth wasanaethau adferol at weithredu cynnar ac ataliol, er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau mwy costus a sicrhau canlyniadau mwy effeithiol i bobl a chymunedau.

548. Canolbwyntio ar y dinesydd: Drwy fynnu y bydd cynllunio integredig wedi'i seilio ar ganlyniadau, rhoddir y prif sylw i bobl a chymunedau, yn hytrach na buddiannau sefydliadol. O'i gyflawni'n effeithiol, byddai'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ddangos yn gliriach sut y maent yn cyfrannu at wella llesiant, yn hytrach na dal i gredu y gallant weithredu ar wahân i gyflawni canlyniadau o'r fath. Mae hefyd yn sbarduno dulliau gweithredu mwy ataliol, gan greu cysylltiad clir rhwng nodau hirdymor a chamau gweithredu yn ystod cylch cynllunio 5 mlynedd.
549. Llywodraethu, rheoli perfformiad ac atebolrwydd: Ychydig o rwystrau a gwrthbysau sydd ar waith mewn partneriaeth ar hyn o bryd. Cafwyd rheoli perfformiad ac atebolrwydd gwael at ei gilydd. Mae hyn wedi'i gydnabod yn nadansoddiad Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n argymhell sefydlu "un model llywodraethu cadarn ... sy'n deg ac yn dryloyw ac sy'n sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifoldebau a chamau gweithredu penodol, a hawliau a rhwymedigaethau ar y cyd, gan greu atebolrwydd clir am ddarpariaeth"<sup>62</sup>. Drwy ddeddfu, gellir rhoi amrywiaeth o fecanweithiau ar waith ar gyfer gwella a llywodraethu: swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol, gan gynnwys aelodaeth; set o ddangosyddion ar gyfer rheoli perfformiad (gweler Rhan 2 o'r Bil); rôl trosolwg orfodol ar gyfer craffu ar waith mewn partneriaeth ac ar y cynllun integredig; a rôl i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran darparu cyngor a chymorth mewn perthynas ag egwyddor datblygu cynaliadwy.
550. Symleiddio pellach: Mae partneriaid wedi nodi hefyd fod cyfle i integreiddio'n lleol nifer o ddyletswyddau eraill sydd heb eu cynnwys ar hyn o bryd yn y broses cynllunio integredig, megis gwahanol anghenion statudol ac anstatudol, ac amrywiaeth eang o asesiadau effaith. Er enghraifft, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi nodyn cynghori ynghylch

*"perthynas cynlluniau cyfun â chydraddoldeb yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth newydd a'r canllawiau statudol. Mae'n ychwanegu at bapur a gyhoeddwyd yn 2010 ar ôl cyflwyno cynlluniau cyfun, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddogfen yn astudio sut y gall partneriaid gymathu cydraddoldeb yn eu cydweithio yn y cyd-destun newydd hwn ac, wrth wneud hynny, sut y gallan nhw gyflawni nodau'r ddau faes."*<sup>63</sup>

551. Byddai fframwaith statudol yn rhoi sylfaen gadarn i wasanaethau cyhoeddus lleol i hwyluso symleiddio pellach.

## **Crynodeb o'r opsiwn a ffeirir**

552. Fel yr eglurwyd uchod, byddai opsiwn 2 yn dod â nifer o fuddion. Ymhlith y rhain y mae trefniant statudol ar gyfer bwrdd y gellir diffinio ei swyddogaethau a'i ddyletswyddau'n glir; cwmpas mwy eglur i gynlluniau llesiant lleol, gan gryfhau'r elfen amgylcheddol yn benodol; safonau uwch a mwy cyson ar gyfer defnyddio tystiolaeth; mwy o bwyslais ar bobl a chymunedau a gwella pob agwedd ar eu llesiant; trefniadau cryfach ar gyfer llywodraethu, rheoli perfformiad ac atebolrwydd, gyda rôl statudol ar gyfer craffu gan lywodraeth leol; a fframwaith a fydd yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus lleol i barhau i geisio lleihau cymhlethdod, er enghraifft drwy gyfuno asesiadau o effaith a chael gwared â phartneriaethau nad ydynt yn ychwanegu gwerth.
553. Er nad yw'r manteision hyn wedi'u mesur, credir eu bod yn ddigon i gyfiawnhau'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2.

## Pennod 8: Effeithiau Penodol ac Asesiad o'r Gystadleuaeth

### Effeithiau Penodol

554. Mae cyfres o asesiadau o effeithiau ar y meysydd polisi yn y Bil wedi'i chwblhau wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r newidiadau hyn wedi cyfrannu at y ddogfen hon.

### Rhwymedigaethau statudol

555. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhwymo gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'r Rheoliadau ar Ddyletswyddau Cydraddoldeb sy'n Benodol i Gymru, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

556. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu pob swyddogaeth Weinidogol.

557. O dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, rhaid cwblhau asesiad o effeithiau'r Bil ar y Gymraeg.

### Y Dull o Gynnal Asesiadau Effaith

558. Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Bil") yn datgan mai'r nod cyffredinol i bob un o gyrrff cyhoeddus Cymru sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus a enwir geisio cyflawni'r nod cyffredinol hwn drwy ymgynhyrdd at y nodau llesiant sydd wedi'u disgrifio isod.

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus.	Economi arloesol a chynhyrchiol, gydag allyriadau carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur; ac sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd am gyflogaeth ar gyfer poblogaeth fedrus ac addysgedig.
Cymru gydnerth.	Amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i newid.
Cymru iachach.	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol .
Cymru sy'n fwy cyfartal.	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

559. Bwriad y nodau llesiant yw darparu gweledigaeth gyffredin i wella llesiant yng Nghymru. Er mwyn eu cyflawni, bydd yn rhaid deall bod y nodau'n rhan o set integredig. Felly, gyda'i gilydd, mae'r nodau llesiant yn adlewyrchu'r gwahanol agweddau ar lesiant y mae angen eu hystyried drwy asesiadau effaith statudol ac asesiadau eraill o effeithiau polisïau, ond rhaid eu hystyried ar y cyd.
560. Gan mai pwrpas sylfaenol y Bil yw gwella llesiant yng Nghymru, mae'r dull o asesu effaith y Bil a ddisgrifir isod wedi'i seilio ar y chwe nod llesiant.

### Canfyddiadau

561. At ei gilydd, roedd canfyddiadau'r asesiadau effaith yn ymwneud ag effeithiau dichonol yn hytrach na rhai pendant, er bod rhai effeithiau penodol mewn perthynas â phenodiad cyhoeddus y Comisiynydd.
562. Yn yr asesiad effaith o'r Bil, cafwyd bod effeithiau cadarnhaol dichonol ar gyfer y grwpiau canlynol:
- Plant a Phobl Ifanc
  - Pobl Hŷn
  - Pobl anabl
  - Menywod a dynion
  - Pobl Drawsrywiol
  - Grwpiau Lleiafrifol Ethnig
  - Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
  - Sipsiwn a Theithwyr
  - Pobl sydd â chredoau crefyddol a chredoau eraill
  - Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol
563. Hefyd cafwyd bod nifer o effeithiau cadarnhaol o ran dewis a defnyddio'r Gymraeg.
564. Yn yr asesiad sgrinio prawfesur gwledig cafwyd nad oedd unrhyw effeithiau negyddol penodol ar gyfer ardaloedd gwledig o ganlyniad i'r Bil a bod unrhyw effeithiau dichonol yn debygol o fod yn gadarnhaol. Er hynny, y bwriad yw y bydd y nodau llesiant yn arwain at newid mewn ymddygiad a diwylliant, lle bo angen, i wella llesiant cymunedau yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd gwledig pan fydd awdurdodau cyhoeddus a enwir yn gosod eu hamcanion ac yn dyrannu adnoddau.

## Cymru fwy cyfartal

565. Bydd sefydlu nod llesiant penodol ar gyfer cydraddoldeb ar wyneb y Bil yn pennu, am y tro cyntaf, fod gwneud Cymru yn genedl fwy cyfartal yn rhan annatod o'r pwrpas cyffredin ar gyfer awdurdodau cyhoeddus a enwir.
566. Er nad yw'n bosibl disgrifio'n fanwl gywir y math o ddyfodol a fydd yn codi ar ôl gosod nod o'r math hwn, y bwriad yw y bydd y ddyletswydd sydd wedi'i nodi yn y Bil yn ategu (ac nid yn dyblygu) deddfwriaeth bresennol ar gydraddoldeb. Cyhoeddir canllawiau statudol ochr yn ochr â'r Bil i egluro hyn ymhellach a rhoi enghreifftiau. Hefyd bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ('y Comisiynydd'), ar ôl ei sefydlu, yn cael ei gynghori gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant a fydd yn aelodau statudol o'r cyngor cynghorol. Bydd y Comisiwn ei hun yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth bresennol ar gydraddoldeb.
567. Mae hefyd yn fwriad y bydd y canllawiau ar gyfer y Bil yn cymell awdurdodau cyhoeddus a enwir i ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer cyflawni eu hamcanion presennol ac wrth bennu eu hamcanion ar gyfer y dyfodol.
568. Pwrpas hyn yw cael effaith gadarnhaol ar fywydau pawb sydd â nodweddion gwarchoddedig ac ar fywydau plant, gan ein bod yn gwybod bod anghydraddoldeb yn cael effaith anghymesur ar y bobl hyn ac mai nhw a fydd yn elwa fwyaf.<sup>64</sup>
569. Rydym yn cyd-weld â sylwadau Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn ei ymateb i'n hymngynghoriad: "Wales cannot develop sustainably without addressing Child Poverty. Child Poverty has been well documented to result in inequality of health, education and economic outcomes for children living in low income households." Credwn fod lleihau tlodi plant yn hanfodol wrth ymgynghoriad at y nod o greu cenedl fwy cyfartal.
570. Y bwriad yw y bydd y nod hwn, wrth ei integreiddio â'r lleill, yn arwain at lai o bwyslais ar wasanaethau drud sy'n ceisio ymdrin â symptomau anghydraddoldeb drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chreu cyfleoedd ar gyfer cyfranogi, datblygu personol a gwireddu potensial.
571. Ceir enghraifft ddefnyddiol o hyn yn adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar Wasanaethau Cymunedol. Yn ei hadroddiad, mae'n dod i'r casgliad bod gwasanaethau cymunedol nid yn unig yn hanfodol i atal eiddilwch, ond eu bod hefyd yn hanfodol i gyfyngu costau mewn gwasanaethau statudol.<sup>65</sup> Bydd y nod o wneud Cymru yn genedl fwy cyfartal yn golygu bod ystyried pobl hŷn ac ymgysylltu â nhw, a grwpiau eraill sydd â nodweddion gwarchoddedig, yn beth arferol ac yn arwain at arbed costau.



## Economi ffyniannus

572. Mae tystiolaeth yn dangos bod economi ffyniannus ac arloesol yn elfen sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Cymru'n genedl fwy cyfartal. Rydym yn gwybod bod cysylltiad hanfodol rhwng anghydraddoldeb ac economi ffyniannus:

“the make-up of households at different levels of income distribution means that there are twice as many young children in the bottom 20% of households by income as in the top 20%. It is not sufficient to simply be in work - half the children in poverty belong to working families’<sup>66</sup>

573. Mae hyn yn golygu bod ymgyrredd at y nod o sicrhau economi *ffyniannus* yn hanfodol er mwyn gwireddu hawl plant i beidio â byw mewn tlodi. Nid ar gyfer plant yn unig y ceir yr effaith ddichonol hon ar gydraddoldeb. Mae un rhan o dair o'r oedolion y credir eu bod yn byw mewn tlodi'n bobl anabl neu'n rhai sydd â phartner anabl. Mae hefyd yn bwysig nodi, fel y canfu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, fod byw ar incwm isel ar hyd eich oes yn gallu arwain at dlodi pan fyddwch yn hŷn.
574. Gellir ystyried hefyd fod ffyniant y Gymraeg yn gyfle economaidd yn ogystal â bod yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yr iaith a chynnal cymunedau Cymraeg.

## Cymru iachach

575. Er bod y sector iechyd yn hanfodol o ran ei gyfraniad at wella iechyd a lles y boblogaeth, ni all sicrhau lefelau uchel cyson o iechyd a lles ym mhob grŵp mewn cymdeithas ar ei ben ei hun. Mae'r Nodau yn y Bil yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth bod yr angen am welliannau ac am leihau anghydraddoldebau iechyd yn galw am ymdrin â ffactorau sy'n penderfynu iechyd ar lefel cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Cyflawnir hyn drwy ymrwymiad cenedlaethol a lleol mewn amrywiaeth eang o feysydd polisi, sefydliadau a gwasanaethau. Felly, mae'r rhyngweithio a'r integreiddio rhwng gwahanol bolisïau ar bob lefel, gan gynnwys tai, trafndiaeth, diwylliant a chwaraeon, addysg, yr economi a materion gwledig, yn gallu cyfrannu'n helaeth bob un at iechyd a lles yn gyffredinol, a helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.
576. Mae'r disgrifiad o'r Nod yn ei gwneud yn eglur bod iechyd yn cynnwys y cyflwr meddyliol a'r cyflwr corfforol. Mae hefyd yn cydnabod bod iechyd yn cael ei ddeall yng nghyd-destun ehangach ein ffyrdd o fyw a'r gymdeithas yr ydym yn rhan ohoni. Er enghraifft, un ffactor sy'n amharu ar iechyd pobl ar hyn o bryd yw eu ffyrdd o fyw. Mae mathau o ymddygiad fel ysmegu, dilyn deiet gwael, peidio ag ymarfer neu yfed gormod yn gallu effeithio ar iechyd a lles yn y tymor byr a gallant achosi problemau difrifol yn y tymor hir, fel gordewdra, pwysedd gwaed uchel a diabetes.
577. Mae pobl ifanc yn neilltuol o agored i niwed. Er enghraifft, gallant fod yn agored i bwysau cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cynyddu'r perygl o ordewdra. Hyd yn ddiweddar, dim ond ymysg oedolion yr oedd diabetes math 2 yn cael ei weld fel arfer, ond mae'r cyflwr hwn yn datblygu mewn rhai yn eu glasoed yn awr. Mae hefyd yn bosibl y bydd clefyd yr afu yn dod yn broblem sylweddol a chynyddol, gan ein bod yn gweld cyfraddau marwolaethau mewn grŵp oedran iau sy'n uwch na'r

rhai ar gyfer clefydau allweddol eraill sy'n achosi marwolaeth cyn pryd. Mae cysylltiad agos rhwng y cynnydd hwn a ffactorau mewn ffyrdd o fyw fel camddefnyddio alcohol a gordewdra. Gyda golwg ar blant yn neilltuol, ym maes iechyd yn yr un modd â phob math o wasanaeth, mae'n bosibl bod rhwystrau penodol yn atal plant a phobl ifanc rhag derbyn gwasanaethau a chael sylw i'w barn.

578. Mae wedi'i gydnabod bellach fod iechyd meddwl yr un mor bwysig ag iechyd corfforol ar gyfer bywyd hir, hapus ac egniol. Mae lles meddyliol da yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd rhywun yn cael swydd dda, mae'n diogelu pobl rhag anafiadau, ac yn eu helpu i ymadfer ar ôl salwch.
579. Oherwydd yr effeithiau difrifol sy'n gysylltiedig â ffyrdd o fyw, mae camau i ymdrin â'r rhain, yn ogystal â'r amodau cymdeithasol ac economaidd sy'n eu hachosi, yn ganolog i'n hymdrechion i wella a diogelu iechyd. Mae'r ffaith ei bod yn bosibl atal nifer o'r cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol sy'n gysylltiedig â nhw hefyd yn cadarnhau'r angen i roi mwy o bwyslais ar gamau gweithredu ataliol, yn enwedig er mwyn diogelu iechyd ein plant a'n pobl ifanc yn y dyfodol.
580. Ledled Cymru gwelwn nad yw iechyd gwael wedi'i rannu'n gyfartal ond ei fod yn dilyn patrymau cymdeithasol neilltuol. Wrth restru cymunedau Cymru yn ôl trefn eu hamddifadedd, yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sydd â'r iechyd a rhagolygon gwaethaf fel arfer.
581. Dangoswyd bod y mater hwn yn ymwneud â thegwch a chyfiawnder cymdeithasol gan fod cydnabyddiaeth eang bod iechyd yn dilyn graddiant cymdeithasol – po isaf yw safle rhywun mewn cymdeithas, gwaethaf fydd ei iechyd.
582. Felly rhagwelir y bydd y nod o sicrhau poblogaeth iach, ynghyd â nodau eraill i wella llesiant cymdeithas, a'r gydnabyddiaeth y bydd *pob* gwasanaeth cyhoeddus yn hytrach na'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn unig yn cyfrannu at hyn, yn arwain yn y pen draw at ganlyniadau gwell i bawb ac, yn neilltuol, i'r bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.
583. Cafwyd bod y gwrthwyneb yn wir hefyd – bod camau a gymerir i leihau anghydraddoldebau iechyd yn fanteisiol i bawb mewn cymdeithas mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys y manteision economaidd o leihau colledion oherwydd salwch sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd.
584. Fel y nodwyd yn adolygiad Marmot yn 2010:

*"The fair distribution of health, well-being and sustainability are important social goals. Tackling social inequalities in health and tackling climate change must go together.*

*Delivering these policy objectives will require action by central and local government, the NHS, the third and private sectors and community groups. National policies will not work without effective local delivery systems focused on health equity in all policies.*

*Effective local delivery requires effective participatory decision-making at local level. This can only happen by empowering individuals and local communities.”*

### Cymru sydd â chymunedau cydlynus

585. Y bwriad wrth osod nod i awdurdodau cyhoeddus a enwir ar gyfer sicrhau cymunedau diogel, cydlynus sydd â chysylltiadau da yw creu effeithiau cadarnhaol ar y rhan fwyaf o'r meysydd polisi sy'n destun i asesiadau Llywodraeth Cymru o effeithiau penodol. Bydd y nod hwn yn cael effaith gadarnhaol, yn neilltuol, ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, ar hawliau plant, ar y Gymraeg ac ar yr amgylchedd.
586. Rydym yn gwybod y bydd grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig yn elwa'n neilltuol o geisio creu cymunedau mwy diogel. Caiff effaith lesol ddichonol hefyd ar y Gymraeg drwy sicrhau ein bod yn ystyried effaith newidiadau ar y Gymraeg wrth wynebu heriau i'n cymunedau yn y dyfodol.

### Cymru lle y mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu

587. Mae'n bosibl y bydd y Bil yn arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol o ran dewis a defnyddio'r Gymraeg, a hefyd o ran cyfranogi mewn chwaraeon a'r celfyddydau a hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth yn fwy cyffredinol.
588. Yn benodol, mae'r Bil yn pennu, am y tro cyntaf, fod ffyniant y Gymraeg yn elfen yn y weledigaeth ar gyfer llesiant yng Nghymru yn y dyfodol sydd wedi'i disgrifio yn y Bil. Y bwriad wrth osod y nod hwn yw creu newid mewn ymddygiad a diwylliant, lle bo angen, i geisio sicrhau ffyniant y Gymraeg (gweler yr heriau presennol sydd wedi'u disgrifio yn Adran 5.3 uchod), ochr yn ochr â nodau llesiant eraill, pan fydd awdurdodau cyhoeddus a enwir yn gosod eu hamcanion ac yn dyrannu adnoddau.
589. Fel y nodwyd uchod mewn perthynas â'r nod ar gyfer cydraddoldeb, nid yw'n bosibl disgrifio'n fanwl gywir y math o ddyfodol a fydd yn codi o ganlyniad i'r nod hwn. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd y ddyletswydd yn ategu (ac nid yn dyblygu) deddfwriaeth bresennol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg er mwyn diogelu a datblygu ein hiaith. Bydd hyn yn cael ei sicrhau drwy gyhoeddi canllawiau statudol ochr yn ochr â'r Bil a hefyd drwy sicrhau bod y Comisiynydd yn cael ei gynghori gan Gomisiynydd y Gymraeg a fydd yn aelod statudol o'r cyngor cynghorol. Mae hefyd yn fwriad y bydd y Comisiynydd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u pennu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
590. Rhan o'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd ymgyrhaedd at y nod hwn yn helpu awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd hon.

### Cymru gydnerth

591. Nod sy'n sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a enwir yn ymdrechu i greu Cymru gydnerth yn wyneb yr heriau tymor byr a thymor hir y mae'n debyg o'u hwynebu, ac felly sy'n gallu addasu'n llwyddiannus i amgylchiadau sy'n newid.

592. Yn benodol, mae hyn yn golygu gwell dealltwriaeth o'r ffyrdd y gallwn atgyweirio'r niwed tymor hir i'n hecosystemau a chryfhau'r amgylchedd naturiol er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau hyn, fel effeithiau newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, gellid gwella'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd drwy wella amrywiaeth, ystod, cyflwr a chysylltiadau ecosystemau. Byddai hyn yn helpu i gynnal cynefinoedd a rhywogaethau prin yn well, cynnal a gwella gwasanaethau y mae'r adnoddau naturiol yn eu darparu, a helpu i leihau crynodiad nwyon tŷ gwydr yn ein haer.
593. Hefyd mae manteision economaidd-gymdeithasol i ecosystemau iach. Cyhoeddwyd Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU ym mis Mehefin 2011, ac mae'n disgrifio'r manteision y mae amgylchedd naturiol y DU yn eu darparu i'n cymdeithas a'n ffyniant economaidd. Daw i'r casgliad bod byd natur, y bioamrywiaeth a'r ecosystemau sy'n rhan ohono yn hanfodol bwysig o ran ein llesiant a'n ffyniant economaidd, ond eu bod yn cael eu tanbrizio'n gyson mewn dadansoddiadau a phenderfyniadau economaidd confensiynol. Roedd astudiaeth yn 2001 yn amcangyfrif bod yr amgylchedd yn cyfrannu gwerth £8.8 biliwn nwyddau a gwasanaethau'n flynyddol i economi Cymru, 9% o gynnyrch domestig gros Cymru ac 1 o bob 6 o swyddi Cymru.
594. Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi argymhell y dylai polisi:

*"move beyond emergency planning and build the institutions and infrastructure needed to create permanent resilience across all social groups through transformational adaptation. This could be seen as an opportunity to create a fairer society and stimulate economic activity. Governance and the policy design process need to change so that those most affected by both climate change and climate change policy have more say in shaping responses. This will require new procedures and tools for engaging communities in more collaborative planning processes."*

#### Effeithiau lleol a'r effaith ar y trydydd sector

595. Mae Rhan 4 o'r Bil yn rhoi byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chynllunio cymunedol integredig ar sail statudol. Nod cyffredinol y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn eu hardal.
596. Bydd yr aelodau hynny o'r bwrdd sydd hefyd yn gyrrff cyhoeddus yn cael cyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy drwy gynnwys eu hamcanion yn y cynllun llesiant lleol. Bydd y cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion mewn cynllun llesiant lleol yn cael ei fesur ar sail y dangosyddion sydd wedi'u gosod gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cysylltu'r cynlluniau lleol yn uniongyrchol â'r nodau a dangosyddion llesiant yn Rhan 2 o'r Bil. Mae hefyd yn ofynnol bod y cynlluniau llesiant yn cael eu paratoi mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy.
597. Gan nad yw'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn endid corfforaethol ar ei ben ei hun, nid yw'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau sydd wedi'u gosod i gyrrff cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fodd bynnag,

bydd pob aelod o'r bwrdd wedi'i rwymo gan y dyletswyddau sy'n gymwys iddo yn y ddeddfwriaeth hon ac felly bydd yn ofynnol bod pob un ohonynt yn gweithredu'n unol â'r dyletswyddau hynny wrth arfer swyddogaethau'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

598. Pwrpas y darpariaethau yn Rhan 4 yw ymdrin ag anghydraddoldeb, ymysg materion eraill. Wrth baratoi'r asesiad strategol o anghenion, sef y brif sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun llesiant, rhaid i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnwys dadansoddiad ar gyfer yr ardal sy'n datgyfuno data ar lefel y gymuned, er mwyn deall diffyg cyfartalwch rhwng cymunedau ac ymdrin ag ef yn y cynllun. Bydd hyn yn golygu deall, er enghraifft, yr anghenion neilltuol sydd gan gymunedau difreintiedig, fel y rheini lle y ceir amddifadedd lluosog; anghenion cymunedau sydd â nodweddion neilltuol, fel cymunedau gwledig anghysbell ac ynysig; ac anghenion cymunedau sydd â nodweddion demograffig penodol, fel niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg neu bobl mewn lleiafrifoedd ethnig. Mae'r gofynion hyn yn golygu bod rhaid i'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ymdrin â dosbarthiad anghydraddoldeb ar sail ddaearyddol ac o fewn y boblogaeth. Gall yr asesiad llesiant gynnwys dadansoddiad o gategorïau penodol o bobl a bennwyd gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus fel pobl agored i niwed neu o dan anfantais mewn ffordd arall, pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, plant, pobl sydd angen gofal a chymorth neu sy'n darparu gofal a chymorth, neu sy'n rhannu unrhyw nodwedd gyffredin arall sy'n briodol ym marn y Bwrdd.
599. Yn ogystal â hyn, wrth baratoi ei hasesiad, bydd yn rhaid i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus roi sylw i nifer o asesiadau statudol a fydd yn ychwanegu'n sylweddol at y wybodaeth am rai grwpiau. Ymhlith y rhain y mae asesiadau sy'n ymwneud â darparu addysg feithrin, gofal plant a chyfleoedd chwarae; asesiadau o anghenion am ofal, cefnogaeth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol; ac asesiadau sy'n ymwneud â throseddu ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu.
600. Bydd mwy o fanylion am yr hyn i'w gynnwys yn yr asesiad o lesiant a beth y mae 'agored i niwed neu o dan anfantais fel arall' yn ei olygu mewn cod ymarfer a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
601. Ar sail y dystiolaeth o'r asesiad, a sylwadau a gyflwynir gan gyfranogwyr gwahoddedig y bwrdd, ymgynghoreion a'r cyhoedd, bydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi cynllun llesiant. Yn gyffredinol, oherwydd pwrpas y cynlluniau llesiant a'r gofyniad am asesu llesiant, rhagwelir y bydd effaith gadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, pobl hŷn, pobl mewn ardaloedd gwledig a chymunedau Cymraeg.
602. O ran y trydydd sector, mae nifer mawr o'r sefydliadau hyn yn hanfodol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus craidd, ac maent hefyd yn bwysig o ran darparu gwybodaeth leol, gan eu bod yn aml yn gweithio'n agos gyda grwpiau sy'n agored i niwed, cymunedau difreintiedig a grwpiau y mae gwasanaethau cyhoeddus prif ffrwd yn ei chael yn anodd eu cyrraedd. Oherwydd hynny, mae'n bwysig rhoi sylw i'w barn wrth benderfynu ar y camau a gymerir i geisio gwella llesiant cymunedau. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gosod dyletswydd ar sefydliad yn y trydydd sector i fod yn aelod statudol o'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Felly mae'r Bil yn ei

gwneud yn ofynnol y bydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn estyn gwahoddiad i sefydliad sy'n cynrychioli'r trydydd sector, y Cyngor Gwirfoddol Sirol, i gymryd rhan ym musnes y bwrdd. Mae'r gwahoddiad hwn yn wahoddiad sefydlog h.y. ni fydd yn dod i ben. Mae'r sector gwirfoddol mwy eang yn ymgynghorai statudol hefyd ar y drafft o'r asesiad o lesiant a'r drafft o'r cynllun llesiant. Bydd hyn yn sicrhau bod llais gan y trydydd sector ym mhob rhan o'r broses cynllunio cymunedol integredig.

## Pennod 9: Adolygu ar ôl gweithredu

603. Mae'r Bil yn gosod newidiadau i strwythurau llywodraethu'r sefydliadau cyhoeddus a enwir, a fydd yn parhau i gael eu monitro gan y trefniadau sydd eisoes yn bodoli ar eu cyfer. Mae hefyd yn creu fframwaith ar gyfer gwella llesiant Cymru yn y tymor hir, sydd â system o adroddiadau statudol a mesuriadau ystadegol ar lefel genedlaethol a lleol i sicrhau tryloywder.
604. Yn achos sefydliadau sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru, fel Amgueddfa Cymru, bydd y Bil yn cael ei roi ar waith yn ddarostyngedig i drefn ehangach o oruchwyllo a rheoli perfformiad gan Lywodraeth Cymru. Gall hyn gynnwys llythyr cylch gwaith blynyddol y cyrff a noddir, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i roi gwybod am eu cynlluniau corfforaethol; a'r dogfennau fframwaith a gytunwyd rhwng pob sefydliad a Lywodraeth Cymru.
605. Yn achos awdurdodau cyhoeddus sy'n gwasanaethu ardal leol ac sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), fel awdurdodau lleol, bydd y broses o roi'r Bil ar waith yn ddarostyngedig i drefniadau statudol mwy cyson a oedd eisoes yn eu lle ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae hyn yn cynnwys nodi bod yn rhaid i'r gwaith craffu gael ei ysgwyddo gan Bwyllgor Craffu llywodraeth leol a enwir; a lle bo angen, cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru. Yn ôl y gyfraith, rhaid ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu ynghylch yr asesiad llesiant drafft y mae'r BGC yn ei gyflawni; bydd gofyn iddynt ystyried y cynllun llesiant drafft; a byddant yn derbyn copïau o'r adroddiadau blynyddol.
606. Mae'r Bil hefyd yn gosod trefn newydd ar gyfer adolygu, monitro a gwerthuso, a fydd yn mesur y gwelliannau llesiant. Mae'n pennu nodau tymor hir ar gyfer llesiant Cymru heddiw ac ar gyfer y dyfodol. Rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus a enwir geisio cyflawni'r nodau hyn a dangos eu bod yn gweithio tuag atynt yn eu hadroddiadau.
607. Mae sawl elfen allweddol yn y system newydd er mwyn adolygu effeithiolrwydd y sefydliadau wrth roi'r ddeddfwriaeth ar waith:
- Dangosyddion llesiant cenedlaethol sy'n mesur cynnydd tuag at y nodau llesiant ar lefel genedlaethol, ac y gellir hefyd eu datgyfuno i fesur cynnydd tuag at amcanion llesiant ar lefel leol;
  - Adroddiadau blynyddol gan Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill ynghylch gosod amcanion sy'n cyfrannu at y nodau llesiant a'r gwaith a wnaed i'w cyflawni.
608. Mae'r system hefyd yn sicrhau bod y Bil yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol drwy'r canlynol:
- Y Llywodraeth yn cyhoeddi rhagamcan o dueddiadau'r dyfodol yn rheolaidd;
  - Rhaglen barhaus o drafod gan y Comisiynydd er mwyn edrych ar dueddiadau'r dyfodol;
  - Y gallu i ddiwygio nodau llesiant ar ôl ymgynghori ac ystyried adroddiad trafodaeth y Comisiynydd yn unig;

- Bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cynghori a chefnogi awdurdodau cyhoeddus Cymru wrth gyflawni eu dyletswyddau dan y Bil. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd gynnal adolygiadau i weld sut mae corff cyhoeddus yn ystyried effaith tymor hir ei waith dan y ddyletswydd llesiant.

609. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd edrych i weld os oes gan gorff cyhoeddus drefniadau llywodraethu priodol i sicrhau eu bod yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.



# **Atodiad A**

## **Nodiadau Esboniadol**

# **BIL LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU)**

---

## **NODIADAU ESBONIADOL**

### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Paratowyd hwy gan Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru i gynorthwyo darllenydd y Bil.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil, ond nid ydynt yn rhan ohono. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil.

### **TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL**

#### **Rhan 1 - Cyflwyniad**

3. Mae Rhan 1 yn darparu trosolwg o brif ddarpariaethau'r Bil hwn ac yn pennu pa gyrff sy'n 'gyrff cyhoeddus' at ddibenion Rhannau 1 a 3 o'r Bil ac felly yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rhannau hyn.

#### **Rhan 2 - Gwella llesiant**

4. Mae Rhan 2 yn pennu'r nodau llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus geisio'u cyrraedd.
5. Mae'r Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion llesiant, a gynllunnir i sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus osod yr amcanion llesiant hyn a chymryd pob cam rhesymol i'w cyrraedd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Pennir y materion y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw iddynt wrth weithredu yn unol â'r egwyddor honno yn y Rhan hon o'r Bil.
6. O dan Ran 2, mae'n ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn gosod dangosyddion cenedlaethol y mae'n rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant a chyhoeddi, yn flynyddol, adroddiad ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r nodau llesiant, gan gyfeirio at y dangosyddion hynny. Yn dilyn pob etholiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi 'adroddiad tueddiadau'r dyfodol' a fydd yn cynnwys asesiad o'r tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.
7. Yn olaf, mae'r Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed ganddynt tuag at gyrraedd eu hamcanion llesiant. Mae Atodlen 1, a gyflwynir yn y Rhan hon, yn pennu gofynion ychwanegol mewn perthynas ag adrodd yn flynyddol gan gyrff cyhoeddus (ac eithrio Gweinidogion Cymru).

### **Rhan 3 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

8. Mae Rhan 3 ac Atodlen 2 yn sefydlu swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y 'Comisiynydd').
9. O dan ddarpariaethau'r Rhan hon, mae'n ofynnol bod y Comisiynydd yn hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn monitro ac asesu cyflawni'r amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus o dan Ran 2 o'r Bil. Mae Rhan 3 hefyd yn sefydlu panel o gynghorwyr i'r Comisiynydd (y 'panel cynghori') a fydd yn darparu cyngor i'r Comisiynydd ynghylch arfer ei swyddogaethau.

### **Rhan 4 – Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

10. Mae Rhan 4 ac Atodlen 3 yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus statudol, a fydd yn cynnwys y prif wasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio o fewn ardal awdurdod lleol. Mae Rhan 4 yn pennu eu nod mewn perthynas â gwella llesiant drwy gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.
11. Mae'r Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol bod byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol sy'n nodi eu hamcanion lleol a'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. Mae'n ofynnol hefyd bod byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnal asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn eu hardaloedd lleol er mwyn goleuo'r amcanion sydd yn eu cynllun llesiant lleol.
12. Mae Rhan 4 yn pennu â phwy arall y caiff bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gydweithio, ac yn darparu ar gyfer uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus, neu ar gyfer cydlafurio rhyngddynt fel arall.
13. Mae Atodlen 4, a gyflwynir hefyd gan y Rhan hon, yn darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol a diddymiaidau i ategu cyflawni darpariaethau Rhan 4 o'r Bil.

### **Rhan 5 – Darpariaethau Terfynol**

14. Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth, dehongli, cychwyn ac enw byr y Bil.

## **SYLWADAU AR ADRANNAU**

### **Adran 2 – Ystyr "corff cyhoeddus"**

15. Mae adran 2 yn rhestru personau penodol sy'n 'gorff cyhoeddus' at ddibenion Rhannau 1 a 3 o'r Bil. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio ystyr corff cyhoeddus drwy ychwanegu person at y rhestr neu dynnu person oddi arni, neu ddiwygio'r disgrifiad o'r cyfryw berson (fel y darperir yn adran 50 o'r Bil).

### **Adran 3 – Nodau llesiant**

16. Mae adran 3 yn gosod cyfres o nodau llesiant sydd, ar y cyd, yn mynegi gweledigaeth ar gyfer llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor Cymru ac yn darparu fframwaith cydlynol yn ganllaw ar gyfer gwella'r llesiant hwnnw mewn ffordd gynaliadwy.
17. Pennir y nodau llesiant yn y tabl yn is-adran (1).

18. Bydd y nodau llesiant yn galluogi cyrff cyhoeddus i ddeall pa bethau y mae'n rhaid iddynt geisio'u cyflawni er mwyn gwella llesiant economaidd cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
19. Prif bwrpas y nodau llesiant yw pennu'r cyd-destun y bydd rhaid i'r cyrff cyhoeddus bennu amcanion llesiant ynddo (gweler adran 4). Bydd cyrff cyhoeddus yn ceisio cyrraedd y nodau llesiant drwy gyflawni eu hamcanion llesiant.
20. Mae pob un o'r nodau llesiant yn cynnwys agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar lesiant.
21. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r nodau llesiant drwy reoliadau. Cyn diwygio'r nodau llesiant, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd, y cyrff cyhoeddus eraill ac unrhyw berson arall yr ystyriant yn briodol.

#### **Adran 4 - Amcanion llesiant**

22. Mae adran 4, ynghyd â darpariaethau adran 5 o'r Bil, yn cyfansoddi rhyngddynt y ddyletswydd datblygu cynaliadwy.
23. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion llesiant. Amcanion yw'r rhain sy'n ymwneud â'r modd y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant sydd â'r bwriad o gynyddu i'r eithaf gyfraniad y cyrff at y nodau llesiant.
24. Wrth gyhoeddi'r amcanion llesiant hyn, rhaid i gorff cyhoeddus baratoi datganiad. Mae datganiad o'r fath yn ofynnol hefyd pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'u hamcanion llesiant o dan adran 6 neu, pan fo cyrff cyhoeddus eraill yn gwneud hynny, o dan adran 7 o'r Bil.
25. Wrth baratoi'r datganiad rhaid i'r corff cyhoeddus esbonio pam y mae o'r farn y bydd cyflawni ei amcanion llesiant yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Rhaid i'r datganiad roi manylion hefyd am y camau y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd (eu gweithredoedd) i gyflawni eu hamcanion llesiant, sut y bydd y gweithredoedd hynny yn arwain at gyflawni'r amcanion llesiant, ac o fewn pa gyfnod o amser y mae'r corff yn disgwyl cyflawni ei amcanion llesiant.
26. Mae cyrff cyhoeddus penodol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru neu Weinidogion Cymru, yn arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan. Caiff cyrff cyhoeddus o'r fath bennu amcanion llesiant sy'n ymwneud a'r cyfan neu unrhyw ran o Gymru, fel yr ystyriant yn briodol.
27. Ni chaiff cyrff cyhoeddus, megis Byrddau Iechyd Lleol neu awdurdodau lleol, sy'n arfer swyddogaethau neu'n cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â rhan benodol o Gymru yn unig, osod amcanion llesiant ac eithrio mewn perthynas â'r rhan benodol honno o Gymru.
28. Caiff y cyrff cyhoeddus hynny sy'n aelodau o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus (gweler adran 26) ddewis cyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy, sef gosod a chyhoeddi amcanion llesiant, drwy'r cynllun llesiant lleol.

#### **Adran 5 - Gosod amcanion llesiant a'u cyflawni: egwyddor datblygu cynaliadwy**

29. Mae adran 5 yn cynnwys darpariaethau pellach ynglŷn â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
30. Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant, fel y'u gosodir o dan adran 4(1) o'r Bil, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
31. Mae is-adran (2) yn rhoi manylion am y materion y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw iddynt er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn. Mae is-adran (2)(a) yn ymwneud â meddwl am y tymor hir. Wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant, rhaid i gyrff cyhoeddus wrthbwysu'u hangen i weithredu er mwyn mynd i'r afael â materion cyfoes (sef y tymor byr) yn erbyn eu hangen i ddiogelu eu gallu i fodloni anghenion hirdymor Cymru yn eu hardal. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo modd i'w gweithredoedd byrdymor gael effaith andwyol yn y dyfodol.
32. Mae is-adran (2)(b)(i) a (ii) yn ymwneud â chyrff cyhoeddus sy'n cymryd ymagwedd integredig. Yng nghyd-destun yr amcanion llesiant, mae cymryd ymagwedd integredig yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried sut mae'u hamcanion llesiant yn effeithio ar yr holl nodau llesiant.
33. Er mwyn cymryd ymagwedd integredig, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried hefyd sut y mae ei amcanion yn effeithio ar ei gilydd ac, yn eu tro, ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. Dylai'r corff cyhoeddus ystyried hefyd sut y gall y camau y mae'n eu cymryd i gyflawni un amcan fod yn andwyol i gyflawni amcan neu amcanion eraill, gan gynnwys amcanion unrhyw gyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo modd i weithgareddau un corff cyhoeddus lesteirio gallu corff cyhoeddus arall i gynyddu i'r eithaf ei gyfraniad at gyrraedd y nodau llesiant.
34. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw hefyd i'r pwysigrwydd o ymgysylltu, fel y darperir ar ei gyfer gan is-adran (2)(c). Mae hynny'n golygu cynnwys y bobl a'r cymunedau y ceisiant wella'u llesiant, yn ogystal â rhai sydd â diddordeb yn y llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Dylid cyflawni'r ymgysylltu hwn drwy gasglu eu safbwyntiau a chymryd y safbwyntiau hynny i ystyriaeth.
35. Mae is-adran (2)(d) yn ymwneud â chyrff cyhoeddus sy'n cydlafurio. Ystyr hynny yw cyrff cyhoeddus lle mae cydweithio'n digwydd, naill ai gyda chyrff eraill neu rhwng gwahanol rannau o'r un corff er mwyn cyflawni eu hamcanion llesiant, neu amcanion llesiant unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil. Gallai hyn gynnwys cydweithio â chyrff eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil.
36. Mae is-adran (2)(e) yn darparu ar gyfer gweithredu ataliol. Mewn perthynas â'r amcanion llesiant, mae hyn yn cyfeirio at gyrff cyhoeddus sy'n ystyried camau gweithredu y gallent ddyrannu adnoddau ar eu cyfer yn awr, er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
37. Rhaid i'r datganiad a baratoir gan gorff cyhoeddus o dan adran 4(2) o'r Bil ddatgan ym mha ffordd y mae'r corff cyhoeddus yn credu ei fod, wrth osod ei amcanion llesiant, wedi ystyried y materion y darperir ar eu cyfer yn adran 5(2), a sut y mae'n bwriadu ystyried y materion hynny wrth gyflawni ei amcanion llesiant.
38. Rhaid i'r datganiad hwn hefyd roi manylion o'r modd y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion llesiant, gan gynnwys sut y bydd yn ei

lywodraethu ei hun a sut y bydd ei ddyraniad blynyddol o adnoddau, er enghraifft ei gyllideb flynyddol, yn sicrhau y bydd yn cyflawni ei amcanion llesiant.

#### **Adrannau 6 a 7 – Amcanion Llesiant Gweinidogion Cymru ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill**

39. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi amcanion llesiant fel sy'n ofynnol o dan adrannau 4 a 5 o'r Bil, yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredinol y Cynulliad. Mae 'etholiad cyffredinol' yn cyfeirio at naill ai etholiad arferol neu etholiad eithriadol y Cynulliad, fel y'u diffinnir yn adrannau 3 neu 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
40. Rhaid i amcanion llesiant Gweinidogion Cymru gael eu gosod ar gyfer eu tymor mewn llywodraeth, sef tan ddyddiad penodedig etholiad arferol nesaf y Cynulliad, fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
41. Mae adran 7(2) yn darparu bod rhaid i gyrff cyhoeddus eraill, sef y rhai a restrir yn adran 2 ond gan hepgor Gweinidogion Cymru, yn gyntaf oll osod a chyhoeddi eu hamcanion llesiant cyn dechrau'r flwyddyn ariannol sy'n dilyn cychwyn adran 7 o'r Bil. Rhaid i bob corff cyhoeddus wedyn osod a chyhoeddi amcanion llesiant dilynol ar ba bynnag adeg yr ystyriant yn briodol. Bydd yn ofynnol i bob corff cyhoeddus, bob amser, fod ag amcanion llesiant wedi eu gosod, a fydd yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.
42. Rhaid i Weinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus eraill, o dan adrannau 6(3) a 7(3) yn eu trefn, adolygu eu hamcanion llesiant pe bai'r nodau llesiant yn cael eu diwygio. Mynnir hyn er mwyn sicrhau bod yr amcanion llesiant yn parhau'n gydnaws â'r nodau llesiant cyfredol.
43. Os yw Gweinidogion Cymru a/neu gorff cyhoeddus yn penderfynu, yn dilyn adolygiad, nad yw amcan bellach yn briodol, rhaid iddynt ddiwygio'r amcan. Er enghraifft, gellid ystyried nad yw amcan bellach yn briodol os diwygiwyd y nod neu'r nodau llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu ato neu atynt, neu os yw'r mater y mae'r amcan llesiant yn rhoi sylw iddo wedi newid (a'r amcan bellach yn amherthnasol), neu os nad yw'r amcan llesiant yn cyflawni'r gwelliant a ddisgwylid mewn perthynas â'r nod neu'r nodau llesiant (a'r amcan bellach yn aneffeithiol).
44. Caiff Gweinidogion Cymru neu'r cyrff cyhoeddus eraill adolygu a diwygio'u hamcanion llesiant, o dan adrannau 6(5) a 7(5) yn eu trefn, ar unrhyw adeg a ystyriant yn briodol. Rhaid cyhoeddi amcanion llesiant diwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
45. Mae adran 6(6) yn darparu bod rhaid i unrhyw amcanion llesiant a ddiwygir gan Weinidogion Cymru gael eu gosod am weddill eu cyfnod mewn llywodraeth.
46. Mae adrannau 6(8) a 7(7), yn eu trefn, yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn rhoi sylw i'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol diweddaraf, fel y'i paratowyd gan y Comisiynydd o dan ddarpariaethau adran 20 o'r Bil, wrth osod neu ddiwygio'u hamcanion llesiant. Gall yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddeall pa welliannau y gallent eu gwneud er mwyn gosod a chyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

#### **Adran 8 - Dangosyddion cenedlaethol ac adroddiad llesiant blynyddol**

47. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol, a'u gosod gerbron y Cynulliad. Rhaid defnyddio'r dangosyddion cenedlaethol hyn i fesur y cynnydd a wneir ledled y cyrff cyhoeddus tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae is-adran (2) yn cynnwys manylion y meini prawf y mae'n rhaid i'r dangosyddion cenedlaethol eu bodloni.
48. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu a diwygio'r dangosyddion cenedlaethol ar unrhyw adeg yr ystyriant yn briodol. Fodd bynnag, o dan is-adran (3), rhaid iddynt adolygu'r dangosyddion cenedlaethol os diwygir y nodau llesiant. Mynnir hyn er mwyn sicrhau bod y dangosyddion cenedlaethol yn parhau'n gydnaws â'r nodau llesiant cyfredol.
49. Pe bai Gweinidogion Cymru, yn dilyn adolygiad, yn penderfynu nad yw unrhyw ddangosydd cenedlaethol yn briodol bellach, rhaid iddynt ddiwygio'r dangosydd neu'r dangosyddion. Rhaid cyhoeddi'r dangosyddion cenedlaethol diwygiedig a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
50. Cyn gosod neu ddiwygio'r dangosyddion cenedlaethol rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd, y cyrff cyhoeddus eraill ac unrhyw berson arall yr ystyriant yn briodol.
51. Mae'n ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad diweddarau blynyddol mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol, sy'n rhoi manylion am y cynnydd a wneir tuag at gyrraedd y nodau llesiant. Rhaid i'r diweddariad hwn ddatgan y cyfnod o amser y mae'r mesuriad o bob dangosydd cenedlaethol yn berthynol iddo.

#### **Adran 9 - Adroddiad tueddiadau'r dyfodol**

52. Mae'n ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn paratoi "adroddiad tueddiadau'r dyfodol" yn ystod y 12 mis sy'n dilyn etholiad Cynulliad arferol, fel y'i diffinnir yn adrannau 3 neu 5(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys rhagfynegiadau o'r tueddiadau tebygol yn llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, gan gynnwys unrhyw ddata dadansodol a gwybodaeth gysylltiedig a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru. Wrth baratoi'r adroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw gamau a gymerir gan y Cenhedloedd Unedig mewn perthynas â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'r Aseiad Risg Newid yn yr Hinsawdd diweddaraf a gynhyrchir o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Cyhoeddi'r adroddiad hwn, o fewn y 12 mis sy'n dilyn etholiad, sy'n sbarduno darpariaethau adran 20 ynglŷn â'r gofyniad bod y Comisiynydd yn paratoi'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

#### **Adrannau 10 ac 11 - Adroddiadau blynyddol gan Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill**

53. Mae'n ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn paratoi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed ganddynt tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn a'i osod gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
54. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol bod chyrrff cyhoeddus eraill yn gwneud adroddiadau blynyddol, ac yn rhoi effaith i Atodlen 1 i'r Bil, sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol gan bob corff cyhoeddus. Nid yw'r Atodlen hon yn gymwys i Weinidogion Cymru.
55. Wrth baratoi eu hadroddiad blynyddol rhaid i Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill adolygu eu hamcanion llesiant. Os yw corff cyhoeddus neu Weinidogion Cymru yn

penderfynu nad yw unrhyw amcan llesiant bellach yn briodol, rhaid i'r corf hwnnw neu Weinidogion Cymru ddiwygio'r amcan neu'r amcanion llesiant. Pan fo'r adolygiad hwn yn arwain at ddiwygio un neu ragor o amcanion llesiant rhaid cynnwys cyfiawnhad ac esboniad o'r diwygiad yn yr adroddiad blynyddol.

#### **Atodlen 1 - Adroddiadau blynyddol gan gyrff cyhoeddus eraill**

56. Nid yw'r Atodlen hon yn gymwys i Weinidogion Cymru, yn rhinwedd adran 11(1) o'r Bil.
57. Mae Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.
58. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig i baragraff 1 o'r Atodlen hon baratoi adroddiad mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Diffinnir blwyddyn ariannol yn adran 53(1) o'r Bil, fel y 'cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth'.
59. Mae paragraff 2 yn ei gwneud yn ofynnol bod Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre adeg cychwyn y Ddeddf) yn adrodd mewn perthynas â phob blwyddyn gyfrifyddu. Mae i "blwyddyn gyfrifyddu" yr ystyr a roddir i "accounting year" gan Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, y sefydlwyd y cyrff hyn oddi tani. Yr un ystyr hefyd sydd i 'blwyddyn gyfrifyddu' â 'blwyddyn ariannol', fel y'i diffinnir o dan adran 53(1) o'r Bil.
60. Mae paragraff 3 yn gwneud darpariaethau penodol mewn perthynas â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru.
61. Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol bod Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn paratoi 'adroddiad blynyddol' sy'n rhoi manylion am y modd y cyflawnodd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Mae paragraff 3 yn diwygio'r Gorchymyn hwnnw gan ei gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad yn rhoi manylion hefyd am y cynnydd a wnaed gan y corff tuag at gyflawni ei amcanion llesiant.
62. Rhaid cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol sy'n ofynnol o dan baragraffau 1 a 2 o Atodlen 1 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

#### **Adran 12 - Canllawiau**

63. Mae adran 12 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a dyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus eraill mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil. Rhaid i gorff cyhoeddus gymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth wrth arfer swyddogaethau neu gyflawni dyletswyddau y darperir ar eu cyfer o dan Ran 2 o'r Bil.

#### **Adran 13 - Yr egwyddor datblygu cynaliadwy: ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol**

64. Mae adran 13 yn rhoi'r pŵer i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliadau er mwyn asesu i ba raddau y mae'r cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 2 wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a chyflawni amcanion. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal o leiaf un ymchwiliad o bob corff cyhoeddus o fewn pob 'cyfnod adrodd' o 5 mlynedd. Mae pob cyfnod adrodd yn dechrau flwyddyn cyn y dyddiad y bwriedir cynnal etholiad cyffredinol arferol nesaf y Cynulliad ac yn para hyd flwyddyn a diwrnod cyn yr etholiad nesaf o'r fath.



**Adran 14 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

65. Mae adran 14 yn sefydlu swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, sy'n unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â phwyllgor cyfrifol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
66. Mae is-adran (3) yn rhoi effaith i Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â swydd y Comisiynydd.

**Atodlen 2 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

67. Mae paragraffau 1 i 5 yn cynnwys darpariaethau technegol ynglŷn â statws, telerau, cydnabyddiaeth ariannol a materion eraill ynglŷn â phenodiad y Comisiynydd. Mae paragraff 3 yn rhagnodi bod y Comisiynydd i gael ei benodi am gyfnod nad yw'n llai na 5 mlynedd ac nac yn hwy na 7 mlynedd. Caniateir i Weinidogion Cymru ailbenodi am gyfnodau pellach, ond ni chaniateir dal y swydd am gyfnod olynol o fwy na 10 mlynedd.
68. Mae paragraffau 6 a 7 yn rhoi manylion am y seiliau a fyddai anghymhwysu unigolyn rhag ei benodi yn Gomisiynydd, ac am y trefniadau ar gyfer terfynu penodiad Comisiynydd (ac eithrio drwy anghymhwysu).
69. Mae paragraff 8 yn gwneud darpariaeth i'r perwyl y caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth yr ystyria'n briodol mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Comisiynydd, gan gynnwys codi tâl am wasanaethau, talu i drydydd partïon am wasanaethau a derbyn rhoddion. Ni chaiff y comisiynydd ddarparu cymorth ariannol i gaffael neu waredu tir heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
70. Mae paragraffau 9 a 10 yn gwneud darpariaethau ynglŷn â'r ddyletswydd sydd ar y Comisiynydd i benodi Dirprwy Gomisiynydd, pwerau'r Comisiynydd i benodi staff a thalu iddynt, a'r gallu i ddirprwyo swyddogaethau'r Comisiynydd i unrhyw berson, gan gynnwys aelod o'i staff.
71. Mae paragraff 11 yn gwneud darpariaeth i'r Dirprwy Gomisiynydd arfer swyddogaethau'r Comisiynydd pan fo swydd y Comisiynydd yn wag, neu os nad yw'r Comisiynydd yn gallu arfer y swyddogaethau hynny.
72. Mae paragraffau 12, 13 a 14 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiynydd yn sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion ynglŷn â'r modd yr arferir ei swyddogaethau, ac yn creu a chynnal cofrestr o fuddiannau'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd, gan roi copi ohoni ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Mae paragraff 15 yn darparu bod rhaid i'r Comisiynydd beidio ag arfer swyddogaeth os cofrestrwyd buddiant ganddo sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaeth honno.
73. Mae paragraff 16 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru dalu symiau priodol i'r Comisiynydd mewn perthynas â gwariant ar gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd.
74. Mae paragraff 17 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiynydd yn paratoi adroddiad blynyddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol; rhaid cyhoeddi'r adroddiad hwn ddim hwyrach na'r 31 Awst sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymdrin â hi. Rhaid i'r Comisiynydd anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru, a rhaid iddynt hwythau ei roi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

75. Wrth baratoi'r adroddiad hwnnw rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r panel cyngori (gweler adran 23) ac unrhyw berson arall a ystyrir yn briodol gan y Comisiynydd. Rhaid i'r adroddiad blynyddol ddarparu crynodeb o raglen waith y Comisiynydd a manylion am y camau gweithredu a gymerwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw, dadansoddiad o effeithiolrwydd y Comisiynydd o ran galluogi gwireddu ei ddyletswydd gyffredinol, ynghyd â manylion am ei raglen waith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Caiff yr adroddiad gynnwys hefyd asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud, er mwyn bod yn fwy cydnaws â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant.
76. Mae paragraff 17 hefyd yn diffinio blwyddyn ariannol gyntaf y Comisiynydd at ddibenion y Bil, sef y cyfnod sy'n dechrau gyda'r y diwrnod y penodir y Comisiynydd ac yn dod i ben ar y 31 Mawrth dilynol.
77. Mae paragraffau 18 i 20 yn nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd fel swyddog cyfrifyddu ac yn darparu ar gyfer paratoi amcangyfrifon a chyfrifon gan y Comisiynydd, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddydau y caiff Gweinidogion Cymru eu rhoi, ac yn darparu ar gyfer archwilio'r cyfrifon a'r defnydd o adnoddau'r Comisiynydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
78. Mae paragraff 23 yn darparu y caniateir i'r Comisiynydd gael sêl ac yn darparu bod rhaid i unrhyw ddogfen yr honnir ei chyflawni o dan y sêl honno, neu ei llofnodi gan y Comisiynydd, neu ar ei ran, gael ei derbyn yn dystiolaeth ac, oni phrofir yn wahanol, ei derbyn fel dogfen y Comisiynydd.

#### **Adrannau 15 ac 16 - Dyletswydd gyffredinol a swyddogaethau'r Comisiynydd**

79. Mae adran 15 yn pennu mai dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn benodol drwy weithredu fel ceidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi rhagor o ystyriaeth i effaith hirdymor eu gweithgareddau. At y diben hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd fonitro ac asesu'r modd y cyflawnir yr amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus.
80. Mae adran 16(1) yn darparu y caiff y Comisiynydd, wrth gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol, ddarparu cyngor neu gymorth (heblaw cymorth ariannol) i gorff cyhoeddus neu i unrhyw berson arall y tybia'r Comisiynydd ei fod yn cymryd, neu'n ceisio cymryd camau a allai gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor ar newid yn yr hinsawdd.
81. Caiff y Comisiynydd ddarparu cyngor neu gymorth i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ynglŷn â pharatoi eu cynllun llesiant lleol.
82. Caiff y Comisiynydd hefyd annog arferion da a hybu ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus o'r angen i gyflawni eu hamcanion llesiant mewn modd sy'n gydnaws â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac annog cyrff cyhoeddus i gydweithio â'i gilydd a chyda personau eraill os gall hynny eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant.
83. Mae adran 16(2) yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd gynnal ymchwil neu astudiaeth arall mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y graddau y mae'r nodau llesiant a'r dangosyddion cenedlaethol yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac unrhyw beth

mewn cysylltiad â'r pethau hyn sy'n effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, neu unrhyw ran o Gymru.

**Adrannau 17 i 19 - Adolygiadau gan y Comisiynydd, argymhellion ganddo a dyletswydd i ddilyn yr argymhellion**

84. Mae adran 17 yn darparu y caiff y Comisiynydd gynnal adolygiad ynghylch i ba raddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hangenion drwy ystyried effaith hirdymor yr hyn a wna'r corff hwnnw. Gall hyn ymwneud â mwy nag un corff cyhoeddus. Caiff y Comisiynydd adolygu'r camau y mae corff wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant, i ba raddau y mae'r amcanion hynny'n cael eu cyflawni ac a ydyw wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd y camau hynny.
85. Caiff y comisiynydd wneud 'argymhellion' o ganlyniad i unrhyw adolygiad; ystyr hynny yw y caiff y Comisiynydd argymhell dull o weithredu y dylai corff cyhoeddus ei ddilyn er mwyn ymdrin â mater penodol. Gallai'r argymhellion hyn ymwneud â'r camau y mae corff cyhoeddus wedi eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant a sut i osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, caiff yr argymhellion ymwneud hefyd â'r nodau llesiant neu'r dangosyddion cenedlaethol.
86. Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw adolygiad y mae'n ei wneud, ac anfon copi o'r adolygiad a'r argymhellion at Weinidogion Cymru.
87. Caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol bod corff cyhoeddus yn darparu unrhyw wybodaeth yr ystyria'r Comisiynydd fod ei hangen arno er mwyn cynnal yr adolygiad. Ni chaiff y Comisiynydd ofyn am yr wybodaeth os yw'r corff cyhoeddus wedi ei wahardd rhag datgelu'r wybodaeth honno gan unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.
88. Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw adolygiad y mae'n ei wneud, ac anfon copi o'r argymhellion at Weinidogion Cymru.
89. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol bod corff cyhoeddus yn dilyn y camau gweithredu a bennir mewn unrhyw argymhelliad a wneir gan y Comisiynydd o dan adran 18 o'r Bil. Fodd bynnag, caiff y corff cyhoeddus ddiystyru'r cyfan neu ran o'r argymhelliad os bodlonir ef fod rheswm da dros wneud hynny. Caiff y corff hefyd benderfynu dilyn camau gweithredu amgen mewn perthynas â'r mater y cyfeirir ato yn yr argymhelliad, ond pan fo'n penderfynu peidio â dilyn yr argymhelliad rhaid iddo egluro ei ymateb a'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn lle hynny.
90. Mae adran 19(2) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru baratoi a dyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus ynglŷn â sut i ymateb i argymhelliad gan y Comisiynydd. Wrth benderfynu sut i ymateb i argymhelliad, rhaid i'r corff cyhoeddus gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan y pŵer hwn.

**Adrannau 20 a 21 - Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd**

91. Mae adran 20 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiynydd yn paratoi adroddiad sy'n rhoi manylion am y gwelliannau y dylai corff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a chyflawni eu hamcanion llesiant mewn modd sy'n gydnaws â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

92. Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi'r adroddiad hwn cyn diwedd y cyfnod adrodd. Mae'r 'cyfnod adrodd' yn dechrau gyda'r diwrnod sy'n dilyn y diwrnod y cyhoeddir adroddiad tueddiadau'r dyfodol Gweinidogion Cymru o dan adran 9 o'r Bil, ac yn dod i ben ar y dyddiad un flwyddyn ac un diwrnod cyn dyddiad arfaethedig etholiad cyffredinol arferol nesaf y Cynulliad. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o'r cyfnod adrodd, drwy reoliadau.
93. Rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys asesiad o sut y dylai cyrff cyhoeddus wella'r modd y diogelir gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, a rhoi gwell ystyriaeth i effaith hirdymor eu gweithgareddau. Rhaid i'r adroddiad hefyd ddarparu crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd a'r gweithgareddau a ymgwymerodd y Comisiynydd â hwy yn ystod y cyfnod adrodd, crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd, yn ogystal â'r camau gweithredu a gymerwyd ganddo wrth arfer ei swyddogaethau.
94. Rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad at Weinidogion Cymru, a rhaid iddynt hwythau gyflwyno copi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
95. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r bobl a restrir o dan adran 21(1), yn ogystal ag unrhyw un arall yr ystyria'n briodol, er mwyn sicrhau bod buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael eu cynrychioli'n llawn, yn ystod y cyfnod adrodd a chyn cyhoeddi'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.
96. Wrth baratoi ei Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i'r Comisiynydd ystyried y canlynol:
- ymatebion y bobl y bu'n ymgynghori â hwy o dan adran 21(1);
  - yr adroddiad tueddiadau'r dyfodol diweddaraf a baratowyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 9 o'r Bil; ac
  - unrhyw adroddiadau perthnasol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

#### **Adran 22 - Cydweithio**

97. Mae adran 22 yn gwneud darpariaeth i'r Comisiynydd, pan fo'n cynnal adolygiad, gydweithio â'r Comisiynwyr eraill, sef Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg.
98. Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd o'r farn bod mater y mae'n bwriadu ei adolygu yr un fath â mater, neu'n sylweddol debyg i fater, sy'n destun adolygiad neu ymchwiliad a ymgwymerir gan un neu ragor o'r Comisiynwyr eraill. Caiff y Comisiynydd hysbysu'r Comisiynydd arall neu'r Comisiynwyr eraill am ei fwriad i gynnal adolygiad ac ymgynghori â'r Comisiynydd arall neu'r Comisiynwyr eraill.
99. Caiff y Comisiynwyr hefyd gydweithio mewn cysylltiad â chynnal adolygiad neu ymchwiliad, a chânt baratoi dogfen ar y cyd, a fydd yn darparu'r cyngor yn ogystal ag adrodd am ganfyddiadau'r adolygiad neu'r ymchwiliad.

#### **Adrannau 23, 24 a 25 - Y panel cynghori, aelodau penodedig a thalu treuliau aelodau'r panel**

100. Mae adran 23 yn sefydlu panel cynghori, sef panel o gynghorwyr sy'n darparu cyngor i'r Comisiynydd ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau.

101. Rhestrir aelodau statudol y panel yn adran 23(2). Caiff Gweinidogion Cymru benodi aelodau ychwanegol o'r panel cynghori, a elwir yn 'aelodau penodedig'. Nid yw dod yn aelodau o'r panel yn effeithio ar eu swyddogaethau statudol eraill.
102. Cyn penodi aelod penodedig, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd ac ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan y Comisiynydd.
103. Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu am ba gyfnod o amser y penodir aelod penodedig, yn ddarostyngedig i gyfnod byrraf o 3 blynedd a chyfnod hwyaf o 5 mlynedd. Unwaith yn unig y caniateir ailbenodi aelod penodedig. Caiff yr aelod penodedig ymddiswyddo o'r panel, ond rhaid iddo roi o leiaf dri mis o rybudd mewn ysgrifen i Weinidogion Cymru.
104. Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelod penodedig, ar ôl ymgynghori â'r Comisiynydd, os ystyriant fod yr aelod hwnnw'n anaddas, yn analluog neu'n anfodlon i barhau yn ei rôl.
105. Mae adran 25 yn rhoi i Weinidogion Cymru y gallu i dalu lwfansau a rhoddion ariannol i aelodau'r panel cynghori.

#### **Adran 26 – Byrddau gwasanaethau cyhoeddus**

106. Mae adran 26 yn darparu bod bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i gael ei sefydlu ar gyfer pob ardal llywodraeth leol yng Nghymru. Rhestrir aelodau'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, a gwneir darpariaethau pellach ym mharagraff 7 o Atodlen 3 ynglŷn â pha unigolion y mae'n ofynnol iddynt gynrychioli aelodau unigol mewn cyfarfodydd o'r bwrdd.
107. Mae aelodau o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu ar y cyd. O ganlyniad, mae unrhyw swyddogaeth i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn swyddogaeth i bob un o'r aelodau, a dim ond ar y cyd y ceir ei harfer.

#### **Adrannau 27 a 28 – Gwahoddiadau i gyfranogi**

108. Mae adran 27(1) yn pennu unigolion neu sefydliadau penodol y mae'n ofynnol bod byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn eu gwahodd i gyfranogi yng ngweithgareddau'r bwrdd ('cyfranogwyr gwadd'). Unigolion neu sefydliadau yw'r rhain yr ystyrir y byddai eu cyfraniad i waith y bwrdd yn werthfawr, ond nad yw'n bosibl neu'n ddymunol gosod dyletswydd arnynt. Mae adran 28(1) yn darparu bod rhaid dyroddi'r gwahoddiadau hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol:
  - ar ôl cyfarfod cyntaf bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar ôl ei sefydlu; ac wedyn
  - ar ôl cyfarfod cyntaf y bwrdd yn dilyn etholiad cyffredin, fel y'i diffinnir yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
109. Caiff y bwrdd hefyd wahodd unrhyw berson arall yr ystyria'n briodol, ar yr amod bod y person hwnnw'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Caniateir, fodd bynnag, i'r person hwnnw arfer swyddogaethau eraill yn ogystal.
110. Ystyrir mai 'cyfranogwr gwadd' fydd unrhyw unigolyn neu gorff sy'n derbyn gwahoddiad i gyfranogi yng ngweithgarwch y bwrdd, ac ni fydd yn dod yn aelod o'r bwrdd. Mae cyfranogi yng ngweithgarwch y bwrdd yn golygu cydweithio â'r bwrdd, unrhyw aelod o'r bwrdd neu unrhyw berson arall sy'n derbyn gwahoddiad o dan adran 27 i ymgyrraedd at yr amcan lleol. O dan adran 27(4) mae 'cydweithio' yn cynnwys:

- darparu ei safbwyntiau i'r bwrdd ar gynnwys asesiad y bwrdd o'r llesiant lleol neu ei gynllun llesiant lleol;
- cymryd rhan yng nghyfarfodydd y bwrdd (gall hynny gynnwys, yn dilyn gwahoddiad gan aelodau'r Bwrdd ac yn ddarostyngedig i baragraffau 2(1) a 3(1) o Atodlen 3, gadeirio cyfarfodydd o'r Bwrdd); neu
- ddarparu cyngor a chymorth arall i'r bwrdd (nid yw hyn, fodd bynnag, yn cynnwys darparu cymorth ariannol).

111. Caiff cyfranogwr gwadd gyfranogi yng ngweithgarwch y bwrdd o'r diwrnod pan fo'r bwrdd yn cael ateb gan y cyfranogwr yn derbyn y gwahoddiad tan ddyddiad yr etholiad cyffredin nesaf, fel y'i diffinnir yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **Adran 29 – Partneriaid eraill**

112. Mae adran 29(1) yn rhestru cyrff ac unigolion penodol y mae'n rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus eu cynnwys yng ngweithgarwch y bwrdd, a chyfeirir atynt fel 'partneriaid eraill'.

113. Cyrff neu unigolion yw'r 'partneriaid eraill' a ystyrir yn ddarparwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr buddiannau cyhoeddus pwysig. Rhaid i'r bwrdd ofyn am gyngor gan ei bartneriaid eraill a'u cynnwys yng ngweithgareddau'r bwrdd yn y modd, ac i'r graddau, a ystyrir yn briodol gan y bwrdd. Gall hyn olygu naill ai gofyn am gyngor gan y partneriaid neu eu cynnwys yn y gwaith o baratoi, cyflawni a rhoi ar waith gynllun llesiant y bwrdd.

#### **Adran 30 – Newidiadau mewn cyfranogiad**

114. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r rhestr o aelodau, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill ar y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, drwy ychwanegu person neu dynnu person ymaith, neu ddiwygio ei ddisgrifiad. Cyn arfer y pŵer hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag aelodau'r bwrdd neu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus y mae'r rheoliadau arfaethedig yn effeithio arno neu arnynt, ac os ydynt yn ychwanegu person, y person hwnnw.

115. Dim ond person sydd â swyddogaethau cyhoeddus y caniateir ei ychwanegu at adran 26(2) fel aelod o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus. Os yw'r person yn arfer swyddogaethau eraill yn ogystal â swyddogaethau cyhoeddus, ei swyddogaethau cyhoeddus yn unig a all fod yn ddarostyngedig i Ran 4 o'r Bil.

#### **Adran 31 – Cyfarfodydd a chylch gorchwyl**

116. Mae'r adran hon yn rhoi effaith i Atodlen 3, sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch cyfarfodydd a chylch gorchwyl byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

#### **Atodlen 3 – Byrddau gwasanaethau cyhoeddus: darpariaethau pellach**

117. Mae paragraff 1 yn pennu mai cworwm bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yw pob un o'i aelodau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i bob aelod fod yn bresennol mewn cyfarfod er mwyn i benderfyniadau a wneir yn y cyfarfod hwnnw gael eu hystyried yn ddilys.

118. Mae paragraffau 2 and 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch amseroedd cyfarfodydd. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnal ei gyfarfod cyntaf, a gadeirir gan yr awdurdod lleol, heb fod yn hwyrach na 60 diwrnod ar ôl y dyddiad y sefydlwyd y bwrdd gan yr awdurdod lleol. Rhaid i'r bwrdd hefyd gynnal cyfarfod gorfodol, a gadeirir gan yr

awdurdod lleol, heb fod yn hwyrach na 60 diwrnod ar ôl etholiad cyffredin, fel y'i diffinnir yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

119. Mae paragraff 4 yn ei gwneud yn ofynnol bod y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn cytuno ar ei gylch gorchwyl yn ei gyfarfod cyntaf. Mae is-paragraff (2) yn rhoi manylion am y materion sydd i'w cynnwys yn y cylch gorchwyl. Caiff y bwrdd adolygu ei gylch gorchwyl fel y gwel yn dda, ond rhaid iddo ei adolygu yn y cyfarfod gorfodol a gynhelir yn dilyn etholiad cyffredin. Yn dilyn adolygiad, caiff y bwrdd ddiwygio ei gylch gorchwyl.
120. Mae paragraff 5 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn darparu cymorth gweinyddol i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.
121. Mae paragraff 6 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â sefydlu is-grwpiau o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus a gallu'r is-grwpiau hynny i arfer swyddogaethau'r bwrdd. Ni chaiff is-grŵp o'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wneud y canlynol:
- gwahodd personau i gyfranogi o dan adran 27 o'r Bil;
  - gosod, adolygu neu ddiwygio amcanion lleol y bwrdd;
  - paratoi neu gyhoeddi asesiad llesiant lleol, ymgynghori ar ddrafft o asesiad llesiant lleol neu baratoi asesiad drafft at ddibenion ymgynghori;
  - paratoi neu gyhoeddi cynllun llesiant lleol, ymgynghori ar ddrafft o gynllun llesiant lleol neu baratoi drafft o gynllun llesiant lleol at ddibenion ymgynghori;
  - adolygu neu ddiwygio cynllun llesiant lleol, cyhoeddi cynllun llesiant lleol diwygiedig neu ymgynghori ar ddrafft o gynllun llesiant lleol diwygiedig.
122. Mae paragraff 7 yn rhoi manylion am yr unigolion y mae'n rhaid iddynt gynrychioli pob aelod o'r bwrdd. Caiff cyfranogwyr gwadd ddynodi'r unigolyn sydd i'w cynrychioli. Caiff y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus hefyd wahodd un neu ragor o'i bartneriaid eraill i fod yn bresennol mewn cyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod.

### **Adran 32 - Pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol**

123. Mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn sicrhau bod gan ei bwyllgor trosolwg a chraffu y pŵer i gyflawni'r canlynol:
- adolygu penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wrth arfer ei swyddogaethau, neu graffu arnynt;
  - adolygu trefniadau llywodraethu'r bwrdd, neu graffu arnynt;
  - gwneud adroddiadau neu argymhellion i Weinidogion Cymru;
  - ystyried pa bynnag faterion yn ymwneud â'r bwrdd a atgyfeirir i'r pwyllgor gan Weinidogion Cymru, ac adrodd wrth Weinidogion Cymru yn unol â hynny; a
  - chyflawni pa bynnag swyddogaethau eraill a osodir arno gan y Bil.
124. Bydd yr awdurdod lleol yn gwneud hynny drwy'r 'trefniadau gweithrediaeth' y mae'n ofynnol iddo'u gwneud o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Trefniadau gweithrediaeth yw trefniadau a wneir gan awdurdod lleol i sefydlu gweithrediaeth, a'i rhoi ar waith, i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am swyddogaethau penodol yr awdurdod.
125. Rhaid i'r pwyllgor anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhelliad a wneir ganddo o dan is-adran (1)(c) at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd ac archwilydd Cyffredinol Cymru.

126. Caiff pwyllgor trosolwg a chraffu, wrth ymgymryd â'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer o dan is-adran (1), ei gwneud yn ofynnol i un neu ragor o'r personau a gaiff fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, neu unrhyw un a ddynodir gan berson o'r fath, fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r pwyllgor i esbonio pa bynnag faterion a fynnir gan y pwyllgor.
127. Pan fo gan awdurdod lleol fwy nag un pwyllgor trosolwg a chraffu, rhaid dehongli'r cyfeiriad yn Rhan 4 o'r Bil at ei bwyllgor trosolwg a chraffu fel cyfeiriad at y pwyllgor a ddynodir gan yr awdurdod lleol at ddibenion adran 32.

### **Adran 33 - Dyletswydd llesiant ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus**

128. Mae adran 33 yn nodi'r ddyletswydd llesiant sydd ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, sef bod yn rhaid i fwrdd wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal drwy gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ei ardal, gosod amcanion lleol a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny, sydd wedi eu cynllunio i sicrhau bod y bwrdd yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd y nodau llesiant.

### **Adrannau 34 a 35 - Asesiadau llesiant lleol**

129. Mae adran 34(1) yn ei gwneud yn ofynnol bod pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud asesiad o lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal.
130. Rhaid i'r bwrdd gyhoeddi'r asesiad hwn 12 mis o leiaf cyn cyhoeddi ei gynllun llesiant lleol. Mae adran 36 o'r Bil yn darparu bod rhaid cyhoeddi'r cynllun llesiant ddim hwyrach nag un flwyddyn ar ôl etholiad cyffredin, fel y'i diffinnir yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. O ganlyniad, byddai'r asesiad yn cael ei gyhoeddi o fewn y 12 mis sy'n rhagflaenu pob etholiad llywodraeth leol cyffredin.
131. Rhaid i'r asesiad bennu'r ardaloedd cymunedol sydd o fewn ardal y bwrdd. Bwriedir i'r 'ardaloedd cymunedol' hyn fod yn ardaloedd o fewn ardal y bwrdd sy'n ddigon mawr i amlygu gwahaniaethau rhyngddynt ac i feddu ar ymdeimlad o hunaniaeth, ond heb fod mor fychan â wardiau etholiadol. Rhaid i'r asesiad ddarparu dadansoddiad o gyflwr llesiant:
  - ardal y bwrdd yn ei chyfanrwydd;
  - phob cymuned o fewn ardal y bwrdd.
132. Caiff yr asesiad hefyd gynnwys dadansoddiad o gategoriâu penodol o bersonau y penderfyna'r bwrdd arnynt, gan gynnwys personau sy'n hyglwyf neu o dan anfantais fel arall, personau sy'n meddu ar nodwedd warchoddedig gyffredin o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, plant, personau y gallai fod arnynt angen gofal a chymorth arnynt neu'r rheini sy'n darparu gofal a chymorth a phersonau sy'n rhannu unrhyw ffactor cyffredin arall y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn briodol.
133. Wrth asesu llesiant pob cymuned, y bwriad yw sicrhau y dadansoddir y gwahaniaethau rhwng y gwahanol gymunedau o fewn ardal bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y cymunedau o fewn pob ardal yn cael eu penderfynu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru neu, pan nad oes rheoliadau o'r fath wedi eu gwneud, gan y bwrdd.
134. Er y caiff y bwrdd ystyried cysoni'r cymunedau hyn â'r rhwydweithiau cymunedol sy'n bodoli eisoes, megis 'cymdogaethau' awdurdod lleol, 'rhwydweithiau bro' yn y maes



iechyd neu glystyrau o gynghorau cymuned, ni fydd y cymunedau a bennir at ddibenion yr asesiad yn cyfateb o anghenraid i'r cynghorau cymuned o fewn ardal y bwrdd.

135. Rhaid i'r asesiad gynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach a gyflawnir gan y bwrdd drwy gyfeirio at feini prawf a bennwyd ac a gymhwyswyd ganddo at y diben o asesu llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn yr ardal neu mewn unrhyw gymuned o fewn yr ardal.
136. Rhaid i'r asesiad hefyd gynnwys rhagfynegiadau o'r tueddiadau tebygol yn y dyfodol ac unrhyw wybodaeth a data dadansodol eraill a ystyrir yn briodol gan y bwrdd, ynghlŷn â llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.
137. Wrth baratoi'r dadansoddiad, rhaid i'r bwrdd gyfeirio at:
  - unrhyw ddangosyddion cenedlaethol, fel y'u cyhoeddwyd o dan adran 8 o'r Bil;
  - unrhyw adroddiadau tueddiadau'r dyfodol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 9, os ydynt yn berthnasol i asesu llesiant yn yr ardal.
138. Mae adran 35(3) yn diffinio nifer o adolygiadau ac asesiadau statudol y mae'n rhaid i'r bwrdd ystyried eu canfyddiadau wrth baratoi ei asesiad. Caiff Gweinidogion Cymru bennu, drwy reoliadau, unrhyw adolygiadau neu asesiadau eraill y dymunant i'r bwrdd eu hystyried.
139. Cyn cyhoeddi ei asesiad llesiant lleol, rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori â'r bobl a restrir yn adran 35(1). Rhaid i'r bwrdd ddarparu copi o'i asesiad drafft i bob un o'r bobl a restrir.
140. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus anfon copi o'i asesiad at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu yr awdurdod lleol.

#### **Adrannau 36 a 37 - Cynlluniau Llesiant Lleol**

141. Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, o dan adran 36(1), baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol.
142. Rhaid i fwrdd gyhoeddi ei gynllun llesiant cyntaf ddim hwyrach 12 mis ar ôl yr etholiad cyffredin cyntaf, fel y'i diffinnir yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a gynhelir ar ôl cychwyn yr adran hon. Rhaid i'r bwrdd wedyn gyhoeddi cynllun llesiant ddim hwyrach 12 mis ar ôl pob etholiad cyffredin dilynol.
143. Bydd y cynllun llesiant yn pennu'r modd y mae'r bwrdd yn bwriadu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal, ac felly'n cyfrannu at y nodau llesiant. Rhaid iddo gynnwys amcanion a fydd yn cynyddu i'r eithaf y cyfraniad a wneir gan y bwrdd tuag at gyrraedd y nodau llesiant (gweler adran 3) yn ei ardal. Ni chaiff cynllun ond cynnwys amcan lleol sydd i'w ddiwallu drwy gamau a gymerir gan gyfranogwr gwadd os yw'r bwrdd wedi cael cydsyniad y cyfranogwr.
144. Mae aelodau'r bwrdd hefyd yn 'gyrff cyhoeddus' at ddibenion Rhannau 1 - 3 o'r Bil ac o ganlyniad rhaid iddynt, o dan adrannau 4, 5 a 7 o'r Bil, osod amcanion llesiant. Caiff yr aelodau hyn, sef yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol a'r awdurdod tân ac achub, ddewis cynnwys eu hamcanion llesiant yn y cynllun llesiant lleol.

145. Rhaid i'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol fod yn gydnaws â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef yr angen i sicrhau nad yw camau gweithredu a gymerir gan gyrff cyhoeddus i wella llesiant pobl heddiw yn effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Rhaid i'r bwrdd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
146. Mae adran 37 yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn y mae'n rhaid i fwrdd ei ystyried wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
147. Mae adran 37(a) yn ymwneud â meddwl am y tymor hir. Wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant, rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wrthbwysu'u hangen i weithredu er mwyn mynd i'r afael â materion cyfoes (sef y tymor byr) yn erbyn eu hangen i ddiogelu eu gallu i ddiwallu anghenion hirdymor yn eu hardal. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo modd i'w gweithredoedd byrdymor gael effaith andwyol yn y dyfodol.
148. Mae adran 37(b)(i) a (ii) yn ymwneud â byrddau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cymryd ymagwedd integredig. Yng nghyd-destun yr amcanion llesiant, mae cymryd ymagwedd integredig yn golygu bod byrddau yn ystyried sut mae'u hamcanion llesiant yn effeithio ar yr holl nodau llesiant a llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.
149. Er mwyn cymryd ymagwedd integredig, rhaid i fwrdd ystyried hefyd sut y mae'i amcanion yn effeithio ar ei gilydd, ac, yn eu tro, ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. Dylai corff cyhoeddus ystyried sut y gall camau a gymerir ganddo i gyflawni un amcan fod yn andwyol i amcan neu amcanion eraill, gan gynnwys amcanion unrhyw gyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo modd i weithgareddau'r bwrdd lesteirio gallu corff cyhoeddus arall i gynyddu i'r eithaf ei gyfraniad at gyrraedd y nodau llesiant.
150. Rhaid i fyrddau roi sylw i bwysigrwydd ymgysylltu, fel y darperir ar ei gyfer gan adran 37(b)(iii). Mae hynny'n golygu cynnwys y bobl a'r cymunedau y ceisiant wella'u llesiant, yn ogystal â rhai sydd â diddordeb yn llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal. Dylid cyflawni'r ymgysylltu hwn drwy gasglu eu safbwyntiau a chymryd y safbwyntiau hynny i ystyriaeth.
151. Mae adran 37(c) yn ymwneud â byrddau sy'n cydlafurio. Ystyr hynny yw cydweithio, naill ai gyda'i gyfranogwyr gwadd, ei bartneriaid eraill, byrddau eraill neu gyda chyrrff cyhoeddus eraill er mwyn cyflawni amcanion llesiant y bwrdd, amcanion llesiant aelod o'r bwrdd a/neu amcanion llesiant unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil. Gall hyn gynnwys cydweithio â chyrrff eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil.
152. Mae adran 37(d) yn darparu ar gyfer gweithredu ataliol. Mewn perthynas â'r amcanion llesiant, mae hyn yn cyfeirio at fyrddau sy'n ystyried camau gweithredu y gallent ddyrannu adnoddau ar eu cyfer yn awr, i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
153. Y materion y mae'n rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus eu hystyried wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw'r union rai y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried (gweler adran 5). Bydd hyn yn darparu cysondeb dull ar drws yr holl gyrff y mae darpariaethau'r Bil yn gymwys iddynt.

154. Rhaid i'r cynllun llesiant gynnwys datganiad sy'n esbonio pam y mae'r bwrdd o'r farn y bydd:
- yr amcanion yn cyfrannu, o fewn yr ardal berthnasol, at gyrraedd y nodau llesiant;
  - yr amcanion yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a grybwyllwyd yn ei asesiad llesiant lleol diweddaraf; a
  - o fewn pa derfyn amser y mae'r bwrdd yn disgwyl cyflawni ei amcanion.
155. Rhaid i'r cynllun gynnwys datganiad hefyd sy'n nodi'r modd y mae'r bwrdd yn bwriadu gweithredu i gyflawni'r amcanion yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 3).
156. Caiff y cynllun gynnwys amcanion sydd i'w cyflawni neu gamau sydd i'w cymryd gan un neu ragor o aelodau'r bwrdd, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill, yn gweithredu yn unigol neu ar y cyd. Os yw'r amcanion hyn i gael eu cyflawni gan un neu ragor o aelodau'r bwrdd, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill yn gweithredu ar y cyd, rhaid i'r datganiad bennu'r personau a fydd yn rhan o'r cyfuniad.
157. Yn achos cynlluniau llesiant dilynol, rhaid i'r datganiad roi manylion am y camau a gymerwyd gan y bwrdd i gyflawni'r amcanion a bennwyd yng nghynllun llesiant blaenorol y bwrdd ac i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion hynny.
158. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus anfon copi o'i gynllun llesiant at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu yr awdurdod lleol.

### **Adran 38 - Cynlluniau llesiant lleol: rôl cynghorau cymuned**

159. Mae adran 38 yn gosod dyletswydd ar gynghorau cymuned penodedig i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol ar gyfer eu hardal.
160. Mae'r adran hon yn nodi'r meini prawf ar gyfer pennu pa gynghorau cymuned sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon; mynegir y meini prawf presennol fel trothwy ariannol. Y cynghorau cymuned hynny, yn unig, yr oedd eu hincwm gros neu'u gwariant gros yn £200,000 o leiaf ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol a oedd yn rhagflaenu'r flwyddyn y cyhoeddwyd y cynllun llesiant lleol ynddi sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon. Bydd y cynghorau cymuned hynny yn parhau'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hyd nes cyhoeddir cynllun llesiant newydd yn dilyn pob etholiad cyffredin dilynol fel y'i diffinnir yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a bydd y cynghorau cymuned yn penderfynu a fyddant yn parhau'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd ai peidio, bryd hynny, drwy gymhwyso'r meini prawf.
161. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r meini prawf hyn. Wrth bennu'r meini prawf diwygiedig, caiff Gweinidogion adlewyrchu darpariaethau a wnaed mewn perthynas â chynghorau cymuned mewn rheoliadau o dan adran 39 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ar yr adeg y cyflwynwyd y Bil, y rheoliadau hynny oedd Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010.

162. Cyn arfer eu pwerau i ddiwygio'r meini prawf, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd, unrhyw gyngor cymuned yr effeithid arno gan y newid ac unrhyw berson arall yr ystyriant yn briodol.
163. Pan fo cyngor cymuned yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, rhaid iddo gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol berthnasol, gan roi manylion am y cynnydd a wnaed ganddo o ran cyflawni'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol. Mae Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i ddyroddi canllawiau i gynghorau cymuned sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd, a rhaid i'r cynghorau hynny gymryd canllawiau o'r fath i ystyriaeth wrth gyflawni'r ddyletswydd.

**Adrannau 39, 40 a 41 – Paratoi cynlluniau llesiant lleol: gwybodaeth am weithgarwch eraill, cyngor y Comisiynydd ac ymgynghori pellach a chymeradwyaeth**

164. Mae'r adrannau hyn yn pennu'r hyn y caiff bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ei wneud, a'r hyn y mae'n rhaid iddo'i wneud, cyn cyhoeddi ei gynllun llesiant lleol. Cyn ymgynghori ar y cynllun, caiff y bwrdd ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson a wahoddir i gyfranogi (ac eithrio Gweinidogion Cymru) neu ei bartneriaid eraill yn darparu gwybodaeth am unrhyw un neu ragor o'u gweithgareddau a allai gyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal leol.
165. Rhaid i'r bwrdd hefyd ofyn am gyngor gan y Comisiynydd. Bydd y cyngor hwnnw'n ymwneud â'r modd y gall y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gyflawni ei amcanion arfaethedig mewn ffordd sy'n gydnaws â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
166. Rhaid i'r Comisiynydd ddarparu cyngor ysgrifenedig o fewn 14 wythnos. Rhaid i'r bwrdd gyhoeddi'r cyngor hwnnw ochr yn ochr â'i gynllun llesiant.
167. Mae adran 41 yn darparu bod rhaid i'r bwrdd, cyn cyhoeddi ei gynllun llesiant, ymgynghori am gyfnod o 12 wythnos o leiaf gyda'r bobl hynny a restrir yn adran 41(1). Yn rhan o'r ymgynghoriad, rhaid i'r bwrdd ddarparu copi o'i gynllun llesiant drafft i bob un o'r bobl a restrir.
168. Pan fo awdurdod lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ni cheir cymeradwyo'r cynllun llesiant lleol ar gyfer ei gyhoeddi gan weithrediaeth o'r awdurdod o dan y trefniadau hynny. Yn ychwanegol, nid yw adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau etc.) yn gymwys i gymeradwyo cynlluniau llesiant lleol ar gyfer eu cyhoeddi.
169. Mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Lleol, awdurdod tân ac achub Cymreig a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, ni cheir cymeradwyo'r cynllun llesiant lleol ar gyfer ei gyhoeddi ac eithrio mewn cyfarfod o'r corff dan sylw.

**Adran 42 – Adolygu cynlluniau llesiant lleol**

170. Mae adran 42 yn caniatáu i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus adolygu a diwygio ei amcanion lleol neu ei gynllun llesiant lleol fel y gwêl yn dda. Rhaid i'r bwrdd adolygu ei amcanion neu ei gynllun os cyfarwyddir ef i wneud hynny gan Weinidogion Cymru. Os yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bwrdd i adolygu ei amcanion lleol neu ei gynllun llesiant, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n cynnwys eu rhesymau dros adolygu.

171. Cyn diwygio ei gynllun, rhaid i'r bwrdd ymgynghori â'r Comisiynydd a'r bobl a restrir o dan is-adran 41(1) o'r Bil.
172. Rhaid cyhoeddi'r cynllun diwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac anfon copi ohono at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu yr awdurdod lleol.

#### **Adran 43 - Adroddiadau cynnydd blynyddol**

173. Mae adran 43 yn darparu bod rhaid i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi adroddiad cynnydd blynyddol sy'n nodi'r camau a gymerwyd ganddo ers cyhoeddi ei gynllun llesiant diweddaraf, i gyrraedd yr amcanion a osodwyd yn y cynllun hwnnw. Caiff yr adroddiad gynnwys hefyd unrhyw wybodaeth arall a ystyrir yn briodol gan y bwrdd.
174. Rhaid i fwrdd gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ddim hwyrach na 14 o fisoedd ar ôl cyhoeddi ei gynllun llesiant cyntaf, ac wedyn yn ddim hwyrach na 14 o fisoedd ar ôl pob adroddiad cynnydd dilynol.
175. Nid oes angen i'r bwrdd baratoi adroddiad cynnydd yn ystod y flwyddyn y paratwir ei gynllun llesiant ynddi. Hynny fyddai'r cyfnod o 14 o fisoedd ar ôl pob etholiad cyffredin, fel y'i diffinnir yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
176. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus anfon copi o'i adroddiad cynnydd blynyddol at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu yr awdurdod lleol.

#### **Adran 44 - Addasiadau i ddeddfiadau**

177. Mae'r adran hon yn rhoi effaith i Atodlen 4.

#### **Atodlen 4 - Byrddau gwasanaethau cyhoeddus: diwygiadau canlyniadol a diddymu**

178. Mae Atodlen 4 yn rhestru'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol a wneir gan y Bil i nifer o ddeddfiadau sy'n cynnwys darpariaethau ynglŷn â chyhoeddi asesiadau o lesiant lleol a chynlluniau llesiant.

#### **Adran 45 - Uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus**

179. Mae'r adran hon yn darparu y caiff dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus uno os ystyriant y byddai hynny'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Yn ychwanegol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i uno os yw Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai hynny'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.
180. Ni chaiff y byrddau uno onid yw'r un Bwrdd Iechyd leol yn aelod o bob un o'r byrddau ac nad oes Bwrdd neu Fyrddau Iechyd Lleol eraill yn aelod.
181. Yn dilyn uno dau neu ragor o fyrddau, rhaid dehongli unrhyw gyfeiriadau at fwrdd gwasanaethau cyhoeddus fel cyfeiriadau at y bwrdd unedig, ac unrhyw gyfeiriadau at ardal y bwrdd fel cyfeiriadau at ardaloedd cyfunedig yr awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r byrddau a unwyd.

#### **Adran 46 - Cydlafurio rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus**

182. Mae adran 46 yn darparu y caiff dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gydlafurio os ydynt o'r farn y byddai hynny'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y

nodau llesiant. Yn ychwanegol, caiff Gweinidogion Cymru, yn rhinwedd is-adran (2), gyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i gydlafurio ym mha bynnag fodd y tybia Gweinidogion Cymru fyddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrredd y nodau llesiant.

183. Ceir ystyried bod bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn cydlafurio at ddibenion adran 46 os yw:
- yn cydweithio â bwrdd arall;
  - yn hwyluso gweithgareddau bwrdd arall;
  - yn cydgysylltu ei weithgareddau â bwrdd arall;
  - yn arfer swyddogaethau bwrdd arall ar ei ran;
  - yn darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i fwrdd arall.

#### **Adran 47 - Cyfarwyddydau i uno neu i gydlafurio**

184. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn cyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau i uno o dan adran 45 o'r Bil, neu gydlafurio o dan adran 47 o'r Bil, ymgynghori â phob aelod o'r byrddau y bwriadant eu cyfarwyddo.
185. Wrth roi cyfarwyddyd o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n cynnwys eu rhesymau dros ei roi.

#### **Adran 48 - Dangosyddion perfformiad a safonau**

186. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, i osod dangosyddion a safonau ar gyfer mesur perfformiad pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.
187. Cyn gwneud y rheoliadau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag aelodau'r bwrdd neu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus, neu'r personau yr ystyria Gweinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli'r aelodau hynny, ac unrhyw berson arall a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru.

#### **Adran 49 - Canllawiau**

188. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a dyroddi canllawiau i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â darpariaethau Rhan 4 o'r Bil.
189. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gymryd canllawiau o'r fath i ystyriaeth wrth arfer y swyddogaethau neu gyflawni'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer o dan Ran 4 o'r Bil.

#### **Adran 50- Ystyr 'corff cyhoeddus': darpariaeth bellach**

190. Mae is-adran (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus, y darperir ar ei chyfer yn adran 2(1) o'r Bil. Caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu neu dynnu ymaith gorff cyhoeddus, neu ddiwygio'r disgrifiad ohono.
191. Cyrff sydd â swyddogaethau cyhoeddus, yn unig, y caniateir eu hychwanegu at y rhestr. Os yw corff yn arfer swyddogaethau cyhoeddus yn ogystal â swyddogaethau eraill, ei swyddogaethau cyhoeddus yn unig gaiff fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil.
192. Cyn arfer y pŵer hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd ac unrhyw berson arall yr ystyriant yn briodol.

**Adran 51 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.**

193. Mae adran 51 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau canlyniadol, cysylltiedig, atodol neu ddarfodol, neu ddarpariaethau arbed, mewn perthynas â rhoi effaith lawn i'r Bil.
194. Caiff unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad a gynhwysir mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys y Bil hwn ac unrhyw ddeddfiad a gaiff ei basio neu ei wneud ar ôl pasio'r Bil hwn, , neu unrhyw offeryn statudol a wneir oddi tanynt.

**Adran 52 - Rheoliadau**

195. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â gwneud rheoliadau o dan y Bil hwn. Caiff y rheoliadau hyn wneud darpariaethau gwahanol at ddibenion gwahanol, a chynnwys darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol neu ddarfodol, neu ddarpariaethau arbed. Rhaid i unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol â darpariaethau'r Bil gael eu gwneud drwy offeryn statudol.
196. Mae is-adran (4) yn pennu pa reoliadau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; mae'r holl reoliadau eraill yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Adran 53 - Cychwyn**

197. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer dod ag adrannau 51, 52, 53 a 54 i rym yn awtomatig ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.
198. Daw gweddill darpariaethau'r Bil i rym ar y cyfryw ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*



- 
- <sup>1</sup> Adroddiad Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu: Our Common Future, 1987.  
[www.un-documents.net/our-common-future.pdf](http://www.un-documents.net/our-common-future.pdf)
- <sup>2</sup> The Future We Want, Rio+20, 2012.  
<http://www.uncsd2012.org/thefuturewewant.html>
- <sup>3</sup> EU Sustainable Development Strategy – Renewed Strategy, Mehefin 2006
- <sup>4</sup> One Future: Different Paths: The UK's Shared Framework for Sustainable Development, 2005.  
<http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=215>
- <sup>5</sup> Governing for the Future – The opportunities for mainstreaming sustainable development, y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2011.  
<http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=1191>
- <sup>6</sup> Dysgu Byw'n Wahanol – Cynllun Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, 2000.
- <sup>7</sup> Dechrau Byw'n Wahanol - Cynllun Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, 2004.  
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20060715141954/http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/startlivedifferently/?lang=cy>
- <sup>8</sup> Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned - Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009.  
<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy>
- <sup>9</sup> Arolwg Effeithiolrwydd o'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy 2011  
<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/effectivenessreview2012/?skip=1&lang=cy>
- <sup>10</sup> Gwybodaeth a godwyd o bapurau cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- <sup>11</sup> Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet – Adolygiad Beecham, Sue Essex, Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Tachwedd 2006
- <sup>12</sup> Cydamcanu – Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau  
<http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/sharedpurple/?skip=1&lang=cy>
- <sup>13</sup> Rhaglen Lywodraethu, Llywodraeth Cymru, 2011
- <sup>14</sup> Governing for the Future – The opportunities for mainstreaming sustainable development, Sustainable Development Commission, 2011.  
<http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=1191>
- <sup>15</sup> Pa mor deg yw Cymru? Cydraddoldeb, hawliau dynol a pherthynas dda, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011  
<http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru/llyfrgell/pa-mor-deg-yw-cymru/>
- <sup>16</sup> Arloesedd Cymru – Fersiwn Adolygu  
<http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/innovation/background/?skip=1&lang=cy>  
<http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/innovation/background/?lang=en>
- <sup>17</sup> Innovation and Research Strategy for Growth, Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Rhagfyr 2011  
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+http://www.bis.gov.uk/innovatingforgrowth>
- <sup>18</sup> Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant  
<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/building-a-brighter-future/?skip=1&lang=cy>
- <sup>19</sup> Datganiad Polisi ar Sgiliau, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2014

---

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/?skip=1&lang=cy>

<sup>20</sup> Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, 2011.

<http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx>

<sup>21</sup> Adroddiad Sefyllfa byd natur, 2013.

<http://www.rspb.org.uk/ourwork/science/stateofnature/index.aspx>

<sup>22</sup> Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru / Ystadegau Cymru 2013.

<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/sustainable-development-indicators/?lang=cy>

<sup>23</sup> Newid yn yr Hinsawdd: ei effeithiau yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009.

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/impactsforwales/?skip=1&lang=cy>

<sup>24</sup> Mesur Anghydraddoldebau: Tueddiadau mewn marwolaethau a disgwyliad oes yng Nghymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2011.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/page/58379>

<sup>25</sup> Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2012-13 – Iachach, Hapusach, Tecach

<http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/publications/annual/report-2013/?skip=1&lang=cy>

<sup>26</sup> Pa mor deg yw Cymru? Cydraddoldeb, hawliau dynol a pherthynas dda, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011.

<http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru/llyfrgell/pa-mor-deg-yw-cymru/>

<sup>27</sup> Deddf Cydraddoldeb 2010

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

<sup>28</sup> Iaith fyw: iaith byw (paratowyd yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006), 2012-17.

<http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/wlstrategy2012/?skip=1&lang=cy>

<sup>29</sup> Putting your house in order: examples of health-system action on socially determined health inequalities. Copenhagen. WHO Regional Office for Europe. 2010.

<sup>30</sup> Fair Society Healthy Lives, The Marmot Review, 2010

<http://www.instituteofhealthequity.org/projects/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review>

<sup>31</sup> Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment or Training, Ymchwil ar gyfer y Comisiwn Archwilio, 2010

<https://www.york.ac.uk/spsw/research/neet/>

<sup>32</sup> Citizen Centred Governance Principles - Making Sense of Them - A Governance Good Practice Guide, 2010

<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/citizen-centred-governance-principles>

<sup>33</sup> Cydamcanu – Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau

<http://wales.gov.uk/topics/improving-services/local-service-boards/key-docs/shared-purpdel/?skip=1&lang=cy>

<sup>34</sup> <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/7945310/?skip=1&lang=cy>

<sup>35</sup> Decentralisation and the Localism Bill: an essential guide, Llywodraeth EM, Llundain, 2010

<sup>36</sup> The World Will Be Your Oyster? Perspectives from the Institute of Local Government Studies on the Localism Act, Prifysgol Birmingham, 2012

<http://www.birmingham.ac.uk/schools/government-society/departments/local-government-studies/news/2012/07/oyster-chapters.aspx>

<sup>37</sup> <http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/cyngor-bwrdeistref-sirol-caerffili-archwiliad-ogyfrifon-2012-13-adroddiad-er-budd-y>

- 
- <sup>38</sup> <http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/cyflog-phensiynau-uwch-swyddogion-cyngor-sir-caerfyrddin-adroddiad-er-budd-y-cyhoedd> a <http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/indemniad-ar-gyfer-gwrth-hawliad-enllib-cyngor-sir-caerfyrddin-adroddiad-er-budd-y-cyhoedd>
- <sup>39</sup> <http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/cyflogau-phensiynau-uwch-swyddogion-cyngor-sir-penfro-adroddiad-er-budd-y-cyhoedd>
- <sup>40</sup> <http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/cynllunio-ac-adrodd-ar-welliannau-lleol-yng-nghymru>
- <sup>41</sup> <http://cssiw.org.uk/our-reports/local-authority-report/2011/joint-investigation-cssiw-estyn-pembrokeshire/?skip=1&lang=cy>
- <sup>42</sup> <http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/cyngor-sir-penfro-arolygiad-arbennig-%E2%80%93-rhoi-trefniadau-diogelu-ar-waith-2012>
- <sup>43</sup> Gwahanol adroddiadau yn <http://www.estyn.gov.uk/>
- <sup>44</sup> Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014, paragraff 3.22.
- <sup>45</sup> Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014, paragraff 4.28.
- <sup>46</sup> <http://wales.gov.uk/irpwsb/home/publication/201314/irpannreport12/?lang=en>  
<http://wales.gov.uk/irpwsb/home/publication/201314/irpannreport12/?lang=cy>
- <sup>47</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, Gwella Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol: Materion yn deillio o Archwilio Cyfrifol Cyngor Cymuned 2011-12
- <sup>48</sup> <http://wales.gov.uk/newsroom/sustainabledevelopment/2011/111207results/?skip=1&lang=cy> a <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/environmentresearch/sustainabilityresearch/?skip=1&lang=cy>
- <sup>49</sup> <http://wales.gov.uk/topics/improvingervices/localserviceboards/lbsesf/?skip=1&lang=cy>
- <sup>50</sup> Cafwyd data am gyflogau o 'Tâl uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru', Swyddfa Archwilio Cymru, Chwefror 2014, heblaw data am i) Arweinydd Awdurdod Lleol a gafwyd o Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2014 a ii) y gwasanaeth prawf, CNC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol y cymerir bod eu graddau'n cyfateb i rai Llywodraeth Cymru.
- <sup>51</sup> <http://lsb.infobasecymru.net/IAS/launch>
- <sup>52</sup> <https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue>
- <sup>53</sup> <http://www.ons.gov.uk/ons/index.html>
- <sup>54</sup> <http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/publications/annual/report-2013/?skip=1&lang=cy>
- <sup>55</sup> <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/key-publications>
- <sup>56</sup> <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-single-integrated-plans/?skip=1&lang=cy>
- <sup>57</sup> Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru, 2013  
<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy>
- <sup>58</sup> Papur ar gyfer BGLI Conwy a Sir Ddinbych, Ebrill 2014
- <sup>59</sup> Adroddiad chwarterol BGLI Tor-faen i Lywodraeth Cymru, 2012
- <sup>60</sup> [http://www.cardiffpartnership.co.uk/content.asp?nav=260&parent\\_directory\\_id=2](http://www.cardiffpartnership.co.uk/content.asp?nav=260&parent_directory_id=2)
- <sup>61</sup> To set out a direction of travel for the partnership structure in North Wales, Heddlu Gogledd Cymru ac eraill, Rhagfyr 2010. Cyflwynwyd i Fwrdd Arwain Rhanbarth y Gogledd, Ionawr 2011.
- <sup>62</sup> Gweler Pennod 6, Perfformiad a Rheoli Perfformiad  
<http://wales.gov.uk/topics/improvingervices/public-service-governance-and-delivery/report/?skip=1&lang=cy>

---

<sup>63</sup> <http://www.wlga.gov.uk/cydraddoldeb-cyhoeddiadau/cydraddoldeb-a-chynlluniau-cyfan-l-nodyn-cyngor-ar-gyfer-awdurdodau-lleol-yng-nghymru>

<sup>64</sup> Cyllideb Ddrafft 2014-15: Aseu'r Effaith ar Gydraddoldeb, 2014  
<http://wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/impactassessments/draftbudget1415eia/?lang=en>

<sup>65</sup> Adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru (2014)

[http://www.olderpeoplewales.com/en/news/news/14-02-25/The Importance and Impact of Community Services within Wales.aspx](http://www.olderpeoplewales.com/en/news/news/14-02-25/The%20Importance%20and%20Impact%20of%20Community%20Services%20within%20Wales.aspx)

<sup>66</sup> Sefydliad Joseph Rowntree, Monitoring poverty and social exclusion in Wales (2011)  
<http://www.jrf.org.uk/publications/monitoring-poverty-and-social-exclusion-wales-2011>